Yn ol eu harferol fodd,
I Dduw Nef rhoddi a wnant
Felys aberth o foliant.
Ar ol rhoddi addoliad
I'w nefol odiaethol Dad,
I'w firiol hardd Lys eirian
I orphwys ae 'r ddau lwys lân.
Yr adar oedd gerddgar gu,
Maen' weithion ym min nythu.
Carnolion rhadlon yn rhes,
Llechent bawb yn eu lloches.
Mae drwy 'r ddaear liwgar lon
Ddiftawrwydd addas tirion.
Yn awr gwnai 'r Gelyn aros
Tan y du niwl, tan do nos;
Cynnil y gwnai amcanu
Creulonder a digter du.
Yr anwyl fwyn Wirioniaid!
Y geiriau o'u genau gaid,
Yno eu defnyddio wnaeth,
Mawr alar! i'w marwolaeth:

Dunos ffodd ar adenydd;

Yn

Yn gain i'r Dwyrain doi'r dydd ;
Doi'r claerwyn Haul diſcleiriol
A'r dydd o newydd yn ol.
Doi'r Gelyn duoer gilwg,
A'i fawr falais a'i drais drwg,
Dirieidwas, gyd a'i rwydau,
Yn ol at y ddethol ddau.
Pyngcient, rhoddent o'r rhwyddaf
Eu mawl beunyddiawl i Naf.
Arswydodd pan glywodd glôd
A dedwydd fawl y Duwdod :
Er mor bêr mawl Nêr y Nef,
Llew addig ni all oddef.
Y ddau hardd drwy'r Ardd yr ant,
Caredig y cu rodiant.
Fal Llew melyn, Gelyn gau,
Lle 'r aent felly 'r ae yntau.
Fe wnai Adda goffa'n gu
I'w feingain arab fwyngu
Lawned oedd ei lawenydd
Pan ga'dd Efa, da fu'r dydd!
Bywiogaidd llariaidd a llon
I'ngolwg yw'r angylion :
Yr olwg gynta 'r welais,
Hyfrydaiſt, gwynfydaiſt f'ais:
Coelia fi, hardd Rodd Celi,
I'm bron mwy tirion wyt ti.
Ei Seren anwylwen wâr,
Hoywgoeth, attebai 'n hygar ;
Fy ngwr ſydd lawn o ddawr ddoeth,

Glân Addaf galon wiwddoeth,
Is y lân weddus loywnef
Wyd Arglwydd dan Arglwydd Nef:
Yma 'n awr i mi na wâd,
Y mwynwr, fy nymuniad;
Sef hwn; neillduwn ein dau
Wâr fwyn i amryw fannau:
Yn ol pan ddeuwn eilwaith
Mwy pêr fydd ein mwynder maith.
Addaf roi atteb iddi,
Na wnaf, ni's gadawaf di.
Nid hyfryd pryd Paradwys
Heboti y lili lwys,
I'r lle 'r ei, dyna 'r lle 'r af;
Diau byth ni 's gadawaf.
Cofia i'n Harglwyed cyfion
Anfon Cennad o'i Wlad lon
I ddwe'yd fod Gelyn a ddaw
A'i hyder yw ein hudaw.
Onid gwell, fy Enaid gwâr,
I minnau a thi meinwâr
Fod law yn llaw yn llawen
Drwy 'r dydd gyda 'n gilydd Gwen?
Y dydd pa bynnag y daw,
Nid eill y Gelyn dwyllaw
Diau mo'nom ein deuwedd,
Yn Enw 'r Ion, mewn unrhyw wedd:
Dedwydd Seren glodadwy!
Na ofyn mo hyn yn hwy.
Ei Anwylyd wen hoywlon,

Par

Pan glywodd, pruddhäödd hon:
Gan hynny, os felly fydd,
Ni ydym yn annedwydd.
Eden ſydd beunydd yn bêr;
Heb Rydd-did hi fâg brudd-der.
Diau mae holl lu Daear
Yn rhyddion, gwylltion a gwâr;
Nyni ſy'n rheoli rhai'n,
Hynod nad ym ein hunain!
Gwawr hoff anwyl, gorphennodd:
Gan mor bêr mwynder ei modd
Addaf roes gennad iddi
Ar frys wrth ei h'w'llys hi:
Fy nghalon oleulon lwys
Gommedd nid ydyw gymmwys;
D'anfoddiaw di ni feiddiaf,
Rhodd dyner anwylber Naf.
Meinwen rhodia lle mynni,
Fy nghalon 'r wy 'n fodlon fi.
Ei bur Gariad bêr gwyrain,
Gwynfydu wnai Gwawr gu gain.

Pan glywodd ymadrodd mel
Y diwair ddeuddyn dawel,
Deallodd y du Ellyll
Yr ennyd anhyfryd hyll
I wneud ei frâd annedwydd
Yn Eden eyn diben dydd.
Du Elyn, drwg hudolwr,
Gwelodd ac ofnodd y Gwr:
Fe 'r Diawl a'i fawr hudoliaeth

Ar ol y fwynwraig yr aeth.
Y Sarph yn fwy cyfrwys oedd
Yn Eden nag un ydoedd :
Y cyfrwys Elyn dwys du
Dauwynebog, adnabu :
Ac i hon yn union aeth
Y Dewr i wneud bradwriaeth.
Hwn ar ol Gwen arâul gu
Ddilynodd dan ddolennu :
Y man y ſafai meinwen,
Troe 'r Andras o gwmpas Gwen.
Dyrchu wnai ef yn dorchawg,
Edrychai 'n llon ar hon rhawg.
Odiaeth o harddwch ydoedd,
Cadwynawg ac eurawg oedd.
O'r diwedd y Wawr dawel
A'i diddrwg oliwg a'i gwel
Canfod hyn wnai 'r Gelyn gau ;
Yn union â mwyn enau
Llefarodd ; a'i hyll fwriad
Oedd lyfn-ffel gyfrwyſgel frâd.
Oh 'r Dduwies gynnes ei gwên !
Ti wyd ogoniant Eden !
Oh Gwenfron dirion a da !
Wawr foddus, na ryfedda
Im edrych yn dy wych wedd ;
Ni welais ail d'anwyl-wedd.
Daearol Greaduriaid,
A glân lu 'r Nef gu a gaid,
(Hwy ddylent) yn addoli
Tiriondeb dy wyneb di.

Y wraig

Y wraig rhyfeddu yr oedd;
Dywedai, pa bryd ydoedd,
Pa fodd, a roddodd yr Ion
I'th enau araith union?
Coeliais na's rhoddodd Celi
Y ffraethlon fraint hon i ti.

Y ſarph yn llawn malais oedd,
Dywedai 'r peth nad ydoedd:
Oh Dduwies gain weddus gu!
Y gwir wyt ti'n ei garu;
Ni's celaf, ni's gwadaf, gwn
Mai diweddar mud oeddwn;
Gwael fal ſy nghyd drigoliawn,
Ang'all, heb ddeall heb ddawn:
Ar bur anwyl bêr ennyd
Gwelais Bren, glwys yw ei bryd;
Aroglais ei rywiawglwyth;
Blyſiais, a phrofais ei ffrwyth.
Pan brofais, rhyfeddais fod
Ffraethineb drwy 'r ffrwyth hynod!
Fy neffro 'n union a wnaeth
A doniau dros grediniaeth.
I ſynu cododd f'anian,
Daeth Rhinwedd rhyfedd i'm rhan.
I'm bron yn dirion y daeth
Bydawl, nefol wybodaeth!
Myfyriais, rheſymmais i
A lanwn â goleuni
Ddiles dywyll feddyliau
Llu y llwyn â'r ffrwyth mwyn mau.

I'm calon yn union aeth
Y torrwn drwy natturiaeth
Wrth godi 'r Arth a'i gydwedd
I'th fraint, Gwen gywraint ei gwedd.
Y dêg Wawr ! tydi gerais.
Dy lun gwiw, dy liw, dy lais.
Mae 'n eglur Nattur ni wnaeth
Greadur a gwawr odiaeth
I fod dan gêl, na wêl neb,
Eithr undyn, ei thiriondeb :
Mewn uwch Stâd haeddit fâd fawl,
Yng'olau Wlâd angylawl.

Oh 'r Sarph ! y mae 'n eres iawn
Dy rwyddaidd ymadroddiawn !
Ffrwyth Pren yn Eden a wnaeth
It gyrredd dy ragoriaeth !
Oh 'r anwyl ! os arweini,
Gweled hwn chwennychwn i.

Y Ffyrnig, mewn mawrddig maith,
Gwybu na byddai gobaith
I'w dwyll, pan y deallid
Ei gaeth elyniaeth a'i lid.
Yn union daeth o'i enau
Ddichellion ei galon gau :
Meinwen, clyw fy nymuniad,
Y Dduwies a'r fonwes fâd,
Buan i lân oleuni
Ehedeg yn deg wnei di ;
A gaf ddeifyf, ai hyf hyn,

Y geinlwys

Y geinlwys, cael dy ganlyn ?
Sywdeg Angyles Eden,
Dôd gariad am gariad Gwen.
Tyred, dyma'r llwybr tiriawn
A'n dwg i 'mlenwi â dawn.

Yr hyglod Wraig rywioglwys
Aeth ar ol y Diafol dwys.
Oh 'r gu ddawnus Wraig ddinam,
Hynod, ſydd i fod yn Fam
I luoedd bobloedd y Byd !
O ddu ing boed it ddiengyd !
Oh na rêd i ddyfn rwydau
Offeryn y Gelyn gau !
Daethant (ddrwg ennyd) weithian
Ar gyfer y gloywber glân.
At fawrglod Bren gwybodaeth
Y Sarph mewn du ddyfais aeth.
Hi gyrch yn dyrch hynod iawn,
Taerwyllt, at y ffrwyth tiriawn.
Ac Efa ddedwydd gyfion
Welodd ; brawyçhodd ei bron :
Oh 'r Sarph ! mae 'n ofer y Swydd ;
Dy foſt ddwg rydoſt w'radwydd.
Cymmer, yn rhwyddber, bob rhan
O hwn i ti dy hunan.
Ni phrofaf, ni feiddiaf fi,
Ba ryfedd na's gwnaf brofi ?
Gan Dduw lwyd gwaharddwyd hwn ;
Ei anfoddiaw ni feiddiwn.

Duw mâd a roes Gennad gu
O'i ddawn i ni feddiannu
Pob Pren yn Eden yn wir ;
Un harddwych, hwn waherddir.
Ebyr Ef, os gwnewch brofi,
Marw a wnewch ; dyna Marn I.

Tynnodd, nid ofnodd y Diawl,
Y gwawrwych ffrwyth rhagorawl ;
Ac yna T'wyſog Annwn
Roi glod i'r ffrwyth hynod hwn :
Oh ffrwyth têr! haedd fwynber fawl,
Ei flâs ſydd mor felyſawl !
Newidiodd, cyfododd fi
O'm gwaeledd, mal y gweli.
Gwyddoſt nad enwog oeddwn
Cyn profi a hoffi hwn.
Cododd fi'n awr î fawr fawl,
I ddawn uwch nattur ddynawl.
Gwawr dyner, y bêr burwen,
Tydi os profi o'r Pren,
Ba ryfedd ? os gwnei brofi,
Ī raddau 'r Duwiau 'r ei di.
Ni wedir (doethion ydyn')
Eu llu hwy ſy'n deall hyn.
Hawddgarach, teccach wyt ti
Na'r Gwr yn awr a geri ;
Ond her hyn, y fwynddyn fau,
Doethach yw ef na'th 'dithau.
Tydi, os profi mewn pryd,
Wenferch, mawr fydd dy wynfyd ;

Rheoli

Rheoli dy Reolwr,
Tydi ragori y Gwr.

Dyna 'r modd d'wedodd y Diawl,
Y ffyrnig Sarph uffernawl.

Efa i hyn rodd gryn gred;
Gwyliodd oedd Adda 'n gweled.
Geiriau 'r Sarph yn llawn gwir ſydd,
Y fedrus Sarph dafodrydd.
Efa, y lana' luniwyd,
Yn rhy gaeth yr aeth i'w rwyd.
Wrth hir edrych ar wych wawr
Yr anwyl ffrwyth tirion-wawr,
Neſhau wnai hithau yn hawdd,
Ei foddau hi ryfeddawdd;
Mwynion awelon o wynt
Ei arogl atti yrrynt:
Mewn blys rhodd ei bys yn bêr
Ar donnen ei wawr dyner.
Safodd mewn mawr ddeiſyfiad
Profi 'r afal meddal mâd.
Gan mor wiw oedd hoywliw hwn,
A gweniaith T'wyſog Annwn,
A'i fod yn rhoddi 'fudiawn -
Bob ffraethder doethder a dawn,
Heb attal, rhy feddal fu,
I'w gw'radwydd hi wnai gredu:
Oh ddiriaid weithred ddyrys!
Tynnodd, hi brofodd mewn brys.
Y Twyllwr, hudolwr du,
Yn ei frad wnai hyfrydu;

Yn araf, or Pren eurwawr,
Trodd, e' ddolennodd i lawr.
Gyd a hyn dyma 'r dyn da
Yn ymofyn am Efa.
Fe ddelwodd, ſafodd yn ſynn,
E grynodd oll bob gronyn.
Hi 'n hael, ag ael ddig'wilydd,
Weithian drwy dwyll Satan ſydd.
Er ei wa'rdd, yn llaw hardd hon
Y gwelid y ffrwyth gwiwlon.
Oh fy addfwyn wr mwyn mâd!
Mawr a fu 'n camgymmeriad!
Pren odiaeth gwybodaeth bur,
Pren yttyw pêr ei nattur:
A'i profo, penial prifwydd,
Nid marwol, anfarwol fydd.
Y ſarph, y mae 'n eres ſôn,
Beunydd fwytta'dd heb uno'n
Y ffrwyth od, a ffraeth ydyw,
Diell Sarph, deallus yw.
Ar eiriau hon, llon ei llais.
Pêr afal, mi a'i profais;
A gwir, mae 'r ffrwyth rhagorawl,
Yn ddiau mae 'n haeddu mawl.
Fy ngwybodaeth oedd gaeth gynt,
Heb feiddiaw hylaw helynt,
Oleuodd, changodd hwn;
Yn ddilys mi feddyliwn
Fy mod ar fin ymadael
I'r Nef wen o Eden wael.
Daliai 'n ei llaw 'r hudoliaeth;

Dan

Dan wenu neſu a wnaeth,
Cymmer, y Gwr mwynber mau,
Y dawnus ffrwyth i d'enau:
Hoenus wr hynaws ei wedd,
Duwiau fyddwn ni'n deuwedd.

Oh Gwawr gu! ebre 'r Gwr gwyl,
Gwae inni fy ngwraig anwyl!
Da gwn y daw gwae inni;
Diſtrywiaiſt, difethaiſt fi.
Wraig dyner hoywber, hebod
Ni's gallaf, ni fedraf fod.
Dau gwell nag im dy golli,
Odiaeth Wawr, farw gyd a thi.

Oh gwae o'r modd! y Gwr mâd,
Gwyro a wnaeth drwy gariad:
Torrodd trwy Arch Duw tirion,
Heb naccau, er boddhau hon.
Y cyſion Dduw ni's coſſant;
Anfad naws ynfydu wnant.
Yn ddilys gwnaen' feddyliaw,
Marwolaeth, na ddaeth, ni ddaw:
Hwy a ddilys feddyliant
Eu dau mai 'n Dduwiau ydd ant.
Newidiodd eu hanwydau,
Fu hyfryd, i gyd yn gau.
Eu rheſwm nid arhoſodd;
Goleuddawn hoff iawn, e ffodd.
Fel Afon fawr a lifo
Dros fawrfras hyfrydlas fro,

Nid tirion y meillion mwy ;
Lle rhêd y llif rhuadwy.
Oer adfyd ! pob peth prydferth
Ddinyſtria'n ei gyrfa gerth.
Un fodd newidiodd yn awr
Monwes y ddeuddyn mwynwawr.
Gwae Addaf a'i wraig eiddil
Gan grochfloedd terfyſgoedd fil !

Arwydd llid, gofid heb gêl;
Duo wnaeth awyr dawel.
Ond hwy, yn yr ennyd hon,
A gaid yn y cyſgodion :
Mwynhant (ymguddiant o'r gwawl)
Eu dyrys flys daearawl.

Darfod wnaeth y meddwdod mall :
Garw ing ! gwae y rhai angall !
Gwelent eu hanferth g'wilydd ;
Gan ddychryn, hwy 'n ſynn y ſydd.
Annedwydd weithion ydynt ;
Noethion ac annoethion ynt.
Ebr Addaf wrth ei bruddwedd
Wraig wael, a fu rywiog wedd,
I ti ni roddaf fi fawl
Roi hyder i'r Sarph hudawl.
Drwy 'r anwyl Nef dirionwawr
Mae 'n drwg yn amlwg yn awr.
Mae c'wilydd toſt i'm calon.
Mae braw arſwydus i'm bron.
Gwn weithian drwg a wnaethoſt,

Gwnaethoſt fi'n gaeth â'th ffraeth ffroſt.
Llanwyd hi â digllonedd,
Yn danbaid e gaid ei gwedd:
Duw hael! p'le bu dy helynt?
Oh gwae na ddaethit yn gynt!
Diau 'r hwn a'm gadawodd
Mae 'n haeddu' farnu 'r un ſodd.

Ebr Adda, ai dyna dâl
A gaf am ſerch a gofal?
D'wedais, rhybuddiais di 'n bêr,
Nid unwaith, yn fwyn dyner;
Gwylia 'nghalon drojon drwg;
Diles oedd hyn yn d'olwg.
Ymaith y Sarph ddiffaith ddu!
I'm dinyſtr ti fu'm denu!

Ofnodd pan glywodd; yn glau,
Wraig lân, ae ar ei gliniau:
Fe dorrawdd Efa dirion
I wylaw a braw i'w bron:
Ow Adda! na ddigia'n ddwys,
Ond gwêl fi f'enaid gwiwlwys.
Fe 'i gwyr Ion mor gywir wyf,
Ac etto dy wraig yttwyf.
Addefaf nad wyf ddifai;
Fi byth gymmeraf y bai.

Wrth ganfod ei briod brudd
Yn goſtwng dan flin gyſtudd,
Adda eilwaith feddalawdd;

Cymmodi

Cymmodi wnai â hi 'n hawdd:
Oh Duw hael! fy ngwraig wael wedd,
Direſwm fu dy drofedd.
Adolwg elli dalu
Yn llawn i'r cyfiawn Ior cu?
Oh f'enaid! oh gwae finnau!
Mi wn nad allwn ein dau.
Rai dirym, yr ym i'r Ion,
Yſywaeth, yn gaſeion.
Oh am leſol farwolaeth
I'm rhoi 'n rhydd o'm c'wilydd caeth!
Mewn naws dig, pa ham na's daw
A'm monwes i'w ddymunaw?
Oh na chawn hyn wy'n chwennych!
A marw a wnawn rhag mawr nych!
Chwi ddedwydd Goedydd i gyd,
Udfawr a thrwm yw 'f'adfyd!
Oh cuddiwch, llocheſwch chwi
Fy nghwyn dan eich canghenni!
Rhoddwch fi'n anghyrhaeddawl!
Tra b'wyf na's gwelwyf y gwawl!
Pan ddarfu, mewn poen ddirfawr,
Syrthiodd, 'mollyngodd i'r llawr.

Triſtaodd, gwelodd ei Gwr
Mewn gerwin goflin gyflwr.
Dan oriain, d'wedai 'n araf,
Fy ngwr mâd, cennad os caf,
Dilladwn â dail lliwdeg
Noethedd ein deuwedd yn deg,
Oh hael Addaf! i luddias

Rhag

Rhag lliw 'r dydd ein c'wilydd câs.
O'r Ardd cymmerent wyrdd-ddail,
Eu dau arffedogau dail.
Ond oh! na's gallen' eu dau
Guddio eu ffol wageddau!

Y Goruchaf Naf yn awr
A ganfu o'r Nef geinfawr:
Toſturiodd, gwelodd eu gwall
A'u du ing eu dau ang'all.

Pwy a draeth beth annhraethawl?
I Nef Ior pwy rydd iawn fawl?
Glân feibion gwynnion gwiwnef
A folan' oll o'i flaen Ef.
Eu gwedd, o flaen Gorſedd gu
Oleugerth y Nef loywgu,
A guddiant; gormod goddef
Diſgleirdeb anwyldeb Nef.
Ni wedir y rhai 'n ydyn'
Fwy enwog doniog na dyn.
A faidd ef godi 'feddwl,
Sy'n bod gan bechod yn bwl,
I uchder doethder a dawn
Hefelydd i'r Nefoliawn?
Yr Ion ſy'n perffaith rannu
Ei roddion yn gyfion gu,
I'w addyſgu gwnai ddiſgyn
At gaeth ddealldwriaeth dyn:
Meiddiaf wneud yr un moddion;
Trwy barch maith d'wedaf iaith Ion.

Trwy

Trwy ei gwen-glaer Gaer gywrain'
Cymmylu wnai 'r Nef gu gain.
A hwn cymmarwn modd
Ceinwych, pan y diſcynnodd
Duw'r hedd, mewn mawrêdd a mawl,
Ar Sinai yn berſonawl.
Duw agwrdd mawr bendigaid!
Mewn tyrfau geiriau a gaid!
Y duwiau a wrandawant,
I gyd yn unfryd a wnant.

Hudoliaeth y du Elyn
Yn hawdd a dwyllawdd y dyn.
O'i ddiammur natturiaeth
Gan iddo gwympo yn gaeth,
Drwg wae geiff yn dragywydd,
Dan y farn y dyn a fydd.
Os iawn yn gyflawn a gaf,
Yn rhydd o'r farn y rhoddaf.
Oes yn awr, drwy'r Nef fawr fâd,
A ddichon wneud heddychiad?
Duw Awdwr, tra bu'n d'wedyd,
Crynu wnai 'r Nef gu i gyd.

Llu 'r Fro gain, y rhai 'n yn rhwydd
Yſtyrient mewn diſtawrwydd.
I'r anwyl nifer yno
Bu'n brudd-der, bu'n drymder dro.
Nid oedd yn y Dedwyddyd,
Drwy'r gain Nef gywrain i gyd,
Neb a wnai iawn cyflawn cu

Dros Addaf am droſeddu.
Yr oedd mawr alar iddyn',
Lu glwys, am gwymp dwys y dyn.

Egorai Duw 'r trugaredd
Ddirgelion haelion o hedd:
Yr ail Berſon cyſion coeth,
Wir-Duw, attebai 'n war-ddoeth;
Fi, oh Dâd, Ceidwad cadarn,
Fi, Fi, attebaf y Farn.
Fr eu mallder a'u melldith
Ni chafant mo'm plant i'w plith.
Yn wâr i'r Ddaear ydd af;
O'u gw'radwydd mi gwaredaf.
Dduw addwyn, gwnaeth ddiweddiad;
Bu 'n fodlon ei dirion Dâd.
Yn awr drwy 'r fawr Nef eirian
Gwelid gwawl diſgleiriawl glân;
Clywid gan gu lu hael Ion
Aml oſlef a melyſlon:
Canent, hwy byngcient yn bêr,
Ogoniant a mawl gwiwner.

Ar ol i lân Reolydd
Diſgleirwawr dirfawr y dydd
Droi 'lon olwynion i lawr
O ganol y Nef geinwawr,
Awel gu anadlu wnaeth
Drwy Eden yn dra odiaeth.
I'r oreudlos Ardd radlawn
Ior a ddaeth yn waraidd iawn.

Adda,

Adda, ai nid yma di?
O'm gwydd pam yr ymguddi?
Tyred i'r golau tirion
Y mwynaidd wr llariaidd llon.

Hwy ddeuent yno'n ddioed
Eu dau o blith cangau 'r coed:
Pechod, chwerwdod, ſwildod ſynn,
Ofn, c'wilydd, fu 'n eu ca'lyn.
Gwae fi'n brudd, mi ymguddiais,
Duw lwyd! pan glybum dy lais:
Annoeth adyn, noeth ydwyf;
O flaen Ion rhy aflan wyf.

Pa fodd? pwy dd'wedodd it ddyn?
A goeliaiſt air y Gelyn?
Gymmeraiſt, fwyttëäiſt ti,
Ba ryfyg wnaeth it brofi
Un eurddawn Bren a wa'rddwyd,
Lle 'r oedd it *filoedd* yn fwyd?

Clwy' dudoſt caled ydoedd,
Cyfyngdra ar Adda oedd.
Efa wael, a fu wiwlon,
Gwell ganddo gyhuddo hon:
Y Wraig. hon yma, dy rodd,
Duw anwyl, hon a'm denodd:
O'i dwylaw, ddrwg hudoles,
Bwytta, ni wada', a wnes.

Oes a wyr dan awyr Nef

Y meddwl

Y meddwl trwm ei oddef,
Y triſtyd, y clefyd cla',
Y gofid a gai Efa?
Gwylaidd ydoedd ei golwg,
A thriſt ar ol anferth ddrwg.

Duw Awdwr, d'wedai wed'yn,
Ba ham, oh Wraig, y bu hyn?

O'i braw byrr atteb a rodd,
Nid diboen hi attebodd;
Y Sarph, ag iaith gyfrwys hy',
Twyllodd ſi 'fwytta felly.

Yn awr y Barnwr a wnaeth
Yn dêg ro'i Barnedigaeth;
Barn gyſion i'r ddelwon ddau,
A'r Ddraig, am wneud mawr ddrygau.
Gwae'r Sarph ddichellgar ei ſi,
Fe dd'wettodd, gwae fydd itti:
Am dy weniaith ddiffaith ddig
Ti gaid yn felltigedig
Oddiar lu'r ddaear ddu ddwys;
Am gamwedd cei farn gymmwys;
Ar hyd daearfyd dirfawr
Tydi ymluſgi hyd lawr:
Drwg ofid gei'n dragyfyth,
O'r pridd cei di 'mborthi byth.
Rhyngod a'r Wraig hynod hardd
(Lluniaiſt iddi dwyll an'ardd)
Rho'f gaeth elyniaeth o lid;

Dialaf mal y dylid.
O elyniaeth gwnaf lenwi,
Heb ddiweddiad, eich hâd chwi;
Ei Hâd ry'r taliad dilyth,
Dy ben a ſiga dros byth.
Sur uffernawl Sarph ffyrnig,
Tithau ei ſawdl yntau ſig.

Wrth y wraig areithiai'r Ion
Anwyl fal hyn yn union;
Dwys, gerwin, fydd d'eſgoriad,
A'th boenau wrth amlhau hâd:
Ti fydd dan d'etifeddwr,
Dan lywodraeth gaeth y gwr.

Wrth Addaf, Duw Naf, da nawdd,
Ion didwyll, mal hyn d'wedawdd;
Gan goelio'th wraig un galon,
Uffernol iaith hudol hon,
I fwytta mor ddi fatter,
Heb barch i gyſiawn arch Ner,
O'r unig Bren a rannwyd;
Hwn, gwybydd, ni fydd yn fwyd;
Gorch'mynnais, adroddais draw,
Am hwn, na phrawf mo honaw,
Gan i'ti dorri, y dyn,
Arch ammod fy ngorchymmyn,
Daear, am y du-far dig,
I gyd ſydd felltigedig.
Hi ddwg ddrain llwyrddrwg yn llawn;
Ysgall mall yn lle meilliawn.
Ar lyſiau'r ddaear laſwych

Cei di ymborthi tra bych.
A thrwy chwys, dilys y dyn,
Dy wyneb, anfad annyn,
Bwyttei di, tra gweli 'r gwawl,
Dy fara 'n edifeiriawl.
O'r pridd, ſef o'r lleithbridd llwyd,
Gwir yw, o hwn i'th grewyd:
Eilwaith yn ol dychweli;
I Garchar daear ei di.

Ac yn awr wedi 'r fawr Farn,
Yr Ynad, Ceidwad cadarn,
(Tâl eu gwaith diffaith eu dau
Oedd ing a chwerwedd Angau)
Yn chwimmwth rhoes orchymmyn
Am aberthau i'r ddau ddyn.
Diniwaid 'nifeiliaid fu,
Drwy ing, yn dirfawr drengu.
Wrth weled greuloned loes
Oedd yno ddiwedd einioes,
Wylai 'r ddeuddyn o alaeth
A thoſt g'wilydd, cerydd caeth.
Gan eu gwylder, Ner, o'i nawdd,
Wedi llid, a'u dilladawdd.
O'r crwyn y gwnai 'r Ion mwyn mad
Eu diwallu a dillad;
Gwir arwydd o'r mawrlwydd maith
Di nam, a dynnai ymmaith
A guddiai yn drag'wyddol
Eu diffaith ffieiddwaith ffol.
Dywedai 'r Barnwr didwyll;

Gan golli 'ch dawn, heb iawn bwyll,
I chwithau yn iach weithion
Fyw 'n hwy yn yr Ardd fwyn hon:
Y mae Paradwys lwys lân,
Bêr ollawl, i'ch bwrw allan.

A phan glybu, y gu gain
Wael Efa wnai wylofain;
Oh Duw anwyl! raid inni
Fyn'd o'th bêr Ardd dyner di!

Ar air Ion, yn union ant,
Eu deuwedd ymadawant
O laſbarth yr Ardd lwyſber,
Dan wylaw yn nwylaw Ner.

A Duw, wrth ganfod y dyn
Yn wylo goelio 'r Gelyn,
Yr enwog hawddgar Ynad
A lefarodd mewn modd mâd:
Ow Adda, meddylia 'n ddwys,
Os hyfryd pryd Paradwys,
Yn y fan i'th anfonaf
Preſennol yw'th nefol Naf.
Er i ti a'th Wraig briod,
Drwy 'r Gelyn, yn f'erbyn fod;
Er hyn y Gelyn a gyll
Ei orcheſt a'i frâd eichyll.
Bydd o'th hil fil o filoedd,
Lliaws ang; fy 'wyllys oedd:
Hwy, drwy gynnorthwy nerthawl,

Rai addwyn, er mwyn fy mawl,
O'u gofidiau gyfodir
I orfoledd a hedd hir.
Diau, Wraig, dy rywogaeth
A'th ddwg di o'th eyni caeth.
Daw 'r Fendith i'ch plith a'ch plaid;
Dielir ar y Diawliaid:
Du echrys fydd eu dychryn;
Ffwrn groch ddofn Uffern a gryn.

Deugain bu 'r ddeuddyn degwedd
O ddyddiau yn mwynhau hedd.
Yr oedd yr Haul di draul draw,
Chwyledig, ar fachludaw:
Hwy ni wêl Huan eilwaith
Yn Eden oleuwen laith:
Hwy o'r Ardd ffraw draw Fe drodd,
A Duw a ymadawodd.

Canfod, ar ol gormod gwall,
Yngwrth droſeddiad angall.
Yr Ion mor dirion a da
A doddodd Yſbryd Adda:
Adda 'i lawr ſyrthiai 'n ddi lid,
Ac Efa yn llawn gofid.
Gwae immi ddyn drwg ammur!
Wyf brudd, mewn cyſtudd, mewn cur!
Dirion Dduw! am dy droi 'n ddig;
Oh 'r Creawdwr caredig!
Oh na ddoi 'n ol fy ffoledd.
Oh na bawn i yn y bedd!

Duw anwyl gwrando 'r dinerth
Sy 'n wylo mewn cyffro certh.
Dôd gu nerth, dôd gynnorthwy,
Gwêl o Nef mai gwael iawn wy'.
Dy gymmorth, Duw dwg immi;
Fy holl Stâd, Duw Tàd, wyt Ti.
Dôd im gymmod am gamwedd,
Gâd immi gael dy hael hedd.

I Addaf a'i Wraig eiddil
Bu ddagrau, griddfanau fil.
Yn fwyn pan ddoen' i fynu
Oddiâr y Ddaear oer ddu,
At y glaer Gaer ragorol
Troe 'r ddau eu hwynebau 'n ol.
Ac wele! oh y golwg!
Rhag anrhaith a drudwaith drwg,
Pedwar Cerub gwâr gwrawl,
A'u gwedd mor ddiſglair a'r gwawl,
A gadwent y Porth gwiwdeg,
Dan wenu o'u deutu 'n deg:
A gloyw ddewrwych gledd eirian
O ddig yſgwydedig dân
Wnai 'mddiffyn, rhag dyn a diawl,
Da Bren y bywyd breiniawl.
Addaf a'i Wraig Efa 'n gaeth,
Gwelent, wylent o alaeth:
Annedwydd! gwnaent ochneidiaw:
Pan welſant, hwy droiſant draw.

YR AIL RAN.

YR holl Fyd i gyd a gant ;
Cartrefan' mann y mynnant.
Pa ludded, pa galed gur
Oedd yma i'r ddau ammur,
Ofer hyn, rhy fawr hanes,
A Swydd heb na llwydd na lles.
Drwy fawr fendith i'w plith, Plant
A lefol genhedlafant.
Ni thynnir, gwir yw 'r geiriau,
O aflan ddim glân yn glau.
Cain, yr hynaf gwaethaf gwr,
Afrwyddwas, fu 'n Llofruddiwr :
Ai bychan oedd ei bechawd ?
Lladdodd, llofruddiodd ei frawd.
Abel wirion gyfion gu,
Gan i Gain genfigennu
Wrth ei brydferth aberth ef,
Du anterth, lladdwyd yntef.
Alltudiodd, didolodd Duw,
Gywir Ion, y gwr annuw.
O'r olwg, mewn chwerw alaeth,
I dir Nod i'r Dwyrain aeth.
Fe yno wnaeth fylfaenu
Dinas fawr ; nid dawnus fu.

Duw

Duw gwynn ddaeth a da gynnydd,
A Seth yn lle Abel ſydd.
Amlhau, drwy barthau y byd,
Wnai dynion wedi ennyd ;
Gormod malldod a melldith,
Amlhau wnai pechodau chwith.
O fyſg terfyſg eu torfoedd
Ammhrydferth, yn gerth, ar goedd,
Gwâr Enoc, y Gwr union,
Gan gu oreulu yr Ion
Cyfodwyd a dygwyd ef
Ar olwynion i'r loywnef,
Oddiar wybrennydd eirian,
Mewn Cerbyd curbryd o dân.

I feibion Seth ddifeth dda
Aflwyddiant fu o wledda.
Merched annuwiol mawrchwant,
Daeth melldith i'w plith a'u plant.
Waethwaeth aeth y Byd weithian ;
Llygrodd ym mhob modd a man.
O'r Gwynfyd Ior a ganfu
Eu holl ddrygwaith diffaith du.
Ior Nef edifaru wnaeth
Greu dynion digrediniaeth.
Ei gâs a gyffroaſant ;
Pob byw i ddiſtryw ydd ant.
Un oedd a gaid yn addas
O flaen y Tâd, drwy râd râs ;
Ac ef, ſef Noa gyfion,
Fwynaidd wr, anfonawdd Ion,

Bura'

Bura' gwaith, i bregethu
At greulon elynion lu.
Y gau weiſion a gawſant,
Gar wych Ion, ugain a chant
O flwyddau, er troiau trwch,
I gyrhaeddyd gwir heddwch.
O'u trawſedd hwy ni's troiſant,
Eithr oll yn waeth-waeth yr ant.
Anfad-weis, gwnaent ynfydu
A gwatwor pob cyngor cu.
Y Byd i gyd mor gadarn,
Llygrodd, addfedodd i farn.
Naf Awdwr y Nef odiaeth,
F'all wneud, f'eill ddadwneud a wnaeth:
Anfeidrawl ollawl Allu!
Dyweded—bydded—a bu.
Duw, o gaerau 'r deg eirian
Oleunef, a rodd lef lân;
Chwi ddyfroedd yn lluoedd llawn,
Dyſnderoedd moroedd mawriawn,
Duw Awdwr, Fi ſy 'n d'wedyd,
Dylifwch, boddwch y Byd.
Y dyfroedd a'u lluoedd llawn,
Ar air Ion, yr Ior uniawn,
Uwch y Byd ynfyd anferth
Llanwent, ymgaſglent yn gerth:
Miloedd o ddu gymmylau
Ynt o hyd etto 'n tewhau:
Du y wybren a dybryd,
A du yw'r ddaear gu' gyd.
Torrai 'n ferw-law, troe 'n fawrlef

Genlli

Genlli o ffeneſtri Nef.
Gan amlder llawnder a llid
Y gwlaw, yn ſynn e glywid,
Ar gyhoedd, drwy gymmoedd gant,
Arw hyll ferw y llifeiriant.
Afonydd, â'u holl-rydd hynt,
A chynnwrf mawr gwreichionynt.
Yr awyr wnai adruaw,
A mawr drwſt a wnai 'r Môr draw:
Dygyfor wnai 'r Môr merydd
Drwy ſafnau y Sugnau ſydd
O'i ſewn, a berwi 'ſynu
O'r Llyngclynn diderfyn du.
Draw e giliai 'r trigolion,
A braw yn brydiaw eu bron:
Pan glywſant, ffoiſant yn ffol
A mawrwaedd i ymorol
A cheiſio lle 'i locheſu
Rhag digter y Dyfnder du.
Eu 'mddiffyn yn erbyn Ner
A gafwyd yn wâg ôfer:
Mawrddwys oedd grym y morddw'r
Yn llenwi 'n torri pob Twr.
Ffrydiaw yn gyffröedig
Yr oedd y Dyfnderoedd dig.
Soddi wnai 'r Dinaſyddion
Dan gryfder dyfnder y donn.
Eraill, mewn amryw oror,
Rhag dyfroedd mawrfloedd y Mor,
Yr Ynfydion gwylltion gau
Am nawdd ffoent i'r mynyddau:
Rhedai 'r Mor mawr rhuadwy

Ar fyrder i'w huchder hwy.
Ple 'r ant ? p'le ſafant ? p'le ſydd ?
Ba Gaer lle na b'o gerydd ?
Duw Ner ! ei ddigter a ddaeth,
A dygn yw 'r goſpedigaeth !
Chwyrn derfyſg ! dychryn dirfawr !
Goleuo mellt drwy 'r gwlaw mawr !
Daear hên, drwy wahanu,
Yn dadmer i'r Dyfnder du :
Hi, wrth eſgor ar Foroedd
Llioſog iawn, yn lleſg oedd,
Ynyſoedd ſodden iſawd,
Cwyn oer, i foddi pob cnawd.
Pob glan, pob eirian oror,
Pob mynydd îs moelydd Mor !

Byddar i bob rhybuddion,
Rodd Ior hedd, fu'r Ddaear hon :
Hyd eigion damnedigaeth
Barn Duw yn ddiluw a ddaeth.
Diſtryw gerwin a blîn bla !
Diweddiad ar hâd Adda !
Clywid, ar ol llid y llif,
Arw-waedd gan dorf aneirif,
Echrydus arſwydus ſwn,
Crechwennad croch o Annwn :
I'r Diawl ac i'w arw deulu
Rhyfedd orfoledd a fu.

Beth ſ'uwch bloedd dyfroedd y donn,
Ar ogwydd hyd yr Eigion ?

Ai

Ai llong ddi hwyl anwyl yw,
Wych adail, neu arch ydyw ?
Oes neb daionus yn ol
Trwy foddion tra rhyfeddol ?
Oh Noa ragora Gwr !
Credaiſt air y Creawdwr ;
Cedwaiſt hefyd Fyd yn fyw
O ddwyſtrwm ddyfnfawr ddiſtryw :
Dedwydd trwy râs Duw ydwyt ;
I'r Byd, wr màd, eildad wyt.
Ion a gofiodd No gyfiawn,
Dduwiol wr, dedwyddol iawn,
A gyrrawdd o bob goror,
Trwy nerthoedd gwyntoedd yn gôr,
Y moroedd mawrfloedd a maith
Yn ol i'r Llyngclynn eilwaith ;
Eilwaith hwy wnaent ddychwelyd
I'w hannedd, i berfedd Byd.
Hefyd ar air Jehofa,
Ym mhen blwyddyn y dyn da
A ddaeth a'i hiliogaeth lân,
Wych ollawl, yn iach allan
I'r ddaear oedd liwgar lwys
Buredig ail Baradwys.
Aberthu wna Noa 'n awr,
Dda'wyllys, ar hardd allawr,
Ar Ararat fawr eres,
I Arglwydd pob llwydd a lles.

Yr Arglwydd Ion cyfion cu
Ei fwriad wnai lefaru,

Na

Na fwriai lif Nef fry 'lawr
I'r lefol Ddaear lâfwawr.
Tymmerus fydd tymmorau
Drwy 'r Byd i hyfryd barhau:
Pryd hau a phryd cynhauaf,
Pryd oerni, pryd heini haf,
Nos a dydd ni's diweddan'
Tra bo'r Ddaear liwgar lân.

Yn Nuw fe gredodd Noa;
Y gwr cu a'i deulu da
Diwagedd a fendigwyd
Mal plant dilyfiant Duw lwyd.
Rheolant byddant yn ben
Obry dan yr holl wybren.
Drwy fendith Duw Ior fwyndad
Y gwnaent hwythau amlhau hâd.

Y dynion wrth ymdaenu
O'r Dwyrain, oror gain gu,
Teithient, deuent o'r diwedd
I Wlad deg waftad ei gwedd.
Nid oedd, drwy eu lluoedd llawn,
Ond uniaith rhwng y dyniawn.
Dywedent, gwnawn odidawg
Ddinas dda a barha rhawg;
A Thwr o fawrwaith eurwych,
A'i nen hyd y Nef wen wych.
O'n caerau ni'n gwafcerir;
Gwnawn i'n henwau barhau 'n hir.

O'r wenfawr Nef dirionfaith

Gwnai 'r Duwdod ganfod eu gwaith,
Dirym iddynt hyderu,
Can's Ion yn anfodlon fu.
Y lydan adeiladaeth,
Ar fyrder, llwyr ofer aeth:
Rhwng gau dduwiau y ddaear
Anghydfod fu'n bod a bar,
O'u ceurydd hwy wafcarwyd
Yma thraw gan law Duw lwyd.

Y dynion wnaent ymdaenu,
Ar lêd ymrannai 'r mawr lu.
Dewifodd, galwodd Duw gwynn
Un hynod iawn o honyn'
O dy ei dâd,, o'i wlâd lwys,
I gael Gwlâd oedd fwy gwiw-lwys.
Diweirfab, ebr Ion dirfawr,
Tydi a fyddi yn fawr:
Hynod ryfeddod fyddi;
Amlhaf a bendithiaf di.
Bendithiaf dy fendithwyr;
Ond gwae eneidiau y gwyr
Tauogion a'th felltigant;
Melldithion geirwon a gant.
Diau teuluoedd Daear,
Ynod y gwr gwiwglod gwâr,
Yn odiaethol fendithir;
Ior y Nef wna'i air yn wir.

Gwaraidd wr o ragoriaeth,
I Dduw Nef ufuddhau wnaeth.

Myfyriaw dan rodiaw 'r wyf;
Gwladwr tebygol ydwyf
I filwr f'ai 'n trafaelu
Anialwch drwy d'w'llwch du:
Gwynfyd i hwn pan genfydd
Y Sêr, neu wawr dyner dydd;
Ar hyn i ryw frynn fe red,
Gu olwg, i gael gweled
Ei waſtad Wlad oleudeg;
A phan wêl, yn dawel deg
O'i galon fe gu wyla;
Gwenu, llawenychu wna:
Yn hydraeth tra 'r wy 'n adrodd,
Diau 'r wyf finnau 'r un fodd.
Dywaid fy awen dawel,
Mewn mwynfodd ymadrodd mel,
Hynaws gerth hanes y gwr
A gredodd i'w Greawdwr.

Ae 'r Gwr oedd Duw'n ei garu
O Haran i Gana 'n gu.
E wnai yſtyr yn aſtud
Yno a myfyrio 'n fud:
Rhinweddol wr, ni wyddiad
Amcanion yr Ion a'i râd.
Golau dêg weledigaeth
I'w gryfhau 'n ddiau a ddaeth.
Abram y gwr dinam da,
Tirion ufuddfab Tera,
Di weli 'r fâd Wlâd lydan;
Dy hâd feddianna 'r Wlâd lân.

Yntef i Dduw Nef a wnaeth
Lle 'r ydoedd Allor odiaeth,
Cywaeth helaeth, wr hylaw,
Yn ddi drais, oedd ganddo draw.
Odidawg alldud ydoedd:
O lawn ferch haelionus oedd.
Wr llon, mewn prinder lluniaeth,
I'r Aipht rhag newyn yr aeth.
Ei gannaid wraig ddigynnwr,
Aeth Sara gyd â ei gwr.
Ni chaid o'r Aiphtiaid yr un
Gain hylaw fal Gwen hoywlun.
Yr Ion, drwy bob troion traws,
Ei hunan ddaeth yn dynaws
A'r Gwr a'i Wraig ragorol
I Gana 'n eirian yn ol.
Rho 'i Dduw Awdwr add'widion
I hwn a'i had o'r Wlâd Ion.
Yn Hebron, wr mwynlon mâd,
Fr Ior gwnai Allor eurad.
Gwâr addwyn wâs goreudduw,
Aberthodd, addolodd Dduw.

Pedwar Brenin gerwin gau,
A godent ddirfawr gadau,
Yfpeilient, torrent o'u tir
Ddynion creulonwedd enwir:
Ac Ef, y godidawg wr,
I'w frawd a fu waredwr.
Liw nos Ef a'i lân weifion,
(Mawr waith oedd) drwy gymmorth Ion,

T 'rawodd,

T'rawodd, gwaſgarodd yn gerth
Ynfyd fyddinoedd anferth:
Gwaredodd y Gwr odiaeth
Lot, ei gâr pur, o'r cur caeth.
Dethawl wr fe'i bendithiwyd
Gan un o gu lu Duw lwyd;
Gan urddawl freiniawl Frenin
Ef a'r gâd gaent fara' gwin.
Wedi hyn daeth gair Duw hael
At yr henwr tirionhael;
O'r Nef lon dirion y daeth
Diogel Weledigaeth;
Nag ofna Abram dda ddoeth,
Y Gwr addwyn goreuddoeth:
Cofia, i ti, y Cyfiawn,
Mur wyf, a'th wobrwy mawr iawn.

Oh Dduw gwynn! ba rodd a gaf?
Naf addwyn! fi ni feddaf
Blant etifeddant f'eiddaw,
Ond fy nghaethwas di dras draw,

Nid hwn fydd, gwybydd y gwir,
Ond un o'th gnawd a enir
A fydd yn Etifeddwr
O'th fawrdda, hawddgara' gwr.
Gan Dduw lwyd y dygwyd ef
Dan wybren geinwen gwiwnef:
Gwêl luoedd Nefoedd yn awr;
O'r dorf, ebre 'r Ior dirfawr,
Os medri, dyro di 'n deg

Nifer odiaeth Nef eurdeg,
Fal nifer y Sêr firiol,
Eith hâd ni rifir o'th ol,
Dywedodd un Duw Awdwr,
Fi Naf a'th ddygais, fwyn wr,
O wlad Ur olau dirion,
I ti feddiannu 'r wlad hon.
Wr glân, am ei lydan lwydd
I Ner gwnai ofyn arwydd;
Ef i'w Naf a wnai ofyn,
Rhoi Dduw hael arwydd o hyn,
Ior hynod, Fe roi hanes
Ei blant, eu llwyddiant a'u lles.
Yr iaith fwyn oedd wrth ei fodd;
Wedy hynny dihunodd,
Myfyriai, hyfrydai' fron
Yn fynych yn Naf union.

Anwyl Dâd y Ffyddlôniaid
Ond blwydd yn ganmlwydd pan gaid,
Goreudduw i'r gwr addwyn
Ymddanghosodd mewn modd mwyn.
Syrthiodd, o'i lwyrfodd, i lawr
Ar ei wyneb eirianwawr;
Ac wed'yn Duw a'i cododd
Mewn hawddgar gyfeillgar fodd;
A mawr enw rodd mor hynod;
Arwydd o fawrlwydd i fod.
Yr Ion i'w Wraig enw a rodd,
Dethawl, ac a'i bendithiodd.
Gwnai 'n awr Gyfammod mawr mâd,

Hynodawl, ſef Enwaedïad.
Yn ddiau 'r Ion addawodd
Fab tirion, oreulon rodd:
Yr Ior eirian glân ei glod
A henwodd y mab hynod.
Ag ef mâd gyfammodau
Yr Ion hael wnai gadarnhau;
Teilwng gyfammod dilyth,
Cyfammod ſydd i fod fyth.

Daeth oddiwrth Bennaeth y Byd
Ail annerch ar ol ennyd.
Abraham, is y wybr hardd,
Wrth ei hynod Borth iawnhardd,
Eiſteddai, canfyddai fod
Yr hin yn dynes hynod.
Ac yno am Naf gwiwnef,
Dduwiol wr, meddyliai ef.
Tri hynod wyr tirion-hael
Ar hyn a ganfu 'r gwr hael;
Rhedodd a galwodd y gwyr;
Heb ymroi troi wnai 'r triwyr:
Dan ddeiliog a brigog Bren
Oedd yno, ymddiddanen.
Anwyldda wr, gwnai wledd wych
I'r gwyr hawddgar rhagorwych.
Canfyddodd eu cain foddion
Eu bod o'r Nef loywglod lon.
Ofn a chariad mwynfad maith.
I'w fron a fu ar unwaith.
Un o'r tri Arglwyddi glân.

Hynod oedd Naf ei hunan.

Wr da'i dymmer, d'wed immi
Mae'th fwynlon wraig dirion di?
Fy un-Duw mawr ei fwynder,
Nid pell, yn y Babell bêr.

Diau attad y deuaf,
Cyfion wr eith cofio wnaf,
A firiol y gwnaf Sara,
Siriol, â mab dethol da.

E glywodd y gu lawen
Y geiriau; hithau oedd hên,
Heb goelio cai fab gwiwlwys,
Yn iſel, yn ddirgel ddwys,
Chwarddodd; ceryddodd yr Ion
Ei gwael a'i digred galon:
Cyn hir, y Wraig gain arab,
Yn wir fe enir it fab.
Heb law addo, 'mhen blwyddyn
Myfi Naf a gwblhaf hyn.

Aent i'w taith, wyr perffaith pur,
Tu' gwlad Sodomiad ammur.
Rhodd gwiw-Ner iddo gennad
I'w danfon, wr mwynlon mâd.
A gelaf, ebr Naf, yn awr,
F'union amcanion ceinfawr
Rhag Abraham? can's gwobr hael
Iddaw a ddaw yn ddiwael:

Tâd i genhedlaeth fâd fydd
Odidawg fawr a dedwydd.
Mi wn y rhydd hwn i'w hâd
Arch manwl, a gorch mynniad
Cadarn, am wneuthur barn bêr,
Wych fendith, a chyfiawnder.
Ion didwyll, yna d'wedodd;
Gwaedd nerthawl, anferthawl fodd,
Arfwydus am wyr Sodom,
Gwaedd faith eu drygwaith fydd drom.
Cymmares ddrwg Gommorra,
Gelynion pob dynion da.
Difgynnaf, gwclaf ai gwir
Heddyw yw 'r peth gyhoeddir.

Y duwiol wr wrandawodd
Mewn parchus ofalus fodd.

Cenhadon Ion cyfion cu
I'w gorchwyl a wnaent gyrchu.

Y dawnus fwynwr dinam,
O bura' hwyl, Abraham,
Nefu wnai, naws anëofn,
At Ner, mewn gwylder ac ofn;
Wele, oh Dàd! waeled wyf fo
Lludw a llwch oll ydwyf;
Wyd f'Arglwydd oddiar fawrglod;
Trag'wyddol anfeidrol Fod!
A feiddiaf un ufudd-air?
Wrth fy Nâf a gâf ddwe'yd gair?

Gwelai

Gwelai wrth fodd ei galon,
Gwelai, hyfrydai ei fron,
Ner yn fwy tyner na'r tes
Yn gwenu arno 'n gynnes.
Fe 'r gwr o fawr ragoriaeth,
At Dduw cu nefu a wnaeth:
Oh Geli! ddifethi fâd
Yr unfodd a rhai anfad?
Cywir Ion! os ceir yna
O'r rhai 'n ddeg a deugain da,
Tydi ddifethi, fy Ior,
Y gaerawg Dref a'i goror?
Er mwyn y rhai 'n, wyr cain cu,
Deg Ior, fydd yn dy garu,
Oh Dduw mâd, Ceidwad cadarn,
Ai ni arbedi roi barn?
Duw gwynn! na boed hyn i ti,
Ro'i 'r gwirion wyr a'geri
I chwerw ing a chur angau,
Mal creulon wyr geirwon gau.
A hyf y d'wedaf hefyd,
Ai ni rydd Barnydd y Byd
Farn gyfion? ai 'r gwirion gwâr
Ar unwaith a rhai anwar
A wna ladd? oh anwyl Ion!
Cofia na ladd y cyfion!

Os caf, ebre gwiw-Naf gwynn,
A henwaift ti o honyn
Yn gyfiawn; am eu dawn deg
Y lwys ardal lâs irdeg,

Hyfryd,

Hyfryd, i gyd a gedwir
Rhag bolltau 'r tyrfau drwy 'r tir,
Canfu 'n llon, a'i fron heb fraw,
Hawdded ydoedd dyhuddaw
Duw nefol, ei nerthol Nawdd;
Wr ethol, ail areithiawdd;
Dygodd i bump a deugain
Yn rhwydd holl nifer y rhai 'n.
Diwair wr, e fu 'n daer iawn
O'i gariad at y gwiriawn;
I ddeg eu rhif fe ddygawdd;
A Ner, o'i fwynder a'i nawdd,
Addawai na wnai niwaid,
Deg yn hon cyfion os caid.
Ae 'r claerwyn Ior diſcleiriol
I'r Nef fawr yn awr yn ol.

Abraham ddinam ddoniawl
I Ner fe rodd fwynber fawl.
Ae 'n awr, dan fawr fyfyriaw,
Wr mwynlan, i'w drigfan draw.

Trwy 'r holl Ddinas fawrfras faith,
Gadarn mewn melltigeidwaith,
Tri yno, prin tri enaid
Yn gyflawn gyfiawn a gaid,
A hwy a ddygpwyd o hon,
Rai anwyl o ryw union;
Angylion, cyſſurlon ſwydd,
Wnaen' eu harwain yn hyrwydd.
Braidd y t'w'nnai 'r boreuddydd

A gwawr

A gwawr deg trwy gaerau dydd,
Torchawg gwmmwl tew erchyll
Wnai ffrydiaw o honaw hyll
Grych Reieidr, dan groch ruaw,
O dân a brwmſtan a braw.
Difethodd, dinyſtriodd Naf
Yr enwir fro dirionaf;
A hwythau 'r gwyr gau i gyd,
Ennynnent yr un ennyd.
Ac yna i'r Nef geinwawr
O bob parth y mygdarth mawr
A gododd; danodd mae dig
A brwd ddyfnfor berwedig.
Erddrym o goſp am fawrddrwg!
Barn gyfion am droion drwg!

Ac wele! dros ddiſgwyliad,
Sara ddaeth yn Fammaeth fâd:
Diau hon, wedi henu,
Gai lon fab, gô lawen fu.
Hwn yn Iſaac a henwyd;
Rhodd Dofydd, llawenydd wyd.
Gwaraidd fab o ragoriaeth,
Ffynnu a chynnyddu wnaeth.
Rhoi mawl am ei leſawl lwydd
Wnai Abra 'm i Dduw 'n ebrwydd:
Ei feddyliau 'n gwau a gaid,
A llonnent ei holl enaid.
Coſiodd eiriau y Cyfion;
Cywir i'w air y ceir Ion:
Ei fab anwyl fu beunydd

I'w

I'w galon dirion, drwy 'r dydd.

Wedi hyn i'r gwiwddyn gwâr
Digamwedd gyd' a'i gymmar
Pan hunai, pan gyfgai 'n gaeth,
Dygwyd prudd weledigaeth:
Ebre Ner, cymmer wr eu
Y gwirion wyt i'w garu,
Dy unig fab daionus,
Cyfoda, bryfia heb rus,
A dos i Foriah dir;
Yno, ar frynn a enwir,
Offrymma, abertha 'n bur
Gu Iſaac dy holl gyſſur.
Deffrodd, e gododd y gwr;
Credodd mai y Creawdwr,
Naf anwyl, a'i danfonawdd;
Rhodd ufudd-dod hynod hawdd.
Fe holltodd, cymm'rodd, wr eu,
O'i barth goed i aberthu:
I'w ddilyn cymm'rai ddeulangc,
A'i fab mwynaidd lariaidd langc,
Dethawl wr fe ymdeithiai,
Mwynddyn, ar afyn yr ai.
A'i galon, â'i burfron bêr,
Holai, dadleuai lawer.
Syndod a rhyfeddod faith
I'w fron a fu ar unwaith.
Am ei anwyl fab mwynwawr
Galarai, gofidiai 'n fawr.
Wrth fyfyrio dros dro 'n drwm

Rhuſo wnai cyfraith rheſwm :
I'r gwr odiaeth goreudad
E barodd hyn fawr bruddhâd.

Rhyfeddu wnai' fwyngu fab ;
A geiriau teg ac arab
Yn ſiriol e wnai ſiarad
Wrth ei fwynber dyner dad :
Boddiai ag arabeddiaith
I fyrrhau 'r dyddiau a'r daith.
Tawel ei fwyn dad diwair
Edrychodd ; ni dd'wedodd air.
Mae ef yn brudd am wiwfab,
Ei fyd, ei fywyd, ei fab.
Y galar fe wnai gelu ;
Fe 'i teimlodd, celodd wr cu.
A'i ffyddlon galon gulwys
Rheſymmai, 'mddiddanai 'n ddwys :
Gwelaf, ryw dro neu' gilydd,
Pan ddel diochel yw 'r dydd,
Mae odfa o drwm adfyd
I bawb o ddynion y byd.
Y rhinweddol duwiol da
A boenir yma 'n benna'.
Yr anwir a'r dirinwedd,
Mae 'n hwy 'n blodeuo mewn hedd ;
Gofid llai nag i gyfiawn,
A'u plant fydd mewn llwyddiant llawn.
Mi o'r ddaear liwgar laith,
Diammau, dorrwyd ymaith,
Mâb i dâd ammhlantadwy
Ni rydd Celi i mi mwy.

Mi 'r dinerth darfu 'm danaf;
Weithian dan riddfan yr âf
Mewn penyd o'r byd i'r bedd,
I'r oer lawr i wael orwedd.
Cyfion i'r Ion a rannodd
Gael aberth mâd o'i râd rodd.
A mynych y bum innau,
Gwae 'm bron! hyd geimion ffyrdd gau:
Mynych mi a fum annuw;
Trofeddais, mi ddigiais Dduw.
Mawrbwys a ddaeth im herbyn;
Trofeddais, mi haeddais hyn.
I'm bron a'm calon mae cur
Am Ifaac dros bob mefur.
Fy nolur, fy nghur, fy nghwyn
Am wareiddfab mor addfwyn,
Er mor frwd, mor fawr ydynt,
Fy ngwendid ond odid ynt.
Ond odid mai nid yn ol
Fy mawr flys mor afleſol
Gwna Naf rhwyddaf a'i rhoddawdd,
Ond yn ol ei nefol nawdd.
Mynych, mewn geiriau mwynion,
Addawodd, e dd'wedodd Ion,
Cei luoedd dorfoedd dirfawr,
Ac o'u plith daw'r fendith fawr.
Da obaith! cyfur diball!
Gu enwog Ior, gwn y gall.
Er ei ladd, drwy ddirfawr loes,
Yr Ion eill adfer einioes:
Iw Borth er ei aberthu,
Credaf y caf, cariad cu,

Mewn rhyw fodd mwyn rhyfeddol,
Gan Naf, fy machgen yn ol.
Oer arwyl! fe ae 'r awr 'on
I'r daith rhwng gobaith ac ofn.
Ar y trydydd dydd y daeth
I weled brynn marwolaeth.
Yno dirfawr Allawr oedd
Yn weledig; niwl ydoedd:
Goleugerth deg olygiad
Roi Dduw cu 'n arwyddoccâd.

Wr addwyn fe a roddodd
Ar ei wâr fab, o'i wir fodd,
Goed yr offrwm trwm tramawr;
Yntau ddug dân eirian wawr,
A chyllell i archolli,
I dywallt gwaed hallt â hi.

Fy nhâd, ebre 'r mab mâd mwyn
A gweddol olwg addwyn,
Wele dân yn dy law di;
Ymma rhoddaiſt goed immi;
Er hyn, mae 'r oenyn? pwy rydd
Ddifai Aberth i Ddofydd?
Fy anwyl fab a'i fwynnwedd,
Yn ddiau rhoi 'r gan Dduw 'r hedd:
Duw Ior, fy mab, a'i dyry,
Heb uno 'n, ar y fron fry.

Teithiaſant, daethant eu dau
I gu ael y brynn golau.

Hardd

Hardd Allor i'r Ior eirian,
Yn brudd, yn ufudd a wnan'.
Y coed, pan eu rhoed yn rhwydd,
Pur wiwdrefn, mewn parodrwydd,
Yn weddol d'wedai 'n addwyn
Wrth ei fab, mewn araith fwyn;
Fy nghalon dirion, dydi,
Coelia, yw aberth Celi.
Yn wir, fy machgen eres,
Gorchymmyn Duw gwynn a ge's.
Ond er hyn, Duw gwynn, deg Ior,
Er gollwng ar gu Allor
Dy waed, fy ngwir grêd ydyw,
Jehofa 'th adfera 'n fyw.

I'w fab rhyfeddod a fu,
A galar dros ei gelu.
Dywedai ei fab didwyll
Yn union mewn purion pwyll;
I Dduw hael iawn ufuddhau;
Ein bywyd Ion a biau.
Mynych bob blwydd o'n einioes,
I fwyngu ddyfyrru f'oes,
Fy nhâd mâd, â llygad llon,
Ti dd'wedaift ei add'widion:
A newidiodd Ion wed 'yn?
A gwblhâ Jehofa hyn?

Mae Ner, mi wn, yn eirwir;
Diau fod ei eiriau 'n wir:
Ei hybarch arfaeth heibiaw

Ni rodd; a dd'wedodd a ddaw.
Cefais, derbynniais di'r byd,
Rhyfedd yw, o farw hefyd.

Oh fy nhad! mae cariad cu
Yn anwyl iawn ennynnu
Yn f'enaid, hon fu unwaith
Mewn fyndod rhyfeddod faith.
I'm monwes annymunol
Oedd cur; trodd nattur yn ol.
Ond yn awr, fy Nuw mawr mâd,
Dilys ufuddhaf d' alwad.
Ti 'n ddiau biau 'm bywyd,
Duw 'r duwiau! Ti biau 'r byd!

Heb wrthod, i'w aberthu,
Fab cyfion, fe'n fodlon fu.

Abraham, wr mwynbur hael,
Ei hynod fab tirionhael
A rwymodd i'w offrymmu
Ar y coed i'r mawr Ior cu.
Yn ei dirion wirion wedd,
Wr anwyl mawr ei rinwedd,
Cariad oedd i'w fab cywrain',
Ufuddhad i'r Ceidwad cain.
Codai' law, oer fraw i'w fron,
I gyrredd lladd y gwirion.
Clywai lef o Nef yn awr,
(E ddarfu ofni 'n ddirfawr)
Abra 'm, Abra 'm ddinam dda!

Hoff

Hoff eurddawn, na chyffyrdda
D' oreufab diwair ifange,
Ond dôd ollyngdod i'r llange.
Gwn weithian, wr glân ei glod,
Dedwydd, it ofni 'r Duwdod;
Rhoddaiſt, nid atteliaiſt ti
Y gwaraidd fab a geri,
Gwynfyd dy oes, dy geinfab,
Nage fwy, dy unig fab.

Gwelodd, rhyfeddodd yn fawr,
Glaerwyn Angel eglurwawr.
Fe drodd, fe ganfyddodd fod
Hwrdd hoenus hardd a hynod
Wrth ei gedyrn gyrn yn gaeth
Mewn drain yn mawr ymdrinaeth.
A hwnnw i farw 'n lle 'i fab
Gwâr eirian, roe 'r gwr arab.

Eilwaith yr Angel haelwych
Alwodd o'r wen wybren wych;
D'wedodd, tyngodd Ion didwyll
I'w enw da, ac ni wna dwyll,
Abram, nid gwael dy wobrwy,
Am fwynder cei fwynder fwy.
Am it ufuddhau immi
Amlhaf a bendithiaf di.
Mal nifer y Sêr y ſydd
Ym mhob rhan o'm wybrennydd,
Mal tywod môr hynod hên
Cei 'mledu yn llu llawen.

Yn

Ac yn dy hâd gwiwfâd gwâr
Diau cenhedloedd daear
Yn odiaethol fendithir;
Ior y Nef wna'i air yn wir.

Gwelawdd Abra 'm fwyn galon,
Gwelodd, hyfrydodd ei fron,
Yn awr y Dydd dirfawr da
O nodded i lin Adda.

Mi'th garaf fy Naf nefawl!
I ti y rhoddaf fi fawl!
Fy Nuw hael a'm cyfiawnhâ,
I'nghyfur Fe 'mddanghofa!
Chwi fifoedd, blynyddoedd Nef,
Olynol drwy y loywnef,
Bryfied, rheded eich rhodau
Dirfawr goleuwawr yn glau!
Y liwgar Loer oleugerth,
Ewybr fyddo 'th cylchlwybr certh!
Dyfod mae amfer Dofydd!
Oh 'r Haul rhêd!---deued y Dydd!

I ddyn, er maint ei ddoniau,
Berr hynt fydd yma 'i barhau.
Ei gyfurus wraig Sara
Aeth i hedd ddiddiwedd dda.
Galwyd yntau gan Geli,
Wr dethol, ar ei hol hi.
Yng Nghana'n fâd, wlâd liwdeg,
Hunent hwy mewn henaint teg.

Duw

Duw trugarog, nerthog Nawdd,
Ion hynod, Fe ni hunawdd:
Bu'n gu nerth, bu'n gynnorthwy,
Bu'n Dwr, bu'n Dâd i'w hâd hwy.

Y DRYDEDD RAN.

The Epiſode of Joſeph, and his Brethren.

TEithiais, deuais o'r diwedd
I Wlad gu oludog wedd,
I lwyni o bêr luniaeth,
Nefol ac anfarwol faeth:
Yf win, a bwytta, f'enaid,
O'r ffrwythau gorau a gaid.
Mae'r Haul claer oddiar Gaer gu
Y Dwyrain gain yn gwenu;
Nifwl o'i gylch ſy'n noſiaw,
A thyner lawnder o wlaw.
Mal gwlaw a ddaw i'r ddaear
A gyfyd yr yd o'r âr,
Deigr enaid wnan' deg Rinwedd
I dyfu yn gu ei gwedd.

Drwy 'r byd mor hyfryd yw 'r hin!
A lliwiau y gorllewin!
Goleugerth gu olygiad
Yn egawr i Fyd mawr mâd!
Oh am aden y wen wawr
I gyrredd y deg orawr!

Abra'm! dan y fawr wybren
Ei enw fydd tra bo'r Nef wen:
Ym mhob gwlâd ei hâd amlhant,
Rhyfeddod hir a fyddant;
Llenwan' bob eirian oror
Fawr o faint, o fôr i fôr.
Deuddeg mab lliwdeg a llon
Roi Ner i un o'i wyrion:
Un pan yn llangc ifangc oedd,
I'w dâd anwylyd ydoedd.
Ei dâd, o ran cariad cu,
Ran urddas, ran ei harddu,
Rhoi 'n ficcr i hwnnw fiacced
Amryliw o geinwiw ged.

Breuddwydiodd, adroddodd draw,
A'i frodyr dirfawr frydiaw
A wnaethant yn annoethion,
A brâd a lanwodd eu bron.
Ydd ydoedd ei freuddwydiawn
O radd gerth fawreddog iawn;
Arwyddion o rieiddwych
A helaeth Lywodraeth wych:
Yr hoyw Loer o liw arian,
Yr eurwawr Haul gloywfawr glân,
A'r Ser yn uchder y Nef
A wnaent, ger ei fron yntef,
Diweirfab, mewn parch dirfawr,
Ymgrymmu, lon lu, i lawr.

A Satan weithian a wnaeth

Lenwi

Lenwi rhai 'n â gelyniaeth:
Gwynfyd y Sarph ddybryd ddig
Yw brâd a llid berwedig.
Wyr gweddus golygus glán,
Daethant i fangre Dothan.
A'u tâd un galwad a gant,
Ddydd bwygilydd bugeiliant.
D'wedai Iſrael, wr hael hen,
Fy lliwus fwyn fâb llawen,
Joſeph, fy mab dewiſaf,
Yn nydd a nos dan nawdd Naf,
Dos a dychwel, gwêl y gwyr
Hyfrydawl, ſef dy frodyr,
Da 'mab, a gâd im wybod
Ba wedd ſydd arnynt yn bod.
Y Gwr ifangc goreufad
Ae i'r daith ar air ei dad.
Gwyrennig fab goreunaws,
Wedi crwydro dro ar draws
Y wlâd, ſe ddaeth i liwdeg
Lydan frynn Dothan, fronn deg.
Ei frodyr, gwyr di gariad,
Gwelent hwy galon eu tâd:
Hwy dd'wedent, draw 'r breuddwydiwr!
Edrychwch, gwelwch y gwr!
Haul ydyw o hoyw loywder!
Frithed ei ſiacced o ſer!
Lladdwn ef, lluddio a wnawn
Ei ddadwrdd a'i freuddwydiawn.
Cawn weled ryfedded ſydd

Wed'yn

Wed 'yn rwyſg y breuddwydydd

Ei gwridog frawd gwâr odiaeth,
Dan wenu, neſu a wnaeth:
Ow mrodyr! yma.'r ydych
I gyd mewn iechyd yn wych?
Gwelodd y bachgen gwiwlwys
Eu chwerwder a'u digter dwys:
Diweirfab, mewn ofn dirfawr,
Cyffrodd, rhyfeddodd yn fawr.
A phan ddaeth i rygaeth rwyd,
O'i dda wiſg e ddioſgwyd.
Ymbiliodd, ceiſiodd, fab cu,
Tan orian eu tyneru:
Dywedai, eich brawd ydwyf;
Cywir iawn eich caru 'r wyf.

Oh'th ddeiliaid! fe'th addolir!
Tydi a deyrneſi'n wir!
Fi ro 'ei ddedwydd freuddwydion
I'r gwynt, ar hynt, yr awr hon;
Gwnaf, crêd, mor ficcred a'r Ser
Ymoſtwng i ti meiſter.
Simeon ag arf greulon groch,
Hagr, ar ei frawd gwrid hoywgoch
Y geuflaidd ruthrai 'n gyflym,
A'i wedd mewn digllonedd llym.
A'r lleill yno 'n gawrio gaid,
Trywaner Ef trwy 'enaid!
Reuben yn addien a aeth,
Hefyd a Juda hyfaeth,

Hwy

Hwy leſol attaliaſant
Greulonder chwerwder eu chwant.
Gwiliwch, ni bydd ddirgelwaed;
Ofnwch, na thywelltwch waed:
Bwriwn, mae pydew 'n barod,
Ef i hwn fwriwn i fod.
Ni welir mewn Anialwch;
Am draha fe drenga 'n drwch.
Hwythau, ar ol geiriau gant,
At hynny a gyttunant.
Lluſgwyd, fe daflwyd i dew
A budr ddwfn ddiddwfr bydew.
Gawr filain mewn gorfoledd
A roiſant, arlwyant wledd.
Ac Ef at Dduw Nef, dda Nawdd,
Ei weddi gyfarwyddawdd.

Reuben, yn ddi-arwybod,
Yn awr heb feddwl fawr fod
Eirias ac ail fradwriaeth,
Draw i areiliaw yr aeth.
Dychwelyd oedd fryd ei fron,
A gwared ei frawd gwirion,
A rhoddi hwnnw 'n rhwyddfâd
Yn ol i'w odiaethol dâd.
Ond oh! yr oedd yno ddig
Lywiawdwr anweledig.
Ni âd Satan annedwydd,
Erchyll, i ſefyll mo'i ſwydd:
Och! bellach os gwnewch ballu,
Greſynawl! ebre 'r Diawl du,

A'ch Gelyn yn eich golwg!
Fe lwydda ei draha drwg!
Llanwodd fron y gweifion gau
A gwyn, â chenfigennau.

Yr Eilun! Fe reoli!
Gw'radwydd! Fe 'n Arglwydd i ni!
Rhoddwn e'n awr mewn rhuddwaed,
Lladdwn, tywalltwn ei waed.

Juda, a grudd brudd a bron,
O gariad i'w frawd gwirion,
D'wedai 'n fwyn, mae 'dâd e'n fyw;
O'i bur dâd ein brawd ydyw.
Pa wedd, ar ôl dialedd dwys,
Y gwelwn ein tâd gwiwlwys?
Tra 'mddadlent, hwy welent wyr,
Tyrfa fel torf o faelwyr;
Na laddwn, gwerthwn e'n gaeth,
Na welwn ei farwolaeth.
Y tonnog wyr gyttunant,
Os arian gwiwlan a gant.
I'r geulan fry, o'r gwaelawd,
Yn brudd codafan' eu brawd:
Eu didwyll frawd clodadwy
Am arian gynhigian' hwy.

Y maelwyr, oll am olud,
A'i prynan' fab mwynlan mud:
Am arian nid ymeiriant,
Hyn oedd eu gofyn a gant,

Na boed it rudd brudd na bron;
Tyred fy machgen tirion.

Haelionus a ſerchus wyr!
Medd ei hyfrydwedd frodyr,
Gwr mawr yw, àc Ior mor wych
A fydd, chwi a ryfeddych!
Rheolwr mawr â hylaw!
Brenin a fydd ddydd a ddaw!

Juda ragoraf a gaid,
Mwynwr, yn drwm ei enaid:
Iach dawelach fab dilyth,
Ac yn iach ſy mrawd bach byth!

Yn ei wyneb diweniaith
Cur oedd dros nattur un iaith.
Ei frodyr fuant fradwy;
Tynerol ar eu hol hwy
Hiraethodd, edrychodd dro;
Trwy alar torrai 'wylo

Ei fradwyr anhyfrydol
Yn awr ſy 'n llawen o'i ol.
Y fraith fiacced, y ged gu
Unwaith oedd yn ſerennu,
Mewn cochlyn o waed mynn mâd
Ei harddwch ga'dd drwch drochiad.
A hwythau yn hy' weithion
At eu tâd ddygaſant hon.
Myn wybod, wr gloywglod glân,
Ai gwiſg dy fab arab eirian,

Ai nad e? ydyw fe'n fyw,
Ddyn dedwydd, ai nid ydyw?

Canfu,—adnabu,—Duw Naf!
Oh'r olwg arw a welaf!
Oer ofid! oh wr ifangc!
Lladdwyd, a llarpiwyd y llangc!
Galarai 'mofidiai 'n fawr
Am ei anwyl fab mwynwawr.
Ei deulu o'i ddeutu ddaeth,
Gan weled ei ddygn alaeth.
Diles ydoedd ei deulu
A'u geiriau call i'r gwr cu.
Oediog, di gyfur ydwy',
Fy mab ni welaf fi mwy.
Ei derfyn ddaeth, diweirfab;
Af i 'medd ar ol fy mab.

Llawer blwyddyn wed'yn aeth;
Yn hwyr derfydd blin hiraeth:
Ei fab a godwyd yn fawr;
Ni wyddai 'dâd mwyneiddwawr:
Chwerw fe ga'dd ei garcharu,
Heb fôn i'r cyfion wr cu.
Ei Dduw fyth fu iddo fo,
Duw anwyl fu'n Dâd yno.

Anfonwyd gan Naf union,
Ar hyd yr holl ddaear hon,
Newyn ar Fyd annuwiol,
Am falchder diffeithder ffol.

E loſgwyd

E loſgwyd Aſia lwyſgu,
Ac Affrig dawddedig ddu,
Ac Ewrop deg ei gorawr,
Gan ffwrnwres y moeldes mawr.
Ond i'r Aipht mawr lawnder oedd;
Yr yd yn hon yr ydoedd.
I'r Wlad hon yn dirion daeth
Miliynau 'r Byd am luniaeth.
Llawen y rhannai 'r Llywydd
Lawnder yn dyner bob dydd.

Cana 'n ydoedd mewn cyni;
Gyd a'i meibion hoywon hi
Daeth Iuda fwyndda ar fyrr,
A'i fradawg euog frodyr.
Y gloywddoeth wr goleuddawn
A'u canfu yn y llu llawn.

Dywedwch, o ba dudwedd
Yr ydych? oes haelwych hedd?

O Gana 'n ebre 'r gweiniaid,
Dy weiſion gwaelion a gaid:
Am luniaeth, y Gwr ffraeth ffraw,
Y daethom yma 'i deithiaw.
Moeſawl hwy ymgrymmaſan'
Hyd lawr i'r Gwr gloyw-wawr glân.

Llidiawg, megis Llew ydoedd,
A garw ei air y Gwr oedd:
Da'r adwaen eich direidi,
Amlwg yw 'ch mawrddrwg i mi.

Gwelaf, mal y dydd golau
Eich dyfnion ddirgelion gau.
Bradwyr, Yſbiwyr ydynt,
Carcharaf, ail holaf hwynt.

Adeg alarus ydoedd!
Syndod i'w cydwybod oedd!
D'wedent eu hanes didwyll
Yn bur deg, heb air o dwyll.
Mwyn iawn ymgrymmu a wnant,
Du alar! hwy gyd wylant.
Ond hyn i'w herbyn o hyd
Yn ddidawl a wnai dd'wedyd:
Galon, meddai 'r Gwron gwych,
Bradwyr, yſbiwyr ydych.
Yn wyneb dynion enwir
Mae drwg yn amlwg yn wir.
Dagrau, a du euogrwydd,
Terfyſg ſy'n gymmyſg i'm gwydd.
Bradwyr, yſbiwyr ydynt!
Rhwymwch, a charcharwch hwynt.

Gan drymmed, doſted y dydd,
Wyr gwaelion, ar eu gilydd
Edrychent, cofient eu caeth
A'u dyrys hên fradwriaeth:
Am ein brawd mewn cur mae'n bron;
Duw ai gwyr ei waed gwirion
Ofynnir yn wir; gwae ni
Ganwaith am ein drygioni!
I'w ruddiau 'r dagrau oeddynt;

Gwelſom

Gwelsom ei brudd gystudd gynt.
Chwerw a fydd ein carchariad;
Oh Dduw 'n Twr! beth ddaw o'n tâd?

Gwelodd y Llywydd gwiwlwys
Eu dychryn diderfyn dwys;
I hallt wylaw draw fe drodd;
Yn araf se dynerodd,
Anniddan wyr, ni wyddynt
Mai perffaith gwyddai hiaith hwynt,
O herwydd Cyfeithydd fu
Arferol o lefaru.
Teilwng wr, ymattaliodd;
Ac bellach mewn mwynach modd
Dychwelawdd, holawdd helynt
Eu gwlad; ai byw eu tad hwynt?
Byw yw 'n tâd, attebent hwy,
Gwan o nerth, digynnorthwy.

Oes yng Nghana'n wenlan wych
Frodyr? pa nifer ydych?
Deuddeg ar un pryd oeddym,
Unarddeg yn awr ydd ym.
Un sydd, bob dydd, gyd â'i dâd,
A marw o ddryglam irad,
Ein hynaws Ior brenhinol,
Fu' un o'r ddau flynyddau 'n ol.
Y salion wyr iselwawr
Ymgrymment, llyfent y llawr.

Os perffaith araith eirwir,
Caf wybod gwaelod y gwir

Anfonwch

Anfonwch un i fynu,
Pryſured, cyrched eich cu
Frawd anwyl :---e fu 'r dynion
Yn ddiſtaw a braw i'w bron.

Gwelwch, mae yn eu golwg
Arwyddion o droion drwg.
Carcharwch, rhwymwch y rhain!
Ymaelwch mewn modd milain!
Tridiau rhoi 'r Gwr tra odiaeth
Hwynt mewn heiyrn cedyrn caeth.
Bu' henaid, drueiniaid, dro,
Ym mhell wedi ammhwyllo.
Naf anwyl y Nef wenwawr!
Oh Geli! gwae ni yn awr!
Gweithrediad fu gaeth rydoſt
Geiff gaeth goſpedigaeth doſt.
Diſtryw a braw 'n brydiaw 'n bron!
A diſtryw yng'wlad eſtron!
Oh 'n tâd! beth ddaw 'honot ti?
Gwna 'th galon dirion dorri!
Ei loeſau ni theimlaſom
Hyd yn awr, wedi 'r awr drom.
Drwy 'r hirddydd mae draw 'r harddwiſg,
O hyd y mae 'r waedlyd wiſg
Ganddo er cofio 'r cyſion,
A gwaedlyd o hyd yw hon.
Ein drygnaws fu'n draws, fu 'n drom,
Wrth Ioſeph, pan werthaſom.
Garw yw 'n braw! ac oer yw 'n brawd
Ioſeph yn y bedd iſawd!

Dialedd gan waed a elwir,
Can's gwaed a fyn waed yn wir.
Yn ol ein bai, ni welwn,
Mae 'n penyd, mae 'n hadfyd hwn.
I ddieithriaid, modd athrift,
Ein brawd werthafom draw 'n drift:
E ddeuodd unrhyw ddial,
Can 's plaid dieithriaid ddyd dâl.
Gwae inni rai drwg enwir!
Gwae 'n tâd anwylfâd yn wir!
Ein hanes fag anhunedd,
A'i gyrr ar fyrr i'r oer fedd.

Danfon wnaeth y Gwron gwâr
I'w cyrchu hwynt o'u carchar.
Yr oeddent, y gwyr eiddil,
Mewn dagrau griddfanau fil.
Gwelodd, teimlodd eu galar;
Yna medd, â mwyn wedd wâr,
Ofni Celi o'm calon
Yr wyf, a moliannu 'r Ion.
Yn ddiau chwithau gwnewch hyn;
Aed naw 'n ol, rhag bod newyn
Yn gwáfgu teulu eich tad,
Erys un mewn carchariad.

Aeth naw dan wyław yn ol;
A'u hanes oedd refynol.
Ei tâd amddifad, medd ef,
Yn enw mawr Ion y wiwnef!
Yn enw Duw! ai chwi 'n unig

O'r

O'r dyrfa ga 'dd ddalfa ddig!
Dymma ryfeddod immi,
Holwyd a charcharwyd chwi!

Mae 'n hynod ryfeddod fawr,
A'r enwog wr eirianwawr,
Egored ei drugaredd,
I'r Byd yn rho'i hyfryd hedd.
Am y Llywydd clodrydd clau
Fe dd'wedir rhyfeddodau;
Ei godi Ef yn Geidwad,
O Garchar du, ar lu 'r Wlâd.
Ei glôd a'i awdurdod aeth
Yn hynod drwy 'r Frenhiniaeth.
A farno ef, a fernir;
Os Nawdd, fe fydd Nawdd yn wir!

Eu tâd, amddifâd am ddau,
A ddelwodd gan feddyliau:
E ddyryfodd ei refwm
O herwydd y tramgwydd trwm.
Pan ddarfu 'r yd, poen ddirfawr,
Mewn gofid gwelid eu gwawr:
Y glafwyn newyn a wnaeth
Lewygu eu hiliogaeth.
Eu plant ofynnant am fwyd,
Wylant o ddeutu 'r aelwyd:
Y rhai 'n, gyd â'u rhieni,
Druain, fu'n llefain yn lli'.
Pam, medd eu hael dâd gwael gwan,
Ba ham 'r ych yn bwhwmman?

A pham

A pham edrychwch, heb ffydd,
A'ch golwg ar eich gilydd?
Ai oedi etto 'r ydych?
Ai marw a wnawn mewn mawr nych?
Cyfodwch, a chyrchwch yd,
A buan am eich bywyd.

Ni feiddiwn, mae 'n anfuddiol,
Os ſaf yr ie'ngaf ar ol.
Diau, os awn ninnau 'n awr,
Myned raid i'n brawd mwynwawr:
Heb'ddo ni wnawn ddigio 'n ddwys
Galon y Llywydd gwiwlwys;
Heb'ddo ni's gwnawn feiddio ſyth
Adweled y Gwr dilyth.
Na lidiwn lân Lywiawdwr,
Rhaid ufuddhau geiriau 'r Gwr.

Pa fodd digwyddodd y gwall
Diriaid, ſôn am frawd arall?

Haelwych wr, ſe a'n holawdd;
A'r gwir, pan holir, ddaw 'n hawdd,
Iawn wyddem fryd y Noddwr?
Ddirgelion geirwon y Gwr?
I'r Noddwr mawr rhinweddawl
Mae 'r anwir a'r gwir mal gwawl.
Ei helaeth wybodaeth bur
A'i nododd yn Bennadur.
Pan welir y gwir i gyd,
Y gwir etto a'n gweryd.

A hyn

A hyn fu'n fron-wahaniad,
Fu'n brudd-der i'w dyner dâd.
Yn awr ei ollwng a wnai;
Ond eilwaith anwadalai:
Nid â fy mab arab i
O'i gu wlâd i galedi,
Rhag braw, rhag tramgwyddaw'n gaeth,
Mawr alar, rhag marwolaeth!
Gyrrais fy mab hawddgaraf,
Ei gofio dan wylo wnaf,
Ei frawd o Dref i rodiaw,
Fe aeth, ni ddaeth ac ni ddaw:
A'i frawd ym mhell o'i fro-dir
Anfonaf? na wnaf yn wir!

Os ti ni ollyngi 'r llangc,
Ofer heb ein brawd ifangc
In feddwl, ni wnawn feiddiaw
Myn'd i'r Aipht at Simeon draw.

Drwy loes f'einioes a fynnwch,
Ni'ch dyddawr, i'r llawr, i'r llwch.
Dirwynwch, mae 'n drueni,
I fedd fy mhenwynnedd i.
Ioſeph, y cariaduſaf
Ei lon wedd ddaeth o law Naf,
Nodedig fab, nid ydyw,
A Simeon dirion nid yw:
I angau, pe gollyngwn,
Mae 'ch bryd fyn 'd heſyd â hwn.
Ni'm gwyrir mwy â geiriau;

Gwae fy mron! ond digon dau?
Ni feiddient ei anfoddiaw;
Ochneidient, hwy droënt draw.

Gwelweh dirionwch ei rudd,
A'i gyfiawn olwg ufudd,
Ond yw ef, mwyn ei dafawd,
Un fron â'i hyfrydlon frawd?

Eu golwg rhagddo gelant;
Gofidio, ochneidio wnant.
Ddyddiau wedi hir ddiodef,
Etto aent o'i ddeutu ef:
Medd Reuben, mewn mawr obaith,
Trwy ein Duw mentrwn y daith;
Deled ein brawd adolwyn,
A'r Llywydd a fydd yn fwyn:
Etto 'oni ddygaf itti,
Lladd fy neufab arab i.

Juda 'r hygaraf o'r gwyr,
A moes iawn, â mwy fynwyr,
A dd'wedodd yn ddioedi,
Fy nhâd anwylfâd, gan i,
Gan i gofynni 'th gu fab,
Dy eirian enaid arab,
Diogel mi a'i dygaf;
Am dano mechnio wnaf.
Wr goruchel, pan wêl ni,
Ni wnawn ei lawn fodloni:
Yna fe newidia wedd

Y Gwr yn llawn trugaredd.
Cei Simeon gyfion ac ef,
Cei d'edryd i gyd adref,
Ai myned yn wyr inwyniawn,
Neu l'w'gu a n'w'nu wnawn?

Yn awr, mewn dwfn ddiſtawrwydd,
Ei ddagrau 'n rheſiau, yn rhwydd,
A lifent yn loyw afon,
Fe d'rawodd ei freufodd fron:
Du arnaf ydyw' r diwrnod!
Duw fry! a raid felly fod!
Gwae finnau dy gyfiawnwas!
Ddiblentir yn wir dy wâs!
Poenus ydyw 'ch tâd penwyn;
Gwrandewch, ac ufuddhewch hyn;
I'r Gwr gwnewch anrheg eurad
O aeron gloywon ein gwlâd;
O fyrr a balm diferawl,
O lyſiau, teganau 'r gwawl;
O gnau, almonau, a mel,
A neſwch atto 'n iſel;
Ac eled eich brawd gwiwlwys
I'ch canlyn:—rhag dychryn dwys,
Rhag pob rhyw ddrwg, Duw dwg di,
Heb nam, fy meibion inmi!
O'r Nef fawr hyfrydwawr fry
Duw Abra 'm gweled obry!
Duw Iſaac a'm dewiſawdd,
Duw nefol fo'ch neithol Nawdd!
A rhoed, er cariad Ior hedd,

Y Gwr i chwi drugaredd.
Rhag pob drwg, Duw, dwg o'r daith
Yn ol fy meibion eilwaith!

Heb uno 'n, 'n ol derbynniad
Bendithion tirion eu tâd,
I'r daith yr eilwaith yr ân':
E wnaeth y newyn weithian
I lawer iawn o luoedd,
I'r holl Fyd i gyd ar goedd,
Dyrru i'r Deyrnas diriawn,
Helaeth, lle 'r oedd lluniaeth llawn.
Dedwydd dorfoedd alludion,
Wrth dd'od i'r Wlad hyglod hon,
Yn firiol a wnaen' fiarad
Beunydd am Lywydd y Wlad.
Dieithriaid a gweiniadl gant,
Wr hael, am dano 'r holant:
Mawl y Llywydd clodrydd clau,
Mwyn enwog, glywfom ninnau:
Sôn mae dynion am danaw,
Pob gwan, drwy 'r pedrylau draw.
Chwi fu gynt, meddynt, am yd
Tewfrig yn y Wlad hyfryd,
Adwaenoch, a welfoch wedd
Yr enwog wr o rinwedd?

Do 'n wir; do ei wên eirlan,
A'i lais a glywais, wr glân.
Gwroldeb, hawddgar wylder,
Nawdd i bawb fy 'n ei wedd ber:

Gwr ar fyrdd yn rhagori,
Perffaith oddiar ein iaith ni.
Mal mawrion gwiwlon eu gwedd
Y gweiniaid gant ddigonedd.
Unwedd o'i flaen, bob ennyd,
Mawrion a gwaelion i gyd.

Pan ddaethan i'r loyw-lan Wlad,
Y Gwyr gyd â'r un gariad
Gwrefog a'i mawr garafant,
Fal beirddion a gweinion gant
Ddyffryn eurwawr clodfawr Clwyd,
Lawnaf Dyffryn a luniwyd;
Dyffryn aur melyn a medd,
Haidd a gwenith ddigonedd;
Aml Lyfoedd cyhoedd eu cêd,
Ac eirian byrth egored.

Wrth wel'd gwedd mawredd a maint
Y gaerog Ddinas gywraint,
Medd rhai, y Tryfordai fydd
Amryw fil mal mawr foelydd,
Rhyfedd, dan un Gwr hefyd
Mae'r Deyrnas geinlas i gyd!
Mynor ei Lys dymunawl,
Difgleirbryd, i gyd fel gwawl!

Y gloywrudd Haul eglurwawr
Wnai gu belydru i lawr,
O'i gywraint Lys mawrfaint mâd
Y Gwron mawr ei gariad,
Rhwng harddlu o'r ddeutu, ddaeth

I'w hoywliw gerbyd helaeth,
Mawrwych od y meirch ydynt,
A blodau 'r Wlad eurad ynt.
Caerog addurnwaith cywrain'
O aur coeth yw 'r offer cain,
Ymlonnant mewn melynaur,
A'r Cerbyd fydd danllyd aur:
Eres ei loywder araul,
Mal Cerbyd hyfryd yr haul.
Ei olwynion eon ant,
Hoywon y tro'n, taranant.
O'i ddeutu golygu 'lawr
O'i dirion Gerbyd eurwawr,
Mewn brawdol a nefol naws,
Wnai 'r Llywydd ar y lliaws:
Cannoedd o dorfoedd dirfawr
Ymgrymmant, llyfant y llawr,
Fel pan fydd ym meufydd Mon
Y gwenith yn frig-wynnion,
A'r gwynt o'r gogleddbwynt glân,
Y blagur oll a blygan',
Trwy ganol ei faenol fawr,
Ar fore o haf eurwawr,
Ardderchog Farchog o Fon,
Hyd araul rodfa dirion,
A wêl bob grawn, yn llawn llu,
Yn pendrwm grwm ymgrymmu,
Bendithia 'n llon, o'i fron frau,
Roddwr pob trugareddau.
Yr un modd, pan drodd drwy-ddynt
Y Llywydd ei hoywrydd hynt,

I'r hynod wr brenhinwawr
Plygu wnai pob rhyw lu 'lawr.
Pawb yno 'n llon, pob enaid,
Wr cu, yu ei garu gaid:
Gwenu ar ei Ogoniant;
Hir graffu 'n anwylgu wnant.
Dyma 'r mwynwawr wr wawr mad,
Rhagorol:—ar ei gariad,
Ei ryfedd drugaredd gu,
A'i rinwedd yn cyfrannu,
Yn gwbl ar hyn mae 'n gobaith,
Mae bywyd y mawrfyd maith.

Difyr rhoi pob rhyw dafod
Ei fawl a'i ryglyddawl glod:
Y mae 'r Gwr mawr ac eiriocs
Ym mlodau ei olau oes;
Mae 'n rhyfedd, mae 'n ei wedd wawl
A doniau mwy na dynawl.
Ni wyddir, meddir, y man
Daeth y Gwr doeth ac eirian;
Gwir ydyw, os rhai gredir,
Fe ddaeth Ef o Nef yn wir.

Wr eres, drwy dês y dydd,
Tra 'r elai trwy 'r heolydd,
Ei 'olwynion gwylltion oedd gynt
Eu rhediad na 'r rhuadwynt.
Fe graffodd, gwelodd y gwyr
O Gana 'n, ddeg o geinwyr:
Yn isel, fwynion weisiawn,

Gwnaent

Gwnaent ymgrymmu 'n y llu llawn.
Anfonodd attynt fwynwawr
Gennad, y Gwr mwynfad mawr,
I'w tywys i'w geinlys gwynn;
Hwy ddelwent wrth ei ddilyn.
Mae 'n ſynn; mae rhywbeth ſynn fod;
E 'n rhuthrir, gwae ni 'r athrod,
Am arian ſe 'n cymmerir
Yn gaethion weiſion yn wir.
Pwy ddodawdd, pa ddu adyn,
Y 'ngenau 'n ſachau, mae 'n ſynn.
A hir yr ymgynghorant
Yn awr beth orau a wnant?
Ai peidio, neu feiddio 'n fwyn
Gu roddi i 'r Gwr addwyn
Eu rhodd?—ond ofer yw hyn,
Yn wawd ni fyddwn wed 'yn.
Pa fael yw rhodd wael o werth,
Oferedd yw rhodd fawrwerth,
A hyf ei chynnyg hefyd
I ben Rheolwr y Byd.
Mae 'n wir, medd brawd mwyn arall;
Ond er hyn y ceinddyn call,
Yn ei ber wyneb eirian
Mae mwynder a gloywder glân.
Ei chwimmwth drwm orchymmyn
Wnaethom, ufuddhaſom hyn:
Cywir ydym, fe 'n credir;
Y Llywydd genfydd y gwir.
Er helaeth Lywodraeth wych,
Er geiriau 'r Gwr rhagorwych,

Fe

Fe, wr eurfawr, o'i wir-fodd,
Fe dderbyn er hyn y rhodd.

Hwy aen', hwy wnaen yn anhy
Neſhau at gynteddau 'r ty,
Taranai 'n Gwr tirionwych
Trwy 'r lawen Ddinas wen wych;
Trwy heolydd tra helaeth
Memphis fawr areulwawr aeth.
Ei olwynion ceinion cu
Rywfaint pan wnaent arafu,
Gwrawl wyr a egorant
Ddryſau tryſorau y Sant:
E ddyglyw pawb, modd eglur,
Drwſt barrau a'r dorau dur,
I'r Ddinas a'i myrddiynoedd,
I'r holl Fyd amlder yd oedd.
Mynych, drwy 'r Wlad ddymunol,
Oddiwrtho, neu atto 'n ol,
Cenhadon cain ehedynt
Ar lêd mor gynted a'r gwynt:
E gadwai 'r Llywydd gwiwdeg
Drefn addas drwy 'r Deyrnas deg.

Fry mae 'n y wen wybren Wawl
Yn nofio 'n gwmmwl nefawl:
Yn gwenu o'r Naf gannaid
Angylion gwynnion a gaid:
Ryfedded yw gweled Gwr,
Hoff anwyl Amddiffynnwr,
Mor enwog am ei rinwedd

A meibion

A meibion rhadlon yr hedd!
Mae enw y Llywydd mwynwawr
Drwy gaerau 'r Nef olau fawr.
Y dydd daw 'r Gwr dedwyddawl
I'ſplennydd geurydd y gwawl,
Ion ei ddirgelion yn gu
Oleugain wna amlygu;
Ein Ior hael ddatguddia 'n rhwydd
Ei arfaeth helaeth hylwydd.
Egored nefawl geurydd!
Bryſied a deued y Dydd!

Tra 'r oeddent hwy, wyr addwyn,
Yn gwneuthur, mewn cur, eu cwyn,
Mewn gofid yn mwyn gyfarch
Gwâs ffraeth y Pennaeth mewn parch,
Y Rheolwr mawr hylwydd
A ddaeth o'i lwys odiaeth Swydd.
Hwy, ger bron y Gwr breiniol,
Wnaen' blygu, dan neſu 'n ol.
Fe ſafodd; edrychodd dro
Yn anwyl arnyn 'ynó:
Ehr y Gwr, o bur gariad,
Ai byw hyd heddyw yw 'ch tâd?
Ai hylwydd, ai iach helynt
Y gwr henwaſoch chwi gynt?

Byw yw 'n tâd, f' Arglwydd mâd mau
Odiaethol, dy wâs dithau.
Gwaraidd o'i flaen y gwyrant,
Ymgrymmu 'n fwyneiddlu wnant.

Juda wareiddiaf a ſi rodd
Yn iſel a ddyneſodd:
Dy wâs, ein tâd, ſy'n deiſyf,
F' Arglwydd gwynn, na boed hyn hyf,
It fwyn dderbyn hyn mewn hedd,
Fe wyla gan orfoledd.

Y Llywydd arni'n llawen
Droe ſerchog drugarog wên.
Wr mâd, ei gennad a gant,
A'i weiſion dderbynniaſant.

Sylwodd, golygodd yn lân
Bryd aranı eu brawd oiriamm,
Ai dyma'r iengaſ?—ei Râs
Duw ro iddo'n ddra addas:
Orhoenus wr, ar hynny
Fe drodd, 'nadawodd i'wo dy.

Meddent, can's hwy welſent wedd
Y Gwr yn llawn trugaredd,
Yn rhyddion oll fe'n rhoddir;
Fe'n profodd, gwelodd y gwir,
Duw anwyl, Tad y wiwnef,
A'i trodd, a'i meddalodd ef.
Oddiyno, tra 'mddiddenynt,
Galwyd, a gwahoddwyd hwynt.
Clywent, rhyfeddent yn fawr,
Y dorau harddbryd eurwawr
Yn egawr mewn mwyn hoywgain
Selyſawl gyſſonawl ſain.

Dwys

Dwys eglurder diſgleirdeg,
A helaeth faintiolaeth têg
Y neuadd ſawr yn awr a wnaeth
Y dynion mewn mudanaeth.
Byrddau a dyſglau diſglair,
Gweiſiòn parodlon ar air,
Ac yno mewn gogoniant
Wyr mawrion a gwychion gant.
Dedwydd hardd Lywydd y Wlad,
Llon, gwrol, llawn o gariad,
Fe ydoedd ddyrchafadwy
Oddiar eu hawddgar lu hwy.
Gwelent e'n rhoi, o'i galon,
Fendith glau ar radau 'r Ion,
A'i law amneidiaw a wnaeth,
A'r gwyr yn ol rhagoriaeth
(Rhyfeddan') eu hoedran hwynt,
Naws diddan, a eiſteddynt.
A lluniaeth ſe a'u llonnodd;
Mwyaf i'r iengaf a rodd.
Cu hynod yw iaith Cana 'n,
Croyw a glwys, ebre 'r Gwr glân.
Dyſgais innau ryw dwyſg-iaith
Anghywraint, rywfaint o'r iaith:
Mae 'n briſiaith, mae 'n bêr hefyd,
Mae 'n berffaith geiniaith i gyd.

Bu 'r brodyr mewn myſyr maith
Pan glywſan' eirian araith
Y Llywydd hardd a llawen,
Iaith eglur, iaith bur dros ben!

Newydd

Newydd ddarfod ciniawa,
Y gweddol ŵr duwiol da
Orch 'mynnodd, o'r rhodd, gael rhan
O ffrwythydd ceinwydd Cana'n.
Dygawdd ei weinidogion
Ar frys y rhai 'n ger ei fron.
Golygodd, fe drodd drwyddynt
Ei law hardd i'w teimlo hwynt.
Ar y gwâr eurawg Wron
Gwnai'r Aiphtiaid, â llygaid llon,
Olygu' fynu 'n fwynwawr;
Troe'r lleill eu golwg tu 'r llawr.
Un o'r rhai'n i'w enau rhodd,
A melys y canmolodd:
Mae yng Nghana'n loywlân lwys,
Bro-dir ail i Baradwys,
Brif-wydd, mi wn wrth brofiad
Aeron melyfion y Wlâd.
Y ceinfwyn Lywydd, canfu
Orfoledd yn eu gwedd gu.
Ar Juda iawndda fwynddyn
Edrychodd, holodd fal hyn:
Bu Gwr glân o Gana 'n gynt,
Hwnnw Abra 'm yr henwynt,
Dros fyrr dro'n teithio'r Wlad hon;
Ni wyddir dim newyddion
Teilwng o'i fywyd dilyth;
Holwyd, ni chlybuwyd byth:
A wyddoch, glywfoch, wyr glân,
Y cu enw y'ngwlad Cana'n?

Abra 'm yw 'r tâd mawrfâd mau;
Haelionus wr, o'i lwynau,
O hwnnw, f 'Arglwydd hynod,,
Yr ym ni 'th weiſion di 'n d 'od.

Aie 'n wir!—Gwr cywir coeth,
Gwr oedd hawddgar goreuddoeth.

Duwiol wr, os grandewi
Ein ffyddlon haneſion ni,
Mawrwyrth am Abra 'm eurad,
Ein henwog odidog dâd,
Fedrwn, y Nêr mwynbêr mau,
Dd'wedyd, a rhyfeddodau.
Y Llywydd arno 'n llawen
Droe fwynaidd anwylaidd wên.
Adroddai Juda drwyddynt
Eu heres hanes a'u hynt.

Dewrwalch, ar eu brawd eirian
Craffodd, golygodd yn lân:
A pha fodd na ddeuodd ef,
Ebr rhwyddlon wr pereiddlef,
I'r daith y chwaith gyda chwi?
Oedd achos c'wilydd ichwi
Rhag ar lêd weled ei wawr,
A glaned ei gu lonwawr?

Y bachgen â'r talcen teg
A wridiodd yn oreudeg.

Ceinlangc, ni ddaeth i'n canlyn,

Fy Arglwydd, o herwydd hyn;
I'n tad ni 'th wâs di, bu dau
O'i hygaraf wraig orau;
A hwn yw un o honynt:
Yr hynaf, hawddgaraf gynt,
I'w ofid toſt, yn ifangc,
I'w frwyn llwyr, a fu farw 'n llangc.
Un adeg hwnnw ydoedd
Ei lygaid, ei enaid oedd;
A hwnnw, f'Arglwydd hynod,
I'w gof ſydd beunydd yn bod:
Dros ei dâd aeth i draws daith,
Ni welodd mo'no eilwaith.

Ai felly fu gyfeilliawn?
Yn wir ni wyddir yn iawn
Yr awr 'on, mewn rhyw orawr,
Nad yw 'n fyw, mae 'r Byd yn fawr.

Gwyddir, f'Arglwydd eurlwydd iawn,
Mwyn Bôr, gwyddom yn buriawn.
———Yn buriawn!—drwy ba arwydd?
———Ein Ior hael, wrth hyn yn rhwydd;
O elynol alanas
Ei wiſg a ddygwyd i'th wâs;
Ei wiwdlos wiſg yn waedlyd;
Ganddo mae honno o hyd.
Geir dwys, gan fwyſtfil gwarrdew
Rhwygwyd, fe larpiwyd gan Lew.

Fodrwyawg wr, fe d'rawodd

Ei

Ei fron hoff radlon, eyffrodd:
Echrydus angau chwerwdoft!
Gwir yw y diftryw oedd doft.

Wylo wnai 'r lleill gan alaeth;
Pob grudd dan gyftudd yn gaeth.

Oes, ebre 'r coeth wr doeth da,
Nemawr pan fu hyn yma?

Mae blwyddau maith; tri faith fydd
O leiaf, f'Arglwydd Lywydd.

A'i dâd, yr y'ch yn d'wedyd
Fod ganddo'r wifg honno 'o hyd?

Ydyw, fy Arglwydd odiaeth;
Yr oedd honno ganddo 'n gaeth
I'w fynwes pan anfonawdd
Dy waelion weifion i'th nawdd.

Hynaws hen wr tirionhael!
Druan o'r gwan hên wr gwael!

Ei eiriau 'r lleill a wiriant,
Eu ficcrhau 'n un enau wnant;
F'Arglwydd dedwydd, mae 'n d'wedyd
Y gwir yn gywir i gyd.

Juda fwyneiddiaf a wnaeth
Wed'yn lefaru 'n odiaeth:
Gwaraidd wyd f'Arglwydd geirwir,
A mwyn iawn wyd i mi 'n wir:
Fi drwyddynt wnaf adroddi

Ein gwaelion haneſion ni.
Bob odfa, drwy bob adſyd,
Mewn ofnus ofalus fyd,
Duwiolaf ddyſg i'w deulu
A roddai'n tâd ceinfad cu:
Pw hil adroddai helynt
Ei dadau, a'r gwyrthiau gynt;
Eu dedwydd warediadau
Rhag creulon wyr geirwon gau;
Y manwl bur orch'mynnion
O oes i oes ro'es yr Ion;
Ar hyn y gwnai'n dichlyn dâd
Ei ddoeth bur goeth bregethiad.
Gweddi ar Dduw trag'wyddawl
A roddai, arferai fawl.
Diwyd ein brawd wrandawai,
Gwrando yn effro a wnai:
Holai, ail holai helynt
Ein tadau, a'r gwyrthiau gynt.
O herwydd, f'Arglwydd, ei fod
Wrth nattur yn bur barod
I 'mofyn a derbyn dyſg,
Cynnyddodd mewn cain addyſg.
I'w dâd rhyfeddod ydoedd;
Mab glân ei hên oedran oedd.
Mae araul fann, mae eurad
Oleufrynn gerllaw ty'n tâd.
Fel y gwnai'th iſel weiſion
Ddyfod i'r Wlâd hyglod hon,
Ein brawd oedd dan ofnau'n brudd,

Rhedai

Rhedai ddw'r hyd ei ddeurudd;
Yr ydoedd yn gariadol
Yn mynych edrych o'i ol.
Gwelodd ei dâd yn gwiliaw,
A bron driſt, ar y brynn draw:
Fe 'n ôl troi fynnai eilwaith;
Nid hawdd y deuawdd i'r daith.
Danodd, tu'r Dwyrain dyner,
Rhodfa ſydd rhwng palmwydd pêr.
Dda wr, amſer a dderyw,
A'i lon fab anwyl yn fyw,
Yn fynych, ddau fwyn enaid,
Hwy yno 'n ymgommio gaid.
Hynod y canent glod glau
Eu deuwedd i Dduw 'r duwiau.
Ar ol ei ryſeddol fab,
I gofio am ei gu-fab,
F'ae'r un fan yn wan ei wedd,
Mawr ſlinai amryw ſlynedd:
Meddyliai y gwelai 'n gu
Ei geinwawr fab yn gwenu.
Deuai yr hên wr duwiol
Oddiyno dan wylo 'n ol.
Ei dra chwerw a'i drwch hiraeth
I'n bronnau ninnau fu 'n aeth.
Meddym, pa le mae addyſg
Sylweddol dy dduwiol ddyſg?
Cofia, wiwddyn, cyſaddef,
Ufudd-dod yw nôd y Nef.
Angau, er dagrau, ni's dyd

Garwr i neb o'r gweryd.
Dy odiaeth fab clodadwy
Ni ddychwel, ni'th ymwêl mwy.
Gwir, meddai 'n bael dâd gwael gwan,
Hynny mi wn fy hunan;
Hynny, a'i doſt ddihenydd,
I'm bron ſy 'n bwys dwys bob dydd.
I mi, tra pery mywyd,
Hyn yw 'm pur gyſſur i gyd;
Er ei gur, drwy drugaredd,
Ei yſpryd, mewn hyfryd Hedd,
Sydd, o fewn Ceurydd Cariad,
Ym monwes Nêr, dyner Dâd.

Gu Lywydd glân goleuwawr,
Gwridiodd, newidiodd ei wawr;
Torrodd ffynnon natturiaeth,
I'w ruddiau 'n ddagrau hi ddaeth.
Deufab, dau fachgen difyr,
Dau ſydd gen innau, gain wyr:
Rhag aflwydd, rhag rramgwydd traws
I rhei 'ny, ſy rhai hynaws,
Rhag hynny, y gwyr ceinwawr,
I'm gruddiau mae 'nagrau 'n awr.

Yn awr fe fawr ſyfyriawdd,
Addwyn wr, am Dduw a'i nawdd.
Sylwi wnai 'r Urddaſolion
Ei gyſtudd, yn brudd eu bron:
Pa eres hanes hynod
Eill hon gan ynfydion fod?

Pa

Pa ryw adfyd, wr prydferth?
Ei holl nattur mewn cur certh!
Pa fodd y dygodd i'w dy
Fyth weiniaid o'r fath hynny?
A gwir, mae'nt fwy o gariad
Na ni Arglwyddi pob gwlad.
Ar ol i'r duwiol wr doeth
Roddi da weddi wiwddoeth,
Cododd, bendithiodd ei Dwr,
Nefol radol Waredwr!

Y brodyr difyr dofion
Roent fawl o hyfrydawl fron:
Mor diriawn, wr mawr dewrwych!
Mor dyner, wr geirber gwych!
I'm Ior pwy a gymmarwn?
Pa gâr mor hawddgar a hwn?
Duw a welodd ein duloes,
A rhyddhâd o'i râd a roes.
Dan groefau diau fod Ion
Yn cofiaw hâd y cyfion:
Twr gwiwdda! y Trag'wyddol
Fydd Dâd i'w hâd ar eu hol.
Eu glân frawd bychan yn bêr,
Dan wenu, dd'wedai 'n dyner;
Ni welais o un alwad
Fath lariaidd wr mwynaidd mâd.
Bryd meddwn deuwn i'r daith
I'w weled ef yr eilwaith?

Carodd y Llywydd cywrain

Pan

Pan ganfu fe 'r cu langc cain :
Ei galon fwynlon, ryw fodd,
Haelionus, wrtho lynodd.
Dirgelaidd draw y galwai
Addas ufuddwas di fai :
Gwelaiſt y brodyr gwaelion
Ar giniaw, a braw i'w bron :
Y cu fâd wâs, cofia di,
Olynol pan wnei lenwi,
Ddodi, a gwnaf di 'n ddedwydd,
Yn ſâch y brawd bâch y bydd,
Cu fwynddyn, cofia, ynddi
Dôd fy nghwppan arian i.

Y da yſtig wâs diſtaw
Ymgrymwodd, ac fe drodd draw.

I Iſrael, gwael fugeilydd,
Pob awr oedd yn ddirfawr ddydd.
Ae 'r gwaraidd hên wr gwiwras
Yn ſynn i'r goleufrynn glâs :
Ei feibion mwynlon eu modd
Yn olaf yno welodd.
Golygai, diſgwyliai 'n gu
Adweled ei fwyn deulu.
Yno oriau gwnai aros,
Hên wr gwael, hyd yn ael nos ;
Heb ſôn, heb arwydd ronyn
O fod yn dyfod un dyn.
Ae 'r gwâr hên wr rhagorol
Yn glaf, yn araf, yn ol.
Pan ddaeth torf helaeth hylwydd,

Y rhai 'n fe wnai holi 'n rhwydd.

Daw 'th feibion gwiwlon i gyd
Yma 'n union, mewn ennyd.
Cafwyd y LIywydd cyfiawn
Yn ſerchus groeſawus iawn:
Yn ei annedd, dan wenu,
Tynerol ryſeddol fu.
Ior glân! mae 'th Deyrnas fawr glod
Yn amryw 'oddiwrth un Nimrod.
Oh addien lawen Lywydd!
Is haul pa gymmar it ſydd!
Ei Deyrnas, mewn cadernid,
Sydd rydd o aflonydd lid:
Gorawr lawn o drugaredd,
Heb arfau, yn mwynhau hedd.
Cariad i'r mwynfad wr mawr
A gyrredd drwy bob gorawr.
Mwy ei urddas na myrddiwn,
Pob graddau 'n ufuddhau hwn.
Seirian yw ei dryſorau,
Amledd yn rhyfedd barhau.
Mae auaf a haf hefyd
Groeſaw rhydd beunydd i'r byd.
Ni wyddir, mae 'n ſynn addef,
P'un yw ei wlad eurad ef.
Gwelir pob tebygoliaeth,
O hon, fro dirion, y daeth.
Yn rhwydd i bawb mae 'n rhoddi,
Fwyn wr, ond cyntaf i ni.
Am rannu mor fwyngu fwyd

Un

Un ail erioed ni welwyd;
Ni welir, wr anwyla,
Fyth un dyn o'r fath enw da:
Ei glod aeth drwy bob gwledydd,
Ei fawl yn anfeidrawl fydd.
Daw 'th feibion, hoywlon helynt,
Yn ol, wyr haeddol, ar hynt:
Maen' eiſoes ym min neſu;
Bydd lon y cyſion wr cu.

Y gwladyddion mwynion mau,
Yn iach weithion i chwithau!
Rhag cyni, i chwi a'ch hâd,
Yn gadarn Duw f'o 'n Geidwad!

Myfyriaw 'n ddiſtaw, yn ddwys,
Gwâr galon, wnai 'r gwr gwiwlwys:
Oh hael odiaeth Lywiawdwr!
Arddorchog ac enwog wr!
Doethwr, Duw a'i bendithio!
Ei heppil yn fil a f'o!
Mawreddog wr, am roddi
Fy meibion mwynion i mi.
Gwelai, 'n ol ei ddiſgwyliad,
O draw lu 'n dyfod i'r wlad:
Yn union ei galon gu
A'i wyneb wnai lawenu:
Fy meibion hoywlon helynt!
Af, trwy ſerch, i'w hannerch hwynt.
Ond fe aeth, yſwaeth ſôn,
I lwyn o'i hên elynion.

Goſynnodd,

Gofynnodd, oh gwae finnau!
P'le weithion mae 'r meibion mau?

Gelyn llawn gwenwyn gwynnias,
Un perffaith mewn gweniaith gâs,
Diras ynfydwas y fall,
Purion ganddo gwymp arall,
Ochneidiodd; gwae 'r modd i mi
Roi 'r hanes i'w rhieni!
Daliodd y Llywydd dilyth
Yn gaethion dy feibion fyth:
A'r iengaf, gwaith rhy angall
A wnaeth drwy fariaeth y fall;
Hwnnw ddaeth i rygaeth rwyd,
Hwnnw i farw a fwriwyd.

Ofnadwy gyfnewidiad!
Hanefion toftion i'w tâd!
Fe ddelwodd, fyrthiodd yn fynn
A'i dal wrth draed ei elyn,
Fal mellten gyflym wyllt-daith,
I lawr ar y llawr oer llaith.
Gwr yno 'n teimlo fel tâd
Lefarodd o hael fwriad,
Gw'radwydd! ac nid gwir ydyw,
Mae 'th gyfion feibion yn fyw!
Ac wed 'yn fe a'i cododd
Mewn ofnus gwynfanus fodd.
Clywen' ei ddi lawen lais,
Duw Abra 'm! pam dadebrais!
Ni wyddai 'r gwr rhinweddol

Beth a wnai dros byth yn ol.
Rhai 'n gwatwor, rhai ae 'n gyttun
Ag ef i'w haddef ei hun.
Golygai, gwelai ogylch
Ei feibion gwaelion o'i gylch:
Ei brudd wynebu 'r oeddynt:
Fe 'u galwai, fe 'u henwai hwynt.

Wrth weled ei galed gur,
Ei ddu alaeth a'i ddolur,
Ei ddagrau hallt, y gwallt gwynn
Yn gaerawg ar ei goryn,
Ei fynych ddwfn riddfanau,
Ac archollion ei fron frau,
Gelynion chwerwon eu chwant,
Maleiſus, a deimlaſant.

Pan y daeth mewn poen i'w dy,
Galar a'i rhodd mewn gwely.
E wêl, mewn cwſg, i'w alaeth,
Ei feibion mewn cyffion caeth:
Fe wêl ddeufab nefolwawr
Yn waedlyd, ar lychlyd lawr:
Tirion eu dwyfron eu dau,
Engyl hawddgar yn angau.
Dan gyſtudd, yn brudd mewn braw,
Rachel a wêl a'n wylaw:
Clafychodd, f'edrychodd dro,
A'i enaid fu farw yno.

Pa dafod gwiwglod a gân

Gyni 'r brodyr o Gana 'n ?
Pa derfyſgoedd oedd iddynt
Pan ddaliwyd, pan holwyd hwynt ?
Ond pan gawd y cwppan certh,
Gwae fron y dynion dinerth !
Modd aſtrus ! oh am ddiſtryw
I'w llyngcu hwy' fynu 'n fyw !
Garw gur ar ol gwir gariad !
Chwerwder ar ol mwynder mâd !
Haws teimlo' eu cyffro a'u cur
Na dilys ddwe'yd eu dolur.
E ddygodd y Swyddogiawn
Y gwyr ar frys i'r Llys llawn,
Yr Ynad mawr eirianwych
Wnai eiſtedd ar Orſedd wych ;
Haccru ennynnu wnai 'wedd
Diriawn yn llawn digllonedd.
Yn ſwrth o'i flaen y ſyrthiant,
Crynu, prin anadlu, wnant.

Codwch,—attebwch,— ai tĝ
Âm bêr fwynder hufendeg
Yw lledrad ?—gwaeth na lladron
Wnai galed hocced fel hon !
I'ch cibddall ddeall ni ddaeth
Fod ynof ddawn dewiniaeth ?

Gwae inni rai drwg annoeth !
Wrth f'Arglwydd dedwydd a doeth
Beth dd'wedwn ? lefarwn ? f'wyr
Rodiad pob drwg weithredwyr.

Gw'radwydd, euogrwydd hagrwawr,
Ein drygau ſy'n olau 'n awr.
Mawr yw'n poen, mawr yw'n penyd;
I'n Harglwydd hylwydd o hyd,
Cur chwerw! oll ſe 'n carcharir
Yn gaethion weiſion yn wir.

Urddaſol dynerol Nawdd,
Ei loyw rudd a lareiddiawdd:
Na' atto Duw i mi wneud hyn;
Ef, Ef wyf fi'n ei ofyn,
Y Llengcyn penfelyn,—Fo
A ddaliwyd yn ei ddwylo
A'r cwppan arian yn wir,
A rhyddion chwi y rhoddir:
Ewch i'ch gwlâd at eich tâd da,
Yn ol i'ch gwlâd anwyla:
Rhyddion mi wnaf eich rhoddi,
Mewn heddwch dychwelwch chwi,

Juda wnai gu neſu 'n awr
At yr Ynad tirionwawr:
Gwelodd ei bêr dymmer da
Yn ei olwg anwyla:
Mawreddog enwog Ynad!
Diau tydithau ſydd dâd:
Gwêl adyn dan galedi,
Wr mawr mâd, can 's tâd wyt ti.
D'amynedd yw 'm dymuniad,
Adolwyn, y gwr mwyn mâd.
Nawdd odiaeth! gâd im dd'wedyd

Un gair, a dyna i gyd!
Y gwâs tau yn feichiau i'aeth
I'w dâd am ei frawd odiaeth.
Am hyn, du elyn dilyth,
Oni 's dygaf, fyddaf fyth.
Os na wêl e'n dychwelyd,
Swrth i'r bedd y fyrth o'r byd.
Minnau 'n brudd, mewn cyffudd caeth
A welaf ei farwolaeth.
Os cyll, naws erchyll yw fôn,
Y ddeufrawd, tyrr ei ddwyfron.
Oh deilwng Arglwydd dilyth
I ti y byddwyf fi fyth
Gaethwas! aed y teg ethol
Wâr langc mwyn ifangc yn ôl.
Oh f'Ynad! derbyn finnef,
Anwyl Ior! yn ei le ef.
P'odd yr af, ni feiddiaf fi
Droi unwaith gan druem.
Adref, rhag braw anfeidrol,
A'm tlawd anwylfrawd yn ol.
Dygaf, os af, gwae fi fôn,
Dygaf fy nhâd i eigion
Trueni,—Wr tirionwawr
Tofturiwch,—i'r llwch, i'r llawr:
Yn union ei benwynnedd
A'n llawn gofidiawn i fedd.

Ond oh! 'r oedd yno wâr ddyn
Hynaws dros bawb o honyn,
Trodd olygon cyfion

Yn fwynion arno 'i fynu ;
Dygn oedd ei grynedigaeth ;
Heb eiriau, ei ddagrau ddaeth
I'w gu ruddiau gwareiddwawr.
O'i ruddiau 'n llynnau i'r llawr.

Golwg a wanodd galon
Yr Ynad harddfad oedd hon ;
Ydd ydoedd ry doddadwy,
Ry feddal i 'mattal mwy.
Llefodd, fe 'u ſoddodd mewn ſann,
Bellach eled pawb allan !
Mewn mawr ſann, pawb allan aeth ;
Odidawg Ynad odiaeth,
Chwerw oedd ofn ei garcharwyr.
Gwnai graffu 'n gu ar y gwyr.
Wr ffraw, a'i ddwy law ar led,
A'i wyneb mor dirioned,
Hyd entyrch codai yntef
Wylofus alarus lef :
Myfi yw Joſeph !—mae f 'ais
Ar dorri tra 'r ymdaerais.
Ai byw hefyd hyd yn hyn
Yw 'nhâd mewn byd anhydyn ?

Hyn a holltodd eu henaid !
Y gwyr mewn gwewyr a gaid.
Gwylder, mawr brudd-der a braw
Trwyddynt ydoedd yn treiddiaw.
Eu dygn ddwfn ſynnedigaeth
Wnai gau pob genau yn gaeth.

Y mwynwr mawr orch'mynnodd,
Mewn hawddgar gyfeillgar fodd,
Chwithau dyneſwch weithian:
Dan grynu dyneſu wnan'.
Mi wn na 'dwaenoch mo'nwyf;
Eich brawd llwyd a werthwyd wyf.
Gwae i'w bron! eu di lon lu
Oedd o'i flaen ar ddiflannu.

Na 'mddigiwch, na ferfwch fod
Y camwedd dros bob cymmod.
Nid chwi, ond Celi, coelier,
Nid chwi, ond ein Tâd ni, Nêr,
Ein graſol, ein nefol Nawdd,
Duw 'n fwyn yma 'm danfonawdd:
A bu er mwyn cadw bywyd
Myrddiynau drwy barthau 'r byd;
Chwithau na 'mddigiwch weithion;
Moler, mawryger yr Ion.

Eu poenau ganfu 'r Pennaeth:
O'i Orſedd eurwedd e ddaeth:
Cuſanai, cofleidiai 'n lân
Ei hynaws frawd ei hunan.
Y gwaraidd langc roi ddwy law
Yn dyner iawn am danaw:
Yna, etto trodd nattur
Yn ddagrau, mal perlau pur.
I'w frodyr, wr hyfrydwedd,
E rodd hael arwydd o hedd.
Yn fwyn arnyn' fe wenai,

Hael iawn-lwr, a'n holi wnai:
Fy nhâd diddan hyd heddyw,
F'Athro, mae ef etto'n fyw?
Y gwyr, rhwng brawdol gariad,
Rhwng gwylder a mwynder mâd,
Rhwng hynod tyfeddod fawr
Yn derfysg, ac nôfn dirfawr,
A ddelwent rhwng ei ddwylaw,
Ymgrymment, bryfient mewn braw.
Y Nefolwawr penfelyn,
Mewn mwyn fodd, waharddodd hyn.
Mor ddedwydd fy mreuddwydiawn!
Hwy ddaethant â llwyddiant llawn!
Duw 'n tadau, Fe 'n ddiau ddaeth
I hylwydd freintiau helaeth
A'i wâs yr hwn ddewisawdd;
Bob amser Nêr a fo'm Nawdd.
Ar ol, wyr moefol, o'u myfg
Darfod eu dyfnfawr derfysg,
Nawfaidd ymddiddanafant
Feddalion hên gofion gant.
Yn llon eu danfon i'r daith
Wnai 'n ol i Gana'n eilwaith.
Yn llawnwych anfon lluniaeth
Pw dâd anwylfâd a wnaeth.
Dewrwyllt gerbydau eurawr
Wnaeth anfon, wr mwynlon mawr.
Ei frodyr, dan hyfrydu,
A ddaethan' i Gana 'n gu.

Ac Ifrael, fu'n mael ei wedd,

Ef eilwaith ga'dd orfoledd:
Ei radlon galon fu'n gaeth,
Mawr alar! 'min marwolaeth,
Tannau eurlwys, tynerlon
Delynau wnaen' fywhau hon.
Canfod, adnabod a wnaeth
Y loyw dêg weledigaeth,
Angylion gwynnion yn Gôr
Anfarwol drwy Nef oror.
Ym maes Lus, wr macfol iawn,
Y gwelodd y llu gwiwlawn:
Yr un wedd eiriau, oeddynt,
F' adnabu a ganfu gynt.
Hyd Yſgol, wele 'n diſgyn
Un gloywbryd, i gyd mewn gwynn!
Ei lwynau mewn melynaur
Wiſgwyd, wregyſwyd ag aur.
Y mawr Ion a'm danfonawdd
A mâd fynegiad o'i nawdd:
Iſrael, fy ngwâs hael hylwydd,
Wr cyſiawn, daw it lawn lwydd:
Ti 'm boddiaiſt, cerddaiſt bob cam
Hyd lwybrau duwiol Abra'm.
Etto 'r wyf yn Dduw itti;
Iſrael ni wnaf d'adael di.
Fel Abra'm, nefol wobrwy
Fydd dy ran, Tarian it wyf.
O'th annedd, wr doeth union,
Na ddos wedi 'r hagr nos hon:
Di gei lon deg lawenydd,
A hynny efory fydd.

Clywodd

Clywodd y geirriau clauar,
Clywodd, a gwelodd y Gwâr
At y pêr nifer nefol
Claerwyn, yn eſgyn yn ol.
Wed'yn, yn llawen odiaeth,
Dadebru, dan wenu, wnaeth.
Mal gwynt o'r dêheubwynt hyll,
Naws arwchwyrn, ar nôs erchyll,
O fry a dery y don,
Rwyga fynwes yr eigion,
Y mawrwynt yrr armôrau,
Yrr draw fyrdd o arw dyrfau;
Yr ewyn yn frigwyn fry
O'r wybren ruthra obry;
A'r corwynt ym mron curo 'r
Creigydd a'r moelydd i'r môr.
Gyda'r dydd daw tywydd têg;
Gloywder yr haul goleudêg
A waſgar y terfyſgoedd
A'u hanwar gref-lafar floedd:
Gwed'yn bydd miwſig adar
Yn llawen drwy 'r wybren wâr;
Bydd Nef a Daear hefyd
Yn gwenu yn gû i gyd:
Yr un modd, wedi 'r ofn mawr,
Enaid y Gwr tirionwawr.
Yn lle prudd-der tryndêr trwch,
Duwiolaf lon-dawelwch.
Mor hawdd, yn llawn mor rhwydded
A throi 'n ddiddym grym ei grêd,
I dawel awel o wynt

Droi

Droi yr haul draw o'i helynt.
Pur odiaeth wr, heb bryder,
Gwnai orphwys ei bwys yn bêr
Ar ſail o werthfawr ſylwedd,
Y Duwdod, mewn hynod hedd.

Y Prydnhawn, y prydnhawn hwyr,
Hoyw lewych, a haul awyr
O'r ddeutu 'n gwenu'n geinwawr
Yn ei ddyfr-ddrych meithwych mawr,
Galwai 'r Bychan gwiwlan gwyl
Yn dyner, ſy nhâd anwyl!
——Fy machgen! ei lawen lais
Yn glauar iawn a glywais.
Ar ol i'w ddedwyddol dâd
Yn bêr waſgu' fab eurâd,
Wed'yn, yn llawen odiaeth,
Simeon i'w ddwyfron a ddaeth.
I'w annedd daeth mewn ennyd
Ei feibion gwiwlon i gyd.
Ar ol cyfarch, mewn parch pêr,
Eu dawnus dâd yn dyner,
Diſtaw hwy wnaent gyd eiſtedd
O'r ddeutu yn gu eu gwedd.
Hwy ar eu tâd, hoyw wyr teg,
A wenent â mwyn waneg:
Yn fâd, yn annhraethadwy,
E wenai 'tâd arnynt hwy.
D'wedent, ba'nd hynod ydyw,
Mae d'arab fwyn-fab yn fyw!
Joſeph, dy fab dewiſawl,
Byw dy fab, mewn byd o fawl!

Ei lawen wedd oleuai,
Rhyfeddu, dan wenu, wnai!

Ac ar yr Aipht, gwir arr yw,
Odiaeth Reolwr ydyw.

Llewygodd, ni feiddiodd fo
I'w galon hynny goelio.
Er hyn, pan ganfu y rhodd,
Efe a lon adfywiodd;
Goleunef a Rhagluniaeth!
Digon yw! a Duw a'i gwnaeth!
Byw yw fy mab, ceinfab ch,
Cariadus, yr wy 'n credu;
Yn ddiau cyn angau af
I'w weled fab anwylaf.

Ae 'feibion a'i wyrion êf
Ar antur lle 'r ae yntef.
Gyd â'u tâd, wr mâd, mudant,
I'r Aipht o Gana'n yr ant.
Byrr feibiant yn Beerfeba,
Ar ei daith, gymm'rai 'r gwr da.
Gwirfodd aberth rhagorfâd
Rodd i'w Dwr, i Dduw ei dâd:
Eirian wr, tra bu 'n aros,
Duw Nêr yn nyfnder y nos
A dd'wedodd, Jacob ddidwyll,
Duw 'r hedd, heb duedd i dwyll,
Duw ydwyf dy holl dadau,
A'th holl feibion tirion tau:

Irwynwr

Fwynwr na ofna fyned,
Cei wen wlad Gosen yn gêd;
Cei ynd fawrwyeh gynnydd;
Tydi heb risedi fydd.
Mi Naf a'th dygaf o'th daith
Yn ol i Gana 'n eilwaith.

Pan ddeffrodd, addolodd ef
Hael enwog Ior y loywnef.
Wr cu gyd a'i deulu daeth
Yn llon i wlad y lluniaeth.
Ei fab, yr hwn o'i febyd
Mwyneiddgu, ni's canfu cyd,
Cywirfab fe'i cyfarfu,
A hynod gyfarfod fu!
Pan welodd, d'wedodd ei dâd,
Fy manwl ddwys ddymuniad
A' gefais! fy mab gwiwfwyn
Tydi a welaf fi 'n fwyn!
Da ragorol drugaredd!
Bodlon af weithion i fedd!

Ei ffyddlon fab cyfion cu
Fwriadodd, dan hyfrydu,
Pa ran roi o'r lydan wlad
Yn haeldeg i'w anwyldad.
Y Noddwr geisiai 'n addwyn
Gennad y Brenin mâd mwyn:
Y Gwr mawr hawddgar i mi
Olynol fu'th haelioni!
Fy nhâd, a'r brodyr mad mau

Pur

Pur weddol wyr, a'u preiddiau,
Daethant i orymdeithio,
A'u bryd yw trigo 'n ein bro.
Didwyll fugeiliaid ydynt,
Gwael eu dyſg a'u galwad ynt.
Pharao'n union a wenodd,
A chennad rwyddfad a rodd.
Goſen yw 'r wlâd a geiſiant;
Gwlad lawen Goſen a gant.

Y newyn du tra bu 'n bod
Ar ddi râs ddaear iſod,
Hwy 'n gain wedd wnaen' gynnyddu
Yn llawen yn Goſen gu.

Ior glân, yn ei lydan Lys
Nefolaidd, yno'n ſelys
I'w dâd a'i frawd y d'wedawdd
Waith gwyrthiol ei nerthol Nawdd.
Addolent Dduw yn ddilyth
Mewn ſiccrwydd o fawrlwydd fyth.

Y liwgar ddaear pan ddaeth
I gnydio yn gain odiaeth,
Tadau, wrth eu byrddau 'n bêr,
Kw dawnus blant yn dyner
Adroddynt helynt eu hoes
A'r enwog wr ei einioes,
Nawdd odiaeth, yn nydd adfyd,
A gynhaliodd, o'i fodd, Fyd.
Oh ei wên hoff lawen fflwch!

Wyneb

Wyneb llawn o dirionwch!
Eu plant, pan glywſant hwy glod
A rhinwedd yr Ior hynod,
Hiraethent na welent wedd
Y Gwron llawn trugaredd.

Aeth Iſrael, wr hael hylaw,
Parchus, yn oedrannus draw.
Ond cyn y dyſyn i'r daith
Na welid mo'no eilwaith,
Wr hael addwyn rhoi lwyddiant
A bendith i blith ei blant.
Gwelodd, pennododd yn awr
Derfyn yr amſer dirfawr,
Yr amgylchiad mawrfad maith,
Goreuber, a'r gwir obaith.
Wedi 'iddo am Silo ſôn,
Deryw ei araith dirion
A'i daith yn yr un dwthwn;
Addolodd, a hunodd hwn.

The Death and Apotheoſis of Joſeph.

Pa alar dwys, pa wylaw?
Pa gyſtudd llwyr brudd a braw?
Ubain drwy lydain wledydd!
Triſthau, hyd angau, mae'r dydd!
Oh alarwiſg haul eurwawr!
Mae'n brudd dan orchudd yn awr!
Cwynaw y mae pob cenedl
Wrth glywed chwerwed y chwedl:
Mae ein Noddwr mwyneiddiaf,
Gwae 'r Byd! o glefyd yn glaf!

Yr hwn i bawb fu'n rhannu
Sydd dan bwys dwys angau du!
Ioſeph anrhydedduſawl,
Hir y rhyfeddir ei fawl!
Ior anwyl, dôd hir einioes!
Oh Dduw gwynn eſtyn ei oes!

Yn Awdwr annewidiawl
Pob rhadau, doniau di dawl,
A'i ddedwydd addewïdiawn,
Mae ffydd y Llywydd yn llawn:
Ar Dduw Ior, mawr Bôr y Byd,
Efe rodd bwys ei fywyd;
Rhodd bwys ei gu-lwys galon,
Yn awr ing, ar ei Nêr Ion.
O Hedd ar adanedd daeth
Gwynnion gennadon odiaeth:
Y Gwr cu, darfu d'yrfa!
Oh wr Duw! haeddaiſt air da:
Ymddattod! mae hedd itti!
Ein brawd, ein hanwylfrawd ni.
Ei galon glyw'r ddirgeliaith,
Oh 'r nefol ddedwyddol daith!
Ei enaid aeth yn union,
Dan wenu, at y llu llon.
Oerlef ſydd drwy'r ddaearlawr,
A llawen yw'r Nef wen fawr.
Oddiar wybrennydd eirian
Mae ceinfad oleuwlad lân;
Is law 'r Nef wen, yſplennydd
Orſeddau y Seintiau ſydd.

Wedi

Wedi alaeth y dulawr,
Eiſtedd, mewn gorfoledd fawr,
Gwynnion luoedd gogoniant,
Yn ol eu rhinwedd a wnant.
Wr dawnus, ar adanedd,
Fe aeth i fyd hyfryd hedd.
Pan ddêl gwr uchel o rym
I'w oedran, gwyr diledryw
O fawrddyſg ddeuant fyrddiwn
I eurwawr Lys rhoddfawr hwn.
Mewn llwyni gerddi gwyrddiawn
Y Bonedd a gant wledd lawn.
Fe welir, mewn gorfoledd,
Yn t'w'nnu yn gu eu gwedd,
Lampau ar gangau y gwydd,
Ail i Sêr, ar lâs irwydd:
I'w plith clywir yn plethu
Gerddorion felyſlon lu:
Fe welir yn Nef wiwlân
Y Lleuad oleufad lân;
Y Sêr mewn anfeſurawl
Bellder, ac amlder eu gwawl:
Lampau glân Nef eirian fawr
Ennynnwyd oll mewn unawr:
T'w'nnant, goleuant bob gwlad,
Hyd fore 'r mawr adferiad.
Fel mae 'r wen Ffurfafen fawr,
Di weli, 'n fwy na 'r dulawr
A'i hynod rwyſg brenhinawl,
Felly mâd geinwlad y gwawl,
Paradwys yr Yſprydion,

Ragora 'r Gaer harddglaer hon.
Llon wlâd yn llawn o loywder
Heb Huan ſeirian na ſêr:
Tywynniad eglurfad glân
O Lys Ior, yn lwys eirian,
Yn araul byſt, yn eurad,
Belydra, oleua 'r Wlad.
Fe welai 'r Sant Nefoliawn
Yn ſerchus groefawus iawn:
Ei fwynwedd drodd i fynu,
Gwnai ganfod (rhyfeddod fu)
Helaeth, uchel, a heulwawr
Gynteddau 'r Nef olau fawr:
Angylion gwynnion gannoedd
Yn amlwg i'w olwg oedd;
Haelionus lu 'r oleunef,
Seraphiaid, Pennaethiaid Nef,
Câd ſiriol felyſol iawn,
Aneirif Delynoriawn
O gaerau y Nef gywrain'
Hedent, diſgynnent yn gain.
Gwenai meibion gogoniant,
A gwir ſerch, ar y gwâr Sant.
Laned, medd plant goleunef,
Wynned yw ei enaid ef!
Croeſaw, ein Câr mwynwâr mâd,
I geurydd nefawl gariad;
Y Gwr mawr ei drugaredd,
Croeſaw i fyd hyfryd hedd!
Ei lu yr Ion oleuodd
I wel'd ei waith, maith yw'r modd:

Duw

Duw Yſpryd goleubryd glân
Wawriodd ynddynt yn eirian.
Filiynau hwy foliannant,
Telynu a nablu wnant.
Eu hawen lon, hoyw iawn lef,
A lanwodd yr oleunef.
Yſprydion cyfion fil cant
A lioſog eiliaſant.
Raphael, Seraph hael ſeirian,
Oedd flaenor y gloywgôr glân:
Moler y mawr Nêr a wnaeth
Gaer dêg y Greadigaeth,
Yr haul glân a'r ſeirian fêr,
A'r nefoedd a'u mawr nifer:
E dd'wettodd, ac o'r ddeutu
Myrddiynoedd o fydoedd fu!
Galwodd y Tâd, o'i râd rhydd,
Ddynion o ddiddim ddeunydd;
Ymwêl a hwynt i'w hamlhau
A graddol drugareddau.
Didolodd Duw o'i deulu,
Ac o'i wlâd, wr ceinfad cu,
Gan addo mawr gynnyddiad
I Abraham a'i bur hâd.
Y dêg addewid wiwgerth
Gyflawnir, yn wir, mewn nerth.
I Gana 'n lon etto 'n ol
E ddaw y Genedl dduwiol:
Yr eigion mawr a egyr,
Trwyddo, heb gyffro, â 'r gwyr;
A'u holwynawg elynion

Dan nerthoedd dyfroedd y don.
Ym mhob tir lle clywir clod
A hanes y dorf hynod,
Dychryn i bob gelyn gau
A gwewyr fydd a gwaeau.
Cyfryngwr a Deddfwr da
Eirianwedd a'u harweinia;
Fe ddwg Ion, er troion trwch,
Ei 'anwyliaid trwy 'r anialwch,
I Gana 'n gwlâd y gwinwydd,
Helaeth etifeddiaeth fydd.
Gwiwfawr Frenin a gyfyd
O Fugail, heb ail drwy 'r byd;
E bryda fwyn barod fawl
Yn ufudd i Dduw nefawl.
Ar ei eurfail glaer Orfedd
Daw Iefu cu D'wyfog hedd,
O'i Ogoniant, Ion gwiwnef,
I lawr, Dduw noddfawr, o Nef:
Fe ddaw o'r Nef i'r ddaear,
Yfprydol drag'wyddol Gâr;
Fe gyfyd oleubryd lu
O ddynion i feddiannu
Gorfeddau golau bu gynt
Deyrnawl Gerubiaid arnynt.
Dan fâd arweiniad yr Ion
Dygir y Gwaredigion,
Fyrddiynau, drwy barthau 'r byd,
I lonfawr nefol wynfyd;
I Gana 'n y Gogoniant
D'od o nerth i nerth a wnant.

Duw 'n

Duw 'n Tâd, a'n Llywydd mâd mawr,
Grymmus haelionus Flaenawr!
Uchel wyd, anchwiliadwy!
Dy ffyrdd ſydd gan myrdd, a mwy.
Pa fawl attebawl i ti
A luniwn Dduw 'r Goleuni!
Am râd gariad rhagorawl
Gweddus a melus yw mawl.

Dyrchafu, dan ganu 'n gain,
I Lys Ior wnai 'r Côr cywrain;
Croyw nifer, ae 'r Côr nefol
I Nef y nefoedd yn ol.
Eu mawl rhagorawl ar goedd
Aeth hefyd i'r eithafoedd.
Yſprydion gwiwlon i gyd
Y Cyfiawn accw hefyd,
Lu eirian, drwy 'r loyw orawr,
A ddyblant y moliant mawr.

Y BEDWAREDD RAN.

DAETH yn ol bendith eu Nêr
I'w llu gynnyddu 'n llawer:
Dan dêg aden Duw Geidwad
Weithian hiliaſan' y wlàd.
Ar ol i'r duwiol wr da
Ddarfod ei hylwydd yrfa,

Cododd

Cododd Brenin gerwin gwyllt
Gwynnias a chenfigenwyllt,
A thrwm y gwnai orthrymmu
Gweiſion y Duw cyſion cu:
Er garw boen, er egr benyd,
Amlhâu wnaen' hwythau o hyd.
Y gaufryd Frenin cyfrwys
Roes orchymmyn dichlyn dwys
I lâdd y bechgyn o lid,
Y gweinion, pan eu genid.
Yn amſer y trymder traws,
Gwraig enwog i wr gwiwnaws
Eſgorodd y waiſg eirian,
Oreulwys, ar fab glwys glân.
Trimis, mewn ofnau tramawr,
Cuddiodd y gwan eirian wawr.
Yn hwy pan na's gallai hon
Gelu ei maban gwiwlon,
Gwnai 'n fwyn, o'r llafrwyn, er lles,
Gywrain gawell cain cynnes.
Dan gudd, hi ac 'n brudd ei bron,
Oreuferch, at yr afon.
Bu 'chenaid a llygaid llaith
I'w fam tra dug ef ymaith
At y lann, ei maban tlws
Anwylwedd, at ſin Nilws.
Yn awr egoryd a wnaeth
Y llwydwawr gawell odiaeth,
Fel y ca'i, cyn b'ai o'r byd,
Un olwg o'i hanwylyd.
Yno 'r gwirion cyſion cu,

Y gwan

Y gwan a gaid yn gwenu.
Hi 'n wael yno a wylodd;
Yn lleſg yn yr heſg hi 'rhodd.
Diweirfam, mewn cur dirfawr,
Gwnai 'mado dan wylo 'n awr.
Ei fwyn chwaer, fun wych eirian,
O draw gaid yn gwyliaw 'r gwan.
Merch y Brenin gerwin gau,
Llawn cyſur, a'i llangcefau,
D'ai ar fyrr y dorf eres
Yn llon at yr afon rês.
Y Wawr hoenus wâr hynod
Golygodd, canfyddodd fod
Rhyfedd gawell yn 'r afon,
O fewn heſg yn y fan hon.
Gwnai morwynion hoywon hi
Ei ddwyn e'n addwyn iddi:
Egorodd, gwelodd y gwan
Teg wawr yn awr yn orian.
Toſturiodd, cynheſodd hon
O gariad at y gwirion:
D'wedodd, Hebread ydyw,
Druan oedd, mor dirion yw!
Ei chwaer (taer yw natturiaeth)
Pan ganfu, dyneſu wnaeth:
Ebe 'r fengain bur fwyngu,
Fy Arglwyddes gynnes gu,
Dêg anwyl, roi di gennad
I geiſio ffraeth fammaeth fâd?
Y radlawn ferch oreudlos
Attebodd a d'wedodd, dôs.

Yn

Yn hoywlon, yn union aeth,
(Gwêl anwyl drefn Rhagluniaeth)
Ac a ddaeth a'r fammaeth fwyn
A moddus, ei fam addwyn.

Ebre mun wâr yn arab,
Cymmer di, mâg i mi 'r mâb;
Am gu ammod mâg immi,
A gwiw dâl gennyf gei di.
Ei dderbyn wed'yn yn wyl
I'w monwes wnai 'fam anwyl.
Afieithus aeth i faethu
Ei llon fab, a llawen fu,
Hwnnw Moesen a henwyd,
Am ei godi o'r lli' llwyd.
Pan ddaeth i faintiolaeth teg,
Wrth rodio aeth ryw adeg
At ei frodyr, gwladwyr glân,
Di nawdd, mewn byd anniddan:
Gwelai Aiphtwr, gwr gerwin,
Yn atgas mal bleiddwas blin,
Yn taraw gwr mwyn tirion,
Ei gywir frawd, ger ei fron:
Llidiodd wrth yr hyll adyn,
Trywanodd, holltodd am hyn.
E ffodd y gwr hoff addwyn
Rhag tramgwydd, rhag digwydd dwyn.
Ei santaidd einioes yntau
Gan greulon wyr geirwon gau.
Teithiodd, trafaeliodd o'r fan
At wr mâd i dir Midian.

Moesen

Moeſen gu, bugail fu fo
Mewn hawddfyd ennyd yno.

Plant Iſrael, gan drafael draw,
Wyr gweinion, wnaen' oer gwynaw:
Dda hil, mawr oedd eu halaeth,
Eu llef myn'd i Nef a wnaeth.
Yn glau yr Ion a glywodd,
Gwrandawiad, o'i râd, a rodd.
Ar ſiriol hyfrydol frynn,
Fe, y gwyldddoeth fugeilddyn,
A welai lâſberth wiwlwys
Yn fflam dân goleulan glwys.
Y loyw dêg weledigaeth
Ei dirion wedd i droi wnaeth.
Gweuadawg dân gwiw ydoedd,
Heb ail, difa 'r dail nid oedd.
Tra bu 'n rhyfeddu yn fawr
Yr Olwg lwys areulwawr,
O'r danllyd berth, yn gerth gu,
Haelaf Ior wnai lefaru;
D'wedodd, Duw dy dâd ydwyf,
O'r fflam, ſef Duw Abra'm wyf.
Y dedwydd wr mâd odiaeth,
Efe 'n awr ofni a wnaeth:
E guddiai 'rywiogeiddiaf
Wedd gu rhag wynebu Naf.

Fy ngweiſion gwaelion gwelais.
Caled yw lludded eu llais:
Du gerydd meiſtraid geirwon

Sy 'n

Sy 'n gyſtudd rhy brudd i'w bron.
I dêg rydid gwaredaf,
A'r Aipht yn angraifft a wnaf.
Dygaf i le diogel,
I wlad llaeth a mammaeth mel,
I le o fawr lifeiriant;
Mewn hedd digonedd a gant.
Tyred y mwynwr tirion,
Gwnaf di, eleni, i lon
Ryddhâu o'u cadwynâu dwys
Y cu wâr-lu cywirlwys.

Yna Moeſen addien wr
A dd'wedodd, oh Dduw Awdwr!
Gwaela 'ydwyf drwy 'r gwledydd,
Pwy wyf fi i'w rhoddi 'n rhydd?
Yn union yr Ion, o'i râd,
Wir Dduw, a roi addawiad;
Yr ydwyf Fi 'n Waredydd,
Gyd â thi Myfi a fydd.

Oh 'm Creawdwr! ni 'm credant;
Yr wyf fi 'n ofni na wnant.

Tafl i'r ddaear liwgar lân
Yn awr dy wialen eirian.

Fe wnaeth; yn Sarph aeth; fe ffodd;
Ei ſafn echrys a ofnodd.

Ebre Nêr, cymmer, wr cu,
Yn y fan hon i fynu.

Ar

Ar air Dofydd, ddedwydd ddyn,
Yn yſtig ſe wnai eſtyn
Ei lloſgwrn â'i ddwrn; hi ddaeth
Yn laſwen wialen eilwaith.
Rhoi 'r Arglwydd arwydd arall
I ſefydlu 'r gwr cu call.
Ond er hyn ni fyn fyned,
Naws rhwydd ei dafod ni's rhêd.
Dduw Ior, anfonodd A'ron
Ei eirian frawd o'r un fron,
Pur wiwdlws wr parod-lef,
I eglurhau 'eiriau ef.
Cymmer â'th law dyner di
Y wialen hon a weli;
A hon i'th law dirion dau
Yn nerthol di wnei wyrthiau.

A hwythau, yn hy' weithian,
I'r Aipht eu deuwedd yr ân.
Yno 'n wâr yr Henuriaid
Ger bron, heb galon, a gaid;
A'ron a draethodd eiriau
Mawrbwys yr Ion glwys yn glau:
E roddodd yr arwyddiawn,
Gorfoleddu wnai 'r llu llawn:
Gwelent, ac yn un galon
Molent, mawrygent yr Ion.

Pa wledydd y ſydd heb ſon
Am eres wyrthiau mawrion
Moeſen a'i frawd cymmen cu,

Hanes byth ni wna henu.
Y gwr llon yn eon aeth
A'i dirion gennadwriaeth
At y Brenin blin i'w Blas;
Y Balch, y Dewrwalch diras,
D'wedai, pwy yw y Duwdawd?
Holai a gwenai mewn gwawd.
Y gwr ni roi 'n ddigerydd
Hâd Iſrael, wr hael, yn rhydd.
Ger eu bron A'ron eirioes
Cyflawn arwyddiawn a roes:
Tra enwog wr tirionwawr,
Ei wialen laſwen i lawr
A daflodd: hi drodd drwyddi
Yn Sarph echryſlawn ei si.
Galwai 'r Brenin blin am blaid
Hudolion; hwy a diawliaid
Annwn yn hyn a unant,
Seirph brithion eon a wnant:
Siënt, dolennent hyd lawr;
O fyſg fath derfyſg dirfawr
Diawlig, ffoi wnai 'r hudolion,
A braw yn brydiaw 'n eu bron.
Sarph A'ron y Seirph ereill
Orchfygodd, llyngcodd y lleill.
Y Brenin, Reibiwr annuw,
Ni chrêd weiſion doethion Duw:
Mewn mawr lid, rhyddid ni's rhodd,
Gwael adyn ymgaledodd.
Daeth y gwyr odiaeth eu gwedd
Drannoeth at y Dirinwedd.

Wyr

Wyr mâd, ar archiad yr Ion,
Hwy roddent eu harwyddion:
Drwy 'r Aipht yr holl ddw'r a drodd,
Yn waed yr ymnewidiodd.
Daeth cenfaint llyffaint a llau
O fewn eu holl derfynau.
Yn blauau daeth heidiau hyll,
Oerchwith gymmyſgbla erchyll.
Haint ar 'nifeiliaid hwyntau,
Cornwydion i'r gweiſion gau.
Ar ol hyn daeth dychryn dwys,
Agwrddawl gerydd garwddwys;
Cenllyſg, terfyſg y tyrfau,
Mellt cochion gwylltion yn gwau.
Ar archiad yr Ion mâd mawr,
Ei gu rwyddwas gwareiddwawr
Eilwaith a drodd eî wialen
Wyrthiawg, modd bywiawg, uwch ben:
Y Dwyreinwynt ar unwaith,
O bob goror o'r môr maith,
Ddaeth â haid locuſtiaid certh,
Bradfawr, drwy 'r awyr brydferth,
Drwy wlâd Ham ar lêd a hyd
Yn unllu mawr newynllyd:
O ryboeth wlad Arabia
Yn dryfrith i'w plith daeth pla.
Golwg o'r wlad ni's gwelir,
Cuddiaſant, toiſant y tir.
Ei wialen fe drodd eilwaith;
O ffwrn o fwg Uffern faith
Anferth dewdrwch d'w'llwch du

Am y wlâd wnâi ymledu:
Gau dorf ddoi'n y mwg dirfawr,
Llu pygddu y fagddu fawr.
Yn d'w'llwch du y bu 'n bod,
Drwy y Deyrnas, dri diwrnod.
Dudew garchariad ydoedd,
A du gylch teimledig oedd.
Ni welai neb un olwg,
Nid ant, ni's meiddiant, drwy 'r mwg.
Ellyllon creulon eu cri,
Yr oeddynt yn chwerw weiddi.
I'r dynion dybryd enwir
Buont hwy 'n ofnadwy 'n wîr.
Y Brenin, mewn goflin gûr,
Rhywioglon awyr eglur
Ddeifyfodd:—galwodd y Gwr
Dedwydd ar enw Duw Awdwr:
Ae'r ffyrnig dorf uffernol,
Chwerw nâd, i'w Carchar yn ol.
Hael fwyndeg hil y fendith,
Wyr da, ni bu pla i'w plith.
Yr hyfr anwar o Frenin,
Ei ryddhâu o'i blauau blin
Pan gafai, rhyfygai 'n faith,
Swydd wael, droſeddu eilwaith.

Ebr Ion wrth ei union wâs,
Iddynt rhoddaf goſp addas;
Dilys Myfi a dalaf,
Rhoi Barn faith un waith a wnaf.
A Moeſen, wr grymmuſawl,

I weiſion

I weiſion digllon y Diawl
A draethodd farn gadarn gaeth,
Diogel daledìgaeth:
I'w gu wladwyr, gwiw loywdaſg,
Trefnodd, darparodd y Paſg.

Dunos fuḍ pan ſymmudai
Yn ei chylch dirfawr yn chwai,
Gair enwog Duw 'r gwirionedd,
Araul iawn arwrawl wedd,
O'i orſedd oleuwedd lân
Anfarwol, o'r Nef eirian
Diſgynnodd, lladdodd o'u llu
Filoedd am wrthryfelu.
Ni âd gyntaf—anedig
O honyn heb derfyn dig.
Drwy ddirfawr barch i'w archiad,
Gan feibion tirion Duw Tad,
Iawn lwyddiant, oen a laddwyd
Yn yſprydol fywiol fwyd.
Y man yr oedd mwyn ruddwaed,
Arbedai lle gwelai 'r gwaed.
Creulon hudolion diawlig,
Iddyn' y daeth dychryn dig.
Llwyra coſp, ca'dd llawer cant
Ddu loes na feddyliaſant.
Dywedent, gwaith Duw ydyw,
Diau na fydd dyn yn fyw.
Pharao, mewn cyffro, mewn cur,
A'i ddeiliaid mewn mawr ddolur,
Anrhegent, gyrrent y gâd

Lawenlwys o'u mileinwlâd:
I'w taith pryſurent hwythau
A'r gwawl yn ſiriawl neſhâu:
Yr hoywddydd draw mewn rhuddaur,
A phennau 'r mynyddau 'n aur.
Miloedd a myrddiynoedd ant,
Mewn rhydid mwyn y rhodiant.
Hwn ydyw 'r dydd hynodol
Ni chaid un enaid yn ol.
Mewn braw 'n ol eu 'mdawiad
Bu 'n ſlin y Brenin llawn brâd;
Llidiodd yr angall adyn
Yn ebrwydd o herwydd hyn.
Cododd, arfogodd fagad
O wrol wych wyr eu wlâd,
A meirch diheſeirch eu hynt
O'i gaerau;—mal chwyrn gorwynt
Cerbydau ac arfau gant
Drwy'r awyr draw a ruant;
Torf waſgar yn terfyſgu,
Cynddeiriawg olwynawg lu.
Sur olwg i'r Iſraeliaid
Pan ddaeth yr anhyfaeth haid!
O'u blaen y môr heb lonydd
Yn rhuo, yn fwnio ſydd;
Ar eu dwy law draw yn drwch
Niwlog anferth anialwch;
Du ing, heb le diangol!
A phlaid yr Aiphtiaid o'r ol.
I'w myſg bu derfyſg dirfawr;
B'le 'r ant ni wyddant yn awr.

Daeth

Daeth Moeſen o nen a nawdd,
Cu wâs Ior fe' u cyſſurawdd.
Ymneillduai, galwai 'r Gwr
Odiaeth ar Dduw Waredwr.

Arnaf Fi, ebre Nef Ion,
Yr anwyl fwynwr union
Pa'm y gweiddi, ſefi 'n ſynn?
Dod addyſg, dywaid iddyn
Yn Nuw am fyn'd yn eon
At y dorchawg dyrfawg don:
Ac â'th wialen geinwen gu
Yn hynod gwna wahanu
Y tonnau 'n rheſtrau, ar hynt
Treiddied f'anwyliaid rhy'ddynt.

Arweinydd, Llywydd eu llu,
I'w gwiwlawn ddiogelu,
Goleunawdd, da Ragluniaeth,
I wahanu 'r ddeulu ddaeth.
Didawl ryfeddod ydoedd!
I blaid yr Aiphtiaid yr oedd
Yn gwmmwl dyfnddwl a du,
Yn d'w'llwch blin i'w dallu:
Er hyn, liw nos, wrth eu rhaid,
Rhoi olau i'r Iſraeliaid.
Moeſen, â'i wialen, wnai wyrth,
Nerthol anfarwol fawrwyrth.
For ufuddol, i'r fyddin
Egor, oh fôr, egor in!
Ar eu dwy law draw ſe drodd,

Ar unwaith yr ymrannodd
Y môr coch mal muriau certh;
Y nefol fyddin wiwferth,
Gwârddoeth feibion y gwir-Dduw,
Aethon hyd ffyrdd dyfnion Duw.
Dewr fryd ae 'r dorf ruadwy
Mewn llawn llid i'w herlid hwy.
Liw nos hwy erlynafant;
Trwy 'r nos ddu nefu ni wnant.
E lynodd eu holwyniawn
Yn nyfnder y lleithder llawn.
A charnau meirch, chwyrn eu modd,
Y tir danynt y torrodd.
Llu'r un Duw, yn llwyr iawndeg,
A ddaeth yn wir i'r tir teg.

Gan yr oriau dorau 'r dydd
Egorwyd, a thrwy geurydd
Y Dwyrain gywrain, y gwawl
A fwriwyd yn llifeiriawl.
Moefen, a'i wialen wiwlwys,
I dorfoedd y dyfroedd dwys
Rhoes arwydd;—o f' Arglwydd faint
Yw 'th lawn gyfiawn ddigofaint!
Y muriau dw'r mawr a dorrant!
Ymaith ar unwaith yr ant!
Rheieidr fyrddiwn yn rhuaw
Yn eirwon yn drymmion draw!
Gwae 'r Aiphtiaid! eu henaid hwynt
Anhwyliodd yn eu helynt!
Weithion o'r eigion b'le 'r ant?

Chwerw

Chwerw nos! hwy ddychrynaſant!
P'le ffoant? yr ant o rym
Y dw'r, erlidwyr dirym?
Du ofnent ferw y dyſnfor,
Derfyſgoedd mawrfloedd y môr.
Gan y ſwn, eu gwan ſynwyr
Y llu a gollodd yn llwyr.
Tonnau 'r môr côch, crôch eu cri,
Yn yrroedd, yn aneiri,
Mal gerwin ddwy fyddin fawr
Mewn cynnwrf o dwrf dirfawr,
Iſawd hwy orchuddiaſan'
Pharao a'i lu wrth ffoi 'r lan.
Ac 'r dorf i'w chartref dirfawr,
Gan myrdd, yn yr eigion mawr.
Ar ol y fuddugoliaeth,
I'r Duw mawr yn awr e wnaeth
Moeſen ganiad grymmuſawl,
I'r Nef aeth mwynlef eu mawl.

Ond hwy, er cynnorthwy Naf,
A'i hir gariad rhagoraf,
Er hyn yn erbyn ei wâs
Hyll dyrrent yn llu diras.
Y cyfion Dduw ni's cofiant,
Terfyſgu, grwgnachu wnant.

Doi 'r dorf at odre dirfawr,
Yn eu taith, Sinai faith fawr.
I Foeſen fâd archiad oedd
I'r llu ofalu 'n filoedd

Dyfod

Dyfod i gwrdd a Dofydd,
Pennodai, d'wedai y dydd.
Odiaeth wâs Duw Bennadur,
Er pan ddaeth o dan gaeth gur,
Deg o ddyddiau a deugain
Ydoedd rhif y dyddiau rhai'n.
Bu'r dorf, am eu bâr dirfawr,
Mewn ſyndod rhyfeddod fawr.
Hwy welent Sinai wiwlan
Yn lloſgfa 'n difa gan dân!
Cau wnai cymmylau y mwg
Y gwawl a'r Nef o'u golwg!
Mellt tanbaid a gaid yn gwau
Ar unwaith a tharanau.
Sain yr Utgorn ar Sinai
Y Nef i grynu a wnai!
Y ſeiliau mawr iſelaf,
Crynent, a dwfn-ofnent Naf!
Y fyddin wnai ryfeddu,
Ofn gerwin i'r fyddin fu.
Hwythau glybuont weithian
Eiriau mewn tyrfau o'r tân.
Gorch'mynion cyfion Duw cu,
Tra ethol, gaent eu traethu.
Y dyrfa, mewn ofn dirfawr,
Yn ol a giliodd yn awr.
Mewn ofnau, a'u bronnau'n brudd,
Deiſyfent i'w wâs ufudd
Wrth eu llu lefaru'n fâd
Wïr enwog eiriau 'r Ynad.
I'w Dofydd, rhag eu difa,

Rhag

Rhag llid, gwnaent addewid dda.
Neſau wnai yntau yn awr,
Diweirfab, i'r mwg dirfawr.
I fwynlef ei gyſiawn-lu
Yr Ion yn fodlon a ſu.
Tyred, ebre 'r Ior tirion,
I fynu 'n hyf i'r fan hon.
Dwys ofnai 'r gwr dewiſaf
Burdeb-preſennoldeb Naf.
Helaeth Orch'mynion hylaw
Ar ddwy lêch roi Dduw o'i law
I'r didwyll fwynwr dedwydd
Yn gain ym mhen deugain dydd.
Cyfreithiau a deddfau da
Cyſion ro'es Ion ar Sina;
A llun y Babell anwyl,
Gywir a gwych, i'r gwr gwyl.
O lùniaeth plant y loywnef
Fe'u porthawdd, o'i nawdd, o Nef.
Er i Dduw Nef roddi'n awr
I'w dyrfa roddion dirfawr,
Y dyrys Bechaduriaid
Er hyn yn gyndyn a gaid.
Ni chredan' cant Gana'n gu,
Ddaionus, i'w meddiannu.
Eu hannedwydd Gennadon
Roent air anfad i'r wlad lon.
A'u trwm groeſineb tramawr
Hwy dynnan' lid Ion i lawr.
D'wedodd y Barnwr didwyll;
Eiſiau ffydd addas a phwyll,

Ni

Ni welwch, ni chefwch chwi
Gana'n am eich drygioni.
Y geiriau a gywirwyd;
Drwy'r Anialwch llwyrdrwch llwyd,
Ddigoll flynyddau ddeugain,
Crwydro a rhwyſtro bu rhai'n.
Traws oedd tyrfa 'r troſeddwyr,
Diflannu wnaeth eu llu 'n llwyr.

Moeſen, min diben ei daith,
I'r gwyr d'wedai ragorwaith
Yr Ion a'i Orchm'ynnion mâd,
Mawr gerydd, amryw gariad.
E ddiweddodd yn ddiddan
Ei fywyd i gyd ar gân.
Canfu 'r gwr mâd y wlad lwys
Buredig, ail Baradwys.
Wr glân, dan law Rhagluniaeth,
Huno ar Nebo a wnaeth.

Wel daccw y wlad fad fawr
Gywrain enwog ei gorawr.
Y loywdeg Afon lydan,
Ddofn lif, yw'r Iorddonen lân.
I'r gwâr-lwys fwyn gywir-lu,
Pwy fydd yn Llywydd i'w llu?
Dan Ioſua, dawnus wr,
Caredig lu 'r Creawdwr
Ant weithian i Gana'n gu,
Fro odiaeth, dan hyfrydu.
O flaen y dorf lawenaf,

Eurwych

Eurwych Nawdd, yr aeth Arch Naf.
Iorddonen ffraw draw a drodd,
Ei hunan ymwahanodd.
Y fyddin a ryfeddant;
Drwy barch gyd a'r Arch yr ant.
Aeth i'r lann, drwy lydan lif,
Fannerawg dorf aneirif.
Caerawg Drefydd y Cawri,
Er cymmaint eu braint a'u bri,
Wrth floedd da luoedd Duw lwyd
Diau fyth fe'u difethwyd.
Y ddiwael wlâd addawodd
I'w weifion, yr Ion a rodd.

Wedi hwn, gwâs Duw hynod,
Y gwyr îs Barnwyr fu 'n bod.
Nid i'w graſlon dirion Dad,
I ddelwau rhoent addoliad.
Dwl ddilyn delw addoliaeth,
Gwnai hyn i'w Gelyn hwy 'n gaeth.
O'u poen ddwys, pan waeddaſant,
Rhyddhau eu gyddfau a gant.
Aent yn ddyrys, mewn blys blin,
Heb rinwedd, eiſiau Brenin.
Duw a lawn anfodlonant,
Yn ddygn iawn ei ddigio wnant.
Ynfydion dewrion dyrys,
Cai 'r fyddin Frenin ar frys.
Er bod eu mawr bechodau,
Eu ffyrdd diffaith, a'u gwaith gau,
Ni wedir, yn ofnadwy;

Ond er hyn, o honyn' hwy
Codai Nêr, i'w fwynber fawl,
Rai gwyr o ddawn ragorawl.
Un oedd yn ol calon Naf,
Am hynny mi a'i henwaf.

Pan ydoedd byddinoedd Ion,
Filoedd mewn mawr Ryfelon,
O gylch ar eu hamgylchu
Gan greulon elynion lu:
Y ddwy fyddin erwin oedd
Allan o'u certh werſylloedd:
O'r brynn i'r dyffryn y daeth
Garw gawr, gwr o ragoriaeth.
Y gwrol enwog Arwr,
Goliäth o Gath yw 'r gwr,
O flaen y Cawr aflonydd
Tarianog wâs arfog ſydd.
D'wedai 'r Dienwaededig
Mewn mawrchwydd llidiawgrwydd dig,
Ond gweiſion aneo'n y'ch?
Sâl wladwyr i Saul ydych?
Glywodd neb am Goliäth?
Myfi wyf o Gawri Gath.
Ac yna od oes gennych
Wr nerthol gwrol a gwych,
Anfonwch; ef a m'finnau
Yn dêg ymladdwn ein dau.
Y gwr mewn arfau a gyll
Yr orcheſt a'r frwydr erchyll,
Yn gaeth boed cenhedlaeth hwn

I'r

I'r doethweilch êl â'r dwthwn.
Mawr fawl gaf am ryfelu,
Neb ail mewn arfau ni bu.
Gwrid yw iddynt, gw'radwyddais
Eu llu â tharan fy llais.

Wrth glywed, gweled y gwr,
Wrth eiriau y certh Arwr,
Y Brenin a'i fyddin fawr
A darfent mewn ofn dirfawr.
Trwy eu miloedd nid oedd dyn
I'w gael wynebai 'r Gelyn.
Hir g'wilydd (chwarddai 'r Gelyn)
I holl wyr Iſrael yw hyn.
Mal hyn y bu 'r Gelyn gau,
Wedd addig, amryw ddyddiau.
Cry elynion creulonwawr,
Gwnaent wledd mewn gorfoledd fawr.
Ennyd credai 'r Dorf annuw
Mai nid Ion, Dagon yw Duw:
Diwegi mawr yw Dagon,
Digymmar uwch Daear don.

Er trwſt blin y fyddin fall,
Duw Ior ni âd i arall
Ei gu Enw a'i Ogoniant;
I'w ſyndod gwybod a gant.

Hawddgar Fugail gwâr gwrawl,
A'i gain wedd fal y gwynn wawl,
Trwy wrês a thrwy dês y dydd
Y dethawl gu Ymdeithydd

A ddaeth; pan gyrhaeddawdd o,
Gwâs Ion, yn agos yno;
Yno, rhwng y byddinoedd,
Bloeddiadau, trwſt arfau oedd.
Y duwiolaf wr dilys
Gyffrodd, ſe redodd ar frys;
Fe redodd at ei frodyr,
Drwy barch, i gyfarch y gwyr.
Arſwyd oedd drwy 'r holl werſyll;
Yr Anwar anhygar hyll,
Y Cawr yn ſwnfawr y ſydd,
Ail i fôr ei leferydd.
Dyfal draethai ei dafawd
Greulon fygythion a gwawd.
Wele! medd yr Iſraeliaid,
Bob dydd, i'n c'wilydd, y caid
Gwr diddawn i'n gw'radwyddo,
Ein llin, ein Brenin, a'n bro.

Y gwr a ddaeth o gariad
At feibion ei dirion Dâd,
Mewn nefawl ryfeddawl fodd
Yn union yr ennynnodd;
Pwy yw 'r Andras, drygwas draw,
Heb ludded ſydd yn bloeddiaw
Caeth w'radwydd ac athrodion
Cyhoedd i fyddinoedd Ion?

Ei wladwyr, heppil odiaeth,
Yn brudd gan gyſtudd yn gaeth,
A dd'wedent, oh Dduw Awdwr!

Ein

Ein Ceidwad, ein Tâd a'n Twr!
Y mawr Gawr am ragoriaeth,
Garw fraw i'n gw'radwyddaw daeth:
Gw'radwyddwr, bradwr ein bro,
Llwyddiant i'r ſawl a'i lladdo.

Pa wobr addas geiff gwâs gwych
A guro 'r Cawr rhagorwych?
Yn rhwydd a hael wna 'n rhyddhau
O ddidawl w'radwyddiadau?

Attebent hwy, gwobrwy gwych;
Y gwr geiff Ferch ragorwych
Y Brenin o bur rinwedd
Yn hyfryd i gyd ei gwedd.
Ty ei dâd, ſef holl hâd hwn,
Yn rhydd nyni a'i rhoddwn.
I'r gwr a wnelo 'n gwared
Mawr yw 'r fael, nid gwael y gêd.

Mi wn, drwy gymmorth Duw mâd,
Mi awn, pe cawn ond cennad,
Er arfau 'r gwr gweryr-fawr,
Mi wn y curwn y Cawr.

Cennad lon yn union aeth
A'r ſiriol negeſwriaeth
At Saul, ac yntau y ſydd
Galonnog o lawenydd:
Yno deiſyfai 'n union
Y gwr ar frys ger ei fron,
Yn awr drwy 'r fyddin fawr faith

Yr hanes ac ar unwaith;
Odiaeth o newydd ydoedd,
Y llu 'n wir yn llawen oedd.
Golygan' yr eirian wr,
Nerthol rinweddol Noddwr.
Helaeth ydoedd ei hoywlun,
A pherffaith lanwaith ei lun.
Tew i'w iâd ei wallt ydoedd,
Modrwyawg ac eurawg oedd.
Ei wyneb hardd, pan wenai,
Oedd lanach mwynach na Mai;
Os haccru, ennynnu wna
Un ffunud a'r Gorphenna'.

Y Gelynion trawſion trwch,
Blin oeddent heb lonyddwch:
Terfyſgent, gwaeddent, mae 'r gwr?
Mae 'r eres a'r mawr Arwr?
Os ydych heb aiſwydo,
Dewiſwch, anfonwch fo.
Y Cawr, drwy 'r Dyffryn mawr maith,
Bloeddiai ynfyd gableddiaith:
D'wedai eiriau nad ydyn'
Oddefol i dduwiol ddyn.

Y ſiriolwawr Iſraeliad,
A'i fonwes am lês ei wlâd,
Llanwyd ef o ddigllonedd,
Ennynnai, newidiai 'wedd.

Yr anwvl fwynwr union.
Gwâr bryd, pan ddaeth ef ger bron,

Yn

Yn dêg, mewn parchedigaeth,
Ymgrymmu, dan wenu, wnaeth:
Oh Frenin o fawr rinwedd!
Yn hir boed it fyw mewn hedd!
Na lwfrhaed, ac na wnaed neb
Grynu rhag ei hagr wyneb.
Dy wâs a â, dewis waith,
At y gwr taeog araith,
Er geiriau 'r gorwag Arwr,
Mi af, mi guraf y gwr.

Saul, dros ennyd, a ſylwiodd
Ei faint, os caid wrth ei fodd.
Yr wyf yn gwel'd, wr ifangc
Glwys lun, nad wyt ond glâs langc:
Dy 'wyllys, mae 'n hyſpys hyn,
O'r gwawl yw curo 'r gelyn.
Tydi ni's gelli; mae 'r gwr
Mawr ei fawl, mae 'n rhyfelwr
O'i febyd; ni chaf obaith;
Hawdd gwybod gormod yw 'r gwaith.

Y mawrion enwogion wyr,
Gwrawl ardderchog arwyr,
Diyſtyrent wâs tirion
Yr enwog trugarog Ion.
Gwnaen' draethu, os gallu gwr
Lwyddai 'n erbyn 'r Ymladdwr,
Fod ganddynt hwy wyr mwy maith,
Gwrawl ym mhob rhagorwaith,
Filoedd o hên Ryfelwyr,

Cryfach

Cryfach ac amgenach gwyr:
Di fudd ydyw dy feddwl,
Gâd ymaith dy obaith dwl.

Y gwr mâd hawddgar a mwyn
Iddynt ymgrymmai 'n addwyn:
Dy wâs bugail defaid oedd,
Fy Ior mâd, i'w dâd ydoedd;
A llew ac arth hyll eu gwedd,
Diau daethant eu deuwedd,
Ac o'r praidd, lledradaidd dro,
Oenyn aethant oddiyno:
Ni's ofnais un o'u ſafnau,
Rhedais, mi ddeliais y ddau,
A'r oen gwan, druan, o drais
Eu dannedd mi a dynnais.
Y llew, mewn digter a llid,
Lladdai fi, oni 's lleddid.
Er bod ei nerth mor gerthfawr
Ac ydyw nerth certh y Cawr,
Y melynlwyd mileinlew
Orchfygais, lleddais y llew:
Y gwir i gyd yw 'r geiriau,
Dy wâs a'u lladdodd eu dau.
Felly 'r Cawr, dirfawr ei dyb,
Y gau ffwl fydd gyffelyb.
Pa fodd? a gablodd y Gwr
Di grêd lu Duw Greawdwr?
Pa fodd rhyfygodd ei fin
Feiddiaw 'r ardderchog fyddin?
Fy Ion! geiff ef fyw unawr!

Mi

Mi af, mi lladdaf i'r llawr!

Oh! yr addfwyn wareiddfab!
Dos yn ddi 'maros fy mab!
Agwrddawl wâs y gwir-Dduw!
Yn union dos yn enw Duw!
Y Brenin, mewn modd breiniol,
Ei nawdd ni 'adawodd yn ol:
Arfogai, gwiſgai y Gwr
A'i lurig yn loyw Arwr.
Pan brofodd, ni fedrodd fo,
Wâs mâd, yn hon ſymmudo.
Dioſcodd, d'wedodd, nid yw
Reidiol, gorthrymder ydyw.
Duw mawr a fydd blaid i mi,
Yn gymmorth enwog immi.
Cymm'rai 'r ieuangc geinlangc cu
Ei ffon i'w amddiffynnu,
Cododd, e gymm'rodd y Gwr
Gwiwlwys, mewn côd bugeilwr
O ffrwd redwyllt yn ffrydiaw,
Bum carreg lyfndeg â'i law.
Yr Huan eirian eres
Yn llon ſy'n danfon ei dês
O entrych y Nef wych wen
I luoedd Daear lawen.
A'i dirion lygad eurwawr
Mae 'n canfod, rhyfeddod fawr!
Y Cawr mewn arfau cywraint,
Diſcleiriol, anferthol faint!
Arfogwyd, gwiſgwyd y Gwr

A llurig

A llurig yn hyll Arwr.
Tywynboſt o bres tanbaid,
O bell mal Caſtell y caid.
Calonnog yw 'r Gelynion,
Plaid y Philiſtiaid ſy' lon.
Nid felly 'r gwael Iſraeliaid,
Hwy'n bur ddigyſſur a gaid.
Y Cawr, pan welodd y cu
Hynawſaidd langc yn neſu,
Troe ddrwg ddau olwg ddilwydd,
Megis dyn ar blentyn blwydd:
Ai Ci ydwyf fi, dy fod,
Un diſarf, yma 'n dyfod
Yn fy erbyn a ffynn?—ffo!
Wr egwan, rhag dy rwygo!
Oh Dagon! ai ni 's digi!
Dy greulon felldithion di
Ddelont â chwyrn ddialau,
Annyn, ar ei goryn gau.
Tyred ac mi'th gwarteraf,
Dy ddarnio 'n union a wnaf.
Addas oreuwas yr Ion,
Heb fraw rhag digiaw Dagon,
At y gerwin gethrin Gawr
Troe ei wyneb tirionwawr:
Hyderu 'r wyt ti 'r diras,
Mawr wagedd, yn dy gledd glâs,
A tharian o waith eurwawr,
A'th ffon gywraint a'i maint mawr;
Finnau yn Naf y wiwnef,
Ior a wnaeth Ddaear a Nef.

Duw'r

Duw'r hedd, am dy gabledd gau,
Y dwthwn hwn rhydd dithau
I'm llaw i; dydi y dyn
Dewrfalch ſy 'mron dy derfyn.
Mewn awr, dy lu dirfawr di
Aberthaf hwynt i borthi
Adar a llu 'r ddaear ddwys,
I'w camwedd mae'n dâl cymmwys.

Y du Gawr, mewn dig eïrias,
Neſau a wnai 'r Cenau câs.
Y Gwr eirian gwâr arall,
Rhedai, cyfarfyddai 'r Fall.
Ar hyn cymm'rai 'r gwr hynod
Lyfndeg drom garreg o'i gôd:
Mewn ffon dafl yr ymaflodd,
Yn gyflym ei rym fe rodd;
Y garreg, yn bur gywrain,
Gyd a nerth, o'i law gerth gain,
Yn chwern yr ae dan chwyrnu
Yn bellen i'w dalcen du:
Swnfawr y cwympai 'r Cawr certh,
Yr ynfyd Arwr anferth.
Siriolodd yr Iſraeliaid,
Eu mawr lu 'n gwenu a gaid;
Dyrchafodd, llanwodd eu llef
Y lydan lân oleunef.
Rhinweddol wâs nefol Ner,
Rhedai mewn dirfawr hyder
At y Cawr, ar lawr, oer loes,
Yno ar derfyn einioes:

Tynnodd,

Tynnodd, e gymm'rodd y gwr
Arſwydus gleddau 'r Sawdwr;
Yn awr, fe droi 'r gloywawr gledd
I deilwng roi 'r dialedd:
Hynod fawr arfod fe rodd,
A'i derwyn ben a dorrodd.
Gwelwyd y fuddugoliaeth,
Y Cawr ei ddu awr a ddaeth:
Ei fawr ben mewn diferwaed,
A'i gledd yn gochwedd mewn gwaed.

Annedwydd Ddienwaediaid!
Ar ol eu Cawr, bloeddfawr blaid,
Hwy ffoiſânt, anhoff weiſion,
Filoedd, rhag byddinoedd Ion.
Anhylwydd iawn eu helynt!
Trwy Ela 'r ae 'hudfa hwynt.
Caid gweiſion cyſion Duw cu,
Câd lon, yn cyd lawenu:
Dyna 'r bêr odfa brydferth
Eu bloedd ae drwy 'r cymmoedd certh;
Yn ol dyblid eu dolef,
Yn ol o'r cymmoedd i Nef:
Lladdwn, torrwn watwarwyr!
Erlidiwn, lladdwn hwy 'n llwyr!

Oh Dafydd, wr celfydd coeth!
Y purddawn Brydydd perddoeth,
Tydi, drwy Geli, yw 'r gwr,
Ti guraiſt y gau Arwr.
Ddewrwas, ar Orſedd eurwawr,

Bydd

Bydd Frenin i'r fyddin fawr!
Wyd ddedwydd arwydd eurad
O'r mwynwawr Fugail mawr mâd!
Cyfgod hynod o honaw!
O'th lwynau diau y daw!
Wr hael, eiftedd, rheoli
Wna 'r Mawredd ar d'Orfedd di!
Difyr im d 'enwi Dafydd,
Difyr, ond rhy fyrr a fydd
Yr amfer;—Dydd Ner fy 'n ol',
Dydd mawr fydd, mor ryfeddol,
Odiaeth ac annrhaethadwy,
Yn dragywydd ni fydd fwy.
O chaf, o'r goruchafion,
Yn brydferth gu nerth gan Ion,
Nac mwriad wneud caniad cu
I 'Mrenin am fy mhrynu.

Fe feiliodd ei fab Selef,
Wr doethber, i Ner y Nef,
Lwybraidd hardd Deml oleubryd,
Uwch Temlau holl barthau 'r byd:
A hon, mewn rhyfeddlon fodd,
Wr hoff anwyl, orphennodd.
Gogoniant, moliant Duw mawr,
A lanwodd ei Deml wenwawr.

Yn oes y Brenin nefaf,
Dygn waith, achos digio Naf,
Am eu drygwaith diffaith du,
Am hyn gwnaent ymwahanu.

Juda, ei lwyth gwiwdda gaid,
Mwynwyr, a'r Benjaminiaid,
Yn dilyn yr hên deulu,
Y lleill aent ymaith yn llu.

Ahab, y drygfab, wnaeth dra
Mawrion ddrygau 'n Samaria.
Gan ddrygfoes yr oes yr aeth
Y Byd yn ddi wybodaeth:
Aeth o'r genhedlaeth hadlyd
Y berffaith Gyfraith i gyd.
Doeth Lywydd, daeth Elias
Yn hyf ac yn gryf mewn grâs;
I fawredd gwnaeth adferu
Y berffaith fawr Gyfraith gu.
Fal Enoc, fe foliannawdd
Yn wreſog ei nerthog Nawdd.
Fal Enoc nefawl union,
Gan gu oreulu yr Ion
Cyfodwyd a dygwyd ef
Ar olwynion i'r loywnef,
Oddiar wybrennydd eirian,
Mewn Cerbyd eurbryd o dân.

Lledu wnai 'r erchyll adwyth,
A dig llawn ddaeth i'r deg llwyth.
Watworwyr annaturiawl,
Lloiau oedd eu duwiau diawl!
Am ddielw ddelw addoliaeth
Dan goſp fe 'u rhoddwyd yn gaeth:
Eu gwlâd a'u tref gu lydan,

Eu

Eu temlau a'u duwiau 'n dân!
Ar lêd hwy 'n fawr lu ydynt,
Gwaſgarwyd a hauwyd hwynt.
Hwy ddeuant etto 'n dduwiol,
Hwy geſglir yn wir yn ol.

Sarrug Frenin Aſſyria,
A dwys blaid, arſwydus bla,
Ddifrododd ar ferr adeg
Holl wlad dda Judea deg.
Braw i Salem Breſwylwyr!
Dirmygai, bygythiai 'r gwyr.
Fe gablai, rhyfygai 'n faith,
Yr Ion a'i bobl ar unwaith.
Wâs cywir, Heſecia,
At ei Noddwr a'i Dwr da
Yr aeth, ac fe roi weithion
Grêd rwydd yn ei Greawdr Ion.
Celi, Gwrandawr gweddi 'r gwan,
I lawr ar ei Deml eiriân
Olygodd, gwelodd mor gaeth
Ydoedd ar ei wâs odiaeth.
Anfonai 'r Tâd Gennad gu,
Gariadus, i'w gwaredu.
Iâs erwin i'r Aſſyriaid!
Pan oedd Gwerſyll eu hyll haid
Mewn 'ſmwythder, yn nyſnder nos,
Ar adenydd drwy 'r dunos
Y Nefol diſgleiriol glân
A ddaeth, ſe ſafodd weithian
Ar lwys nen y Deml wen wych,

Ac â'i law ei gledd gloywych
A drodd, a'r Gwerſyll drwyddaw
Ddifethwyd, ddiſtrywiwyd draw.
I'r glaerwen Nef ddiſgleiriol
Gwnai 'r Claerwyn eſgyn yn ol.
Y Brenin o bur rinwedd
Ga'dd wynfyd a hyfryd hedd.
Yn Nêr y Nef rhoes gref gred,
A mawr a fu 'r Ymwared!

Y BUMMED RAN.

RHAG creulon elynion lu,
Dewrion, yn cyd ymdyrru,
Pan ydoedd y Pennadur,
Ahas, mewn garw-ias o gur:
Pob calon a bron yn brudd,
Yn goſtwng dan flin gyſtudd;
Pob graddau, pob gwyr oeddynt
Mal coedydd gelltydd mewn gwynt:
Yn nyddiau 'r blinderau dwys
Naf anwyl a ddanfonwys,
Brophwyd coeth o wr doeth da
Duwiol o wlad Judëa
I gyhoeddi 'n gu hyddyſg
Fendithion mawrion i'w myſg.
Yn foddus oh na feddwn

Yfpryd

Yſpryd i gyrhaeddyd hwn!
At Ahas dḍiras ſe ddaeth;
E dd'wedodd, mewn modd odiaeth,
Bydd gefnog, paid ag ofni,
Medd Duw gwyn, rhag d'elyn di:
Hwy dybiant gael eu diben;
Diau byth na's daw i ben.
Pa arwydd fydd a'th foddiai?
Medd Duw gwyn, gofyn, ti gai.
Heddyw gofyn hi'n haddef
Y Dyfnder, neu 'n uchder Nef.
Yn union meddai 'r annuw,
Na wnaf, can's ni ddigiaf Dduw.
At yr annoeth di rinwedd.
Yn daer iawn e droi ei wedd;
Ei olwg, mewn gwg, a gaid
Weithiau ar y Pennaethiaid.
Mewn gwrid a welid ei wedd
Diriawn yn llawn digllonedd:
Blino dynion heb lonydd,
Nid digon, ynfydion, fydd?
Raid â balchder, trawſder, tra,
Hefyd flino Jehofa?
Troe ei wyneb tu 'r wiwnef;
I'w fron yn union o Nef
Anwyl dân a wnai ennyn;
Gwreſogawdd, cyhoeddawdd hyn:
Clywed, coelied pob calon
Ddiammur air eglur Ion;
Gwâr Forwyn, Gwyryf arab,
Gwawr fwyn, a eſgor ar Fab:

Gwir diau, geilw! Gwawr dawel
Y mwyn Ior, Immanu—El.
O Forwyn (fe lefarawdd)
Fe enir, yn wir, in Nawdd.
Dwedwch. ai anghredadwy?
Synnwch a rhyfeddwch fwy;
Ganwyd in Fachgen gwiwnaws,
Yſprydol nefol ei naws!
Mab o gu arab gywrain,
O brydferth Forwyn gerth gain,
A *anwyd* yn Nawdd inni.
O Nef a *roddwyd* i ni
Ar ei Yſgwydd, Arglwydd Ion
Daionus, bydd baich dynion.
Gelwir Ior eglur eirian,
Rhyfeddol,—glwyfol a glân
Gynghorwr,—cadarn Dwr da,
Hael Noddwr i lin Adda,
Trag'wyddol Dâd, mâd a mwyn
A gweddus D'wyſog addwyn.
Ar Lywodraeth helaeth Hwn,
Duw Ior, ynddo 'r hyderwn,
A'i hael Frenhiniaeth hyláw,
Brenin Hedd, diwedd ni's daw:
Adeilad glaer a dilyth.
Teyrnas fawrglod i fod fyth.
Mal cyſgodiawn eiglawn nos,
Y bore ffont heb aros,
Torf ddiawl yr uffernawl ffau,
Gantoedd o'i olwg yntau,
Filiynau a ddiflannant,

Rhag

Rhag Ion i'r eigion yr ant.
Dychryn i bob gelyn gau,
I'r llawr cwymp yr allorau.
Duw 'r gwybed, pob drwg ebyrth,
Hyll amcan Satan a syrth.
Cenedl ni wna amcanu
Creulonder na digter du.
Ni chyfyd, drwy 'r mawrfyd maith,
Chwerw filain groch ryfelwaith.
Y dynion a gyd unant,
Heddychu, llonyddu wnant.
Curant, newidiant yn awr
Eu harfau Rhyfel hirfawr
Yn sychau 'n bladuriau da;
Dedwyddol fydd hâd Adda.
Niferoedd bobloedd y Byd
A ddeuant oll yn ddiwyd
I'w gadarnwych gu Deyrnas,
Duw 'r Hedd, drwy rinwedd ei ras.
Afonydd, drwy y Faenor,
Rhedant, cymmysgant a'r Môr:
Cenhedloedd, yn lluoedd llon,
Meddaf, yn yr un moddion,
Deuant, dylifant yn lân,
Dduw Ior, i'w Fynydd eirian;
I'w fawrglod, Duw fy Arglwydd,
Y tir a lenwir o lwydd.
Daw 'r Oes hon â llon wellhâd,
Yn gadarn daw Duw 'n Geidwad.
Mudion, deillion, dlellion claf,
Fyddinoedd, fydd ddianaf.

O'r

O'r ddaear y meirw ddeuant,
O rwymau 'r Angau yr ant.
Oh anwyl anwyl einioes!
Addwyn deg ddiniwaid Oes!
Y blaidd, a fu 'n bla eiddig,
Gyd a 'r oen yn gu a drig.
Y mynn a'r llewpard mwynwâr,
Cyttunant, byddant yn bâr.
Y llo a chenau y llew,
Yn llondeg ac yn llyfndew,
Yn wir geir mewn un aerwy,
A bachgen a'u harwen hwy.
Plentyn, mewn rhwymyn, yn rhwydd,
A chwery yn wych hyrwydd
Ar nyth yr aſp, ni thry hon
I gyrredd pigo 'r gwirion.
Ac ar ffau 'r wiber gau gas,
Yn awr heb wenwyn eirias,
Ys egwan faban ſugnaw,
Heb uno 'n, rydd ei lon law.
Gwirionedd hawddgar union
A dardd o'r ddaear hardd hon;
O'r loywnef fawr lawena'
Cyfiawnder ddiddigter dda,
Gwâr Hedd a Thrugaredd gu
Yn anwyl a wnan' wenu.
Dedwydd Oes i 'r Credadyn!
Oh Juda, llawenhâ 'n hyn!
Daw 'r Gwaredydd dedwydd da,
Ion didwyll, ac nid oeda:
Oh yr haelwych Ior hylaw!

I Siön dirion y daw !
Llwyr och i'r holl rai uchel !
Gwae 'r di ffydd y dydd y dêl !
O'r niwl dwys, o'r anial dir,
Go lawen lef a glywir ;
Parottowch, dyma 'r pryd da
Wedi dyfod, Hâd Efa ;
Parottowch ffordd, loywffordd lân,
I'r hael Ior hylaw eirian.
Cyfodir y doldir da,
Y duwiol a flodeua :
Y brynniau, mewn berr ennyd,
Gwyr mawrion beilchion y byd,
Oftyngir, bwrir i bant,
Yn y dydd hwn hwy doddant.
Y gwyr oll fydd gywir iawn,
Ion anwyl a'i gwna 'n uniawn.
Anwaftad wlâd fydd liwdeg,
Fydd lafwedd waftadedd teg.
Rhyfeddir, gwelir gan gant
Ei gu enwog Ogoniant :
Oh Degwch glân dlogel !
Yr holl Fyd i gyd a'i gwêl !
Cu Ior Nef, cywira Nawdd,
Duw Awdwr, Ef a'i d'wedawdd.

Cyfod Sion geinlon, gu
Fanon, a dring i fynu
I hyfryd uchel hoywfryn,
Nag ofna, cyhoedda hyn ;
Dywed wrth holl Judea,

Wele

Wele dy Dduw y wlad dda!
Duw Ior a ddaw, nid erys,
A'i fraich Fe ddial ar frys
Elynion blinion ei blant,
Yn hwyr hwy lwyr alarant.
A'i wobr Fe ddaw yn ebrwydd,
Fe ddaw, yn ei law fe lwydd
Ei waith; y diffaith a'r da,
Dilys Fe a'u didola.
I'w gail mal Bugail y bydd,
Ei bennaf ofal beunydd:
Dug ei wyn i'w fwyn fonwes
Rhag poethder toſter y tes.

Oh Arglwydd Dduw y duwiau!
Pwy gredodd fy madrodd mau?
Y Gwr megis blaguryn
A geir yng'olwg Duw gwynn.
Mal gwreiddyn o ſychfryn ſerth
E gyfyd, ni bydd gwiwferth
I'n golwg pan ei gwelom,
Gan waeledd ei lwydwedd lom.
Gwr cynnefin o gerydd,
Trallodus, gofidus fydd.
Caled weled ei waeledd!
Oddiwrtho gwnaem guddio 'n gwedd:
Gwawdiaſom, ni wnaethom ni
O'n gwiwfrawd uniawn gyfri.
Cymmerth lid ein gwendid gau,
Fe lwyr ddug ein doluriau.
Gwelſom, cyfrifaſom ſo,

Diweirwas

Diweirwas, wedi 'daro,
A'i fod mewn blin ofidion,
Gwaraidd wr, dan gerydd Ion.
Onid Ef, Enaid ufudd,
Gai wael barch i ni gael budd.
Archollwyd, drylliwyd e'n drwch,
A'i haeddiant prynodd Heddwch.
Dygodd ein Cofpedigaeth,
Dwyn trom Farn erom a wnaeth.
Drwy gleifiau, drwy friwiau 'fron,
O'n gofid gwnaed ni 'n gyfion.
Crwydrafom, troifom, modd tr[illegible]ch,
I'r niwl a'r mawr Anialwch.
Ar Arglwydd yr Arglwyddi
Duw 'r Hedd roi 'n hanwiredd ni.
E rwymwyd dros rai ammur
Dan farwol angerddol gur.
Ei enau mwyn, mewn un modd,
Yn ei gur, ni egorodd.
A'r oen mor hawdd arweinid,
Wr da, i'r lladdfa mewn llid.
Ei gu Enw a gai anair,
Fe dawodd, ni dd'wedodd air.
O Garchar, o fâr, o farn,
Wr mwynfâd. Ceidwad cadarn,
Y cymm'rwyd, torrwyd o'r tir,
Ior anwyl, dros rai enwir,
Hyll edrych! ac rhwng lladron,
Dydd dwys, bu diweddiad Ion!
Gwnaeth ei fedd, Ior hedd, er hyn,
Gyda 'r cyfoethawg wed'yn.

Am

Am na wnaeth gam neu waith gau,
Na llunio twyll â'i enau.
Naf union, Ef a fynnai
Ei ladd a'i ddryllio 'n ddi lai.
Ond er ei ladd a'i gladdu,
Y prydferth Aberth certh cu,
Cymmod wnaeth am bob camwedd,
Drwy 'r Cymmod daeth hynod Hedd.
Er ei ddolur a'i dduloes,
Er hyn Fe eſtyn ei oes.
Ei Swydd gyfaddas iddaw,
Ior glân, a lwydda 'n ei law.
Yn dêg, mewn modd diogel,
O'i lafur, o'i gur y gwêl.
Yn ei lon weiſion yn wir,
Da ollawl, y diwellir.
Cyſiawnhâu, yn angau, wnaeth
Y Byd â'i fawr wybodaeth.
A'i anwyl Aberth unwaith
Fe a ddwg eu mawrddrwg maith.
Mi rannaf, am ei rinwedd,
I'm Gwâs mâd, ac i'w hâd, hedd.
Y Gwr trugarog eirian
Geiff fawredd, geiff ryfedd ran,
A godir etto 'n Gadarn
Ar ol ei fawr farwol Farn.
Ac dros addig droſeddwyr,
Dros greulonaf gwaethaf gwyr,
Oen diddig, tra bu 'n dioddef,
Eiriolodd, gweddiodd Ef.

At Eſaia, wr da, daeth

E gododd Prophwyd gwed'yn;
Rhagdd'wedodd, cyhoeddodd hyn:
Oh Siön dirion da!
Yn gefnog bydd, nag ofna;
Dy Frenin, dy fawr Ynad,
Yn eiſtedd, o'i ryfedd râd,
Ar aſyn, yn wr iſel
I ti a ddaw: Byd da ddêl!
Yn warthus iawn e werthir,
Heb rus, yn warthus yn wir!
Priſiad y Ceidwad cadarn
Cyfiawndeg, yw tri dêg darn
O arian;—goreulân rodd
A mawrwerth a gymmerodd!

Pwy a welaf? pa wylaw?
O b'le cwyd y mwg drwg draw?
Gwelaf ddychryn a galar
Hynod am bechod a bâr.
Y Gaer dêg, oh gwae o'r dydd!
Salem ſy' heb breſwylydd!
Yn nwylaw'r annuwiolion
Y bobl aeth i Babilon.
Hwy lwyr roent y Deml eirian,
Urddas eu Dinas, ar dân!
E ddarfu 'r Ddinas ddirfawr,
Diſtrywiwyd, lloſgwyd i'r llawr!
Er danfon bygythion gant,
O'u trawſedd hwy ni's troiſant.

Gweddient ar gau dduwiau;
Am hyn yn llaw 'r Gelyn gau
Rho'i 'r Ion y dynion dinerth,
Anffyddlon weiſion heb werth:
Am ddielw ddelw addoliaeth,
Am hyn cai 'r Gelyn hwy 'n gaeth.
Yn amſer eu trymder trwch,
(Du fâr fâg edifeirwch)
Un Gwr o honyn a gaid
Cyfion, union ei enaid;
Y Gwr mwya' mhob gorawr
Dan wybren y Neſ wen fawr.
Am Salem lom iſelaf
Tra bu 'n galaru yn glaf,
O Nef wen Naf anfonawdd
Atto i'w ddyhuddo 'n hawdd.
Fe dd'wedai 'r fâd Gennad gain,
Y cû waraidd wr cywrain,
Gan Dduw lwyd anfonwyd fi
I d'annerch â daioni.
Daw i wlad Judea lon
Odiaethawl fawr fendithion:
Cain a hardd y Deml, cyn hîr,
Oleudeg, adeiledir.
Ac eilwaith y trigolion
Ant i'w gwlad, o râd yr Ion.
Ac yna (hawddgara gwr
Creda eiriau 'r Creawdwr)
O flwyddau cyn dyddiau da
Hafaidd y mawr Jehoſa,
Pedwar fydd, wr clodrydd clau,

O gannoedd

O gannoedd ac ugeiniau;
Hanner ugain yn rhagor
Hyd ei arwyl anwyl Ior.

Dyna ſwm daionus iaith
Ei gywrain enwog araith.

Ar ol hyn daeth dychryn du
Ac erchyll iawn i'w cyrchu:
Gwr penwyllt gorwyllt a gaid,
Blaenor y Babiloniaid,
Anfadfab ffol ynfydfalch,
(Llwydd wna ynfydrwydd yn falch.)
Bwriadodd, meddyliodd ef
Yn lân o dan y loywnef
Ddifa meibion Duw Ddofydd,
Eirian dorf, yn yr un dydd.
Yr achos oedd oruchel,
Sef hyn a ganlyn heb gêl;
Un Iuddew ni wnai oddef
Mo'i wynep-bryd ynfyd ef;
Garw ammarch! ni wnai 'mgrymmu
Ger bron y digllon wr du.
Mawr gwyn! rhoi 'n anaddwyn wr
Ei fryd ar fod yn Fradwr.
Lluniodd â'i erchyll enau
Lythyr dybryd gwaedlyd gau:
Hwn â'r fodrwy frenhinol,
Cannoedd o rifoedd ar ol
A ſeliodd;—llwyr ddwys alaeth!
Anfon yn union a wnaeth

At D'wyſogion geirwon gau
Lwyth eres o Lythyrau.
Y Dydd du, i Lu Duw lwyd,
Annedwydd a bennodwyd.
Yr Iuddewon gwaelion gwâr,
Ion a'u gwelodd mewn galar.
Er eu bod yn fawr eu bai,
Eu Naf anwyl ni fynnai
I greulawn ddrwg Reolwyr,
O un radd, eu lladd yn llwyr.
Yn nydd blin eu di nawdd blaid,
Athriſt, dan Iau dieithriaid,
Wir-dduw, Fe wnaeth dda erddynt,
Coffhad o'r hên gariad gynt.

Y Brenin blin heb lonydd
Gan fraw 'n arſwydaw y ſydd;
Braw dyrys rhag bradwriaeth
Greulon i'w ddwyfron a ddaeth:
E frudiai am ryw fradwaith,
Arſwydai, ni chyſgai chwaith.
Y gwyr llys, hygar a llon
Eu naws, ddygent haneſion
Ei gadarnwych gu Deyrnas
I'w ryddhau o'i boenau bâs.
Da adeg fu a dedwydd!
Wrth ddarllain y rhai 'n yn rhwydd,
Mordecai ddifai a ddaeth
I dirion goffadwriaeth.
Yr Iuddew hwn a roddodd
Haneſion mawrion o'r modd

Am fy ngweiſion creulon croes
A fynnent larpio f'einioes.
Da ddamwain! cadwodd immi,
Y mâd wr, fy mywyd I.
Yn awr, am y drudfawr dro,
Fu rodd neu ffafor iddo?
Y gwyr llys oeddent ger llaw,
Yn weddus dd'weden iddaw,
Yn ddifeth ni addeſwn,
Dim yn y byd hyfryd hwn.
Yn awr, ar hyn o eiriau,
Mewn gwŷn daeth y Gelyn gau,
Y dewr ynfyd wr anferth,
Llawn balchedd, i'r Cyntedd certh:
Bore y daeth mewn bâr du,
Fradwr, dan fawr hyfrydu.
Y llidiog wr taeog tew,
Yr oedd am ladd yr Iuddew.
I ddwys gael ei ddiſgwyliad
Daeth i'r Llys mewn brys a brâd.

O draw y Brenin a drodd,
Yn fwyn efe ofynnodd,
Pa ryfedd fawredd wnaf fi
Am ddawn lawn o haelioni
I'r hwn wyf am ei fawrhau.
Mwynwr, dywed i minnau?
Go lawen fu pan glywodd,
Ewybr iawn atteb a rodd:
(Meddai 'r Balch dewrwalch dirâs
Yn eigion ei galon gâs,

I mi 'n rhwydd y mae 'n rhoddi,
Pwy yma fwy na myfi?)
Gyd a pharch, boed i d'arch di,
Flaenawr, gael ei gyflawni;
Rhodder, mewn mwynder a mawl,
I hwn y wisg frenhinawl,
A march f'o barch i'w berchen,
Ac ar gymmwys burlwys ben
Y Gwr doder y Goron
Ddisgleiriawl frenhinawl hon.
Ac yna 'n y wisg geinwawr,
Gyd a pharch, ar y march mawr,
Hy' eled drwy 'r heolydd
Yu wr dewr ar hanner dydd.
Cyhoedded T'wysog haeddawl
Ei ryfedd fawredd a'i fawl.
O'i flaen aed,—fel hyn yn wir
I'n dyddiau 'r anrhydeddir
Y Gwr ennillo gariad
Gwerthfawr bin Brenin mawr mâd.

A dd'wedaist, yn ddioedi,
O flaen dim cyflawna di
I'r gwâr luddew goreuddoeth,
Mordecai wr difai doeth:
O'r geiriau tra rhagorol
Na âd un gronyn yn ol.

Am ei siom prin gwnai 'mlymmud;
Delwai, ymofidiai 'n fud.
Druan wr! ni 's gall droi 'n ol

Yr

Yr hynod arch: brenhinol.
A dd'wedodd mor dda odiaeth,
Hynny 'n wir hwnnw a wnaeth.
Y gwâr Iuddew goreuddoeth,
Drwy 'r heol, wr duwiol doeth
Diddan, gai 'anrhydeddu
Ger bron gelynion gau lu.

Am Fanon ymofynnynt,
Bronwen gain, i'r Brenin gynt.
Manwl oedd y Goreh'mynniad;
Trwy barthau taleithiau 'r wlâd
Cyrchwyd, cynnullwyd yn awr
Lon Forwynion eirianwawr;
Seirian dduwieſau ſiriawl,
Glanaf a mwyaf eu mawl.
Gyd a rhai'n, lu cain, y caid
Iuddewes gynnes gannaid.
Glanaf a harddaf oedd hon,
Goreuferch, o'r Gwyryſon.
Bernid, er bod yn barnu
Dyſtion o elynion lu,
Fod hon, Gwen hoywfron hyfryd,
Yn ben Morwynion y Byd.
Y firain wen Forwyn wych,
Bu hon yn Fanon fwynwych.
Ni chyſgodd, ni hunodd hi
A'i gwladwyr dan galedi.
Eſther, y wawr lwyſber lân,
Bu 'n oer wylo dro druan.
Droſtynt, mewn dirfawr driſtwch,

Mewn

Mewn ingder, mewn trymder trwch,
O flaen Gorſedd felenwawr,
Eurad, y Brenin mâd mawr,
Eiriolodd Gwawr oreulwys
A geiriau, â dagrau dwys:
Meinwen, fel y dymunodd,
Y drwg oddiwrthynt a drodd.
Y Gelyn fu 'n bygylu,
Ag arſwyd llanwyd eu llu.
Gwnaeth plant Ior cu, yn llu llon,
Gelanedd o'u gelynion.
Mewn hedd gwnaent orfoleddu
Pan ddaeth Buddugoliaeth gu.

Daeth Ion, i'w ryfedd-lon fawl,
A'r flwyddyn orfoleddawl;
E ddaeth â'i luoedd ethol
I glud nawdd eu gwlad yn ol.
Y cryfion fawrion furiau,
Er creulon wyr geirwon gau,
A loywdeg adeiladwyd
O'r ddeutu gan lu Duw lwyd.
Tra 'r oedd y Deml gyhoedd gu,
Hoff anwyl, heb orphennu,
Y gwael ufudd drigolion,
Eu gwynfyd hwy ganfod hon.
Yr hynaf rai o honynt,
Cofiai rhai 'n y Deml gain gynt.
D'wedent ddiſgleiried ydoedd,
I'w llygaid rhy danbaid oedd.
Yn yr ennyd hyfryd hon

Daeth

Daeth yno wr doeth union :
Ai gwael ydyw heddyw hon
Wrth ſeiliau muriau mawrion
Teml Selef oedd gref ei grym ?
A doddawdd megis diddym ?
Ond medd ein mâd Bennadur
Uchel,—Zorobabel bur,
Ymgryfhâ, na ofna neb,
Mi'th gadwaf â maith gudeb.
Tithau 'r Gwr coeth, mab doeth da
Ioſedec, nag arſwyda.
Mwynion ddynion y Ddinas,
Gweithiwch, ac nag ofnwch gâs :
Gwiw hylaw gu wehelyth,
Gyd a chwi yr wyſ ſi fyth.
Yn ddwys gadarn yſgydwaf
Gylchoedd y Nefoedd, medd Naf :
Medd Naf, cynhyrfaf cyn hir
Y brydiawg fôr a'r brodir,
Yna 'r anfonaf finnau,
Ddymuniad pob gwlad yn glau.
Mi lanwaf y Deml wenwych
A moliant gogoniant gwych.
Ganwaith bydd mwy Gogoniant
Y Deml fawr yn awr a wnant
Na 'r gyntaf : Duw Naf, da Nawdd,
Godidog a'i dywedawdd.

Wedi 'r llu gartrefu tro,
Eu nattur lygren' etto,
Anfon a wnai 'r Ion o'i rad

Gu

Gu anwyl ſanctaidd Gennad:
E geryddai 'r Gwr addas
Eu drygau a'u beiau bas.
Wele Fi, medd haelaf Ion
Y wenfawr Nef, yn anfon
Fy Nghennad oleufad lân,
Hynaws, o'm blaen fy hunan.
Diſymmwth a diſommiad
Y daw 'r Arglwydd mawrlwydd mâd
I'w liwgar Deml oleugu,
Neſau mae 'r Dydd, cynnydd cu.
Yma Angel Cyfammod,
Duw Ner, ar fyrder fy' fod.
Pa rai ſaif? pa wyr y ſydd
A'i goddefant, gu Ddofydd?
P'onid hawdd y tawdd y tân
Eirias ddefnyddiau arian?
Ef wâr Ion ar ferr ennyd
Lanhâ ac Fe bura 'r byd.
Medd yr Arglwydd dedwydd da,
Wele 'r Dydd a liwyr dodda,
A lyſg fal terfyſg y tân
Ar wawrio yn wâr eirian!
Y beilchion, chwerwon eu chwant,
Yn y Dydd hwn a doddant:
Un râdd pob anwireddwyr,
Diflannu wna eu llu 'n llwyr.
Ond i chwi fy 'n ofni Ner,
Cu fwyndeg Haul Cyfiawnder
A gyfyd, goleubryd glân,

Dan

Dan eres edyn eirian
Hwn y bydd i fyrddiwn faeth,
Ac anwyl Feddyginiaeth.
Anfonaf, medd Naf union,
Wr addas, Elias Ion,
Gu Rybudd Dydd goreuber
Lloſgadwy ofnadwy Ner.
Fe ddaw i rybuddiaw 'r Byd
O'i anferth bechod ynfyd :
Fe dry 'r Ddaear hawddgar hon
A'u gilydd yn un galon.

Yn awr yr anfonai Naf
Ei deilwng Gennad olaf :
Dilys air prophwydoliaeth
Yn awr gorphwyſo a wnaeth.
Finnau orphwyſaf ennyd
Yn bêr iawn ar hyn o bryd.

Prophwydi, pur hoff Awdwyr,
Duwiol iawn hynodawl wyr,
Hwy 'n bêr, mal y Sêr ſiriawl
Cyn dydd, o geurydd y gwawl,
Iſawd hwy fachludaſant,
Ac un ni welir o gant.
Cyn hir y Gwelir Golau
Gwynnbur hardd i gain barhau.
Yn ei nerth a'i brydferthwch
Haul Nef wen hoff lawen ffiwch
I'r byd a gyfyd yn gain,
Yn dyner, o'r dêr Dwyrain.
Daw 'r Dydd i'n Gwledydd yn glau ;

Diſgwyliaf ei dês golau.

Da fydd gan y Cybydd câs,
Taeraidd, cyhenllyd, diras,
Ei dir a'i olud eurwawr;
Da i mi fyddo 'r Duw mawr.

O deulu a gwaedoliaeth
Mae cant ymffroſtiant yn ffraeth:
Eu hynod waed eu hunain,
Bonedd yw rhinwedd y rhai 'n.
Ymarfer rhai yw mawrfoſt;
Diau myfinnau wnaf foſt:
Er anair rhai dirinwedd,
Er gyrr Eglwyſwyr mewn gwledd,
Er ſaled a gwaeled gwr,
Câr ydwyf i'r Creawdwr.

Boed i arall, angall waith,
Soddi i ffol faſweddwaith,
Cariad goruchel Geli
Gwen Nef fawr a ganaf fi.
I'r dewr ddyſgawdwyr dirâs
Nid Cerdd ond pagangerdd gâs.
Aml gwynant i'r mawl ganiad
Wyf fi 'n ei rhoddi yn rhâd:
I 'oleuni pan ddêl unwaith,
Chwarddant, a gwawdiant y gwaith.
Boed felly;—er hynny rhai 'n
A'u cariad at waith cywrain,
Gwybyddent, cofient mai cu
I'w weiſion ydyw Ieſu.

Pan

Pan gwympais, pan foddais i,
Dro annoeth, i drueni,
Tra rhodiais hyd dir hudawl,
Drwy falais a dyfais Diawl,
O'i rwyd Fe fu 'm gwaredu,
Ior mâd, mawr gariad mor gu.
Oh am wéll, mwy o allael!
Rho 'wn glod i'm hynod Dduw hael.
Ni rêd f'awen gymmen gall
Yn beraidd i neb arall;
I fawrglod Ieſu f'Arglwydd,
F'awen a rêd yn fwyn rwydd.

A mi'n fachgen, dan ſen ſûr
Cydymmaith cu diammur,
Ac etto yn rhodio 'n rhwydd
Yn oedran diniweidrwydd,
Myfyriais am ei Fawredd,
Ior hael, ac am ei wael wedd:
Bwriadais, o bawn Brydydd
O ddawn rwydd iawn, ar ryw ddydd
Neillduo, ac eilio gwawd
I Diriondeb y Drindawd.
Yn Dyſtion yr Afonydd
Teifi a Dyſynni ſydd.
Mynych ar lannau mwyniawn
Y Ddwy lwys arafaidd lawn,
Yn fynych iawn f'awenydd
A'm denai, daliai drwy 'r dydd.
E ddoi 'r nos i dduo 'r Nen;

Y rywiog fwynber awen
Yn daer a'm hudai 'n diriawn;
Aros dros y nos a wnawn.
Ac wylwn; oh nefawl Geli!
Rhy faith y mawrwaith i mi.
Goreudeg adeg odiaeth!
I'm gofid newid a wnaeth.
Annoethaidd iawn y gwnaethum,
Diras fab dirys a fum.
Rhyw goeg bleſer a gwegi,
Cloi a wnaent fy 'm calon i.
Hunais mewn camwedd hynod;
Heddyw 'n fyw ni haeddwn fod.
Digyrrith yw dy gariad;
Duw 'r Hedd, mewn rhyfedd barhâd.
Tydi, Ior, yttwyd eirwir;
Profais a gwelais mai gwir
Fod o hyd gennyd i'r gau
Roddion o drugareddau.
Anfoni râs i fwyn wraidd
Y galon yu ddirgelaidd.
Tirionaidd y troi annyn,
Tydi ſydd yn hoffi hyn.
Fy Ner, yr wyf yn eiriol,
Na âd fy enaid yn ol;
Na choſia, dilëa 'n lân
O 'th wiwlyfr, fy ngwaith aflan.
Gogwydda olwg addas,
Duw 'r Hedd, ar waeledd dy wâs,
Fy iachau o'm clwyfau claf
Di elli, Celi, coeliaf.

Oh

Oh tyred, f'Arglwydd tirion!
A glanhâ y galon hon.
Gweli 'n awr, y Duw mawr mau,
Rediad fy holl fwriadau.
Fy Nuw, ydd wyf aneofn
Rhwng mâd gu gariad ac ofn,
Rhag dirmyg rhyfyg rhyfawr,
Rhag ſarhâd i'r mâd Ior mawr.
Dirſawr y Gwaith! maith im yw!
Ni wedir, mawr iawn ydyw!
Mae 'th fawl yn anfeidrawl fwy
Na 'm nerth, heb dy gynnorthwy.
Oh y Dirfawr Diderfyn!
Sy 'n caru, ſy 'n dyſgu dyn!
Na ommedd, fy Ion immi,
Duw Yſpryd glân, dy dân di.

Denu mae 'r byd i Annwn,
Ni wiw i mi hoffi hwn.
Di fudd bod rhwng dau feddwl,
Rhyngddyn' hwy wnan' ddyn yn ddwl.
Ymaith bob araith orwag,
Ymaith à phob gobaith gwàg.
Dy fwyn glôd weuaf yn glau,
Ni oedaf f'addunedau.
Ior anwyl, af ar unwaith,
Drwy 'th râs, o gwmpas y gwaith.
I euro Cerdd i'r Ior cu
Fy enaid cwyd i ſynu!
Cyfod y Fyfyrdod fau,
A dedwydd f'o'th hediadau!

Yn gâlonnog ail ennyn
Dy gerdd i foli Duw gwynn.

Y Byw-nêr, uwch pob anian,
O'r Entrych goleuwych glân,
A ganfu Wlad gu y gwawl
A nifer ei Blant nefawl;
Ffwrn erwin Uffern eirias,
A'r gyfrgron Ddaear lon lâs.
Gwelai 'n awr ei wiwfawr waith,
Ior enwog, oll ar unwaith:
Gwelai yr holl drigolion
Oedd ar hyd y Ddaear hon:
Gwyrafant, mawr yw 'r greſyn,
Yn faith o Gyfraith Duw gwynn.
Rhyfeddai na welai neb,
Na wnai undyn uniondeb.
Llygrodd, gwyrodd pob gorawr,
Mae 'r byd yn ynfyd yn awr.
Amlwg pob drwg, pawb a drodd,
A ffydd a lwyr ddiffododd.
Y Ddaear ſydd yn ddiau
Ym mron gan y Gwyllon gau.

Pan ganfu yr Ion cu certh
Ynfyd bechodau anferth
Y byd a'i anwybodaeth,
Fry, o Nef, llefaru wnaeth:
Mi fy hunan weithian af,
Dywedais, ac nid oedaf:
Myfi a biau dial,

Myfi

Myfi yw Duw, Myfi dâl.
Mal byllt bydd gorwyllt gerydd
Trwy reſtrau 'r delwau 'r un dydd.
Weithion gelynion, gau lu,
Laweroedd gant alaru.
Gwaed eu byddin, gerwin gâd,
Daenellir hyd fy nillad.
E ddaeth y dyddiau weithion;
O râs hael yn yr oes hon
Dygaf yn garedigol
Fy mhraidd anwylaidd yn ol.
Iachaf bob claf o'u clefyd,
Glanhaf, mi buraf y byd.
I'r Ddaear, yn ddiaros,
Hedd fwynber yn dyner dos.
Gwaraidd fyddo pob gorawr,
Gwna 'r Byd yn unfryd yn awr.

Oh Dduw gwynn! ſydd fydd ac oedd!
Naf! na rwygit y Nefoedd!
Duw hylwydd! boed dy helynt
Fal dyddiau y gwyrthiau gynt!
E ddaeth Dydd d'arfaeth dirfâwr,
Brynniau a mynyddau 'n awr
Boed trwyddynt iddynt doddi
Fal ewyn dw'r o 'th flaen di.
Teyrnaſoedd garwfloedd i gyd,
Diſtawent, dofent hefyd,
Oh f'Arglwydd! gan rwydd roddi
Pob urddas i'th Deyrnas di.
Galar a ddêl i'r Gelyn,

Ar frys, a boed hyſpys hyn.
O'th râs dôd gymmorth wrth raid,
Duw anwyl, i dy weiniaid.
Oh edrych o'r Nef wych wen,
O'th gu Annedd faith geinwen!
Mae dy Zêl? oh gwêl mor gaeth
A dygn yw 'n Coſpediqaeth!
A aeth dy doſturiaethau
Oll ymaith am ein gwaith gau?
Oh Geli! Ti yw ein Tâd,
Trugarog enwog Ynad.
Ion didwyll, er nâd edwyn
Abraham, fu ddinam ddyn,
Mo 'nom; Iſrael mwy inni
Nid yw Dâd;—Duw Ion, Dydi
Erioed a fu 'n Gwaredydd;
Tydi 'n hadwaeni bob dydd.
Dirym yw 'n cyfiawnderau,
Llawn treiſwaith a gweniaith gau.
O dy râd ein Duw 'r ydym,
O fawr râd yn fyw yr ym.
Oh clyw y Duw byw di ball!
Un Duw Ior, ac nid arall,
O gerydd gelli 'n gwared,
Ynod, Ior Nef, cref yw 'n crêd.
Oh gwêl ni yn diſgwyliaw!
Duw lwys yr ym yn dy law!
Dod inni, oh Dâd, hynod
Arwydd o fawrlwydd i fod!

Daeth Hedd eglurwedd a glân.

Odiaethol i'r Byd weithian.
Ifawd fe ffodd Cyfryfedd
I'w gwlad hyll rhag gweled Hedd;
Mawr ſwn ac ymryſonaeth
Ym myſg cwn Annwn a wnaeth.
Gan hawddgar Hedd geinwedd gu,
Duwies gynnes yn gwenu,
Y Twr eurfawr, Ty 'r arfau,
Rhag ffrawdd, a gafawdd ei gau.
Ac wed 'yn hi ymgodawdd
I'r wybr loyw, yn hoyw, yn hawdd.
Mewn gwyn ar edyn yr oedd,
Ar nawf o ddeutu 'r Nefoedd,
A'i haelwych wyneb heulwawr
O'r ddeutu 'n pelydru' lawr.

Ac wele 'r holl drigolion
Sydd ar y Ddaear hardd hon,
Nid oes na brâd ofnadwy
Na therfyſg yn eu myſg mwy.
Pob gwledydd, o'i herwydd hi,
Aml wenant dan ymlonni.
Brenhinoedd bobloedd y Byd,
Coronawg, cu yw 'r ennyd,
Y ſydd ar eu Gorſeddau
Mewn pur Hedd yma 'n parhau,
Mewn diſgwyliad ſafadwy
Daw 'n ebrwydd eu Harglwydd hwy.
Llawenu mae holl Anian,
Canu, gorfoleddu 'n lân.
Y brynniau a'r wybrennydd

Diſgleiriol

Diſgleiriol, yn ſiriol ſydd.
Hardd goedydd pob mynydd maith,
Ior enwog, hwy ar unwaith
A gefir yn ei gyfarch
Mewn diledïaith berffaith barch;
Buan i Nêr y bywyd
Plygan' gogwyddan' i gyd.
Mae 'r Eigion yn mawrygu,
Ym mhob goror, mal Côr cu;
Diammau daw da Dymmor
Medd mawrſwn myrddiwn y Mor.
Cenhadon tirion y Tâd,
Rai hoywdeg ar ehediad,
Yn ſaethu o'r Nef gu gain
I diroedd glân y dwyrain:
Gwiwrwydd groeſaw i'n gorawr!
Mi welaf Ddydd Naf yn awr!

Zâcharias, mwynwas mâd,
Hoff wr, ydoedd Offeiriad;
Ei ddydd arferol a ddaeth
A'i dug i'w weinidogaeth.
Rhagorol wr hygaraf,
Tra bu 'n gogoneddu Naf,
Drwy gyſion lon foliannu,
Yn ei gain Deml gywrain gu,
Fe welai 'n llawn gorfoledd
Angel goruchel gwâr wedd;
Ac odiaeth fywiog ydoedd,
Gerllaw Allor Ior yr oedd.
Arſwydodd pan welodd wawr

Y Gzerwyn

Y Claerwyn hardd diſcleirwawr.

Bydd wr gweddol duwiol da
Yn gefnog ac nag ofna;
Dy lef wrandawodd Duw lwyd,
Gan Ion cyſion i'th coſiwyd.
Daw 'r dydd ac e fydd it fab
Rhagorol o'th wraig arab:
Hwnnw 'n Ioän a henwi,
Llon dâd, a llawenhei di.
Wr dedwydd, e fydd dy fab
I riſoedd yn oreuſab.
Mawr fydd o flaen Llywydd llon
Nef anwyl a'i Naf union.
Duwiolaf fwyn wâs dilyth,
Nid â gwin at ei fin fyth.
Fe lenwir, nefawl anian,
O râd glwys yr Yſpryd glân.
O'i rinwedd fe wna rannu,
Try at Nêr lawer o lu.
Fe gyfyd dy fab gwiwferth,
Hyfryd, yn yſpryd a nerth
Elias; i Dduw Lywydd
Gwâs dethol rhyfeddol fydd.

Fwynwr, efe ofynnodd,
Fynegi di i mi 'r modd?
Cu unwaith fu 'm gwraig geinwen,
Minnau a hithau ſydd hên.
Gwelai eilwaith y Gloywlân
Yn amneidiaw â'i law lân;

Ddim

Ddim hwy na bydd amheuwr,
Yn ebrwydd cei arwydd wr.
Yn y fan, mewn un funud,
Tydi a fyddi yn fud.
Ac ebre, mi yw Gabriel,
Hyd y dydd dedwydd y dêl
A dd'wedais mor dda odiaeth,
D'enau fydd, gwybydd, yn gaeth.
Claerwyn Gennad ddiſcleiriol,
I Nef eſgynnodd yn ol.

Gwr hen fu 'n berchen da byd
Un odfa, 'n awr mewn adfyd,
Gu fwynwr wnai drigfannu
Yn Naz'reth a geneth gu.
Gormeſwyr hagr eu moeſâu,
Cyfeillion o galon gau,
Treiſwyr a ddiſtrywiaſant
Y Gwr fu 'n Noddwr i gant,
Maria hoywdda oedd hi,
Lân hael, o lwynau Heli.
Yr oedd gwallt hon, Gwenfron, yn gwau
Yn eurawg fodrwyawg droiau.
Ei henaid, fal Nef hinon,
A gaid yn ei llygaid llon.
Ei wenferch oedd ei wynfyd,
Ei bleſer gwiwber i gyd.
Fe rodd Ion, o'i haelioni,
Hon, yn lle moddion, i mi.
I hon fe ddyſgai 'hunan
Y Gyfraith oleufaith lân.

Pur

Pur hoff Awdwyr, Prophwydi
O hyd oedd i'w dwylaw hi.
Y Salmau a'r geiriau gwin,
Bêr anwyl waith y Brenin,
Dwyfawl Ganiadau Dafydd
Wnai 'n gain eu darllain bob dydd.
Yn ei hyſpryd, hyfryd hwyl,
Ennynnai y tân anwyl.
O'i deilwng bur waedoliaeth,
O'i lwynau 'n ddiau hi ddaeth.
Cafodd gan yr Ion cyfiawn
Yr un nefol dduwiol ddawn.
I'w thâd mwyn eneth ydoedd,
I'r hên wr ei Huan oedd.
Llwydodd ef gan drallodiawn,
Gwelai ei fod yn glaf iawn.
Gwnai hi 'r lili oleulwys
Leihau ei boenau a'i bwys.
Gwawd eſmwyth gyda Dwſmel
Ganai Mair â'i genau mel.
Eiſteddai 'thâd, wr màd mwyn,
Gyfeiryd a'r gu Forwyn.
Hi yno yn frenhinawl
Eillai felus fedrus fawl.
A hon oedd Càn ddiddan dda
Maria rywiog:

I.

Y cadarn Jehofa deyrnafa 'n y Nef
Reola drigolion y gron Ddaear gref;
Mae 'n codi rhai'n fawrion ſy'n waelion yn awr,
Mae 'n taflu 'r blodeuog—goludog i lawr.

II.

Pa ham Bendefigion a Beilchion y Byd,
Pa ham ymderfyſgant ymgaſglant i gyd?
Can 's wedi gwnêl gormes a rhodres eu rhan,
Mae Naf yn Waredydd tragywydd i'r gwan.

III.

Pa ham ymhyfryda, ymgoda gwyr gau?
A ddarfu trugaredd a mawredd Duw mau?
Ni wyr y rhai ynfyd, anhyfryd eu hynt,
Yn nyddiau ein tadau y gwyrthiau wnaeth gynt?

IV.

Pe crynai'r mynyddau, o'u ſeiliau os ant,
I minnau dim ofnau'r mynyddau ni wnant;
Yn effraw, yn hunaw, 'r wy'n nwylaw'r un Ior,
Pe'u lloſgid, pe'u teflid mewn mawrlid i'r Mor.

V.

Mae mawrion add'widion i'r cyfion rai cu;
Can's Duwſydd Waredydd a Llywydd i'w llu;
Yn gynnar o'u galar o'r Ddaear ydd ant,
Gan Arglwydd y bywyd eu gwynfyd a gant.

VI.

Y cadarn Jehofa deyrnaſa 'n y Nef
Reola drigolion y gron Ddaear gref;
O'i lawnwych haelioni mae'n rhoddi'bob rhyw,
Fe garaf, Fe folaf, tra byddaf fi byw.

Heli fwyn, haelaf enaid,

Ei

Ei galon gyſion a gaid
O'r un mwynber dymmer da
Dedwyddol a'i Dâd Adda,
Pan eiliai, pan folai 'n fwyn
Ufuddol Efa addwyn,
Ac awyrawl Gerdd gywrain
I'w hatteb, cyſſondeb ſain,
Eoſydd ar laſwydd, lu
Diddan yn cyd brydyddu.

Gwnai Mair mewn maint cywraint cu
Ac iawn addyſg gynnyddu.
Trymmion ofalon filoedd
I'w thâd am ei eneth oedd.
Dihunai pan wyddai neb
Lawndid ei bur ffyddlondeb;
Hwnnw 'n y nos ddihunai,
Gweddio, dan wylo, wnai.
Cyn y doi 'r dyfyn i'r daith
Na welid mo'no eilwaith,
Dymunai weled Meinwen
Gyda gwr a wnai gadw Gwen.
Gwr addwyn o gâr iddi
Ym mhob modd a'i hoffodd hi.
O'r dedwydd wr da odiaeth,
O'r Salmydd Dafydd y daeth.
F'aeth y Byd hadlyd ar hwn
Yn iſel, fel ar filiwn.
Fe wir garai Fair gywrain
Fal Angyles gynnes gain.
A hwn ddewiſai 'r hen-wr

I'r Forwyn wen Fair yn wr:
Y Gwr addfwyn gwareiddfab,
Bydd di, i mi, yn lle mab.
Ef, wr anwyl, ferr ennyd
Cartrefu y bu 'n y byd.
Fe welai ei farwolaeth;
Mewn hedd ei ddiwedd a ddaeth.
Fe alwai Fair benfelen;
Nefu wnai Gwawr gu ei gwên.
Golygu hon yno wnaeth
Ar wely ei farwolaeth;
D'wedai, oh f'enaid ydwyt!
Fy myd, fy mywyd im wyt!
Mun dyner, mewn daioni
Coleddais a dyfgais di.
Difeth yw geiriau Dofydd,
Hwy 'n orau tryforau fydd.
Gwyddoft mor dda yw gweddi,
Mewn adfyd hyfryd yw hi.
Beunydd hi geiff dderbynniad
Yng'olau gynteddau 'r Tâd.
Celi glyw weddi addwyn,
Gan atteb, cymmundeb mwyn!
Dy beraidd nefolaidd fawl,
Rhywiog eiriau rhagorawl,
Dy helaeth wybodaeth bur
A ge's i'm bron yn gyffur.
Dêl etto iawn dâl itti,
Diddanaift, adfywiaift fi.
Yn Nuw gwyn, heb ronyn braw,
Mewn henaint mi wna hunaw:

Mi

Mi af o ddwys bwys y Byd,
Oh na wyla f' Anwylyd!
Duw hael ni wna d'adael di,
Duw etto fydd Dâd itti.
Fy Ion glywodd f'erfyniad,
A Duw fydd i tithau 'n Dad!
Yn ol gogwyddo a wnai,
A llais marwol lleſmeiriai:
Dihunai, adfywiai 'n fwyn,
Ac ar Fair gwir Forwyn,
Ei enaid a gaid yn gu,
Er gwanned, arni 'n gwenu.
Oh Mâir! fy merch ddiwair dda!
Hefyd wyd ferch Jehofa!
Dan Gyſgod hynod Ion hael
Tydi a ddeui 'n ddiwael.
Coelia, fy ngeneth, Celi
Ddeuodd, ymwelodd a mi.
Dygwyd im Weledigaeth,
Mewn hun gwſg a minnau 'n gaeth.
Gwir hanes gei bob gronyn,
Neithiwyr, yn yr hwyr, bu hyn:
Breuddwydiais, rhyfeddais faint
I gyfion yw 'r digofaint;
Y dwyfawl mewn du ofid,
Yn griddfan dan lydan lid:
Yma rhynu mae Rhinwedd,
Drygioni 'n heini mewn hedd;
A diau yw nad yw Ion
Yn gwared y gwan gwirion.
Cymmylu 'n bygddu uwch ben

Yn ebrwydd wnai y wybren.
Crynais ac arſwydais i,
Gwaeddais ar Dduw mewn gweddi:
E dynnwyd f'anghrediniaeth,
A'r wybr yn bur eglur aeth.
Yſgol ragorol gywrain
O 'ſplennydd geurydd Nef gain
Eglur welwn yn glaerlwys
Hyd ar y ddu Ddaear ddwys.
O'r lawen wybr oleuwawr
Gwelwn lu 'n golygu 'lawr;
Oh'r hedd oedd yn eu gwedd gu!
Gwynnion blant Nef yn gwenu!
Un glân o lu 'r goleuni
Yn fwyn a ddaeth attaf fi:
Bywiol ryfeddol ei fodd,
A godidawg y d'wedodd;
Dy weddi, Heli hylwydd,
Nêr hael wrandawodd yn rhwydd.
Jehofa 'i Faria rydd
Haelionus iawn Lawenydd:
Ie, meddaf, mae iddi
Fawr ffafor gyd a'n Ior ni.
Oh Heli! am dy haeledd,
Tydithau gei fwynhâu hedd.
Hyfryd-rwydd doi fry adref
Yfory 'n wir i'r fawr Nef.
Duw mawr a'th gadwo Morwyn;
Bydd iach f'Anwylyd fach fwyn.

Ei anadl oedd i'w enau

Ar

Ar hyn wedi llwyr fyrrhâu.
A'i law am ddeheulaw hon,
Ei anwyl Eneth union,
Ei dêr enaid i'r wiwnef
A rodd; anadlodd i Nef.

Y wen Fair yno a fu,
Bun wiwdlos, heb anadlu;
Gan alaeth hi aeth weithion
Yn fud, heb ſymmud, heb ſôn.
Ond yna, wedi ennyd,
Yn ſwrth hon ſyrthiai o'i hyd;
Ar wddf ei thâd yr aeth hi,
Hi alwodd, fy nhad Heli!
Afonydd lifai 'fynu
O eigion y galon gu;
Dagrau o garedigrwydd
A lifent, rhedent yn rhwydd.

Ei gyfeillion gwaelion gwâr
Ddeuent i'w roi 'n y ddaear.
Wylo ar ol yr elawr
Wnai 'r Dduwies gynnes ei gwawr.
Nos ar hynt wnai neſu 'n rhwydd;
Yſtyrio 'n y Diſtawrwydd
A wnai 'r Forwyn addwyn wyl
Iaith dyner ei thâd anwyl.
Pan wawriodd, dihunodd hi
Yn felys iawn i foli
Duw Ner, ei harfer o hyd,
A'i rhyſedd bleſer hefyd.

Ar ol gweddi ddifri dda,
Y gywrain Fair hawddgara,
Fel Dafydd, mwyn fawl difai
Plygeinber i Ner a wnai.
Mawl odiaeth mal mêl ydoedd;
Ond cyn yr Emyn yr oedd
Byſedd llon Gwenfron yn gwau
Ar bur dyner bêr dannau,
Blaſus, i felus foli
Yn gydlef â'i hoywlef hi.
Ac yna hi y Gân hon,
Gwen Eneth, gànai 'n union:

I.

Jehofa hael,
Dydi, oh Dâd,
Glywi 'mhob gwlâd
Gri gweddi 'r gwael.
Oh gwêl fi 'n iſel yn awr,
Ior hedd, o flaen d'Orſedd di!
Tro, Ion, d'olygon i lawr
O'r Nef wenfawr arnaf fi:
Ond Ti, ein Twr,
Dywyſai'n glau dy weiſion glân, drwy dân a dwr?

II.

O d'wydd nid af;
Pa glau ddur-glo,
Pa frynn, pa fro,
Na welo Naf?
Pe 'mgodwn, pe hedwn hynt

Ar

Ar laſwen aden y Wawr,
Neu olwynion gwylltion gwynt,
I'r tonnawg Fôr murm'rawg mawr,
Ym monwes Mor
Byddaf o hyd, hyfryd yw hyn, dan edyn Ior.

III.

O dêg liw Dydd,
O gyrredd gwawr
Ffurfafen fawr,
I'r orawr rydd,
Pe 'mguddio wnawn yno,—Ner
Mewn Gwawl anfeidrawl a fydd!
Y nos ſydd, heb Loer na Sêr,
I'r Ion mor dirion a'r Dydd:
Oh Arglwydd glân!
Perſonawl, Dâd, preſennol Di i mi 'mhob man.

IV.

Fy meddwl mâd,
O herwydd hyn
Sy 'n ſoddi 'n ſynn,
Ddiderfyn Dâd!
I'r Nef, i'r oleunef lân,
Mal pybyr Eryr, pe 'r awn,
Y ſiriol anfeidrol fan,
Tydi ſy 'n ei llenwi 'n llawn:
Dwys hynt, os af
I Uffern ddu, yn ei Ffwrn ddofn, Cyfion i'th caf.

V.

Gormod yw 'r gwaith,

Anfeidrawl Fod!
Egluro 'th glod,
Rhyfeddod faith!
Dy ddeddfau a d'eiriau di
Sydd lawn mor diriawn a'r dydd;
Mor bêr yw eu mêr i mi!
Hwy 'n orau tryſorau ſydd;
Mal mêl im ynt,
Oh fwyned yw i f'enaid i eu holi hwynt!

VI.

Trugarog Ion!
Yn d'eiriau di
Myfyriaf ſi
Er ſi 'r Oes hon.
Y Ddaear werdd-liwgar lân,
A'r glaerwen Ffurfafen fawr,
Newidio, heneiddio wnan',
Er gwyrdded gwynned eu gwawr:
Duw lwys di lyth,
Diriona Tâd, yr Un wyt Ti, a fyddi fyth.

Myfyrio yno ennyd,
Gwenfron, a wnai hon o hyd.
Didawl ddyfn fyfyrdodau
Yn ei henaid gaid yn gwau.
Fal y Nef olau yn awr,
Glaerwen, dawel, eglurawawr,
Wedi 'r addwyn daer weddi,
Felly caid ei henaid hi.

Pan

Pan godai 'r Haul di-draul da,
Mal Cawr, i'w eurfawr yrfa,
O'r glaerwen wybren obry
Daeth Angel tawel i'r ty:
Godidawg i gyd ydoedd,
Tiriawn, brenhinol iawn oedd.
Gwridiai Mair yn gariadawl,
A hyn wnai Mab gwynn y gwawl.
Y wych Ferch, ei chyfarchu
Mewn iaith fêl wnai Gabriel gu:
Hanffych, y Wyryf wych, well,
Dda ollawl, a bydd wellwell.
Cefaiſt râs gan Dduw cyfiawn
O'i Gariad ef, gorau dawn.
Gwynn dy fyd, hyfryd dy hedd,
Gwawr hoywgain, ym'hlith Gwragedd!

Fwynddyn fâd, ofnodd yn fawr
Y Claerwyn hardd diſcleirwawr.

E dd'wedodd yn ddioedi,
Y Fun deg, na ofna di;
Cu Ior Nef, cywira Nawdd,
Wen feinwâr, a'm anfonawdd
Yma attad, mae itti
Fawr ffafor gyd a'n Ior ni.
Ac wele 'r lwys eglur lân!
Eſgori y waiſg eirian
Ar ryfedd Fab ceinwedd cu,
Glwyſwawr, a gelwi—Ieſu.
O'u pechodau gau i gyd

Y gwirion oll Fe 'u gweryd.
Diau Ef o ſlaen Dofydd,
Mirain Fab, mawr iawn a fydd.
Gwir Ion i'w Fâb, gwâr Ynad,
Rydd Orſedd Dafydd ei Dâd.
Diſeth ar Orſedd Dafydd
O hyd tra b'o Ryd y bydd
Cu eirian Ior cywirwych,
Yn Llywydd tragywydd gwych.
Mab Dafydd, celfydd ei caid,
Reola 'r holl Iſraeliaid.

Hi 'n ddidwyll iawn a dd'wedodd,
Cain Gennad! trwy ba fâd fodd?
Creda, gwyr y Creawdwr,
Duw Nef, nad adwaen i wr.

Y Fun arab fwyn eirian,
Duw Yſpryd goleubryd glân,
Nefawl Arglwydd dedwydd da,
Yn gadarn a'th gyſgoda.
A gwybydd, o herwydd hyn
Y gogoned Fachgennyn
Eiddilaidd ſancteiddiolaf
A elwir yn wir—Mab Naf.
Ac wele! i gryfhau 'th galon,
Gwrando 'r eres hanes hon;
Eliſabeth loywlwys bêr,
Dy anwyl Gares dyner,
Y gywrain fwyn Wraig arab,
Oediog, ſydd feichiog ar ſab.

Y Wawr eglur rywioglon,
Credu wnaeth Mair i air Ion:
Diammau y daw immi,
Y Diſglair, yn ol d'air di.
Ae 'r loywfad Gennad geinwych
Ymaith i'r Nef wenfaith wych.
Aeth Mair, a'i diwair wên dêg,
I'r mynydd-dir mwyneidd-deg,
At ei chares gynnes gu
Hynod oedd wedi henu.
Difyr y daith! da fu 'r dydd!
Hwy lanwyd o lawenydd!
Yn felus, fal Nefolion,
Molent mawrygent yr Ion.

Y CHWECHFED RAN.

MARWOL anguriol gerydd!
Braw ddaeth i Fab y wawr ddydd!
Galwodd, cynnullodd yn awr
Fatus dorf ar frys dirfawr
O'i weiſion duon a dig
Uffernawl,—byddwch ffyrnig!
Mae achos mwyaf ichwi!
Mae 'n awr achos mawr i mi!
Mewn crynfa, mewn cur anferth,
A'i hynt mal y corwynt certh,
Y Diawl, Tâd pob hudoliaeth,

Creulon

Creulon i'r Eigion yr aeth.

Mam Suddas, (fu ddiras ddyn,
Fu 'rioed y cyfryw adyn ?)
Ar hwn cyn eſgorai hi
Yr oedd mawr brudd-der iddi.
Yn nhrymder, yn nyfnder nos
Y dygodd breuddwyd agos
Yn llwyr ei ſynwyr yn ſynn,
Gwŷn ddu echrys, gan ddychryn.
Gwelai, o flaen ei golwg,
Dorf dywyll o erchyll wg ;
Uthrawl wynebau athriſt,
Duon a thrymmion a thriſt ;
A brwd ruddwaed berwedig
Ar eirias dân o wrês dig ;
A Chroes, waedlyd, echryſawl !
A hwythau y darnau Diawl !
Ynfydai gan ofidion,
Dychlammai, anhwyliai hon.

Diddan Fam y Bedyddiwr,
Y wreigdda gyda ei gwr
Tra 'r hunai, canfyddai fâd
Brydferth loywgerth Olygiad :
Trwy gaddug du trag'wyddawl
Meddyliai y gwelai 'r Gwawl
Yn gwawrio yn gu eirian,
A'r Duwiau yn cyd-wau cân.
Oh haelionus lawenaf
Niferoedd yn Nefoedd Naf !

Ei chalon oedd raſlon rydd
A lanwyd o lawenydd.

Diau pan anwyd Ioän,
Ei dâd, wr goleufad glân,
Ei enau gymmau oedd gaeth
A dynnwyd o'i fudanaeth.
Moliannodd, â mêl enau,
Dduw hael yn ol ei ryddhau.
Gwir felys fu gorfoledd
Ei galon a'i wiwlon wedd.

Mewn nefawl ryfeddawl fodd
Mair dirion lon a lanwodd.
Ei gwr oedd mewn cyflwr caeth,
Mynnai adael Mun odiaeth.
Ni fynn goffhau 'r geiriau 'n goedd
I'w dilyn drwy 'r ardaloedd.
Ni rydd g'wilydd a galar
I'w chanlyn, anwylddyn wâr.
O'r Entyrch atto yntef,
Liw nos, daeth Angel o Nef:
Egorai ei gu araith
Am Fab Nêr, mewn mwynder maith.
Dywedai 'r Gennad odiaeth,
Gwybydd, Fab Dafydd, y daeth
O wynfyd y Nef wenfawr
Ogoned Ymwared mawr.
Yn gefnog bydd, nag ofna,
Dan wregys Mair ddiwair dda
Mae 'r mawr Iefu, dy gu Gâr,

E ddeuodd Duw i'r Ddaear.

Y glau deg Weledigaeth
O Nef ei fodloni wnaeth.
Yn union, heb ofn anair
Y Byd, gwnai gymmeryd Mair.

Caiſar fawr yn awr a wnaeth
Farn hynod trwy 'r Frenhiniaeth:
Ef oedd a'r Byd i'w feddiant,
Gwnai 'n ol ei ymchwyddol chwant:
Diau 'r Byd nid arbedodd,
Pob Gwlad dan drethiad a rodd.
I'w Dinas ae pob dynion
I dalu 'r Dreth ddifeth hon.
Ae 'r Wyryf a'i gwr eirian
I Fethlem oleudrem lân.
Yno tra bu 'r ddau anwyl,
Y firain wen Forwyn wyl,
Gwawr dyner, ei hamſer hi,
Waiſg eirian, i eſgori
Gyflawnwyd;—Duw lwyd, ba Lys,
Claerlawn ehang Ddiſcleirlys,
Ior Nattur, a ro'wn itti?
A gafwn lle dodwn Di?
Yn y Dre' mae pob lle 'n llawn:
Y bêr Wyryf dêr diriawn,
Dra hynod Wraig dirionhael,
Cai letty a gwely gwael:
Mewn Preſeb! man pûr iſel,
Gorwedd wnai 'r fwyn Forwyn fêl.

Ior

Ior nefawl y freiniawl Fro,
Mab Duw lwyd anwyd yno.

Difyr Fugeilwyr defaid
Gerllaw yn gwiliaw a gaid.
Aml lu o gymmylau oedd
Yn nofio 'gylch y Nefoedd.
Yn awr hardd Loer wineurudd
Oedd olau, ac weithiau 'n gudd.
Laned yw llu 'r oleunef!
Meddent, tra 'r wynebent Nef:
Duw lwyd! gwaith dy law ydyn',
Rhyfedd mor faith gwaith Duw gwynn!
Dda ddynion ymddiddanynt
Am ddyddiau y gwyrthiau gynt:
Gyrrwyd ni o bob gorawr,
Duw gwêl ni 'n iſel yn awr.
D'wedwyd, mynegwyd i ni
Y genir T'wyſog inni
Ryw ddydd a'n rhydd yn rhyddion,
Dafydd y Salmydd ſy 'n ſôn.

Dda ddynion tra 'mddiddanynt
Am ddyddiau y gwyrthiau gynt,
O'r Dwyrain hyfryd araul,
Mal codiad tywynniad Haul,
Lân wyr, hwy welen' eirian
Wawl o draw 'n olwynaw 'n lân,
Ar nawf drwy Gaerau 'r Nefoedd,
Nefau amryw raddau 'r oedd.
Wele eres lu eirian

Diſcleiriol ag ethol gân!
Dedwydd lu 'r Nef glodadwy
Yn glaergylch o'u hamgylch hwy!
Canent Emynnau ceinwych
Uwch ben yn yr wybren wych.
Fwynion wyr, ofni a wnaeth
Y dirion Wyliadwriaeth.
Ac ar hyn Angel gwyn gwâr
Ddeuodd yn fwyn i'r ddaear:
Nag ofnwch, can 's heddwch hîr
Heddyw i chwi gyhoeddir:
I chwi 'r wy 'n mynegi 'n awr
Newyddion trymmion tramawr:
Newyddion dedwyddlon da
O lwyddiant i hil Adda:
Ganwyd eich T'wyſog union,
Yr Ior hael, yn yr awr hon:
Eich Llywydd tragywydd gwâr
Ddeuodd heddyw i'r ddaear.
Naws dôf, yn Ninas Dafydd
Eich T'wyſog ſerchog y ſydd.
Hynod oreuglod Arglwydd,
Tâd pob dawn, ddaeth a llawn liwydd.
A hyn yr wy 'n ei henwi
A fydd wych arwydd i chwi;
Cefwch y Ceidwad eyſion,
Anwyl ei wedd a'i wên lon,
Dirymmiant, wedi rwymaw,
A'r lle mewn preſeb ger llaw.
Yno cewch yn ddi naccâu,
Duw uchod, mewn cadachau!

Clywid

Clywid nefol ſiriol ſwn
Melyſawl fawl gan filiwn :
Cerubiaid, oleublaid lawn,
Gu natturiol Gantoriawn,
Y gloywlwys lu goleulon,
Gogoniant roddant i'r Ion ;
I'r Ddaear gu liwgar lân,
I'r moddus wyr a'i meddan',
Tangnhefedd, oleuwedd lu,
Roiſant am eni 'r Ieſu :
I ddynion, dorf ddiddana',
Lliaws doeth, rhoent 'wyllys da.
O'r byd hwy gyd ymgodan'
Ar ol eu rhagorol gân :
Ae 'r tyner nifer nefol,
Pereiddlef, i Nef yn ol.
Gan mor bêr mwynder eu mawl
A'u haml leiſiau melyſawl,
Bu 'r ffyddlon wyr tirion têg
Dros dro 'n gwrando 'n gywreindeg.

Rhyfeddol ddiddanol ddydd!
Gwelwn, meddent i'w gilydd,
Waith Arglwydd yr Arglwyddi
O Nef hyſpyſwyd i ni.
Plaid y Bugeiliaid gwaelion,
Yn yr ennyd hyfryd hon,
Daethant a gwelſant y gwir ;
Y gwr cu a'i wraig gywir ;
Joſeph a Mair ddiwair ddau ;
Oh ddidawl ryfeddodau !

Hwy welsan' y Baban bâch,
Iesu hael!—p'le iselach?
———Mewn Preseb!
Hynaws graffent yn hoenwych,
T'wysog hedd, ar ei wedd wych,
Ar Dirionwawr Duw 'r wiwnef,
Duw 'r lluoedd a nerthoedd Nef.
Mawr ryfeddu wnai 'r llu llon,
Taenasant eu hanesion:
Clau weision, pawb a'u clywsant,
Un wedd rhyfeddu a wnant.
Yn ol, wyr ethol, yr ant,
A'r llu dan ganu ganant.

Yn ol y faith Gyfraith gynt,
Iawn ydoedd, hwy enwaedynt
Fab Dafydd, Llywydd pob llu,
Enwasant Ef yn—Iesu.

Y wen Fair ddiwair, pan ddaeth
Dy'gwyl ei Phuredigaeth,
Dygasant Ef, dêg Iesu,
I Deml glaer Salem Gaer gu,
I'w gyflwyno, gu Flaenawr,
I'w Dâd, y mwynfâd Dduw mawr.
Gwr difri' mewn gweddi gaid,
Simeon union ei enaid,
Eiddunai lân ddiddanwch
I Israel o'u trafael trwch.
Gan Yfpryd hyfryd Duw 'r hedd,
Gwir felys fu 'r gorfoledd,

E wybu gyflawn obaith,
Cyn bedd a diwedd ei daith,
Cu olwg, y cai weled
Y pur Nêr Criſt, Prynwr Cred.
Yn llefaru bu 'n ddi baid,
Ion anwyl, yn ei enaid:
Gwybydd dyma 'r Dydd y daeth
Y diriawn Iachawdwriaeth:
Mae 'n awr dy Arglwydd mawr mâd,
Mae 'th Frenin, mae 'th fawr Ynad,
Mae 'n awr, y gwr mwyn eirian,
Mae 'n awr i'w Deml lwysfawr lân.
Simeon, na ofna 'th fiommi,
Dôs, a gwêl, a dychwel di.

I'r ryfedd Deml oreufaeth,
Mwyn ddyn, hên Simeon a ddaeth.
A gwir yw, yn ol gair Ion,
Cafodd ei Arglwydd cyfion.
Y gwr iſel goreuſerch
O law ei Fam, olau Ferch,
Bryſiai, cymmerai 'r Mawredd,
Y Maban eirian ei wedd.
Ennyd, mewn gwynfyd, wr gwyl,
Fe wenai ar Naf anwyl:
Torrodd yr hên wr tirion
I'r fawrglod Gân hynod hon:
Ydd ydwyf yma 'n ddedwydd!
Ieſu 'n rhoi ei wâs yn rhydd!
Di ball gwnaf ſymmud bellach
Mewn tangnhefedd i'r bedd bâch,

Yn

Yn ol d'air, Duw anwyl, daeth
Dy eirian Iachawdwriaeth!
I'r Cenhedloedd, lluoedd llawn,
Ti yrraiſt olau tiriawn!
I hil dy weiſion haelwych,
I'th blant daeth Gogoniant gwych!
Gwenu a wnai Mair geinwawr,
Gwnai 'gwr cu ryfeddu 'n fawr.

Anna Brophwydes union,
Llefarai, cyhoeddai hon
Yr un peth, wraig ddifeth dda,
Am rywiog Fab Maria.

Pan ddaeth Mab Naf glanaf glod,
Ieſu, i'r ddaear iſod,
Satan llawn malais yttoedd,
A dig felltigedig oedd.
Ym mol yr uffernol Ffau
Eirias oddaith Orſeddau
Y ſydd, megis moelydd mawr,
Yn gaerog enwog Orawr:
Ac yno, T'wyſog Annw'n,
Mae echrys Frenhinllys hwn.
Yno 'r eiſteddai ennyd
Mewn creulawn afradlawn fryd.
Fe guchiodd, edrychodd dro,
Lew anwar, pwy wêl yno.
Caid y Pennaethiaid yn awr,
Yrroedd, drwy amryw orawr,
Yn coſpi 'n poeni heb baid,

Mawr

Mawr ddolur, amryw ddeiliaid.
Pwy weithian, medd Satan, ſydd
O'n gweiſion â'n Negeſydd?
Tra gawriai, newidiai 'wedd
Gan ddiriaid groch gynddaredd.
Swyddogion llymion y Llys,
Dewrion Ellyllon dyrys,
Gwelai hwynt yn diſgwyliaw
Mewn cuchiog afrywiog fraw.
Hedwch, cynnyrfwch yn awr
Dorfoedd yr Eigion dirfawr,
Bryſient yr odfa breſen
Yng'hyd, cyn b'o'r Byd ar ben.
Rhag ei ruad ofnadwy
Dychlamment, ehedent hwy.
Ar air, drwy 'r Diſtryw eirias,
Yn chwyrn y doi 'r Cedyrn câs;
Holl Senedd lliaws Annwn
Ehedent, heidient at hwn.
O radd i radd yr oeddynt,
Croch lu, mal yn Nef gu gynt.
Siriol pan f'o 'r Haul ſeirian
Uwch y môr mawr gloyw-wawr glân
Yn gwenu drwy niwl du dwys,
Gwelir diſgleirbyſt gwiwlwys;
Hyll Rawd y Llew rhuadwy
Oedd gymmaint o faint, neu fwy.
Llewyrchent â lliw erehyll
Trwy 'r echrys Frenhinllys hyll.
Cododd Satan yn dân dig,
Yn gadarn felltigedig,

I fawrwych

I fawrwych groch lefaru,
Erchyll oedd goruwch eu llu.
Chwi D'wyſogion creulon crâs
Sydd ar Orſeddau eirias,
Enwog lu 'r Nefoedd unwaith,
Yn awr torf Uffern fawr faith,
Galwyd chwi at eich gilydd
Am fatter ai fyrder fydd;
I'n Ffwrn ddu ni fu ei ſwy,
Annedwydd ac ofnadwy!
Nef-Frenin pan ddifreiniawdd
Ein llu ni allan o'i nawdd
I'r penyd, o'r gwynfyd gwych,
Mi gwn mewn cof mae gennych
Y ddadl gadarn a'r ſarn fu,
Mai dirym yw hyderu
Ail egawr y Nef loywgerth
Trwy ddewrder, nifer, a nerth.
Gwir!—ond er hyn rhagori
Mae'ch dyfnion ddichellion chwi.
Y Taranwr, taer Ynad,
Ar ol yr angerddol gâd,
Bwriadodd, Fe geiſiodd gau
Torf Annw 'n mewn terfynau:
Ond o'r Llynn, er hyn, yn hawdd,
Aethom, torraſom troſawdd.
Yn Eden, Ardd wen odiaeth,
Hudais, mi gymm'rais yn gaeth
Addaf ddedwyddaf hoywddyn,
Y cyntaf a'r doethaf dyn.
Afreidiawl im ddifrodi

Yn

Yn ofer eich amſer chwi,
Denais yr holl Fyd annoeth,
Mi hudais trwy ddyfais ddoeth.
I chwithau, gwyddoch weithian,
O'r fantais mi roddais ran.
Ninnau yn hyn o ennyd,
Ni 'n ddiau a biau 'r Byd.
Yn awr mae 'r Gelyn mawr mau
Am ei ddwyn o'm meddiannau.
Gwir ydyw, rhai a gredynt
Eiriau 'r daroganau gynt;
Hwy gredant mai Gwaredydd
O'r Nef draw a ddaw ryw ddydd,
Ac yna bydd gwae inni,
Diſtrywir anafir ni.
I'r Ddraig Hâd y Wraig a rydd
Hynod ddirfawr ddihenydd:
Y lwyr-chwyrn farwol archoll
Pa bryd nid ŷw 'n d'wedyd oll.
Ar air, wrth bob rhyw arwydd,
Y dyddiau 'n agoſau ſydd.
Ond och! can 's gwyddoch mai gwir!
A gwae ei fod yn gywir!
Miloedd a myrddiynoedd aeth
O'r dynion roent grediniaeth
I'r hawddfyd, i'r gwynfyd gwych,
Gwae inni! mae 'n gof gennych.
Pa fodd? o'n hanfodd aen' hwy?
D'wedwch?—mae 'n anghredadwy.
Aethan' i lân Oleuni,
Mae 'n wradwydd, o'ch herwydd chwi.

Meddych,

Meddych, gan golli 'r wych wawr,
Y lawen Nef oleuwawr,
Yn y tanllyd hagrfyd hwn
Trwy ofid y cartrefwn.
Rheolwn Annw 'n wynnias
A Ffwrn groch holl Uffern grâs:
Y Wlâd anfeidrol ydyw,
Digon o waith a dygn yw.
Oni 'wyddoch mai rhai'n oeddynt
Eich dadleuon gweigion gynt?
Gerwin a fu'ch ſeguryd!
O'ch bodd collaſoch y Byd!
Ond chwithau gwrandewch weithion,
A chryned, brydied eich bron:
Byddwch chwi Arglwyddi glân
Yn well-well o hyn allan;
Byddwch, 'r wyf i'ch rhybuddiaw,
Fwy bywiog llidiog rhag llaw.

Blin yrroedd y Blaenoriaid
Rhag'ddo mewn cyffro eu caid.

D'wedwch, a gollwch i gyd
Drwy hyllfai draw yr hollfyd?
A ddenais, a hudais hwn
Unwaith i feddiant Annw 'n
I'w ro'i 'n ol? bythol na b'o
Y dydd rhag ein gwradwyddo.
Bellach, yn hyttach na hyn,
Rho'wn hyder ar ein hedyn;
I gyd nyni a godwn

O'r

O'r fflamllyd Lynn tanllyd hwn.
Myn ſeirias Deyrnas o dân,
Fy hynod fraich fy hunan,
Ac myn hon y Goron gerth
Fawrfaint, os yw 'r Nef eurferth
O gyrredd arfau geirwon,
Tyrfau a rhuthrau 'r Fro hon,
Y ddu oerlom ddaearlawr
Dynnaf, faluriaf i lawr;
I lawr mi a'i maluriaf,
Yn un ag Uffern a wnaf!
Dial cyhafal yw hyn
I rwyſgo a goreſgyn.
Ar hyn o amſer hynod
Yn fyrr gadewch inni fod:
Arw haid awn ar ehediad,
Chwychwi gwnewch lenwi y Wlâd;
Hudwch, denwch bob dynion
I'r hên Fagddu hagrddu hon.
Drwy ddichellion geirwon gau
Na oedwch ladd eneidiau;
I'w myſg gwnewch ymgymmyſgu,
Yn llwyr ennillwn eu llu.
I ddynion, tra b'ont yn bod
Heb achwyn dan drwm bechod,
Heb yſtyr gwewyr eu gwŷn,
Heb hedd, heb rinwedd ronyn,
Yn rhwydd eu Nêr pe rhoddai
Y lwys Nef, pa lês a wnai?
Ond Diawliaid melldigaid y'ch?
Da 'r adwaen mai dewr yuych:

Llew ydwyf, pwy all wadu?
Fi ſydd yn Llywydd i'ch llu.
Gynhigiwn, gymm'rwn un gwaith
Heb ei orphen yn berffaith?
Mi gwn, diammau gennyf,
Ac yn hyn 'r wy'n ddigon hyf,
Gwradwydd fydd i'w Gwaredwr,
Hudaf, mi gwympaf y Gwr.
Gan falchder a hyder hwn
Hyll wenu wnai llu Annwn.
Eu Cadau, cyn y codynt
Yn awr i'w ehedfawr hynt,
Rhoent dair bonllef grochgref grâs,
Gan rwygo 'r Oror eirias:
Dibris gawriai 'r llu dybryd
Yn erbyn Duw gwyn i gyd:
Y Creigiau dur crogedig
Roent anfad attebiad dig.
Ar hyn crôch ddychryn a ddaeth
I waelod Bro marwolaeth!
Teirgwaith gwnai Annwn faith fawr,
Yn llwyr yn ei holl Orawr,
Riddfanu, gan grynu'n groch
Hyd eigiawn y Llynn dugoch.
Pa ddychryn anhydyn hyll?
A braw du drwy'r wybr dywyll?
Pa riddfan, ebr Satan, sydd
Erchyll, trwy 'n gorwyllt geurydd?
Coeliaf dy ddyfod, Celi!
Dduw mawr! rhy ryfedd i mi!
Gorwyllt dorf, nid gwiw aros

Yn

Ym mroydd annedwydd nos;
Oferedd in fyfyriaw
Ymochel; a ddêl a ddaw.
Yn awr torf Uffern fawr faith,
Rai anwar, oll ar unwaith,
O dân aent ar adenydd,
Chwerw dorf, tu a chaerau dydd.
Uwch ben y troe 'r Cadpen câs,
Draig arwddig mewn drwg urddas:
Rhifai, tra 'r chedai hwn,
Dorfoedd byddinoedd Annw 'n.
Gwir ddiau gwae i'r ddaear!
Gwae 'r Byd gan benyd a bâr!
Daionus ydyw inni
Yn awr fod Duw gyd a ni!

Doethion ac enwogion wyr,
Ac odiaeth iawn ddyfgawdwyr,
O Arabia oreuber,
Welent Wawl hynodawl Ner.
Yr hanes am Ior hynod
Hawddgar i'r ddaear i *dd'od*,
Dduwiol Frenin Iuddewon,
A lanwai 'r Wlâd harddfad hon.
Gwawl firiawl mal gloyw Seren
Ryfeddwych yn entrych nen,
Arwyddion mewn Seryddiaeth,
Liw nos, wnaen ddangos, Fe *ddaeth!*
Tu a'r Seren wen waneg
Teithiai rhai 'n o'r Dwyrain deg:
Daethant, wyr hynod, weithion,
I Salem oleudrem lon.

At Herod ddi-glod ydd ant;
Yn gu fwynion gofynnant,
Mae 'r Hwn a ddaeth mor hynod,
Y ſydd ac a fydd i fod
I'r Iuddewon mwynion mâd
Yn Frenin, yn fawr Ynad?
Ei wyrthiol ſiriol Seren
Yn entrych y Nef wych wen
A welſom: daethom o dir
Iawnglod y Dwyrain wenglir
I'w ddilys fwyn addoli,
Mwyn Ior, i hyn deuem ni.

Yna Herod anhirion
Gyffrodd, a ſynnodd wrth ſôn.
Bu 'n annoeth fawr boen ennyd
I'r Dref gyd ag ef i gyd.
Gwyſiodd Herod i geiſiaw
I'w Lys, ar frys, mewn chwerw fraw,
Gymmanfa ddoeth gyfrgoeth gall,
Y gwanddyn cynfigenddall.
Pan gasclodd, holodd â hwynt,
Lu moddaidd, pe le meddynt
Genid Brenin Gogoniant?
Enneiniog Swyddog y Sant?
Hoff wyr, yr Archoffeiriaid
Bob un, yn gyttun a gaid
I'w atteb; Bethlem yttyw
Y da Le, hynodawl yw:
Can's hon yw'r Ddinas lon lwyd,
Dda odiaeth, a ragdd'wedwyd.

Fe'

Fe 'r annoeth ddiras Frenin
Y ſydd yn aflonydd flin.
Draw at y Doethion fe drodd,
Hwy eilwaith fe a holodd:
Pan gaffoch, pan weloch wedd
Ior hynod Brenin Rhinwedd,
Deuwch, mynegwch i ni,
Cu ddyn, p'le ca'dd ei eni;
A minnau 'n ddiau ddeuaf,
Lân Ior, a'i addoli wnaf.

Hên Lwynog, hwn lawenai,
Bradychu, dan wenu, wnai.
I'w ddu galon ddig'wilydd
Dichellion ſurion y ſydd.

Y Doethion draw a deithiant,
Mewn llawn gobaith ymaith ant.
Y claerlon Wawl diſcleirlwys,
Fal Seren oleuwen lwys,
O'u blaen aeth, bu lawen iawn
Y dethol fwynwyr doethiawn.
Y Cyfeillion cu felly,
Ior glân, y daethan' i'w Dy.
Wele ryfedd Ryfeddawd!
Criſt Ieſu yn gnu' o gnawd!
Trag'wyddol Fab nefol Naf
Ar liniau Mair lawenaf!
Gweddus oedd ei bryd gwiwdda,
Mwy tirion na hinon Ha'.
Yr ydoedd fwy goreudêg,

Fwy cynnes nag yw 'r tês têg:
A'i ben, ni bu neb wynnach,
Mor lân oedd y Baban bach!
Mab ffraw, a'i ddwy law ar lêd,
Yn gwenu Ion gogoned!
Hynaws graffent yn hoenwych,
T'wyſog Hedd, ar ei wedd wych,
Ar Dirionwawr Duw 'r wiwnef,
Duw 'r Nuoedd a nerthoedd Nef.
Y Gwyr enwog eirianwawr,
Syrthient, penlinient i lawr;
Addolent Ef yn ddilys,
Rhoent fawl hyfrydawl ar frys:
Rhyfedd iawn! rhyfedd eni
Naf pur yn ein nattur ni!
Tra ſiriol o'u tryſorau
Rhoent roddion gloywon yn glau:
I'r Ieſu aur a roiſant,
Rho'i thus yn weddus a wnant:
Myrr, i Fab difyr Dafydd,
Glân a ro'nt, o galon ıydd.

Duw Ner, yn nyfnder y nos,
Yn dyner yn y dunos,
Roddai rybudd da-fudd doeth,
Dawnus, at Herod annoeth
Nad aent; ac ufuddhaent hwy
Eu dedwydd Ior clodadwy.

Ar hyn yr Anhirionwawr,
A llu yr holl Fagddu fawr,

O Wlad

O Wlad Uffern, Le diffaith,
Daethant yn awr, dirfawr daith!
Mewn llawn gofid a llid llwyr
Troant o ddeutu 'r awyr.
Weithian ae Satan i'w Swydd,
Gau fwriad, yn gyfarwydd
I drin creulon droion drwg,
Mwrddrad, pob llid a mawrddrwg.
O'r wybr draw obry e drodd,
Ei Gyfaill hên a gofiodd:
Creulonaf a gwaethaf gwr
Ydoedd Herod ddihirwr.
Deallodd gael ei dwyllaw,
Cyffrodd a brochodd mewn braw.
Y Diafol hudol wnai hwn
Fal un o hên ddieifl Annwn.
Gwnaeth ddanfon gweifion dan gêl,
Rifoedd o wyr o Ryfel,
I lâdd a diäleddu
Trwy Fethlem Dref geindrem gu.
Diras Herod roes arwydd,
Hwy ant, pryſurant i'w Swydd.
Y Sawdwyr, modd arſwydus,
Trywanent, briwent heb rus,
(A luniwyd gwaith creulonach
Gan Elyn?) y bechgyn bach.
Oh lid rhai annheimladwy!
Tra gwenent, gwahanent hwy!
Hyll rwygwyd llawer ugain,
Is dwyflwydd, yn rhwydd o'r rhai 'n.
Dwys gamwedd du yſgymmun!

Lladdwyd,

Lladdwyd, ni adawyd un!
Clwy' dudoſt! caled adwy!
Blant ſiriol, ar eu hol hwy
Eu rhiaidd Fammau rhywiawg
Wylofain wnai rhai 'n y rhawg.
Dichellion, amcanion câs,
Gelyniaeth a galanas
Satan, os cyfrwys yttynt,
O Nef hardd canfu Naf hwynt.
O'i nawdd anfonawdd yn fwyn
Ei weddus lwys Fab addwyn
I'r Aipht; ac i'r Aipht yr aeth;
Mudwyd gan ei Fam odiaeth.
I'r Gweinion rhodd Ior gwiwnef
Y ſantaidd anwylaidd Nef.
Herod ga'dd ddibendod bas,
Iddo daeth Angau addas.

A Naf ddaeth â'i Fab nefol,
Prydferth, i Naz'reth yn ol.
Yn Naz'reth, Brenin Iſrael,
Ior mawr mâd, mewn galwad gwael,
Tra ufudd y cartrefai,
Dirgel fyw 'n iſel a wnai.
Ior hael, gan mor wael ei wedd,
Er hynny yn llawn rhinwedd,
Ni wyddai Satan ciddig,
Drwy ddichellion dyfnion dig,
Ai Ef ydoedd ei Fodur;
Bu flin a gerwin ei gur.

Deuddeg

Deuddeg oed Fab diddig aeth
I Salem Ddinas helaeth,
Tangnhefeddol rasol Ri,
Ar unwaith a'i Rieni.
Yr enwog ddirfawr Ynad,
Fe aeth fry i Dy ei Dad.
Tirion lu o Ddoctoriaid
Yno 'n yngommio a gaid.
Gwrandawai 'n gadarn arnynt,
Gwrandawai a holai hwynt.
Ei nefol wrol araith
Wnaeth i'r llu ryfeddu 'n faith.
Cododd a chynhyrfodd hyn
Arwa' galar i'r Gelyn.
Ae 'r Annuw yn yr unawr
I'r wybren yn fellten fawr:
Yn danbaid haid anhydyn
A gasclodd, cyhoeddodd hyn;
Ni wiw 'r Gethern fygythfawr
Troi 'n ol wedi taro 'n awr.
Gyrrais lu i frathu 'fron,
A chollais wrth ddichellion.
Er Addaf chwi hir wyddoch
Bob dichellion creulon croch.
Chwi 'r Erchyllion geirwon gau
Trwch benydiwch eneidiau.
Rhuthrwch, meddiennwch ddynion,
Rhwygwch, a brydiwch eu bron.
Carcharwch mewn cur chwerwaf,
Brysiwch, na ofnwch eu Naf.
Didawl ei ofid ydoedd,

Chwerwi

Chwerwi, cynddeiriogi 'r oedd.

Yr oedd byddinoedd Annw 'n
Mal rheipus, mal gwangcus gwn;
Rhuthrent, meddiannent ddynion,
Rhwygent a brydient eu bron.
Aflonydd yw 'r rhai flinant,
Gwallgofi 'n aneiri wnant,
Gwanant eu cyrph gan gynnwr',
Hwy fyrthian' i dân a dw 'r.
Gan gur y dur a dorrant,
Pob rhwymau 'n ddarnau ydd ant.
Y dynion gwaelion dinerth
Gyftuddient, gofpent yn gerth.
Hyll olwg! pwy all weled
Eu cyftudd, a'i rudd ni rêd?
Anfynych rhoi Naf union,
Cyn bod yr Oes hynod hon,
Gennad i lu drwg Annw'n
I boeni 'r Byd hyfryd hwn.
Ond yn awr y dirfawr Dad,
O'u chwerw a'u dwfn garchariad,
Y Diafol a'i lu difoes
Tros fyrr dro 'n rhyddion a'u rhoes.
Beunydd mae rhyw ddibennion
O gu iawn râd gan yr Ion:
Can 's wrth hyn y Gelyn gau,
Hên Lew, fydd yn ei liwiau;
Ei ddichellion duon dig
A'i lid fydd yn weledig:
A godidawg y Duwdod

Yn gyfiawn a gai lawn glod.
Gwelid gan bob trigolion
Radau a mawr wyrthiau 'r Ion.

Yn gu eirian mae 'n gwawriaw,
Mae Dydd y Llywydd ger llaw.
Galar fydd i ti 'r Gelyn
Yn ebrwydd o herwydd hyn:
Gwir yw, T'wyſog yr awyr,
Dy rwymau dithau Fe dyrr.
Y ffyrnig Sarph uffernol,
Cyn hir y ſigir dy fiol.

At Ioän eirian ei wedd
Gair anwyl Duw 'r Gwirionedd
A ddaeth; helaeth a hylaw
Gwnai 'r Gwr llon, a'i fron heb fraw,
Bregethu i bob llu llawn
Ar fin dw 'r Afon diriawn:
Bedyddiai 'r mwyn fab diddan
Luoedd ar fin dyfroedd Dan.
Yn awr, mor bwyſfawr o beth
Ei bur agwrdd bêr Bregeth,
Cyflym hanes eres aeth,
Iaith rywiog, o'i athrawiaeth
Drwy bob Gwlad, i'w fâd Fedydd
Ymgaſglent, deuent bob dydd
O Salem Ddinas wiwlwys
A da Wlâd Judea lwys.
Gwir addyſg a roi iddynt,
Golchai, argyhoeddai hwynt.

Doi

Doi yno wedi ennyd
Blant gwagedd, Bonedd y Byd.
D'wedodd, cyffrodd wr cu ffraeth,
Oh 'r dynion digrediniaeth!
Barus Genedl gwiberod!
Rhag llid y Dydd fydd i fod,
Ba wedd, pwy 'ch rhagrybuddiawdd
Yma 'n wir i ffoi am nawdd?
Dygwch, mae 'n bryd diwygio,
Ffrwyth gweddus trefnus bob tro.
Edifarhewch, chwi gewch gu
Fawredd am edifaru.
Am eich trofedd camwedd caeth,
Diles ydyw 'ch gwaedoliaeth.
Y fwyall, deall y dyn,
Roddwyd yn awr ar wreiddyn
Y Prennau; rhai heb rinwedd
A gwympir, yn wir, un wedd
A'u gilydd tros y geulan,
Torrir, fe'u teflir i'r tân.
Tra 'r oedd y bobloedd yn bod,
Fawr fyddin, mewn rhyfeddod,
Ai hwn oedd Crift ei hunan,
Ebre 'r cymmwys wr glwys glân;
Yr ydwyf ei Ragredwr,
Dros dro, 'n bedyddio â dw 'r.
Mae Hwn fy 'n dyfod o'm hol,
Ior gwâr, yn fwy rhagorol.
Oh Wladwyr! rhy wael ydwyf,
Wrth nattur rhy ammur wyf,
Ni's gwadaf, i ddwyn 'fgidiau

Y mwynwawr Arglwydd mawr mau.
Mae 'r graſlawn lor cyfiawn eu,
Mae 'n agos 'r wy 'n mynegu:
Ei Fedydd Ef fydd fadwys,
Fydd tân yr Yſpryd glân glwys.

Tra bu'n llefaru yn fwyn
Weddus gynghorion addwyn,
Yr Ieſu, yn wr iſel
Llariaidd a gwaraidd dan gêl,
Dilys drwy Yſprydoliaeth,
At Ioän ddidan Fe ddaeth.
(Ei oed yn hyn o adeg,
Oen Duw, oedd ugain a deg.)
Ni wyddai drwy 'r blynyddoedd,
Wr mwyngu, mai 'r Ieſu oedd.
Adnabu, pan ganfu 'r gwir,
Ei wych odiaeth Iachawdwr.
Di gêl rhoes Duw i'w galon
Wybod yr awr hynod hon.
Oh Arglwydd yr Arglwyddi!
Fy Naf! a fedyddiaf Di?
Oh moes! can's mae im eiſiau,
Fy Nêr, y Bedydd têr tau.
Attebodd, d'wedodd Mab doeth
Y gwir-Dduw yn gu wâr-ddoeth,
Yn ffyddlawn mae 'n iawn i ni
O flaen pob peth gyflawni
Yr holl Gyfraith fawrfaith fau
O dirion Gyfiawnderau:
Mae ei Rhinwedd mor hynod,

Gan hynny gâd felly fod.
I'w Nêr, wrth ei fwyn eiriau,
O'i fodd hwn wnai ufuddhau.

Ior da, pan ddeuodd o'r Dw'r,
Y goreudeg Waredwr
Ar Dduw Ri ei weddi rodd,
Y gaerawg Nef egorodd;
O'r lwyſber Nef dyner deg,
Mal Colommen wen waneg,
Gwelid Yſpryd Naf gwiwlan
Ar Ddofydd gu Lywydd glân
Yn diſgyn: Duw gwynn yn gerth
Hefyd o'r Nefoedd hoywferth
A dd'wedodd, cyhoeddodd, Hwn
Yw f'anwyl Fab a fynnwn
I'm cyfiawn lawn fodloni,
A bodlon wyf weithion Fi.

Dofydd o'i Fedydd Ef aeth,
Dygwyd i'w Brofedigaeth:
I'r niwlog fawr Anialwch,
I anferth o drafferth drwch,
Yn ddiſtaw gan law Duw lwyd,
Ior anwyl, Fe arweiniwyd.
Hên Addaf, ddedwyddaf dyn,
A goeliodd ei gau Elyn:
Rhoi hyder ar air hudawl,
Dichellion dy[illegible]ion y Diawl;
O'i wirfodd fe gwympodd gynt,
A'i holl hil ga'dd hyll helynt.
Ond Duw 'r hedd, o'i ryfedd râd,

A gododd i ddyn Geidwad.
Ac wele! (oh am galon
I groyw iach gredu gair Ion!)
Er dyfais arw'r Diafol,
Mae 'n wir ennillir ni 'n ol.
Ond pa fodd yr adroddaf?
Pa eiriau i'm genau gaf?
Hir fyddai d'we'yd rhyfeddawl
Ddichellion dyfnion y Diawl:
Hanes llawer o honyn'
Dan gêl fy 'n ddirgel i ddyn:
Gerwin oeddent uwch geiriau;
Yn fyrr boed y myfyr mau.
O'r wen Iorddonen pan ddaeth
Y Gwaredwr gwir odiaeth,
Satan ddu ganfu y Gwr,
A goflin oedd ei gyflwr.
Fadyn, fe wnai ofidiaw
Mewn llidiog afrywiog fraw.
Fe roddai gyfarwyddyd
I'w weifion geirwon i gyd,
Beunyddiol bawb o naddun
I fod yn barod bob un.
Llenwi a wnai llu Annwn,
Y dybryd y gwaedlyd gŵn,
Yr Anial oll ar unwaith
A'r glaerwawr wybren fawr faith.
Y Gelyn croch dig'wilydd,
Drwg amcan, Satan y fydd
Lidiog a bywiog uwch ben;——
——Dig obry o'r dêg wybren

Edrychai, canfyddai 'r fan
Ddirgelaidd 'r oedd lor gwiwlan.
Weithiau dan ganau y gwŷdd
E rodiai y Gwaredydd;
Ac wele! 'n awr ac eilwaith,
Eiſteddai, myfyriai 'n faith.
Hynny yr Anhirionwawr
Pan welai, rhyfeddai 'n fawr.
Ni wyddai Satan eiddig,
Er dichellion dyſnion dig,
Mo amcanion mawrion mâd
Yr enwog ddirfawr Ynad.
Y dyrys othrymderau
Oddiwrth ddyn a'r Gelyn gau;
Cadw'r berffaith Gyfrinach i gyd
A chalon ddifrycheulyd;
Tynnu 'r Deyrnas ſatanaidd
O'r galon, yn gron o'r gwraidd;
Seilio Teyrnas cholaeth,
Yſprydol, yn fywiol faeth,
Oedd lwys dda feddwl Iefu,
A'i fawrion amcanion cu.
Didawl mewn ympryd ydoedd,
I weddi ymroddi 'r oedd.
Y dieflig Yſpryd allan
Grynodd pan olygodd lân
Wawr hynod Brenin Rhinwedd,
Gofidiai, newidiai 'wedd.
Ni welodd fodd i feiddiaw
Ei demtiad a'i frâd gan fraw.
Dros hir amſer, Ner wiw Nawdd

Puredig,

Puredig, yr ymprydiawdd :
Deugain o ddyddiau digoll
Ieſu gaid heb dammaid oll.
Ac yno T'wyſog union
Y Nefoedd a'u lluoedd llon,
(Ni welwn ei ddynoliaeth)
Hael Ieſu, newynu wnaeth.
Y Temtiwr, Hudolwr du,
Diriaid, a wnai hyderu
Denai Waredwr dynion
Yr ennyd anhyfryd hon.
Fal Archangel tawel teg
O lydan Wlad oleudeg
Y Nef, ymddanghoſai 'n awr
I'r enwog Ior eirianwawr.
Yr Anfad a'i frâd i'w fron,
(Och hylled ei ddichellion !)
Holai, fe lefarai 'n fwyn,
Ai diddig Fab Duw addwyn
Ydwyd ? can 's anfonwyd fi
Attad yn gymmorth itti.
Hedais, pan glywais, yn glau,
Dy- fod mewn du ofidiau.
Mi welaf, mae im alaeth,
Dy rudd dan gyſtudd yn gaeth.
Dy waelaidd bryd a welir
Fal dyn mewn newyn yn wir.
Ai dedwydd Fab Duw ydwyd ?
Dyma garreg lyfndeg lwyd,
Tro hon yn burion bara,
O'th loes hir fe a'th leſhâ.

Yr Iesu ganfu ei gaeth
Fâr dyrys a'i fradwriaeth:
Dywedodd, afraid ydyw,
Da gwn, 'scrifennedig yw,
Oferedd i ddyn dduru
Heb nefol air dethol da
O enau Duw 'r Gwirionedd
Sydd fywyd a hyfryd hedd.
Pan glybu, ni fedru 'r Fall
Yr awr'on gael gair arall.
Mor berffaith y Gyfraith gu,
Ei fron wnai hon wahanu.
E gafodd warth a gofid,
Ffodd pan na lwyddodd ei lid.
Ac wed'yn y cu Geidwad,
Wrth 'wyllys dilys ei Dad,
A'i ofalon yn filoedd,
Ymborthi ar weddi 'r oedd.
Yn erwin daeth yr un dydd
I'r Gelyn ddirfawr gwilydd.
E ddarfu ei fawr ddiewrfoft,
Satan, bu fechan ei foft.
Hwnnw unwaith ei hunan
Ymchwyddai, ni roddai ran
I neb o lu 'r Anobaith
O'i ddig felltigedig waith.
Hyn wyr, os ennill a wnai,
Ei gyfarch yn 'wy gafai;
Llai, os nad elai d'r dydd,
I'w galon gai o g'wilydd.
Pan welodd, mewn poen daeth,

Nad

Nad ffynnu, ennynnu wnaeth:
Archodd i lu 'r Fagddu fawr
Wneud terfyſg hynod dirfawr
Draw i ruaw drwy 'r awyr:——
——Dan ruthro rhuo 'n yr hwyr
Torrai ymwriai 'r mawrwynt
O'i garchar o'r pedwar pwynt,
Mal lluchynt, y trowynt trwch
Annelodd i'r Anialwch:
Coed irion accw dorrant,
O Seiliau dyfn-wreiddiau 'r ant.
Mab Duw lwyd, diarfwyd oedd,
Ei Geidwad ei Dâd ydoedd.
Yna goſtegodd ennyd;
Duodd ymgauodd i gyd
Yn d'w'llwch mawrdrwch a maith
Drwy 'r Anial draw ar unwaith.
Mewn nerthawl ryfeddawl fodd
Ar unwaith hi daranodd.
Y mellt a wnaent ymwylltiaw,
Fflammient, goleuent drwy 'r gwlaw.
Tryſtiai, e ruai 'r awyr,
Rhwygid, fe 'i lloſgid yn llwyr.
Creulon Ellyllon mewn llid,
Rifoedd mewn amryw ofid,
Och o'u bâr anhygar hwy!
Dwfn udent yn ofnadwy!
Ac yno Mawredd gwiwnef,
Heb ofn eu bloedd, ydd oedd Ef,
Dan derfyſg o dân dirfawr,
Ac ym mhlith llu 'r felldith fawr.

Bu

Bu Mab Ner dan drymder dro;
Ni's hunawdd y nôs honno.
I'm Ior pa beth gymmaraf?
Tebygol i'm nefol Naf
Yw enwog Graig o Fynor
Yng'hanol anfeidrol For:
Pan ddeffry, pan gyffry 'r gwynt,
Rhawd, yn nerth y rhuadwynt,
O gaerawg donnau geirwon
Fygythiant, a hyrddiant hon.
Codant yn dorfoedd cedyrn,
Torrant, gwreichionant yn chwyrn;
Rhuthran i'r llydan For llaith
Yn ol yn wreichion eilwaith.
Er eu torf a'u rhuad hir,
A'u gwg, Hi nid yſgogir.
Felly 'n awr y Fall a'i nerth,
Dorf ynfyd, wnaen' dwrf anferth.
Gwâr Ieſu, Craig yr Oeſoedd,
Dieuog, diyſgog oedd.
Doi 'r Dydd o newydd yn awr
I'r Dwyrain hyfryd Orawr.
Yn dyner pan dywynnodd
Llu 'r Diawl uffernawl a ffodd.
Ac eilwaith daeth y Gelyn,
Traws, gau, at yr Ieſu gwynn:
Ymrithiodd, deuodd y Diawl
Fal Seraph nefol ſiriawl.
E roddai eiriau addwyn,
Parablai, llefarai 'n fwyn,
I dorri ei fradwriaeth

Ein

Ein Ior rho 'i attob a wnaeth;
Paid, paid, mi wn pwy ydwyt,
Mai 'r Diafol hudol hy' wyt.
Ar air dwys yr Ior glwys glân
Hwnnw i'w wedd ei hunan
A drodd, newidiodd ei wawr:
Ebre 'r gerwin flin Flaenawr,
Ni wedir hwnnw ydwyf,
Hwnnw 'n wir ei hunan wyf.
Dawnus wr, Ti 'm hadwaeni;
Dymunwn pe 'adwaenwn Di.
Gwelaf gref debygoliaeth
Mai Ti o ddifri' a ddaeth
I ddwyn fy hên feddiannau
Yma 'n hir fum i'w mwynhâu.
Tyred i le mwy tiriawn,
I'n taith ar unwaith yr awn.
Ar hyn y Gelyn a gyrch,
Dewr antur, hyd yr entyrch,
A glân Arglwydd goleunef,
Mae 'n fynn, ar ei edyn ef.
D'wedir (a gwir da ydoedd)
Canniattad i'w demtiad oedd.
Trwy nen yr wybren yr ant,
Y ddau cyn hir a ddeuant
I fannog uchel Fynydd,
Yr uchaf a'r fenthaf fydd:
Ac yno, T'wyfog Anrw'n,
Hudo Nêr oedd hyder hwn.
Teithiafom, daethom din dau,
Gwelwn, i Fynydd golau.

Gwêl

Gwêl yn awr nad Gelyn wyf,
Anniweidiol iawn ydwyf:
Ai dedwydd Fab Duw ydwyt?
Am Hedd, dda rinwedd, yr wyt.
Di welaiſt Brophwydoliaeth,
Os anwir neu wir, ni waeth,
Am ryfedd Orſedd eurſad
Y Llywydd Dafydd dy Dad.
Mae 'n gaeth y Frenhiniaeth hon
I'r Eryr mawr yr awr'on.
Yn awr cei olwg fawr faith
O'r enwog Fyd ar unwaith.
Teyrnaſoedd bobloedd y Byd,
Yn union yr un ennyd,
Yn eu teilwng faintiolaeth,
I Ner eu dangos a wnaeth.
Fe dd'wedodd, f'eiddo ydynt,
Rho'w'd i mi'r Byd i gyd gynt:
I'r hwn b'wyf am ei fawrhau
Yn rhwydd fwyn rhoddaf finnau.
Cei 'n awr gynhigion eurad,
Sef rhoddion mawrion a mâd.
Byrr gwmpas dy Deyrnas di,
Iſrael, yn wael a weli;
A gwael yn wir y gwelwn
Wrth y mawrfyd hyfryd hwn.
Os Mab Ner, mae 'th dymmer di,
Wr gwaraidd, am ragori.
Yn awr clyw fwynion eiriau
Y gwirfodd ymadrodd mau.
Pob Gwledydd, Ceurydd cywrain,

I it

I ti yr wy 'n rhoddi rhai 'n.
Ti ni ommeddi, mi wn,
(Heddyw myfi a haeddwn,
Dy ddyled yw) f 'addoli,
Can's haeddawl yw mawl i mi.

Attebodd, d'wedodd Mab Duw,
Oh enwir araith anmuw !
Ymaith dos Satan ammwyll !
Ymaith y Diffaith a'th dwyll !
Y mae 'r berffaith Gyfraith gu,
Ddewiſgoeth, yn addyſgu
Addoli 'r Arglwydd ddylit,
Dy Dduw, daw anrhydedd it :
Yn unig ac yn iawnaf
Tydi ogoneddi Naf.

Ae 'r Anwar hwnt ar unwaith,
Ffodd, a gofidiodd yn faith.
Yr hên Elyn cyndyn câs
Ni wyddai foddion addas
I demtio na hudo 'n hwy,
Rhwydwyd y Llew rhuadwy.
Gobaith nid oes, mae 'n gwybod,
Iddo fyth am hedd i fod.
Ym myſg llu 'r Fagddu e fydd
I'w galon anferth g'wilydd.
Meiddiodd, rhyfygodd yn faith,
Y Diawl ddychwelyd eilwaith.
I'r cribog fannog Fynydd,
Yno daeth yn yr un ddydd.

Nêr odiaeth yno 'r ydoedd,
Myfyriaw dan rodiaw 'r oedd.
Hên Elyn, hwnnw eilwaith
Areithiai, rhyfygai 'n faith:
Fi 'n ddilys am f'addoli
Roddwn y Byd hwn i ti:
Ond Tydi ni fynni fod
Yn hwn yn Frenin hynod:
Gwaelaidd gennyt y gwelir,
Yn hwn pa beth a wnei 'n hir?
Yn union Satan annuw
A gododd, dygodd Fab Duw
I Gaer Salem ragorwawr,
Ac ar Ben y Deml wen wawr,
Ar y Pinagl mawr pennaf,
Rhodd nefol Fab nerthol Naf.
D 'wedodd, os Mab Duw ydwyd,
Bwrw 'n awr dy hun i'r llawr llwyd:
Can's dy Dâd, o'i râd, a rydd
(Gwir difeth yw gair Dafydd)
Orchymmyn, y mwynddyn mâd,
Yn dyner iawn am danad
I'w Angyliou ceinion cu
Dy ddwyn yn fwyn i fynu;
Dalian' di yn eu dwylaw
Rhag taro briwo mewn braw
Gerwin dy droed wrth garreg,
Yn ffyddlon, yn dirion deg.
Yr ynfyd Demtiwr anferth
Ga'dd lawn atteb cyfiawn certh:
Na themtia, arfwyda 'r Swydd,

D'oreuglod

D'oreuglod Dduw dy Arglwydd.
Ae 'r ammur Demtiwr ymaith,
Ae Satan yn dân i'w daith.
Uffernol farwol fawrwarth!
Gwnai furmur gan gur a gwarth.

Angylion gwynnion yn gylch,
Ion têg, ddaethant o'i ogylch,
A'r Ieſu gymmeraſant,
A'i ddwyn yn addfwyn a wnant
O lwyr-dop y Deml eurdeg
I laſwedd waſtadedd teg.
Ar ol ei fuddugoliaeth
Ar y Gelyn cyndyn caeth,
Tirion Blant gwynnion y gwawl
Ganaſant yn gynneſawl:
Er i Adda, gwaela' gwaith,
A'i Wraig wen rywiog unwaith,
Rhai 'n er llithraw o honynt
I rwydau 'r Gelyn gau gynt,
Gwall ydoedd golli Eden,
Yr hynod Ardd wiwglod wen;
O'r eirian lân Oleuni,
Duw Ner dyma d 'amſer di,
Tithau a ddaethoſt weithion,
Dduw Ior hael, i'r Ddaear hon;
Prynaiſt ennillaiſt yn ol
Baradwys fwy yſbrydol.
Trywanaiſt yntau 'r Enwir,
Cwympaiſt, anafaiſt e'n wir.
Ti'n ddiau a biau 'r Byd,

Etifedd Nef wyt hefyd:
Di ddylit gael d'addoli,
Boed clod pob tafod i ti.

Aeth Côr yr Oror eirian
I fynu at lu 'r Nef lân;
Fe 'r Ieſu aeth i'w fawrſwydd,
Ner hael, i'w gorphen yn rhwydd.

Y SEITHFED RAN.

ER ei Fedydd, wâr Fodur,
Hiraeth am y Pennaeth pur,
Galar a mawr ddiſgwyliad
Ymledodd, lanwodd y Wlad.
Ar ol ei fuddugoliaeth,
Ior Hedd, o'r diwedd y daeth.
Trigolion Zabulon lwys,
Gwelent Oleuni gwiwlwys,
I lawer iawn o luoedd
O iſel wyr, y ſawl oedd
Dan dduon gyſgodion gau
A mawr ing ym mro Angau,
Cododd, egorodd y Gwawl
Yn dês claerwyn diſcleiriawl:
Mab ſantaidd anwylaidd Ner,
Tywynnodd fal Haul tyner.
Ef, Ion mâd, ar fin y mor
A gerddai; wrth y gwyrddfor

Gwelai

Gwelai Byſgodwyr gwaelion,
Bedwar o wyr lliwgar llon.
Galwai hwynt pan eu gwelawdd,
Ufuddhau wnaen' hwyntau 'n hawdd.
Cofient weled y Cyfion
Y dydd y bedyddiwyd Ion.
Yn union, o galon gu,
Dilynaſant lân Ieſu.

Ar fyrr bu yn Nhref eirian
Cana Galilea lân
Briodas gyweithas gu
Duwiolion mewn mwyn deulu.
Ae 'r Ieſu a'i wâr weiſion,
Cywirlu, i harddu hon.
Ior hael, Fe wnaeth eglurhau
Ei nerthol fawrion wyrthiau;
Fe 'r unig gyſiawn Frenin,
Y dŵ 'r a wnaeth i droi 'n win.

Angylion gwynnion a gaid,
A dilorf dorf y diawliaid,
Yn Dyſtion i'r Cyfion eu
Dduw enwog ddifeddiannu
A goreſgyn cyfrwyſgall
Ruthrau, a holl faglau 'r Fall:
Mab Dafydd, ei ddydd a ddaeth,
Gwelir ei Fuddugoliaeth
Ryfedd yn eglur hefyd
Gan luoedd bobloedd y Byd.
Ae 'r hanes am eres waith

Yr enwog Ior ar unwaith
Drwy y Wlad; e dyrrai lu,
A'r fyddin wnai ryfeddu,
Glân Etifedd goleunef,
Ei eiriau a'i wyrthiau Ef.
I Gaerſalem, gwir Silo,
Hardd Dref, pan ddeuodd ar dro,
Y Deml deg, fu'n Dy mawl Duw,
Dynion cybyddlyd annuw,
Rhai 'n prynu, rhai 'n gwerthu gaid
Filoedd o anifeiliaid.
Oddiyno, Fe Dduw union
A drodd (e frydiodd ei fron)
Y prynwyr a'r gwerthwyr,——gau
Ddynion a'u gwag feddiannau.

Y bobloedd, yn lluoedd llawn,
Tyrrent at yr Ion tiriawn.
Y Cleifion o bob clwyfau,
O flin hwyl wnai Ef lanhâu.
Ei gu lais y meirw glywſant,
A deffro 'n union a wnant.
Torf Annwn, y gwaedgwn gau,
Udent gan ddychrynniadau;
A throſodd hwy ruthraſant,
Fil myrddiwn i Annwn ant.

Yn ei daith daeth yr Ion da
I lawen Alilëä:
Ar fyrder daeth llawer llu,
Tyrraſant at yr Ieſu.

Dofydd i fynydd Ef aeth
I'w iawn deg weinidogaeth.
Pan f'o'r Ddaear hawddgar hon
Yn geni meilliawn gwynnion,
Yn fwyn fe wna'r Nef wenu,
Hi rydd lawn gynnydd yn gu:
Difera, defnynna 'r Nef
Olynol, taen y loywnef
Ar laſwellt îr, i'w leſiaw,
Fawr fendith y gwlith a'r gwlaw:
Yn ffraeth pan athrawiaethodd
Yr Ion mâd, yn yr un modd
Ei araith, egluriaith glau,
Ddefnynnodd o'i fwyn enau.
Gwelid mwynder ei galon,
Ior Hedd, yn ei lwys-wedd lon.
Ei fendithion cyſion cu
I'r iſel a roi 'r Iefu:
O gyflwr gwael a goflin,
O boenau, pob loeſau blin,
Yn fuan an' i Fywyd,
I nefol anfarwol Fyd.
Y rhai a lwyr alarant,
Dedwyddyd i gyd a gant.
Y llariaidd gwaraidd geirwir,
Hwynt hwy feddianant y tir.
Mawrion fendithion dethawl,
Tragywydd, y ſydd i'r ſawl
Sychedant, n'w'nant, medd Ner,
Gu fendith, am Gyſawnder:
Gennyf, yn y Gogoniant,

Gwledd o ddigonedd a gant,
Goreugwyr trugarogion!
Am drugaredd lwys-wedd Ion
Y gwyr a gant drugaredd;
Gwynn eu byd! hyfryd eu hedd!
Duw agwrdd a fendigai
Y galon bnr, glân o'i bai:
Gwelir gan bur o galon
Yn ei Lys yr anwyl Ion.
Ac hefyd, gwyn fyd y gwyr,
A fyddant dangnhefeddwyr!
Fe 'u gelwir (ba fwy galwad?)
Yn feibion tirion Duw Tad.
O'r wlad y ſawl erlidir
Am gredu, am garu 'r Gwir,
Mwynhan' y lân oleunef,
Fy mhlant ennillant y Nef;
Y gwyr anwyl goronir
Mewn gwynfyd a hawddfyd hir.

Medd Ion, â melyſlon lais,
Yn ddiau Mi ni ddeuais
I loywaidd lwyr ddilëû
Y berffaith fawr Gyfraith gu;
Daethum â mawr Fendithion,
A Gwyrthiau, i fawrhau hon;
I'w chwblau 'n ddiau 'n ddi ddig,
A'i chadw hi yn barchedig.
Golygwch Nef gu loywgain;
Maen hyfryd; i gyd mae'n gain:
Er tecced hardded yw hi,

Er

Er glaned yw'r goleuni,
Nef a Daear liwgar lâs
An' yn wir yn un eirias:
Yr un dydd rhai'n a doddant,
O'r ddeutu ennynnu wnant;
Ond y berffaith Gyfraith gu
Gyfion, ni wna hon henu;
Hi ddeil i gyd yn ddilyth,
Parhâ, ni ddarfydda fyth.

Dawnus Waredydd dynion
Rodd fâd eglurhâd ar Hon.
Traethodd ei Ymadrodd mwyn
Yn weddus ac yn addwyn;
Mor bêr oedd mwynder y modd
A'r Addyſg ddoeth a roddodd.
I'w ddawn fwyn hwy rodden' fawl,
Ior dedwydd awdurdodawl.
Un ail erioed ni welwyd!
Arafaidd wr llariaidd llwyd!

Daeth Dofydd o'r mynydd mawr
I'r glâs ddyffryndir glwys-wawr.
Yno 'r Ieſu, o'r llu llawn,
A ddewiſodd ei weiſiawn.
Deuddeg fu o deulu da
Hyfaeth gynt gan Jehofa:
Gwyrthiau a Rhadau i'w rhan,
I'r Deuddeg roi 'r Ior diddan.
Yn ei daith, Oen Duw ethawl,
I chwalu blin deulu 'r Diawl,

Gwledd o ddigonedd a gant,
Goreugwyr trugarogion!
Am drugaredd lwys-wedd lon
Y gwyr a gant drugaredd;
Gwynn eu byd! hyfryd eu hedd!
Duw agwrdd a fendigai
Y galon bnr, glân o'i bai:
Gwelir gan bur o galon
Yn ei Lys yr anwyl Ion.
Ac hefyd, gwyn fyd y gwyr
A fyddant dangnhefeddwyr!
Fe 'u gelwir (ba fwy galwad?)
Yn feibion tirion Duw Tad.
O'r wlad y ſawl erlidir
Am gredu, am garu 'r Gwir,
Mwynhan' y lân oleunef,
Fy mhlant ennillant y Nef;
Y gwyr anwyl goronir
Mewn gwynfyd a hawddfyd hir.

Medd Ion, â melyſlon lais,
Yn ddiau Mi ni ddeuais
I loywaidd lwyr ddilëu
Y berffaith fawr Gyfraith gu;
Daethum â mawr Fendithion,
A Gwyrthiau, i fawrhau hon;
I'w chwblau 'n ddiau 'n ddi ddig,
A'i chadw hi yn barchedig.
Golygwch Nef gu loywgain;
Maen hyfryd; i gyd mae'n gain:
Er tecced hardded yw hi,

Er glaned yw'r goleuni,
Nef a Daear liwgar lâs
An' yn wir yn un eirias;
Yr un dydd rhai'n a doddant,
O'r ddeutu ennynnu wnant;
Ond y berffaith Gyfraith gu
Gyfion, ni wna hon henu;
Hi ddeil i gyd yn ddilyth,
Parhâ, ni ddarfydda fyth.

Dawnus Waredydd dynion
Rodd fâd eglurhâd ar Hon,
Traethodd ei Ymadrodd mwyn
Yn weddus ac yn addwyn;
Mor bêr oedd mwynder y modd
A'r Addyſg ddoeth a roddodd.
I'w ddawn fwyn hwy rodden' fawl,
Ior dedwydd awdurdodawl.
Un ail erioed ni welwyd!
Arafaidd wr llariaidd llwyd!

Daeth Dofydd o'r mynydd mawr
I'r glâs ddyffryndir glwys-wawr.
Yno 'r Ieſu, o'r llu llawn,
A ddewiſodd ei weiſiawn.
Deuddeg fu o deulu da
Hyfaeth gynt gan Jehofa:
Gwyrthiau a Rhadau i'w rhan,
I'r Deuddeg roi 'r Ior diddan.
Yn ei daith, Oen Duw ethawl,
I chwalu blin deulu 'r Diawl,

Cymmerai Long, a mawr lu
Hwyliaſant ar ol Ieſu.
Duai 'r Awyr yn dywyll
Dymheſtlog ddrygfinog hyll;
Rhuai 'r gwyntoedd, lluoedd llawn,
Ymwriai 'r tonnau mawrlawn.
Llawn o dwrf ae 'r Llynn diffawr,
Ae 'r tonnau 'n fynyddau 'n awr.
Yr ewynawg dorchawg don,
Fawr agwrdd, i ddeifr Eigion
Ddiſgynnodd, llyngcodd y Llynn
Gwreichionawg, dan groch ennyn,
Dan ruaw, o dan 'r awyr
Y Llong o'r golwg yn llwyr.
Trwy 'r rhuadwynt tra 'r hedai,
Mynych i'r entrych yr ai,
Ac i lidiawg waelodion
Yng nghymmyſg derfyſg y don:
Hi droliai, hi droe eilwaith
Mal meddwyn yn y Llynn llaith.
Ofn tonnau 'r dyfnderau dig,
A brâd y Mor berwedig,
Ofn torfoedd gwyntoedd yn gwau
A lanwodd eu calonnau.
Yn awr, cyn y dirfawr dwrf,
Mab Duw gwynn, cyn y cynnwrf,
Obry ar wely yr aeth:
Y dynion digrediniaeth
At yr Ion yn union ant,
Ar Ieſu a ddeffroiſant:
Athro hael, mae 'n drafael drom!

Duw

Duw anwyl, darfu 'm danom!
Cu Naf, Awdwr Tangnhefedd,
Cyfodai, cyhoeddai Hedd:
Torfoedd y gwyntoedd ſy 'n gwau,
A dw'r y gorddyfnderau,
Rhedwyllt donnau rhuadwy,
Heddwch! nag ymwriwch mwy!
Ior Nef, ei gu lef yn glau
Y dw'r a'r gorddyfnderau,
Torfoedd y gwyntoedd i gyd
Yn union yr un ennyd
A glywſant, ufuddhant hwy
Eu dedwydd Ior clodadwy:
Gwaſtad yw'r Mor mewn goſteg,
Pob awel ſydd dawel deg.
Pa enwog ardderchog ddyn
Yw hwn? medd pawb o honyn':
Mae 'r mawrddwys wynt, mae'r myrddiwn
O donnau 'n ufuddhau Hwn!

Dirinwedd Adareniaid,
Ei fendith i'w plith a'u plaid
Ni fynnent, ni haeddent hwy
Ei gu nerthol Gynnorthwy.
Ar frys o'r Fro afraſol
Yr hwyliai Ner hael yn ol.
I Fynydd (uwch Dolydd da)
Aeth ſywdeg wyr Bethſaida;
At Ior ar frys tyrrai 'r Fro,
Nawdd anwyl, pan oedd yno.
Hwy, addwyn wyr, oedden' ail

I fagad mawr heb Fugail
O ddefaid; Naf yn ddifyr
A roi gain Addyſg i'r gwyr.
Y Gwaredydd, Llywydd llon,
Gwir Feddyg a gwar foddion,
Pob afiach yn iach a wnaeth,
Gannoedd, heb Feddyginiaeth.
Gwiw Rinwedd gair ei enau
Wnai 'n uniawn eu llawn wellhau.
Y Cloff ſydd yn hoff ei hynt,
Ei 'aelodau 'n wrol ydynt:
Yn llon llammai 'n llawenwiw
Fel yr hydd ar fola rhiw.
O ddu nos y dall ddoi 'n awr
I ganfod y Nef geinfawr:
Yr olwg gynta 'r welodd
Oedd Ior hael, ei Dduw a'i rhodd.
Clywai 'r byddar lonwar lef
Haelionus Ior y loywhef.
I fudion rhoes dafodiaith,
Molent Naf yn gyntaf gwaith.
Dirfawr ryfeddai 'r dyrfa
Ei faith garedig-waith da.
Hynodawl wyrth, ni wedir,
Yn odiaeth a wnaeth yn wir!
Wele 'r cloff mor hoff y rhed!
Golwg y dall ſy 'n gweled!

Ei weiſion ddae 'nt at Iefu,
Ei fwynion ddiſcyblion cu:
Yr awr hon y mae 'n llwyrhau,

Weithion

Weithion ymâd â hwythau ;
Maê Dinas yma danynt
Yn yr hon digonir hwynt.
Y tirion Ion a wenawdd,
Arwydd yn wir o'i dda Nawdd :
Y rhai 'n, lawer o honynt,
Gwaelion bellennigion ynt.
Rhoddwch chwi, yn rhwydd-wych iawn,
Wyr dawnus, fwyd i'r dyniawn.
Ner addwyn ! nyni roddi !
Yma 'n awr mae gennym ni
Bum torth, ein hymborth yw hyn
I gyd, a dau byſgodyn.
D'wedodd yr Ion clodadwy,
Gorphwyſent, eiſteddent hwy.
Ar y gwellt, y glaſwellt glân
Tewddwyſaidd, eiſteddaſan
Yn rheſtrau 'n fintéiau teg,
Gariadus lu goreudeg.
Troen' olwg tra anwylaf
Ar hyfryd wyneb-pryd Naf.
Naf anwyl troi wnai 'fynu
Ei olygon ceinion cu.
Bendithiodd, rhannodd Ior hwynt
I'r Deuddeg a'i râd iddynt.
Ei weiſion a rannaſant
Y Fendith i blith ei blant.
Wele Wledd i'w rhyfeddu !
Er amled llawned y llu,
Pum mil, eu haneiddil Nawdd,
Oen Duw gwynn a'u digonawdd.

Ac

Ac wedi 'r Wledd ryfeddol,
Rhyfedd fu 'r amledd ar ol!

Yr Huan eirian ei wawr
Yn y lawen Nef loyw-wawr
Hir oedi draw yr ydoedd,
A gwenu ar Ieſu 'r oedd:
Gwridiodd wel'd ei Greawdwr;
Dan werdd-las Deyrnas y dw 'r
Ymguddiodd, fe welodd Wawl
Yn gwawrio 'n fwy rhagorawl.

Y Dyrfa, wedi darfod
Y Wledd, mewn gorfoledd fod
Yn awr y Prophwyd mawr mâd,
Immanuel, Dymuniad
Pob Gwledydd, yn ddedwydd iawn
Wedi 'eni 'mhlith dyniawn,
Hwy fynnent wneud Naf union
Yn Rhi ar y Ddaear hon.
Ieſu 'n ddiſtaw draw a drodd,
O'u golwg Fe a giliodd.
O'i hynod fawr Frenhiniaeth,
Amryw amſer, Ner a wnaeth
Roi Addyſg hyddyſg am hon
I'w ddewiſawl dda weiſion.
Er hyn tymmer eu henaid
Yn ddall ac angall a gaid:
Glynodd eu ffol galonnau
Wrth y Byd gwageddlyd gau.
Rheolwyr yr Iſraeliaid,

Cyndyn

Cyndyn ac anhydyn haid,
Pôb grâdd oedd am lâdd hael Ion
Daionus o blith dynion.
I'r Pennadur eglur oedd
Y galon a'i dirgeloedd.
Fe roddai wae fawr iddynt,
Cyffrodd, argyhoeddodd hwynt:
Athrodai eu gweithredoedd
A'u meddyliau gau ar goedd,
Er gweled, medd Ior gwiwlwys,
Mawr wyrthiau a doniau dwys,
Er hynod ganfod Rhinwedd,
Ac er cael cynnig hael Hedd,
Dyrys-wyr Daear isod!
Mewn heddwch ni fynnwch fod!
Duw Ior bu lawn dair blynedd
O hyd yn pregethu hedd.
Myrddiynoedd bobloedd y Byd
A ddeuent atto'n ddiwyd.
Pa fwyaf roi Naf o Nawdd,
Mwy gofid yma gafawdd.
Y Temtiwr, Hudolwr du,
Yn anwar wnai ennynnu
Haid o Offeiriad di ffydd
I rwydo y Gwaredydd
A'u cabledd, â'u gwagedd gau,
A'u didawl draddodiadau;
Och! wed'yn llâdd Iachawdwr
Y Byd; i'r gweryd â'r Gwr.
Er dichellion geirwon gau
Y diawledig Aelodau,

Er hyn amſer Ner y Nef,
Ei Ddydd yr oedd i ddioddef,
Bennodwyd gan Bennadur
Nef loywglod, y Pendod pur.
Dilys Ef oedd i dalu,
Dros holl Gred, y Ddyled ddu.

Y Gwaredydd gwir odiaeth,
Glan Ior, i Dabor y daeth.
Ieſu gymmerth o'i weiſion
Dri, o ran mawr fri, i'r Fron.
Trymmion ynt ar ol tramwy,
Gorweddent a hunent hwy.
Ar Dduw, Ior a weddiodd
Yn ol ei arferol fodd.
Hwy yno 'n ol dihunaw
Gaent nefol hyfrydol fraw.
Newidiodd yn hynodawl
Ei gain wedd fal y gwynn Wawl.
Diſgleirdeb, dwys eglurder
Hyfryd wyneb-pryd eu Ner,
Wir-Naf, pan d'w'nnai arnynt,
Amlhau wnai eu hofnau hwynt.
Canfyddent, mewn cain foddion,
Ddau wr, yn ail i wedd Ion;
Moeſen lawen, Elias,
Nefol ddewiſol ddau wâs.
Drwy addas Ymadroddion
Am gur ei lafur, hael Ion;
Ei derfyn dwys a dirfawr,
A'i fâd Adgyfodiad fawr,

Y

Y dedwydd wyr clodadwy
Yno 'n hawdd adwaenen' hwy.
D'wedent (ni wyddent yn wir
Ddi wâd pa beth a dd'wedir)
Mae 'n dda bod yma,—oh Dâd!
Duw pob dawn, a gawn gennad?
Gogonedd eglurwedd glwys,
Mal golau Gwmmwl gwiwlwys,
A'u todd, cyſgododd y Gwawl
Y gwyr mewn modd rhagorawl.
Hwy glywent, o'r Goleuwawr,
Bereiddlef Ion Nef yn awr:
Hwn yw fy Mab, cynfab cu,
Monweſol, eich mwyn Ieſu:
Gwnaeth gyflawn iawn i'r wiwnef,
Gwnaed pawb wrando arno Ef.

Ofn a braw a fu 'n eu bron,
Syrthio wnaen' yno 'n union
Ar y Ddaear liwgar lâs,
Gu rywiog dri goreuwas.
Cyffyrddodd, cododd Ior cu
Ei fwynion blant i fynu:
Glanaf Fab Naf y Nefoedd,
Ond Ef, neb yno nid oedd.
Y gwir Ieſu hael graſol
Ddeuai 'n awr i'w wedd yn ol.
Yn anwylber Ner a wnaeth
Gwed'yn roi Addyſg odiaeth:
F'anwylion Ddiſcyblion cu,
Gwiliwch arnoch am gelu

Yr Olwg lân oreulwyf
Hyd na ddêl Dydd dirgel dwyf
Y cyfyd o feirw (cofier)
Gynfab ac anwylfab Ner.
Hwynthwy ni ddeallent hyn,
I Naf hwy ofnen' ofyn.

Y Dydd mawr yn awr a wnai
Ddyfod pan ddioddefai:
Ei hynod lân Frenhiniaeth,
Ion pur, yn eglur a wnaeth.
Yr Iefu i'w wâr weifion
Egorai eglurhai hon.
Rhagdd'wedodd y modd a'r man
O'i hynod Angau' hunan.
Yn fwyn yr wy' n rhoi f'einioes
I gur, i lafur mawr loes.
Ni's gall y Byd gymm'ryd, gwn,
Fy einioes oni fynnwn:
I ddodi 'r Byd yn ddedwydd
Myfi fy'n ei rhoddi 'n rhwydd.
Myfi hael roddi yr wyf
Fy Einioes, ond pan pan fynnwyf
O'r mawrion Gaerau marwol
Fi 'n wir a ddeuaf yn ol.

Rhagdd'wedai 'n awr lymfawr lid
A'r Dinyftr mawr a daenid
Ar Salem a'i phreifwylwyr;
Am ei weifion, waelion wyr,
Gwnaent hwy, drwy gyunorthwy Ner,

Daenu 'r Eſengyl dyner.
E roi 'r Ior, yn wâr eirian,
Ddarluniad goleuſad glân
O'r gadarn fawr Farn a ſydd
A'r dirfawr Fyd na's derfydd.
Teulu yr Apoſtolion
Yn ddiſtaw, a braw i'w bron,
Rhyfeddent, ni fynnent fod
Yr awr hon i'r Ior hynod.
Heibio 'r ae eu hoyw obaith,
Gw'radwydd yn lle mawrlwydd maith.
Rhagdd'wedai 'n awr lwyddfawr lês
Afonydd gwaed ei ſynwes.
Mae 'n wir pan gyfodir Fi,
Fi gwed'yn a wnaf godi
Y ddinerth-nattur ddynol,
Y Byd i Fywyd ar f'ol.

Pa gu lu, pwy a glywaf,
Aml iawn ynt, yn moli Naf?
Hoſanna draw a ſeiniant!
Seinio 'n awr Hoſanna wnant!
Wele 'r Brenin hael Brynwr!
Ar Aſſynnan gwan mae 'r Gwr!
Myned yn awr, drymfawr dro,
I Salem y mae Silo!
Y Cloffion, hoywon eu hynt,
Rhedeg o'i flaen yr ydynt!
I'r gwâr Feddyg rhagorawl
Yn llon gwna 'r mudion roi mawl!
Y Deillion, o galon gu,

Molant, dangoſant Ieſu!
Y Dyrfa diriona' rioed,
Lwyſgu, ddygant wyrddlaſgoed,
Neidiant o flaen Pennadur
Y wenfaith Nef berffaith bur.
Hoſanna 'i gyd a ſeiniant!
Llawenu yn Ieſu wnant.

Haid o'r Phariſeaid ſydd
Yn flin ac yn aflonydd;
Gwelwch, meddant i'w gilydd,
Wyr mâd, pa leſhad y ſydd?
Y Byd, mor anwybodol,
Trwy dân yr an' ar ei ol!

Diſgwyl yn anwyl a wnan'
I ſiriol Deyrnas eirian
Naf agwrdd, i'r Nef wiwgerth
Egawr yn awr, mewn gwir nerth.
Eu heneidiau 'n llawn ydynt
O fawrion hên gofion gynt,
Meddyliant am y ddilorf
Olwynawg odidawg Dorf
Odiaethol fu 'nghylch Dothan
A Gwr Duw, yn Gaer o dân!
Diſgwyliant y gwelant Gâd
Anfarwol o'r Nef eurad,
Arfogion weiſion Ieſu
Yn fflammawg olwynawg lu!
Y gwelid yr Ior gwiwlan
Ar Orſedd oleuwedd lân!

Y doi 'r

Y doi 'r Byd i gyd yn gaeth
I'w oleudrefn Lywodraeth!

Daeth Ner ar gyfer y gain
Gaerog fawr Ddinas gywrain,
O'r mynydd, gu Lywydd glân,
Draw Fe welai 'r Dref wiwlan.
Yſtyriodd yn doſturiawl
Ddiwedd ei mawredd afi mawl.
Nefol garedigol Dâd!
Oh mor bur yw cûr Cariad!
At Salem ei drefn pan drodd,
Wele 'r Ieſu a wylodd!
Oh na wyddit yn addas,
Ferch Siön! gu roddion Gras!
Oh Salem oleudrem lân!
I'th einioes a berthynan'!
Cuddiedig heddyw ydynt,
I'th olwg anamlwg ynt.

Ae Ef a'r dorf o'r dirfawr
Fynydd olewydd i lawr
I Sion; Hon a hynod
Gynhyrfai, rhyfeddai fod
Mawr liaws, myrdd mor lawen
A Rhif aneirif y Nen!
Pa dirion lon Lawenydd!
Rhyfedd ſôn y rhifoedd ſydd!
Pwy 'n ddilys, p'un feddyliwn
Yw 'r mawrglod Ior hynod hwn?
Cyhoeddodd, llefodd y llu,

Hir

Hir oeſed! Ef yw'r Ieſu!
Eres Brophwyd mawr eirian.
Gwlâd dda Galilea lân!
Yn y Nef boed Tangheſedd!
I'r Ddaear boed hawddgar Hedd!

Aeth Ior i'w Deml dra thirion,
Fe wnaeth yn glau lanhâu hon.
Mudion, deillion, cloffion claf,
Pawb yno o'u pob anaf,
Yn fwynaidd gan Naf uniawn
Gaent ryddhad a gwellhad llawn.
Rhyfeddu a wnai 'r llu llon,
I'r Ieſu mawl a roeſon.
Moliannu, plethu wnai 'r plant
Gu gân i Dduw 'r Gogoniant.
Hoff wyr! yr Archoffeiriaid
Yn ennyn mewn gwŷn a gaid:
Ennyn a wnai 'r Gelyn gwyllt
Y gwyr â digter gorwyllt.
Yn awr Offerynnau wnaeth
A ſynwyr i'w waſanaeth.
Rhai diras addas oeddynt,
Meddiannodd, cynhyrfodd hwynt.
Ac weithion y Gweiſion gau
Ynfydent gan ofidiau.
Y Cyngawr nerthfawr a wnaeth
Dyrru at eu Bradwriaeth.
Du gaeth ddrwg, deg a thr'ugain
Wnai 'mgaſglu 'n y Deml gu gain.
Dig'wilydd frad y Gelyn,

Holl falais a dyfais dyn,
Ar waith a roddir weithion,
I hudo, i rwydo 'r Ion.
Gan Dduw lwyd rhwydwyd y rhai 'n
A'u hynod Rwyd eu hunain:
Eu gwagedd a gai ogwymp,
Gyhoeddus a gwarthus gwymp.
Synnai 'r gwyr drygnaws annuw,
Rhoent heibio demtio Mab Duw.
Athrawiaethu y llu llawn
A dyrrai atto 'n diriawn
Yn ei Deml wnai Ion y dydd;
Ior mwyn, ae 'r nos i'r mynydd;
Ac yno gweddio 'n ddwys
Ar Geli wnai 'n Ior gwiwlwys;
A galw am Fuddugoliaeth
O'r dyfnder ar Ner a wnaeth.

Satan a'i liaws etto
(Rheolwyr, Brawdwyr eu bro)
A dyrrent yn fradwrawl
I Lys Gwas dyrys y Diawl.
Y Bleiddiaid yn danbaid ynt,
Arfwydus, cyfrwys ydynt.
Ei lâdd a ddwg in lwyddiant,
Ddwg fendith i'n plith a'n plant.
Ond meddan', pa fan? pa fodd?
I'w rwydau 'r Byd a redodd!
Mewn chwerwder a digter du
Llew Annw'n wnai hyll wenu;
I'w brâd, oedd mor barodol,

Hwn

Hwn ei frâd ni âd yn ol.
Hedodd, pryſurodd fal Saeth,
Dygodd Fab Colledigaeth
Mewn cyflym frys i'r Llys llawn;
Hwn yno a wnai 'n uniawn
Gynnig, am wael Deganau,
Gwerthu 'r Ion i'r Gweiſion gau.
Ilon dros ben llawen yw 'r llu!
Câd Annwn yn cyd wenu!
Tri-deg, i'r Gwâs troadwy,
Darn arian gynhigian' hwy;
Ac am hon, anraſlon Rodd,
Suddas a ddwfn droſeddodd.

Ei ddiffaith waith oedd weithion
Bradychu 'r Ieſu wir Ion.
Neſhau a wnai dyddiau dwys
Yr Wyl ddirfawr oreulwys:
Ae 'r Ieſu a'i wâr weiſion
I gyd i'r Wyl hyfryd hon.
Ac ar Swpper, Ner ei nawdd
A'i gariad a egorawdd:
Fy Nghyfeillion mwynion mâd,
Manwl oedd fy nymuniad,
Mi ddewiſais, medd Ieſu,
Gael bwytta 'r Paſg ola 'n gu:
Ac wele! bwytta 'r Paſg olaf
Yn awr gyda chwi a wnaf.
Duw ethol wnai fendithiaw
Y Cwppan yn ei lân law:
Didwyll Gyfeillion dedwydd,

Derbynniwch

Derbynniwch, rhennwch yn rhwydd.
Ar ol hon, yr Wyl hynod,
Meddaf, ni byddaf yn bod
Mwy i fwynhau Llwythau llon
Ffrwythydd y gwinwydd gwynnion;
Ond yng Ngwlad geinfad y Gwawl
Nyni yfwn win nefawl.
Y llidiog hir drallodiawn
Gefais I, digofus iawn,
Chwithau fy mlinderau dig
A wyddoch drwy 'r Byd eiddig.
Ac yn ddiau gorau gwyr,
Anwyl iawn, fy nilynwyr,
I chwithau Gorſeddau ſydd
A Gwledd yng Ngwlad goleuddydd.

Ior hael, edrychodd ar hyn
Ar olwg ei chwerw Elyn:
Ieſu Griſt yn driſt a drodd,
Duw Fodur du ofidiodd;
Un o honoch wna heno
Ddrygionus druenus dro,
A dichell fy mradychu
I'm chwerwon elynion lu.

Diderfyn brudd-der dirfawr
Mal Saeth i'w bron aeth yn awr:
Galar heb ei ddiſgwyliaw!
Trymder o brudd-der a braw!
Ior glân, gofynnan', ai fi
Yttwyf a wna hyn itti?

Troe

Troe Ner, mewn mawr brudd-der bron,
Ei liwgar lân olygon:
Gwael adyn! hyn fydd ei hawl,
Gwae iddo yn drag'wyddawl!

Heb wridio, meddai 'r Bradwr,
Ai fi, oh Geli, yw 'r Gwr?
Och'neidiodd, d'wedodd Mab Duw,
Gwir iawn, tydi 'r Gwr annuw.
Un awr Amſer ni erys,
Fe rêd, â gwna dithau frys.

Ac yna T'wyſog Annw'n
Feddiannodd, gynhyrfodd hwn.
Heb uno 'n yn union aeth
Y Diras i'w fradwriaeth:
Echrydus ddrygwaith chwerwdoſt!
Aeth i'w Golledigaeth doſt!.

Ni wyddent (gan anoddef
Brudd-der am Fab Ner y Nef)
Amcanion Ior cyfion cu
A'i fwriad wrth lefaru.

Pan aeth Suddas, ddiras ddyn,
I ddwylaw ei ddu Elyn;
Medd Ion, Mi weithion yn wir
Yn addas ogoneddir;
Mawrheir y Tâd mawrfad mau,
Naf anwyl, ynnof finnau.
Ym myd cynhenllyd cyn hir,
F 'anwyliaid, Fi ni welir:

Diau

Diau Fi, mewn ennyd ferr,
I'r fawrdaith af ar fyrder.
A chwithau, y gorau gaid,
Fi ni welwch, f'anwyliaid:
Ennyd ferr ffy trymder trwch,
Ac eilwaith chwi a'm gwelwch.
Hyn yn Orchymmyn i chwi,
Orau addyſg, wy 'n roddi:
Byddwch dduwiol weddol wyr
Yn un fryd, fwynion frodyr.
Chwi gerais; cofiwch garu
Beunydd eu gilydd yn gu.
Wrth yr Arwydd hylwydd hon
Adwaenir chwi 'mhlith dynion.

Heb oedi gofynnai Bedr
B'le 'r ei Naf, anwylaf Ner?
I'r lle 'r af, medd gwiwnaf gwynn,
Gwêl, ni's gelli 'n awr ga'lyn.
Bydd etto, o'th bodd itti,
Ar ôl hyn, fy nilyn I.
Pa'm, fy Naf, n' allaf yn awr?
Erod af yn Garcharawr:
Fy Einioes, os gofynnir,
A roddaf, fy Naf, yn wir.
Golygodd, e dd'wedodd Ion,
Na fiomma dy hun Simon.
Dilys taer geifiodd d' Elyn
Dy nithio a'th dwyllo 'r dyn.
Trwy Dduw (can's taer weddiais)
Yr Ellyll a gyll ei gais.

Cofia hyn, mai cyn canu
Yn dyner blygeinber gu
O'r Ceiliog godidog da,
Y nos, y plygain nefa',
Yn ddiau cyn cân ddwywaith
Tydi a'm gwedi dair gwaith.

Yn awr, Ion mawr, cymmerodd
Fara 'n llon; Fe radlon rodd
Ei fendith arno 'n fwyndeg,
Rhannodd, pan dorrodd, e'n deg.
Dywedodd, fy ngnhawd ydyw,
Derbynniwch, a byddwch byw.
Gwnewch hyn, 'r wy'n erfyn, medd Naf,
I dyner goffa 'm danaf.
Ior hedd, cymmerai 'r awr hon
Y Gwin â'i ddwylaw gwynnion:
Diolchiadau, gorau gwaith,
A dalodd iw Dâd eilwaith.
Hyfwyn lefarodd hefyd,
Cymm'rwch ac yfwch i gyd.
Dywedodd, fy ngwaed ydyw,
Mâd waed fy Nghyfammod yw,
Cyn hir ollyngir yn llif
Yn wir dros Dorf aneirif.
Rhag llid daw Rhyddid drwyddaw,
I'm Plant maddeuant a ddaw.
Na flinwch yn aflonydd,
Eich calon raflon f'o rydd.
Credwch i'r Tâd mawrfad mau,
A mwyn gredwch i minnau,

Yn

Yn Nhy fy Nhâd, hoyw Wlad Hedd,
Yno mae amryw Annedd.
Myn 'd yr wyf, am hyn o dro,
Yn Flaenawr nefol yno.
A phan af cyflëaf lon
A dilys le 'r Duwiolion.
Fi 'n ddiau 'n fwyn a ddeuaf
Yn ol, a'ch derbyn a wnaf.
Mewn eirian lân Lawenydd
Chwithau a Myfinnau fydd.
Felly gwyddoch Gyfeillion
Lle 'r af, a'r ffordd lwyfaf lon.

Un, ar hyn, o honyn' hwy,
D'wedodd, Arglwydd clodadwy,
lon mâd, b'le 'r wyt yn mudaw
Ni's gwyddom, na 'r ffordd drom draw.

Myfi, o ddifrif, medd lon,
Clywed, coelied pob calon,
Myfi yw 'r ffordd hyffordd hon
A'r Gwirionedd gwâr union.
Hynny 'n wir fy hunan wyf,
Fi dedwydd Fywyd ydwyf.
Nid yw neb yn adnabod
Naf, oni byddaf Fi 'n bod
Drwy 'r Yſpryd goleubryd glân
I wawrio arno 'n eirian.
Myned yr wyf, wyr mwynion,
Fry at fy Nhâd i'r Wlâd lon.
Pob peth gan ddifeth Ddofydd

A geiſioch, ofynnoch fydd:
Yn f'Enw yr hyn ofynnir,
Hynny a wnaf finnau 'n wir.
Gofynnwch, derbynniwch, bydd
I chwi lawn wych Lawenydd.
O cherwch Fi 'n wych eirian,
Wyr clau, o galonnau glân,
Gwiriwch hyn, drwy bur gariad
I'm cyſion Orch'mynnion mâd.
Myfi ro weddi ar Ion,
Fe rydd Ddiddanydd union;
Yr Yſpryd glân diddan da
I'r wiwnef a'ch arweinia.
Etto ennyd a'r Byd bâs
(Iw foddio nid wyf addas)
Ni'm gwêl; ond chwi a'm gwelwch
Yn llon pan ddelwyf o'r llwch.
Diau chwi ni 's gadawaf,
Yn ol dychwelyd a wnaf.
Yn Bennaeth byw wnaf beunydd
Yng'olau ardalau 'r Dydd.
Felly chwithau Gyfeillion
Gewch fwynhâd o'r un Wlâd lon,
Af hefyd o'r Byd o'm bodd
Yn fwyn at Dduw 'm hanfonodd.
Gwelaf chwithau 'n ddigalon
Dan drymder o brudd-der bron.
Er hyn y mae 'n wir hynod
Mai lleſol a buddiol bod
Immi fyn 'd o'r Byd ymaith,
Gwna 'r weithred Ymwared maith.

Eſgynnaf,

Eſgynnaf, anfonaf ſi
Iachus Ddiddanydd ichwi.
Mwyn bur Ion, mewn berr ennyd,
O'u bâr argyhoedda'r Byd.
Rhoddi i chwi o'r rhwyddaf
Hedd a Thangnhefedd a wnaf.

Dan bwys Nos wir-ddwys oerddu,
Nos erchyll dywyll a du,
Ior glân, i gwrdd gelyniaeth
Dros Gedron yn union aeth:
Aeth Ieſu, trwm a fu 'r tro,
I unig Ardd oedd yno.
O'u rhif dewiſai 'r awr hon
Yr Ieſu dri o'i weiſion.
Myned gyd a'r gwyr mwynwawr
Wnai 'r Ieſu o'r neilldu 'n awr.
Fe wnai lwyr ddwfn alaru,
A phruddhâu hyd Angau du.
Gwyliwch, meddai, 'n un galon,
Wyr hael, gyd â mi 'r awr hon.
Gweddiwch a gwyliwch gaeth
A dygn doſt Brofedigaeth.
Ae mawr a da Fab Mair deg
O'u cyrraedd ergyd carreg.
Heb nawdd i'w ddiſgwyl gan neb
Yr Ion ae ar ei wyneb:
D'wedodd, fy Nhad, od ydyw,
Oh! i'th Nawdd ai an'awdd yw!
Poenau hyll y Cwppan hwn,
Du ofid, mal nad yfwn?

Ai rheidiol i'th Fawrhydi,
Dduw mawr! ei roddi i mi?
Dy 'wyllys, dilys yw'm dolef,
A wneler, oh Ner y Nef!

Ar Dduw hael rhoi 'r weddi hon;
Iesu ddaeth at ei weision
Gwâr addwyn; cysgu 'r oeddynt;
Galwodd, a dihunodd hwynt.
Yn brudd mewn braw draw pan drodd,
Cwsg wed'yn a'u cysgododd.
Dienaid oedd y dynion
Weled Ner dan brudd-der bron.
Eilwaith ar ei Dâd iolodd,
Ar Dduw yr un weddi rodd.
Yn ol at ei Anwyliaid
Pan ddaeth, mewn cwsg caeth eu caid.
Yn brudd mwyn rybüdd a roes,
Hynod Gariad i'w heinioes.
Yn addas hwy ni wyddant
Pa esgus gweddus a gant.

Ae 'n ol mewn mawr iawn alaeth,
Gweddio dan wylo wnaeth.
Poen ydoedd i'r Pennadur,
Dieithrol angerddol gur.
Y dw 'r oedd hyd ei ruddiau
Heb rif yn gefnllif yn gwau.
Lor hedd, chwysodd y rhuddwaed,
Ei chwys oedd fal y coch waed.
Tros galon yr Ion yn oedd

Crych

Crych lifoedd yn crochlefain.
Dygai boen a dig benyd
Tros luoedd bobloedd y Byd.
Daeth Angel yn dawel deg
O fwyn Wlad Nef wen loywdeg
At Ieſu i'w nerthu 'n awr
Cyn ei ddwys Derfyn dirfawr.

Mewn prudd-der ae Ner yn ol;
Ei lân weiſion olynol
A gafodd, gan eu gofid,
Yn cyſgu 'n ll'w'gu rhag llid.
Chwithau, a hunwch weithion
Yr ennyd anhyfryd hon,
Pan ruthrir, pan fernir Fi
Drwy gynnwrf a drygioni?

Ar y geiriau rhagorawl,
Suddas a llu diras Diawl,
Doi 'r dyniawn drwy y dunos
I ddal Ner yn nyſnder nos.
Cleddyfau, ffaglau, a ffyn,
I'w dwylaw bob du Elyn,
Eiddigus ddrwg Swyddogion,
Oedd ganddynt i'r helynt hon.
Daeth Suddas, drygwas o draw,
Annoethaidd, dan wenieithiaw,
Cuſanodd, traddododd ef
A gweniaith, Fawredd gwiwnef.
Wrth yr arwydd hyrwydd hon,
Greulonwawr hagr Elynion

O'r

O'r ddeutu dyneſu wnant ;
Ac yna Ior Gogoniant
Ofynnai, pwy geiſiai 'r gwyr ?
Yr Ieſu, meddiai 'r treiſwyr.
D'wedodd Ner coeth gloywddoeth glân,
Hwnnw wyf Fi fy hunan.
Dirym y cwympai 'r Dewrion
I'r llawr draw, a braw i'w bron.
Codant, rhyſeddant yn faith ;
Fe wnelai ofyn eilwaith
Pwy geiſient ?—meddent un modd,
Yr Ieſu : Yntau fryſiodd
Eu hatteb,—Myfi yttyw.
Yna, o'i fodd, Ion yn fyw,
Y Swyddogion gèirwon gant
Y Mawredd a gymmerant.
Yr Ieſu roi ei weiſion
Yn rhydd o faglau 'r awr hon.

Llanwyd Pedr â digllonedd ;
Torrai gluſt gwâs taer â'i gledd
Am feiddiaw rhoi dwylaw dig
Ar ei anwyl Ior unig.
Y mwynfad Geidwad gwed'yn
Geryddodd, waharddodd hyn :
O'i wir gariad rhagorol
Ei hadfer wnai Ner yn ol.

Drwg wyr a di drugaredd,
Carcharent, rhwyment Ior hedd.
Ei hoff weiſion a ffoiſant

I gyd o benyd i bant.
Ac 'r Swyddogion creulon crâs
I lwys enwog Lys Annas.

Bum bob dydd beunydd yn ber
Yn y Deml, mewn mwyn dymmer,
Medd Ieſu, 'n addyſgu 'n ddoeth
Yr union ffordd i'r annoeth:
Ac yno 'm clywſoch ganwaith
Mewn hoffder a mwynder maith;
A dilys neb ni'm daliai
Er d'wedyd i'r Byd eu bai.
Ond hon yw awr drymfawr drwch
Tew Allu y tywyllwch.

At Annas ddiras pan ddaeth
Y milwyr, caent ganmoliaeth.
Yntau, mewn rhwymau 'r awr hon,
Anfonawdd Fab Naf union
At Gaiaphas y Gwâs gau
A'i rydaer Offeiriadau.

Draw eilwaith Pedr wrolodd,
Ar ol Criſt yn driſt ſe drodd.
Cerddodd, dilynodd hyd Lys
Y taer Offeiriad dyrys.
Scrifennyddion, hyſion haid
Aneirif, a'r Henuriaid
Oedd yno'n gwyro Barn gu
Gymmwys, i ddwys ladd Ieſu.
Pedr, â mawr wylder i'w wedd,
Deuai i wel 'd y Diwedd.

Tra

Tra bu 'r gwyr, bradwyr eu bro,
Addig, yn traws gyhuddo,
Yn gwatwor yr Ior eirian
A'i Addyſg oleuddyſg lân,
Geneth, porthores geinwawr,
Morwyn wnai ofyn yn awr
I Bedr, Gwâs i bwy ydoedd?
Ond un o lu Ieſu oedd?
D'wedai, fal anghredadyn,
Gwadai yr adwaenai 'r dŷn.
Fe ofnodd, ac fe drodd draw
O w'radwydd blin i rodiaw.
Rhoi grymmus gân o'r grommen
Wnai 'r Ceiliog bywiog ei ben.
Simon, wâs afreſymmol,
O'r neilldu wnai neſu 'n ôl.
Safai, ymdwymnai wrth dân;
Gwaraidd Forwynig eirian
A dd'wedodd, yn ddi wadu,
Hwn, wyr llon, ſydd un o'r llu.
Yn annoeth fe wnai ennyn,
Tyngai n' adwaenai y dyn.

Brŵd yr anfonai 'r Bradwyr
Am hadlyd, am waedlyd wyr;
Gau dyſtion eon a wnant.
Anudonwyr nid unant;
Yr oeddynt oll am ruddwaed,
Hwy fynnan' weithian ei waed,

Tra bu 'r gwâr Ieſu graſawl
O flaen gweiſion duon Diawl,

Mewn

Mewn awr dyma un arall
O chwerwon feibion y Fall
Cyhoeddus yn cyhuddaw,
Mi'th welais, mi'th dremiais draw,
Do 'n yr Ardd; tydi 'n wir wyd
O honyn' fal i'th henwyd.
Ammhwyllo 'n union a wnai,
Gofidiodd, ac fe wadai;
Gwridiai, fe regai 'r adyn,
Tyngai n'adwaenai y dyn.
Nerthawl blygeiniawl ganu
Yn glochog wnai 'r Ceiliog cu;
Hwythau yn glau a glywan'
Ei glauar lef eglur lân.
Glwyfaidd droi golwg lefol
Yn dyner wnai Ner yn ol.
Yr Olwg fu 'n chwerw alaeth,
I galon Simon fu 'n faeth:
Taran oruwchnatturiol
I'w galon anffyddlon ffol!
Taran, tu hwnt i eiriau,
Wnai 'n 'fcyrrion ei galon gau!
Dan riddfan weithian ac 'n ol
O neuadd yr annuwiol.
Dygn a fu 'r Wadedigaeth!
Och'neidio dan wylo wnaeth;
Yno, mewn chwerwder enaid,
Ei ddagrau yn gwau a gaid.

Haid o Offeiriaid di ffydd,
Bugeiliaid gau heb g'wilydd,

Ar

Ar y pur Ner poeri wnant,
Yr Ion tirion watworant.
Ei gu wedd hwy a guddiant,
Eu daro, dan wawdio, wnant.

Pan wawriai. pan dorrai 'r dydd
Deuai 'r flin dorf affonydd
A'r glân Ior i'w Cyngor caeth
I lenwi eu gelyniaeth.
Eiſtedd ar eu Gorſeddau
Mewn brâd gwyllt, mewn bwriad gau,
Yn hanner lloer a wnai 'r llu,
Fawr-Ner, i'w cuog farnu.
Barnydd a Llywydd y Llys,
Taer Archoffeiriad dyrys,
D'wedodd yr ynfyd adyn,
Tydi, beth a dd'wedi Ddyn?
Teilwng gyfiawn Dyſtiolaeth,
Sicer yw hyn, i'th erbyn aeth.

Ei gu Enw a gai anair,
Fe dawodd, ni dd'wedodd air.

Yn Enw yr Ion cyfion cu
Ydwyf yn dy dynghedu
Dd'wedyd i ni yn ddidwyll,
Yn eglur, a thrwy bur bwyll,
Ai anwyl Fab Duw 'r wiwnef
Wyt yn wir? ai Criſt o Nef?
Y byw Ner atteb a wnai
Yn fwyn i'r hyn ofynnai:

D'wedaiſt

D'wedaiſt mai Mab Duw ydwyf,
A diau yw Mab Duw wyf.
Yng ngallu 'r Tâd mawrfad mau
Mi welwch ar Gymmylau
Eglurwawr Nef yn glaerwyn;
Y Byd oll wêl Fab y Dyn.

Yna 'r Barnwr yn union
Lidiodd, e frydiodd ei fron;
O'r ogylch ei wiſg rwygai,
Anfad naws ynfydu wnai:
Cabledd, cabledd, gwagedd gau
Annoeth a ddaeth o'i enau!
Chwithau, beth meddwch weithion,
Wyr hael, a haeddai 'r awr hon?
Traethai gau Bilerau 'r Wlad,
Euog, oh enwog Ynad!
Euog, o farn gadarn gaeth
A mawr waelod marwolaeth!
Yna hwy a'i difenwant,
Ei watwor, iawn Ior, a wnant.

Suddas, ar ol troſeddu,
Mewn garw hoen, mewn gwewyr bu.
Cafodd, am werthu 'r Cyſion,
Goſp haeddol i'w fradol fron.

YR WYTHFED RAN.

PAN ddoi 'r Dydd drwy 'r gwledydd glân,

Drwg Lywiawdwyr hwy gludan
Yn fore Ior Nef eurad
I Lys gau Ruglaw y Wlâd;
Ond i'r Llys dilys nid ant,
Y Wledd wrth hymny luddiant.

Drwy lydain gywrain Geurydd
Siön, amrywiol sôn sydd.
Yr Iuddewon creulon crobs,
Rhai ynfyd mawr eu hanfoes,
Tyrrent at y Pretoriwm;
Heb nifer, mewn trawsder trwm.
Ar frys o'i ddisgleirlys glân
Siriol i'r Cyntedd seirian
Dor 'r Ynad mawr dirinwedd
Mewn balchder a gwychder gwedd,
Mewn dimwnd, mewn diammur
Ruddemmau, mewn perlau pur.
A'n Câr, fal Oen gwâr gwirion,
Mae 'n alaeth ysywaeth son,
A ddygwyd i'w ddiweddgur
Mewn rhwymau Cadwynau dur.

Medd celfydd Lywydd y Wlad,
Cyhoeddwch y cyhuddiad.
I'w nifer fe wnai ofyn
Pa ddrygwaith diffaith wnai 'r Dyn.
Yna 'r anfad Gâd ar goedd,
D'wedent pe drwg nad ydoedd.
Hwythau mewn rhwymau 'r awr hon,
Cofied, na's rhoent y Cyfion

Os diffaith yw gwaith yr Gwr,
Bernwch ef, ebre'r Barnwr,
Y Gwr mawr, troi 'n alyr a whai,
Ar hyd y Cyntedd rhodiai.

D'wedent, gwyddoſt nad ydyw,
Nad cyfreithlon weithion yw
Diäledd yn ein dwylaw,
Ni ſydd, ddoeth Lywydd, i'th law.
Y Gâd annuw gyd unant,
Cyhuddo, dan wawdio, wnant.
Cynhyrfant, gŵyr-dröänt draw
Y Wlâd i gyd i lidiaw:
Gwarddodd Deyrnged ac Urddas
I Gaiſar, yr anwar Wâs!
Efe, os coelir ei ſin,
Fe yw 'r unig wir Frenin!

Er hyn, er pob rhyw anair,
Fe dawodd, ni dd'wedodd air.
Y Rhaglaw, hylaw helynt,
Ymchwyddawdd, fe holawdd hynt
Yr Ieſu yn gyfrwyſol,
Ond heb un atteb 'yn ol.
Ei enau mwyn mewn un modd,
Oen gwirion, ni egorodd.
Yno, er pob rhyw anair,
Fe dawodd, ni dd'wedodd air.
I'r dewrfalch Farnwr dirfawr
Bu 'n hynod ryfeddod fawr.
Weithion hwn a aeth yn hy'

I'w loywdeg fawr ddadleudy.
Galwyd ein Harglwydd gwiwlan
Ar frys i'r goleulys glan.
Ffyrnig fileinig Flaenawr,
Mal hyn gwnai ofyn yn awr,
Ai Ti, mâl clywais I fôn,
A ddaw 'n Frenin Iuddewon?

Mwyn Ion, attebai, mae 'n wir
Ydd ydwyf hwn a dd'wedir.
Ond fy Nheyrnas addas I
Mi wn nad o'r Byd mo'ni.

Brenin wyt! ebre 'r Ynad:
Ie 'n wir, Mawr! ebre Ner mâd.
A naws tirion yftyriai,
Craffu 'n anwylgu a wnai
Ar wedd ei Farnwr addig;
Meddai, E dd'wedai 'n ddi ddig,
Fe 'm ganwyd, anfonwyd Fi
I hyddyfg rydd gyhoeddi
Y Gwir mewn modd hygaraf,
Er llês mi wnês ac mi wnaf.
Pob un fy 'n gyttun a'r Gwir
Diau ganddo 'm gwrandewir.

Be' yw 'r Gwir? ebe 'r Ior gau;
Draw ar hynt e droi yntau.
Gwelai hwynt mewn difgwyliad,
Gwnai araith gain wrth y Gâd:
Holais, gwelais y gwaelod,

Mae

Mae 'n ddi fai, mae 'n ddiau' fod.
Ond gwnai hyn eu hennyn hwynt ;
Didaw 'n unair y d'wedynt,
Gwnai ryddhau o'u Deddfau da
Luoedd Gwlad Galilea :
Yn hyf yma gwnai hefyd
Ddrygau, a thrwy barthau 'r Byd.

Pan glybu, pan wybu 'n awr
Yn burion o ba Orawr
Ddewifol yr oedd Iefu,
Gwnaeth ddanfon y Cyfion cu,
Dofydd wr ifel difalch,
At Herod oedd Bendod balch.
Herod, wrth ganfod y Gwr,
A lawenai, wael anwr.
Ni's gwelai 'r hyn ddifgwyliodd,
Yn draws mewn drygnaws fe drodd.
Aflonydd lu 'r drwg Flaenawr,
Gwawdien' Ion i gyd yn awr.
Danfon wnaeth Herod ynfyd
Brynwr a Barnwr y Byd
Mewn 'fcarlad, y mâd Ior mawr,
Iefu gwâr mewn gwifg eurwawr,
Yn ol at elynol Wr ;
Fe wenodd y Rhufeinwr.
Eurawg wifg oedd yn arwydd
O freiniol orfeddol Swydd.

Trigoliawn y lwyflawn Wlad,
Gwelent ben pob difgwyliad :

Yna hwy a droen' yn llawdd,
Eu ffydd a lwyr ddiffoddawdd.

Fe Pilat, fwyaf Piler,
Wrthyn' byth araith iawn bêr
A wnai; ond cynhyrfai hon
Laweroedd o hil Aron.
Drwy ddichellion budron bâs
Hwy dro'n ddynion y Ddinas
I ddeifyf cael llâdd Iefu;
Rhoi 'n rhydd y Llofrudd i'w llu.
Llawen y gwnaethai'r Llywydd
Ro'i Nêr hael eirian yn rhydd.
Y dynion digrediniaeth,
Naws dig, pan welent nas daeth
Yn ôl eu hymchwyddol chwant,
Annoethaidd droi a wnaethant.
Croefhoelier fal crâs Elyn!
Ymaith â'r fath ddiffaith ddyn!

Pa achwyn, pa gwyn, pa gâs
I lunio 'r fath alanas?
Ai diriaid ddofn fradwriaeth?
Pa ddrw anamlwg a wnaeth?
Oferedd oedd llefaru
Yn rhywiog wrth lidiog lu.
Cynnwrf a thwrf a therfyfg,
A ſŵn can myrddiwn i'w myfg.
Crôch lefau, hyd feiliau 'r fêr,
Caerfalem, oedd, croefhoelier!
Tra bloeddient, tra rhuent rhawg,

D'wedai

D'wedai 'r Barnwr godidawg,
Gormod hynod Ddihenydd,
Fflangellaf, rhoddaf E'n rhydd,
Pontius Pilatus a'i lu
Taerwyllt wnaent ddiyſtyru
Nêr anwyl, ſwynwr uniawn,
A'i amgylchu yn llu llawn.
Dwyſgam, yno dioſgwyd
Ein Ieſu glân o'i wiſg lwyd.
Cablu a fflangellu 'n gwâr
Ynad a wnai 'r gwyr anwar.
Dilladent, hwy wiſgent Ior
Perffaith wed'yn mewn porphor.
Dewrion Rufeinwyr diras,
Coron o ddrain creulon crâs
Rodden' ar Ben Ior y Byd,
A'i wiwdlws dal wnai 'n waedlyd.
Anwyl Ion, yn ei law Ef,
Mawredd, Gogonedd gwiwnef,
Corſen irwen fu 'n arwydd
O'i freiniol arſwydol Swydd.
Gwawdio, glin blygu wed'yn,
Addoli, cyhoeddi hyn;
Llawenydd i'r Llywydd llon!
Ddiwael Frenin Iuddewon!
Yno ei gernodio wnant;
Ar Ieſu hwy boerafant.
Cymm'ren' y gorſen, rhoen' gur
Poenydiawl i'r Pennadur.

Anwylaidd Wraig wen glau

Y Llywydd dig'wilydd gau,
Yn brudd, yn y boreuddydd,
Breuddwydiai pan dorrai 'r dydd.
Gwelai wr cyfion gwiwlwys,
Nefolwawr, dan boenfawr bwys;
Mewn mawrddig mwy na myrddiwn
Yn gwawdio 'n cyhuddo Hwn;
A'i Gwr yn barnu 'r Gwirion
I'r Dorf draws anhynaws hon.
Braw odfa fu'r Wraig brydferth,
Gwnai ddeffro mewn cyffro certh.
Y galed weithred nid lai
O'i henaid pan ddihunai.
Ac yr awr'on Sôn y ſydd
Yn dwyn, fel ar adenydd,
Haneſion geirwon yn gynt
Na rhediad un rhuadwynt;
Fôd gwirion wr cyfion cu
A thirion i'w ferchyru;
Rhai dd'wedent, Gwr hardd ydyw;
Ond Hwn alwodd feirw 'n fyw?
Mae 'n awr o flaen bloedd-fawr blaid
Y dyrys Bennaduriaid:
Heb achos mawr na bychan,
Etto ei ddinyſtrio wnan'.

Gwraig di ffydd Frawdydd y Fro,
Ae hyn i galon honno,
Anfon yn union a wnai
Hanes i'w Gwr, nas gwyrai
Farn iawn; na ro'r Cyfiawn cu

Fawrwerth

Fawrwerth Wr i'w ferthyru.
Hir freuddwydiais o'i herwydd,
Wr mâd, ar dorriad y dydd.
Cla' ydwyf mewn caledi:
Hi fu 'n doſt ar fenaid I.

Cyffrodd, argyhoeddodd hyn
Enaid y dybryd annyn,
Felly Pilat f'ai allan,
Wr dig, a'i Yſbryd ar dân.
Ebre 'r Gwr, Brawdwr eu Bro,
Attoch 'rwy 'n dyfod etto;
A dyfod mae 'r Gwr difai,
Heb bechod mae 'n bod na bai.

Mewn porphor doi 'r Ior eirian
I'r Cyntedd, a'i degwedd dan
Y Goron ddrain creulon crâs
I'w ddwyn at wyr y Ddinas.
Dwedai 'r Barnwr godidawg,
Wele 'r Dyn!—ar hyn hwy rhawg
A floeddient na fynnent fôd
Ieſu ar Ddaear iſod.
Dirboener! nis derbynniwn!
Croeſhoelia! croeſhoelia Hwn!
Na waeddwch mor anoddef;
Chwi, oh wyr, croeſhoeliwch Ef.
Ni enwyd bai 'n ei Einioes;
Yn y Dyn dim bai nid oes.

Y dyrys Bennaduriaid,

Ennyn

Ennyn ar hyn a wnai 'r haid.
Unen' eu llef yn un llu
Nawſwyllt yn erbyn Ieſu.
Mae Cyfraith oleufaith lân
Gennym o enwog aniah;
Wrth hon, ein Cyfraith hynod
Nefol, Fe 'n farwol ſy 'fod.
D'wedodd mai Mâb Duw ydyw;
Haeddai Hwn fod heddyw 'n fyw?

Dygodd hyn Synnedigaeth,
Bu'r Barnwr mewn cyflwr caeth.
I'r neilldu neſu a wnai,
Hyf eilwaith fe a holai,
Gan ofyn pa Ddyn oedd Ef
I gu enwog Ior gwiwnef?
Yno, mewn prudd-der enaid,
O'i enau dim geiriau gaid.
I'r dewr Ynad dirinwedd
Yn ei lân a'i anwyl wedd
Ei dduglwyf ydoedd eglur,
Anrhaethawl angerddawl gur.
Dilys yr oedd dan daliad
Cyfiawnder digter ei Dad.
Ebe 'r Barnwr ffroſtiwr ffri,
Ai tybied na 'm hattebi?
Yttwyd (a raid dwe'yd itti)
Heb wybod f'awdurdod I?
Minnau, gwybydd, o mynnaf,
Yn awr dy ryddhau a wnaf.
Rhwyddaidd a hawdd yw rhoddi

I loes y Groes d'einioes di.

Ior etto a roi atteb;
Tydi ni elli na nêb
Drwy fawrloes ddwyn f'einioes fau,
Oh ddyn, heb fy môdd innau.
Mi ddaethym yn gyflym gu
O dd'uchod i heddychu.
Ydd ydwyd, na'm Traddodwr,
Gyfiawnach amgenach Gwr,

Pilat, wedi pôb holiad,
Mawr oedd hwn am ei rydhâd.
Ae 'n ôl at elynol lu
I ddeifyf rhyddau Iefu.
Mawr alar! Barn marwolaeth,
Er hyn, yn ei erbyn aeth!

Yr Iuddewon, geirwon Gâd,
Mynnent gael eu dymuniad:
Anfadwyr, gwnaent ynfydu,
Hyd Nêf yr aeth llêf eu llu:
Tydi, os gadewi 'r Dyn
O'th ddwylaw, wyd fyth Elyn
Gwedi i Gaifar gadarn,
Os Ti arbedi roi Barn!
Hwnnw a'i gwnêl ei hunan,
A drôdd mewn un môdd na man,
Yn Frenin, Hwn, fawr Ynad,
A dorrir, leddir o'r Wlad!
Gau luniaw drwg Elyniaeth,

Sùr naws, i Gaiſar a wnaeth!

Yr Ynad, bôb yn ronyn,
Diflannodd, delwodd y dyn:
Gwywo, dan wyro 'n araf,
Wnai hwn, ſal blodeuyn haf,
Goflin ydoedd ei gyflwr;
I'w Orſedd geinwedd ae 'r Gwr.
Eb'r Ynad, wele'ch Brenin!
—Bu 'r Offeiriaid, bleiddiaid blin,
A'r lliaws mewn drygnaws dro;
Dymunent ei gondemnio.
Cyd unent fel Câd Annwn,
Difetha! croeſhoelia Hwn!

Sylwiwch, wyr, a groeſhoeliaf!
Eich Brenin?---oh Brenin brâf
A fydd!—Un Brenin feddwn
Caiſar, Wr hawddgar, yw Hwn!
Yr enwog lidiog wladwyr,
Creulon fygythion y gwyr
A droi 'r Ynad ar unwaith
I Ddrygau camweddau maith.

Pilat, o flaen y Palas,
Galw am ddw'r wnai'r Barnwr bâs.
Mewn cyſtudd, yn brudd mewn braw,
Yn ddiles glanhai 'ddwylaw.
Gwed'yn ei ddwylaw godai
I Nêf, a golygu wnai
Ar Ieſu; ar y llu llawn;
Cofiwch, o waed y Cyſhawn

Hwn,

Hwn, yr wy 'n wirion o hyd ;
Gwirion yr âf i'r Gweryd.
Hwy, Fradwyr, wnaent hyfrydu ;
Bloeddiodd a llefodd eu llu,
Deled arnom ni 'r Dialedd !
Nyni a'n meibion un wedd !
Rhyddwys Farn ! fe a'i rhoddawdd
I foddio 'r Dorf honno 'n hawdd.
Oh lidiawg greulon wladwyr !
Oh ddybryd, oh waedlyd wyr !
I'r Gwirion bu arw gerydd !
Diras Farabbas fu rydd !

Y dda wiſg a ddioſgwyd ;
Rhoent ar y Gwr lliwgar llwyd
Ei hynod wiſg ei hunan,
Ac ar unwaith ymaith an'.

Yr wy 'n glâf, arw iawn glefyd,
Gan ddrygau a beiau 'r Byd.
Ieſu mâd ! b'le ſymmudaf ?
B'le weithion, wir Ion, yr âf ?
Pa floedd gan y bobloedd bâs ?
Chwerwedd cynddaredd ddiras !
Y mawrlu ſy'n gwêl'd marwloes
Mab Ior Nêf dan ei grêf Groes !
Yn dy galed Galedi,
Fy Nâf, nis gadawaf Di.
Rhag i loes yr hagr Groes hon
Luddias eu dialeddion,
Rhoi 'r eres Groes ar arall

Wnaeth creulon Feibion y Fall.

Nattur, ni welwn etto,
Sydd yn hon, afradlon Fro:
Y gwâr wragedd goreugu,
Mae rhai'n yn wylofain du.
Gwnan' lefain gan ei lafur,
Wrth weled ei galed gur.
Wrth ganfod eu trallod trwch,
Mêdd Ior hael, na wâcl wylwch:
Erofi na bo'i chwi chwaith
Dynnu Uchenaid unwaith.
Am Sion a'ch meibion maeth,
Wylwch, wylwch o alaeth.

Daethom yn awr, ddirfawr Ddydd!
I hynod Frynn Dihenydd!
Yn ofalus gwnaf wyliaw
Pa ryfedd Ddiwedd a ddaw.
Pa olwg!—oh pwy wèlaf!
—Groeſhoelir yn wir fy Nâf!
Ai rhwng lladron geirwon gau
I'r entyrch codir Yntau!
Troſtynt, er maint eu trawſter,
Ar Dduw da eiriol wna Nêr:
Oh Dduw Dâd! maddeua Di,
Gynnwrf eu mawr ddrygioni!

Cyhoeddus yw Cyhuddiad
Ion cu i lu pôb rhyw wlâd:
" IESU O NAZARETH,

BRENIN

" BRENIN YR IUDDEWON."

Y Torfoedd, yn lluoedd llawn,
Addig Yſcrifennyddiawn,
Henuriaid hyſion eres,
A'r gau Offeiriadau rês,
Y milwyr diſynwyr ſydd,
Gwelaf, pawb fel eu gilydd,
Hwy wawdiant cablant Ior cu
Yn ei loes anwyl Ieſu.
Ym myſc y terfyſc a'r twrf,
Bradus, drygionus gynnwrf,
E welwyd Morwyn wiwloer,
Yn ddiſtaw, yn wylaw 'n oer,
Gwen liwgar, gan olygu
Weithiau ar y ddaear ddu;
Bryd arall i'r wybr dirion;
Ac weithiau ar friwiau 'fron.
Wylai wed'yn o alaeth,
I'w gruddiau hallt ddagrau ddaeth.
Ow Mair! hawddgara' Morwyn!
Mor doſtur ei chûr a'i chwyn!
Bu'n oer ei bron, Bun arab,
Ar ol ei rhyſeddol Fab.
Duwies o Ferch! mewn dwys fodd
Ei h'enaid a wahanodd!
Oh Duw mawr! pam f'enaid mau,
F'enaid! na wylaf finnau?
Ond toſt mor greulawn wyt ti,
Gan weled, ac ni wyli?
Yn hyn ydd wyd anhyner,

Tydi ni wyli am Nêr.
Hiraeth, trymder o'i herwydd,
Rhyfeddod a ſyndod ſydd;
Trymmion ofidiau tramawr
Sy 'n cau ar fy nagrau 'n awr.
Mae ofnau 'nghiliau 'nghalon,
Mae braw dirgelaidd i'm bron,
Ond oh! na byddo yn bôd!
Mai baich fy ngorthrwm bechod
Sydd yn bwys mwy dwys na'r dur
I'w ddwylaw 'n rhoi mawr ddolur,
Yn amlhau poenau heb baid
I'w anwyl gyfiawn Enaid.
Diflanned, todded heddyw
Nêf eirian, pôb anian byw!
Na ddalio 'r Byd yn ddilyth,
Ond bôd megis heb fôd fyth!
Mae Nêr, creuber Aberth,
Mae Ior Nattur mewn cur certh!
Oh raſol, oh nefol Nêr!
Ei Boenau a ddibenner!
Oh boed i'r awr hagr-fawr hon
A'i Boenau gael dibennion!
D'wedwch, ba ruddwaed ydyw,
Can's i'm golwg amlwg yw,
Sy 'n lliwio, yn gwridio 'r Grog?
—Oh! Gwaed Ieſu gu D'wyſog!

Hyfrydu mae ei fradwyr,
Bloeddio a gwawdio mae 'r gwyr;
Gwatwor ei eiriau 'n gyttun;

Mwynhau

Mwynhau ei boenau bob un.

Ni feiddiaf ond rhyfeddu ;
Oh greulon Elynion lu !
Mwy rhyfedd, Ior Hêdd, er hyn,
Yttyw dy Gariad attyn'.
Fal Tâd ym mron ymadael
O'r Byd i'r gweryd oer gwael,
Ban wêl, yn ei boen olaf,
Ei blant, er clwyfiant, wr clâf,
Etto fe dry ef attynt ;
Rhydd fendith fâd i'w hâd hwynt ;
Ion grafol, ein gwir Iefu,
Mae 'n ei wêdd drugaredd gu,
Nefol ragorol Gariad
Ar y Grôg, odidog Dâd !
Dirioned i rai annuw !
I feibion dynion yw Duw !

Ion anwyl, mae 'r ben einioes ;
Clywaf ei lêf mewn claf loes :
Oh f'un Duw ! oh f'enaid I !
Oh Duw ! pam i'm gadewi !
Llefodd y mâd Bennadur,
—Mae Syched yn galed gur !
Un o'r milwyr, gwawdwyr gau,
Roi winegr fur i'w enau.
Pan brofodd, Fe a drodd draw
Ei hoywbêr wyneb heibiaw :
Pan drodd, dolefodd Duw lwyd,
Y Gwr hoff iawn,—Gorphennwyd !

Yn rhwydd i'th law 'r wy 'n rhoddi,
Oh bùr Dâd! fy Yſbryd I!——
Deryw!—ei fwyn wedd dirion
Ogwyddodd i'w freufodd fron.

Darfu!—fe ddaeth ei Derfyn!
Dirfawr haid, darfu ar hyn
Gelyniaeth o galonnau
Anraſlon wyr geirwon gau.

I'r ddyrys oer ddaearen
Nâf a ddaeth o'r Neſoedd wen.
Gwiw Roddion roi 'r Gwr addas
O Hedd, o Rinwedd, o Râs:
A gwael dâl, fel y gwelir,
Ga'dd Celi gennym ni 'n wir.
Oh Duw! f'Arglwydd!——a dawaf
Ben awr am gariad Mab Naf,
O'i fodd oddefodd ofid,
A blinder, a llymder llid,
Ing mor ddwys, Angau mor ddu,
Fy Mrenin, wrth fy mhrynu!
Briwedig mewn braw ydwyf,
Am Ieſu hiraethu 'r wyf.
Mwynwr, dywaid, os mynni,
Uſt for! ond nis tawaf fi.
Ow immi fod mor ammur!
Gwae fi roi 'Geli fawr gur!
Gwae goffa rhwygo gwaywffon,
Waith echrys, i yſtlys Ion!
O'i fonwes, anwyl fwynwr,

Gwedi

Gwedi y daeth gwaed a dw'r.

Fe ô Arimathëä,
Wr dethol dedwyddol da,
Ioſeph wnai gladdu Ieſu
Mewn beddrod hardd, mewn gardd gu.
Fu Dydd, neu fydd, ryfeddach?
Rhoi'r Mawredd yn y bedd bach!
Ofnus anhwylus helynt!
Aeth ymaith bôb Gobaith gynt!
Gorwedd mae dan y Garreg
Mâb mawr Duw, a Mâb Mair dêg!
Ior mâd, Cariad cywiraf,
Wrth ei fêdd gorwedd a gâf.
Yr Iuddewon geirwon gau,
Gelynion o galonnau,
Rhydaer fleiddiaid rhuadwy,
Gwynfydant, llawenhant hwy.
Gau Lawenydd gelynion
Sy 'n brydio, ſy 'n briwo 'm bron.
Oer ddyrys yw'r ddaearen,
Y mae 'r Byd i mi ar ben.
Oh y Byw-Nêr! ba ennyd
Y gwneir Barn gan wyr y Byd!
Y Gwir a Barn gywir gu
Bellach a wnaethant ballu.
Dyfn Seiliau 'r mynyddau 'n awr,
A'u trymmion Lwythau tramawr,
Yn llwyr oll o'u lle yr an',
Y liwdeg Ddaear lydan,
Torrodd drwy Gylch Natturiaeth,

A'r

A'r Môr mawr o'i orawr aeth!
Holl Nattur,---oh 'r Gloywbur glân!
Dyma 'r fann, dyma 'r oer fêdd,
Y Gweryd lle mae 'n gorwedd.

O blith llu goleugu glân
Anfarwol y Nef cirfan,
Mi oh frawd, ddaethum o fry,
O'r geinwen wybren obry.
Dylai fod arnad alar
Ar ôl dy ragorol Gâr,
T'wyfog enwog y wiwnef,
Dirion Ior Daear a Nêf.
Ond d'ofidion dyfnion dï,
Oh Ddyn! ni wnan' ddaioni;
Synnied pethau preſennol
Yr wyd, heb ganfod ar ôl.
Buan aeth Gair y Bywyd
Yn angof, dros gôf i gyd.
Ni fynn Duw Nêr, mwynder maith,
I neb fyn 'd i anobaith.
Marwolaeth Mâb Mair wiwlân,
Dofydd, Nâf Dywydd Nêf lân,
I anwyl lu Goleuni
Rhyfeddod hynod yw hi.
Ni chlywir gan wych liaws
Yn Nêf, arafaidd eu naws,
Gu Gân drwy Fro 'r Gogoniant,
Fiwſig plethedig nas thant.
Diſtawrwydd dwys yſtyriawl
Y ſydd drwy Geurydd y Gwawl.

A'r

Nef

Nef-Luoedd, Dorfoedd dirfawr,
Triſtau a'u telynau 'lawr.
Ag wele! dyma 'r gwilwyr
Yn arfogion eirwon wyr
Yn neſau; ninnau 'n union
Awn draw o'r Ardd lwys hardd hon.
Arweiniaf di draw ronyn;
Cyfod i ddyfod, oh ddyn!
Egoraf olwg eres
I ti 'n awr o lwyddfawr lês.

Eirian Fâb glân Goleuni!
Nerthaiſt ac adfywiaiſt fi.
Di oedi, parod ydwyf,
Parod i ddyfod ydd wyf.

Helaeth fendithion hylaw
I ti ddyn etto a ddaw.
Buoſt ffyddlon i'm Ion mau,
Wyd ethol gan Dduw dithau.
Derfydd dy brudd-der dirfawr;
Cei ganfod Rhyfeddod fawr.
Gwrando eiriau 'r gywreindeg
Odiaeth Brophwydoliaeth dêg:
I'r Ddraig Hâd y Wraig a rydd
Hynod ddirfawr Ddihenydd;
Cyflawnwyd, cu fawl union
I Fâb Duw byw, heddyw hon.
Mawrion wyrthiau mor nerthawl,
Gwyrthiau dros Gaerau y Gwawl,
Na welaiſt, ddyn anwylaf,

I ti eu mynegi wnaf.
Dan lâs Balmwydden lwyſwawr
Nyni orphwyſwn un awr.
Haeddai 'r eres hanes hon
Ddiſtawwrwydd addas tirion.
Gwêl yn awr, Golsuni oedd,
Di wâd mai Mâb Duw ydoedd.
Rhwygodd Llenn y Deml wen wawr
Ar ei Derfyn, Ior dirfawr.
Y Creigiau, drwy barthau 'r Byd,
Yn ei Gúr, wnaen' egoryd.
Haelionus Haul y wiwnef
Lewygodd, fe dduodd ef,
Wel'd T'wyſog arddercheg ddawn
Yn dioddef dros ddyn diddawn.
Mawr derfyſg! y mor dirfawr,
A'r ddaear fud dduoer fawr,
Diau rhai'n, wrth farw Duw 'r hedd,
A grynent mewn gwirionedd:
Crynodd Caerau y wiwnef,
A'r Ser yn uchder y Nef.
Pan godwyd Ef ar gref Grog,
Wareiddiaf Ior mawreddog,
Fal ergyd Saeth daeth i'r Diawl
Wynnias gur aneſgorawl.
Ar edyn Dychryn, mewn dig
Uffernawl, ffodd y Ffyrnig;
Traws giliodd tros y Geulan
I'w Lynn du 'n olwyn o dân.
Yr oedd o'i fewn riddfanau
Cythreulig drwy 'r ffyrnig Ffau:

Y Diawliaid oedd mewn dolur,
I'w gruddiau 'r oedd dagrau dur.
Uwch ben eu Ffurfafen fawr
Ddiderfyn, yr oedd dirfawr
Gylch, ac o'i hamgylch o hyd
Yr oedd ef yn cyrhaeddyd;
O dewdwr hynod ydoedd,
A Chant o Adamant oedd.
Yn ei lafur, dolur du,
Yn ei loes, anwyl Iesu,
Y nerthawl agwrddawl Gylch
A rwygodd drwy ei ogylch,
A holltodd, taflodd i'r tân,
I'r gwaelod o'r fawr Geulan.
Pob darn mor gadarn mor gerth,
Unfaint â Mynydd anferth,
Ag Idris fawr ei godre
Dan gwmmwl nifwl y Ne',
Neu gymmaint â'i harddfaint hi
Yr awyrawl Eryri.
Gan gerth nerth eu rhyferthwy,
Eu trymder a'u hamlder hwy,
Y Mynor (îs dyfnfor dig
Uffernawl o dân ffyrnig)
Tew iawn, oedd yn toi Annwn,
Gwahanodd a holltodd hwn:
Afrifol aruthrol rawd,
Torrafant i'r tir ifawd.

Crynodd, e dybiodd y Diawl
I'w Noddfa ddofn anneddfawl

Draws

Draws chwalu dros ei cholyn,
A llwyr ddiſtrywio y Llyn.

Yn y Storom drom dramawr,
Pan wnaed brâd yr Ion mâd mawr,
Y ffyrnig Dorf uffernawl,
Cyfeillion duon y Diawl,
I lawr â hwynt laweroedd
I'r gwrês llwyr eres lle 'r oedd
Annedwydd ddychryniadau
Echryſlon i'r Gwyllon gau.

Gan dwrf ac egni dirfawr
Darnau 'r adamantau mawr,
Y gythreulig ffyrnig ffau,
Gwaelod ing a Gwlâd Angau,
Llydain Ddyfnderoedd llidiawg,
Crynent a rhuent y rhawg.
Y Llynn tân brwmſtan a braw,
Tryſtio wnai'r Trolyn troſtaw.
Holl ri' y meini mynawr,
Hwythau 'r adamantau mawr,
Eu gwely yw y gwaelod,
Ac yno fyth y can' fod;
Arwyddion (mewn mawr oddaith)
Nerthawl trag'wyddawl o'r Gwaith.

Ac erbyn diſgyn o'r Dorf
Gythreulig ddiawlig ddilorf,
Dirfawr oedd rhifoedd eu rhawd,
Ryw fodd, wele Ryfeddawd!

Y Diawl, a'i erchyll deulu,
Drwy 'r ffwrn lôfc, dra uffernol lu,
A droes, ar ôl eu drawſedd,
Yn Sarph genſigennus wedd,
A'i hollwedd yn dân hyllwyllt
Gan ddychryn a gwenwyn gwyllt.
Yr un ſut rhai 'n a Satan
Yn droiau 'n dorchau o dân.
Y dewrion Bennaduriaid
O faint yn gymmaint a gaid
A mawrion Seirph y moroedd;
Mawrion hwynt; mwy er hyn oedd
Y rydaer Ddraig ruadwy,
Satan ei hunan, na hwy:
Arſwydus, eirias ydoedd
Eu gwawr, a chythreulig oedd
Hyll derfyſc y llu dirfawr
Yn chwythu drwy 'r Fagddu fawr.
Naws dwl, fal rhwng nôs a dydd
Y gwelent wêdd eu gilydd:
Du ofid i lu Diafol!
Arſwydent, neidient yn ôl.
Ni bu yn y Fagddu fawr
Y fath gynnwrf, dwrf dirfawr;
Troſti 'r oedd eu ſi a'u ſŵn;
Dolennent hyd Wâl Annwn.
Wele! yn ei Farwolaeth
Diſtryw ar Diſtryw a ddaeth!

Di welaiſt gwymp y diawliaid,
Echryſlon â hyllion haid.

Talu 'n helaeth a wnaeth Nêr;
Ni fu Ior Nêf farw 'n ofer.
Gwelwyd rhyw Debygoliaeth
Yn y Gwr, a'i Wlâd yn gaeth,
Chwerw ing, yng 'ngharchar angau,
O'i elynion geirwon gau
Ei hunan wnaeth o honynt
Fawr laddfa yn Gaza gynt.
Am gael y Byd hyfryd hwn
Yr oedd Byddinoedd Annwn;
Er holl allu 'r Ellyllon,
Crôch lu, yr Ieſu, wir Ion,
Yn dêg, rhag Damnedigaeth,
Rhyddhau eneidiau a wnaeth.

Ym monwes Nêr, dyner Dâd,
Mae 'n ôl ragorol Gariad,
Nefol, iw raddol roddi,
Hynod, anwybod i ni.
Golau nid pob Dirgelion
I fwyn lu y Nef wen lon.

Oh y Gwiwlwys!—oh Geli!
I f' enaid mau d' eiriau di,
Oh lân Gennad y loyw-Nef!
Y ſydd fal newydd o Nef!
—D'weda 'r Diſclair clodadwy?
—Ni wn o fyrddiwn neu fwy
Beth gyntaf ofynnaf it;
—Fwynwr, pam ymofynnit
Am bethau uwch doniau dyn?

Rhyfyg yw 'r unrhyw ofyn,
Gwelaiſt y Fuddugoliaeth
Fawrgref, ac Ion Nef a'i gwnaeth.
Drwy 'r nôs prudd-der deyrnaſa,
Pan wawrio 'r dydd dedwydd da,
Fe ddaw i'r Byd, hyfryd hwyl,
Lawenydd nefol anwyl.
I'r Nen glaerwen ddiſgleiriol
Weithion fi 'n union â 'n ôl.

Dôs erés gynnes Gennad,
Dòs i Nen y Nêf wen fâd!
Gwaraidd gwnaethoſt egori
Dirgelion mawrion i mi!
Llawn yw y fron fwynlon ſaf
O ddedwydd Ryfeddodau.
Gorphennodd o'i fòdd yn fwyn,
Y deddfawl Geidwad addfwyn,
Roi 'n rhyddion y Gweiſion gau,
Gorphennodd gûr a phoenau;
Dilys, pob prophwydoliaeth
Gorphennu yn Ieſu wnaeth.
Teirawr y bu 'r Ior tirion,
Teirawr, drwy 'r boen hagr-fawr hon!
Cyflawni wnai 'r cu Flaenawr
Y Gyfraith ryfeddfaith fawr.
Hell Deyrnas wynnias Annwn,
Diſtrywio honno wnai Hwn.
Rhyddhau o'u beiau y Byd
Wnai y Gwr ſy 'n y gweryd.
Rhoi iawn i'w Dâd yr un dydd,

A'i gladdu mewn goleuddydd!
Oh uchder a dyfnderau
Ffyrdd doethion mawrion Duw mau!
Eu dyfnder a'u huchder hwy
Ydynt anolrheinadwy!
Is y Sêr dewisa' Swydd
Eu 'styried mewn distawrwydd.
* * * * * * * * * * * * *
Weithion yn llon llawena,
Nawdd Duw ddaeth a newydd da.
Dihunawdd ein Duw hynod;
Y mae 'n fyw, mi wn ei fod.
Deimlaist grynfa 'r ddaear ddu
Ar ddattod oll o'i ddeutu?
Duw hynod! Fe'n dihunaw,
Nu wnaeth hi drwyddi draw.
Rhwyddaidd y bore heddyw
Daeth Ior Hêdd o'i fêdd yn fyw!

Eirian Fâb glân Goleuni!—
—Oh Ddyn! na 'mofyn â mi;
Y meirw, y byw, mawr a bâch,
Rhoddant it hanes rhwyddach:
Oh Ddyn! hwy ni mddiddanaf,
I Nen yr wybren yr âf.
Gwiw lwyddol Blant goleuddydd
Yno 'n llu 'n gwersyllu fydd,
Gannoedd o Nerthoedd gwiwnef,
I gyd ddyrchafu ag Ef.
Dialwyd ar dy Elyn,
Ac bellach bydd iach, oh Ddyn!

Oh

Oh yr Hanes gynnes gain!
Ac oh'r Cerub gwâr cywrain!
Fy Arglwydd dedwydd! os daeth
O Wely ei farwolaeth,
I'r Duwiolion, wyr dilyth,
Glân Lawenydd a fydd fyth!

Y gu rywiog Fariä,
Ym more 'r trydydd dydd da,
Ar dorriad y Wawr dirion,
I'r Ardd yr ae 'r Wraig harddlhon.
Ac eraill aent o geriad
I wel'd bedd y Mawredd mâd;
Cadwynau 'r Angau a'i Rym
A dorrwyd, Rwymau dirym.
Un o fwyn lu 'n Nêf wen lon,
Cyn gweled Haul cain gwiwlon,
Ddiſgynnodd, Fe dreiglodd draw,
Wir-Nâf, y Maen oddiarnaw.
Eiſtedd, mal ar Orſeddwwych,
Ar hwnnw wnai 'n frenhinwych,
Ei liwgar lân olygawn
Ef a gaid yn fywiog iawn.
Diddym ae 'r Gwyliedyddion
O Gùr, o fraw, ger ei fron.

Y ffyddlawn Wraig hoffeiddlwys,
Maria Magdala lwys,
Gwelai 'r hyn na ddiſgwyliodd
Mewn dirfawr fraw draw hi drodd.
Aeth hon yn union yn ôl

At Weision Duw dewisol.
Dygasant, modd digyssur,
Ymaith ein Ior perffaith pùr:
Diammau dygwyd ymaith;
Mewn bêdd ni cheiff orwedd chwaith.
Nr's gwn ba fann is gwiwnef
Dygasant dodasant Ef.

Y Trueiniaid tirionwawr,
Hwythau, mewn ofnau yn awr,
A redent, ddeuwr odiaeth,
At Fedd Ior, mewn Cyngor caeth.
Cyn daeth y rhai'n wyr cain cu,
Y Gwragedd glân goreugu
Welasant Olwg lwyswedd,
Angylion gwynnion eu gwêdd:
Ai 'morol ym mhlith meirwon
Yma wnewch am y mwyn Ion?
Y Trag'wyddol, nefol Nawdd,
A fyw-deg adgyfodawdd.
Ei Fawredd gwnewch lefaru
I'w ofnus alarus Lu.
D'wedwch i Bedr nad ydyw
Mwy 'n ei fedd, can 's-y mae 'n fyw:
Ag etto maent hwy 'n gyttun;
Ag ef mae Duw Nef yn un.

Mirain Wragedd, ni meiriant,
Mewn ofnau maith ymaith ant,
Y cu Ddiseyblion cywir,
Pan ddaethant gwelsant y Gwir.

Yn ól dychwelen' eilwaith
Mewn ſyndod, rhyfeddod faith.

Dyfod yr awr hynod hon
Wnai 'r Gwilwyr enwir galon,
Y Meirw, o'u beddau marwol
Yn awr a ddeuent yn òl,
Synnu wnai 'r Ddinas ennyd;—
Ae 'n dwrf, yn gynnwrf i gyd.

Gau Offeiriadau ydynt
Mewn ofnus anhwylus hynt.

Aros wnai Mair ddiwair dda,
Wraig addwyn rywiogeiddia',
O ddeutu ei fedd etto;
Gogwyddawdd, edrychawdd dro
I Annedd ei Naf union
Dan wylaw a braw i'w bron.
I'w golygon goleugu
Hynod ryfeddod a fu:
Ceinwawr Angylion cannaid
Yno yn gwylio a gaid.
Golygai 'r Engyl gloywgoeth
Yn awr yn wyneb Gwawr goeth:
Ba alar? am bwy wyli
Hêb baid a'th llygaid yn lli?
Dygaſant, modd digyſſur,
Ymaith fy Ior perffaith pur.
Nis gwn ba fann is gwiwnef
Dygaſant, dodaſant Ef.

Pan

Pan dd'wedodd, hi a drodd draw;
Gwelodd, ond heb ddiſgwyliaw,
Naf y Ddaear a'r Nefoedd;
Ni wybu mai Ieſu oedd.
Ba alar? am bwy wyli
Heb baid a'th llygaid yn lli?—
—A wyddoſt, dywed, addef,
P'le dygaiſt, p'le dodaiſt Ef?
Oh dód Ef, da yw dy waith,
Immi, cymmeraf ymaith!
—Mair!—ar yr un gair a gaid,
Dihunodd Duw ei henaid;
Fy Nuw! fy Mrenin! fy Naf!
Ar ddeulin yr addolaf.
Na chwrdd ar hyn o dro, chwaith,
F'anwyl, a Myfi unwaith;
Nid âf, meddai Nâf, yn ôl
I Gaerau'r Nef, ragorol,
Cyn etto, Wraig gain, itti,
Yng'wawl Dydd fy ngweled I.
Dôs hyglod Wraig, hynod haeh,
Dywed i'm brodyr diwael
Yr af at y Tâd mad mau,
Duw ethol, a'u Tâd hwythau.
Nertha hwynt â'r cynnorthwy,
Dôs ac nag ymaros mwy.

Y mwynion Ddiſcyblion cu
Gwâr odiaeth nis gwaent gredu,
Gormod yw 'r hynod Hanes,
Rhy ddedwydd yw 'r llwydd a'r lles,

Y gu

Y gu Wawr hael, geiriau hon
Ydynt fel gwâg freuddwydion.
Ni feiddiant gréd anfuddiol
Rhag cyſtudd i rudd ar ôl.

Yn awr tyrrai 'r Henuriaid
I'w Dadleulys, (brys heb raid)
Gwallgofai, rhwygai 'r awr hon
Galonnau y Gelynion.
Gwadu'r eres Hanes hyn
Da gwyddent nad gwiw iddyn'.
Yr oedd achos rhyw ddichell,
Un wael o eiſiau ûn well.
Bob Aelod gwnaeth Plant Belial
Anfad eſguſodiad ſâl.
Pwy grêd fath hocced a hon?
Ond toſtur iawn eu tyſtion!
I'w tramgwydd,—rhai mewn trymgwſg!
Carcharorion caethion Cwſg!
Bid uniawn, neu boed anwir,
Haws coelio rhai 'n effro 'n wir.

Jeſu ni âd ei weiſion
Dan drymder o brudd-der bron.
O'u prudd loes parodd i'w lu
Yr aw'ron lon lawenu.
Hael Ddofydd! y Dydd y daeth
O wely ei farwolaeth,
Dedwydd Arglwydd nid oedai,
Ymddangos cyn nôs a wnai,
Gu Lywiawdwr goleudeg,

I ddau

I ddau, ac wed'yn i ddêg.
D'wedai 'r un digred ydoedd
Heb wel'd Ion gwiwlon ar goedd,
Na chredai, na choeliai chwaith,
Oni wêl ef Ion eilwaith;
Teimlaw â'i ddwylaw ddolur
Ol yr hoelion digllon dûr,
A dinag roi 'law 'n dyner
Yn ddilys yn Yſtlys Nêr.

Dofydd, yr wythfed dydd têg,
Attyn' wed'yn yn fwyn-deg
A ddaeth; amlwg oedd weithion
I'w rhif i gyd yr awr hon.
Tomas na boed it ammau
Y fâd Adgyfodiad fau.
Ai hwy gennyt amheuir?
Cei deimlaw fy nwylaw 'n wir.
Gwel, dôd dy law mewn golau
Yn ddilys yn f'Yſtlys fau.
Gwelodd, ni 'mheuodd mo hyn;
D'wedodd yr anghredadyn,
A gwrddawl Fâb y gwir-Dduw!
Fy Arglwydd dedwydd a'm Duw!
Clybuwyd, gwelwyd ar goedd
Gan ugeiniau, gan gannoedd.
Cyfeillion, Gelynion lu,
Weithion cyd dyſtiolaethu
A wnant, ag unant i gyd
I'r Gwr dderchâif o'r Gweryd.
Didwyll weithion y d'wedir
Amlygu ein Jeſu 'n wir!

Er aſtrus aruthr rwyſtrau,
Er dybryd-wyr gwaedlyd gau,
Er-Satan (eres yttyw)
Daeth Ior hedd o'i ſedd yn fyw!
I'r Gelyn mae mawr g'wilydd,
A'r duwiol yn ſiriol ſydd!
I'w dinyſtr cryned Annw'n!
I'r Byd Dydd hyfryd yw hwn!
Enwog Organ y wiwnef,
Telynau a nablau Nef,
Angylion gwynnion yn gôr
Drwy 'r lydan eirian Oror,
A'u haml leiſiau melyſiawn,
Rhoent fawl gorfoleddawl iawn!
Y nefolwawr Ior mawr mâd
Fu wedi' Adgyfodiad
Ddyddiau ddeugain i ddioddef
I'w lu da ei weled Ef.
Rhoi Addyſg a wnai 'n rhwyddaidd
I fywhau bronnâu ei braidd.
Agor eu deall egwan
Wnaeth Ner yn felyſber lân.
D'wedodd, fe 'm hawdurdodwyd
Oddiar lu'r holl Ddear lwyd.
I Luoedd y Nef lawen
Myfi ſydd beunydd yn Ben.
Cewch yn wir, cyn hir, yn hael,
Yr Addewid fawr ddi-wael,
Cewch y Rhôdd oleufodd lân
Yn Salem Ddinas wiwlan:
Gweddus i'ch cynnyſgaeddir

O ddoniau Nef gan Dduw 'n wir.
Tyſtion i ffyddlon goffhau
Fy ing a'm chwerwaf Angau
A fyddwch; im ryfeddawl
Ddyrchafu i Wlad gu'r gwawl.
I bob torf, drwy bob terfyn,
Pregethwch, cyhoeddwch hyn.
Gwaredir hwy a gredant;
Rhai ammur garw gur a gânt.

E d'wyſodd y mâd Jeſu
I'r Mynydd olewydd ei lu:
Addawodd Ef, o Nef, Nawdd
I'w weiſion a ddewiſawdd.
Bendithion a radlon rodd,
A'n Ieſu gwynn eſgynnodd.
Claerwyn Gwmmwl diſcleiriawl,
Sef meibion gwynnion y gwawl,
Mal Cerbyd, oleubryd lu,
Wnai 'ddwyn e'n fwyn i fynu.

Dorau'r wengu diriongaer!
Y nefol drag'wyddol Gaer!
Oh Ddorau y Caerau eerth!
I'r Priodfab, Ior prydferth,
Gwnewch egawr! i'r Ior mawr mau
Egorwch nefol Gaerau!

I ba Ior yr egorwn?
Pa Arglwydd hylwydd yw hwn?

I lân Ior yr oleunef,

Ior

Ior a wnaeth Ddaear a Nef!
I'r Geirwir ddaeth o'r gweryd,
Ac a brynodd, o'i fodd, Fyd!
I Ogoniant Nef gefnwawr!
A daw i mewn y Duw mawr.

Yſplennydd Geurydd i gyd
I'n Ion gwâr wnaen' egoryd:
A dorau 'r Caerau cwrel
Wnaent fiwſig clymmiedig mel.

Aeth yn awr, Iot clodfawr clâu,
Goreuddoeth, uwch pob graddau,
I'w Orſedd oleuwedd lân
Yn Bennaeth ar bob Anian:
Gorſedd ddiduedd ei Dâd,
A chyfion yw 'r Dyrchafiad.
Miloedd y Nef a'i molant,
Celfydd Gerdd newydd a wnant:
Halleluia! hael Lywydd!
Fe 'n Brynwr, Fe 'n Farnwr fydd!
Ior agwrdd! Tì fawryger!
Pwy na 'th fawl, oh nefawl Ner!

Darfu fy nhrymder dirfawr!
Fy Nuw eſmwythaiſt fi 'n awr!
Llawen adeg! llon ydwyf!
Oh f'Arglwydd mor ddedwydd wyf!
Llon wy 'n awr, llawen yw 'nydd,
A llon a fydd 'm Darllennydd!
Mae 'nghalon weithion yn iach;

Mi ganaf Gerdd amgenach:
Yr Haul pan êl o'r hoywlwys
Dwyrain, yn oleugain lwys,
I For Atlas wyrddlas wawr
I'w ddiſgynfa ddwys geinfawr,
Y gygus ferwawg Eigion
Derfyſga, rhua 'r awr hon:
Y tonnau 'n fyrddiynau 'dd ant,
Un pryd hwy gyd ymgodant:
Hyfryda 'r Deifr rhuadwy,
Gawrfloeddiant, llawenhant hwy.
Ond Huan eirian ei wedd,
Ef eilwaith mewn gorfoledd
I lawen ail oleuaw
Yn gain i'r Dwyrain y daw.
Er dibris mawr a dybryd
Derfyſgoedd bobloedd y Byd,
Gwir ydyw y Gwaredydd
Ar lon Frynn Sion y ſydd.
Ni bydd ond goleuddydd glân
Yn Salem Ddinas wiwlan;
Yn gwawrio 'r tirion Geurydd
Haul tyner Cyſtawnder fydd.

Y NAWFED RAN.

DILES medd rhyw Fydolion
Dybryd, yw Gerdd o hyd hon:
Diddawn ydyw 'r Brydyddiaeth,

Yn ofer ei amſer aeth.
Felly (cofiwch Gyfelllion)
Diras hên Suddas wnai ſôn:
Y Wraig eirwir hygaraf,
Mewn mwyn fodd enneiniodd Naf,
Arogl glán yr eirian Rodd
Haelionus, y tŷ lanwodd.
Suddas ydoedd wás addig,
Druan o ddyn, a droe 'n ddig:
Ond y cyſion Ion a wnaeth
Gu ſôn am ei gwaſanaeth:
Ei ras a'i hedd roes iddi,
Canmolodd a hoffodd hi.
Cán gynnes y fonwes fau
I lwys Ion eiliais innau,
Ag arogl o gu gariad
Boed iddi lenwi y Wlad.
Gwiwber gennyf y gobaith
Y derbyn Duw gwynn y gwaith.

Mawrion Ddyſgedigion da,
Dedwyddaf o had Adda,
(O dél fy ngwaith i'ch dwylaw,
Ryw ddydd, os mynn Ior, e ddaw)
Cenhedloedd cain eu hodlau,
Beirdd celfydd am gelwydd gau,
Eu melys waith ganmolir,
Er ei fod heb gyſgod Gwir.
Gweniaith a gwág Ogoniant
Yn fynych gennych a gant.
Siomwyr Enaid rheſymmol,

Sommiant yw pob ffuant ffol:
Ni wna ffuant, ſommiant ſynn,
Yr Enaid well o ronyn.
Yr unig bêr Awenydd
O ffynnon Siôn y ſydd:
Ei doniau ſywha' r dinerth;
I mi, yn Nuw, y mae nerth.
A gynheuan' dàn dynawl,
Medd Duw gwynn, hyn ſydd eu hawl;
Diammau wrtho 'mdwymant,
Mewn chwerwedd gorwedd a gant.
Boed i Bagan ei Gán gau,
A mwyn fawl Ion i minnau.

Mae 'n Brenin, mwynbur Ynad,
Mae 'n awr, Eiriolwr mawr mád,
Oen diddig a fu 'n dioddef,
Mae 'n awr o flaen Allawr Nef;
Mae 'n eiriol am nefol nawdd
I'w weiſion a ddewiſawdd.
Wrth ganfod ei gerth gynfab
Mae 'r Ion yn fodlon i'w Fab.
Bydd Ner gyd á'i dyner Dad
Hyd fore 'r mawr Adferiad:
A dilys y daw eilwaith
I lawr o'r Nef wenfawr faith,
Yn Ynad, Ceidwad cadarn;
Mewn rhyfedd Fawredd ſe farn.

Daeth y Dydd! e rydd yr Ion
Ei ddoniau hael i ddynion.

Mwyn

Mwyn Ior! beunydd mae 'n eirwir,
Mi ganaf i Naf yn wir.
Teulu yr Apoſtolion
Fawrygant, foliannant Ion:
A melys lef tra molant
Ei borth a'i gymmorth a gant.
O'r liwgar Nef oleugerth,
Swn, megis hynt corwynt certh,
A ddaeth, ac a wnaeth yn awr
Lenwi 'r Deml oleulonwawr.
Gwelwyd yn y Dydd golau
Gu Roddion mawrion Ion mau,
Wyr diddan, ar y Deuddeg,
Mal glán dafodau tán têg.
Gan Yſpryd hyfryd Ior hedd
Rhanwyd iddynt bob Rhinwedd.
Ac eraill o bob gorawr
Is Nen Nef ſy 'n ſynn yn awr:
—Dynion heb wybod uniaith
Yn bur, yn tracthu pob iaith!
Nerthol a mawrion Wyrthiau
Y Duwdod, a'i loywglod glau,
Hyddyſg maent i'w cyhoeddi
Yn berffaith yn ein iaith ni!

Ni wiw gwrthddadlu o neb,
Grás Ion wnai 'n ddim groeſineb.
Trodd miloedd yn gyhoedd gu
At eu T'wyſog, at Ieſu.
Pregethu i bob llu llawn,
Iachau clwyfau pob cleiſiawn,

Rhoi 'r Yſpryd goleubryd glán
Wnai 'r Deuddeg yn wyr diddan.
E fagai hyn gynfigen,
Garwa' llid, yn y gwyr llên.
Ofer ydoedd fwriadu
Troi gweiſion cyſion Ior cu.
Ior ei addyſg roi iddyn',
Rheſymmau uwch doniau dyn.
Dewiſwyd a gredaſant,
A Bywyd i gyd a gant.
Y nawſwyllt a'r gwrthnyſig
Gant derfyn mewn dychryn dig.

Pan roi Ner lawnder o lwydd
I Salem, ei Râs hylwydd,
Dirmygai, erlidiai 'r Wlad
Yr Arglwydd a'i rwydd roddiad.
Duw Ieſu wrthodaſant;
Eu llyſu a'u gwerthu gant.
I'w Gwlad, wedi t'w'nniad Dydd,
Dunos ddaeth ar adenydd.
Certh yn y wiwſerth Nefoedd
Cledd gwaedlyd neu danllyd oedd.
Torfoedd diſgeirbryd dirfawr
Welid yn Nen Nef wen fawr.
Amlwg i'w golwg yn gwau
Yw'r terfyſg a thrwſt arfau.
Amlwg i'w golwg bywgwawl
Dinaſoedd yn dan yſawl.
Crynai 'r Ddaear liwgar lawn,
Siglai 'r Ddinas euog-lawn.

Rhufain nerthawl, freiniawl Fro,
Eryrod hynod honno,
Ehedent, amgylchent Gaer]
Olyg-lon Salem loywglaer.
Gwae weled y trigolion
Mor waedlyd, o hyd yn hon!
Croeſhoelio a rhwygo rhai 'n
Yn y Rhyfel wnai Rhufain.
Gwelwyd hwy 'n lladd eu gilydd,
Rhyw Ryfel dirgel bob dydd.
Newyn ei wg drwg a drodd,
A'u heinioes a ddihoenodd;
Drwy 'r Ddinas addas iddaw
Cerddodd a throdd yma 'thraw.
Hyll Reolwr, lle'r elai,
Ymledu cynnyddu wnai.
Yn welw gul anelwig aeth,
Rhoi filoedd i farwolaeth.
Hwy borthent ag Aberthau
Yn ddi fudd ei goludd gau.
Mammau, och eiriau chwerwon!
Echrydus, arſwydus ſôn!
Aberthodd, rhoddodd y rhai 'n
Eu tyner blant eu hunain:
I'w waedlyd ſafn ddiâdlam,
Er hyn, fe a'u myn bob mam.
Pan glywodd, ni fedrodd ſo,
Eu Gelyn, lai nag wylo:
Pwyſodd hyn ar Feſpaſian,
Yr oedd gloes i'w ruddiau glân.

Trwſt

Trwſt arfau, twrf muriau mawr,
Gawr torfoedd mewn Gryd dirfawr,
Fflammau yn gwau o dân gwyllt
Drwy 'r Ddinas eirias orwyllt!
Braw mawr drwy'r wybr a'r moroedd!
Trwy Nattur braw eglur oedd!
Iſel y Nef dan Ieſu
Ymgrymmodd, ymdodd mewn du.
Terwynnion a'r taranau
Gwynnias o'i gwmpas yn gwau!
Trwy 'r Oror rhoi 'r Ior eirian
Yr awyr dig ar arw dân!
Iuddewon di faddeuant,
Gwallgofi 'n aneiri' wnant.
Hafal ydoedd oll hefyd
I Ddydd Barn, i Ddiwedd Byd.

Oh weled hardd Deml wiwlan
Iehofa 'n difa gan dân!
Llogſodd a rhwygodd y rhai 'n
Honno â'u dwylo 'u hunain.
Moriah yn mawr ruaw!
A fflammio 'r oedd drwyddo draw!
Drwy 'r loywdeg fawr Dre' lydan
Pob mâd Adeilad ar dân!
Ni welid o hon olwg
Dan dorchau cymmylau mwg!
Y Caerau, tyrau tirion,
Yn hwy ni welir yn hon!
Dilewyd o wawl awyr,
Diſtrywiwyd, lloſgwyd hi 'n llwyr!

Dialedd

Dialedd ddaeth o'u dolef,
Can's drwy gynnorthwy y Nef
Gan Ditws gu o'u llu llas
Myrddiynoedd o'u mawr Ddinas.
Caid digawn o'u gwaed tewgoch
I liwio 'r gwyrddfor yn goch.
Am wrthod y Cymmod cu,
Y grafol a'r gwir Iefu,
Y ddewr Genedl ddrygionus
Wafgarwyd, lofgwyd fel us,
Hwy gludwyd i bob Gwledydd;
Hwy 'n wawd ac yn fyndawd fydd.

Salem, ei drygnawsi Elyn
A'i lloſgodd; hi haeddodd hyn;
Ond Sion hyfrydlon fry
Faith burwen fyth a bery.

Wele anwyl Lawenydd!
Nifer Ser y Nef fawn fydd
Yn dyfod i'r Cymmod cu,
Grafufawl, dan Groes Iefu.
Nid ffraethder a doethder dyn
A hudai 'r Byd anhydyn
I droi ymaith o'u gwaith gau;
Nerthol a mawrion wyrthiau
Yr Ion a droent ar unwaith
Bob gwlad a galwad ac iaith.
Pawl, oedd wr ethawl o Râs,
A daenodd drwy bob Dinas
Yr hanes a'r gyffes gu

Ddewifol

Ddewiſol am Dduw Ieſu.
Od elid â'r Gwr dilys
At Farnydd a Llywydd Llys,
Rheſymmau golau a gaid,
Taranai trwy ei enaid.
Cu eurddawn wr, lle cerddodd,
Y Diawl uffernawl a ffodd.

Ymerodron eirwon wyr,
Gweiſion Diawl a'i negeſwyr,
Drwy frâd toſt, drwy fwriad dig,
Crâs lid i'r Croeſhoeliedig,
Erlidient bob rhyw Wledydd
A'u hegni 'i ddiffoddi'r Ffydd.
Er mor anfad brâd eu bron,
Llwynogod y Llynn Eigion,
Ac er neb, Gair Naf gwir Nawdd
Goleuddoeth a gu lwyddawdd.
Aeth ffyddlon weiſion Ieſu
Weithian yn fawr lydan lu.
Ni wyrent rhag aneirif
Greulon beryglon heb rif.
Nid ofn dw'r na dyfnderoedd,
Na blys aur neu Blaſau oedd
Ddigon i'w troi 'n ddiogel
O lwydd gwreſogrwydd eu Zel,
Diddig oeddent yn dioddef,
Lloſgent os ennillent Nef.
O boenau hwy dderbyniwyd
I Wlad hedd, i Wledd Duw lwyd.

Aent

Aent hwy o'r Byd, garwfyd gau,
Yn filoedd i'r Nef olau.

Ond oh mor groes yw 'n oes ni
(Dinerth ym mhob daioni)
I'r Oefoedd ag ydoedd gynt!
Am aur hwy nid ymyrrynt.
Y goludog fydd glodfawr,
A'r tlawd fydd yn wawd yn awr.
Dedwyddol Dlodi addwyn!
Tâd Rhinwedd ddifalchedd fwyn!
Heb Rinwedd, mewn berr ênnyd,
Soddai, darfyddai 'r holl Fyd.

Oh weled Annuwiolion
A diras haid yr Oes hon!
Lledrad, twyll ac anlladrwydd,
Cablu, tyngu, rhegu 'n rhwydd;
Godineb gwedi ennyn
Dros y tir, y mae 'n drift hyn,
Gorthrymder, balchder fy'n bod,
Deubeth croes i Gydwybod:
Mae 'n ofid, mwy yw nifer
Drygau 'r Byd furllyd na'r Ser.

Bugeiliaid y defaid ynt
Anhwylus iawn eu helynt:
Y mae (oh gwae gwae mai gwir!
Golau gan bawb y gwelir)
Meddwdod, cybydd-dod a bâr
Yn llenwi eu llu anwar.
Oh Arglwydd Dduw y duwiau!

Cafei

Caſei 'r diffaith a'u gwaith gau,
Bwrw dy lid brwd i lawr
Yn fflammau 'n dyrfau dirfawr;
Difa o blith y defaid
Y geifr hyn, wâg ofer haid.

Y ſawl ſydd beunydd yn bod
Dan eu baich o dynn bechod,
A hwy 'n flinderog o hyd
Gan ofnau beiau bywyd,
Duw Dad addwyn dod iddynt
Ryddhâd a pherffaith rwydd hynt.

Pa fad alwad i'w dilyn
I'w ddyddiau ſydd orau 'ddyn?
Y gwladyddion mwynion mau
Redant yn Offeiriadau;
Dynion, yn gyffredinawl,
Heb iddyn' fymryn o fawl.
Hil A'ron, wr cyſion cu,
Er eu Swydd, wnaent droſeddu.
(Gwelwn mai am y golud
Annigonol marwol mud,
Ac nid am gu eneidiau
(Fal Eſgobion, gweiſion gau,
Sy 'n gwerthu 'r Ieſu a'i ras
I dyrru 'r Mammon diras;
Am hyn, heb derfyn heb dawl,
Gwae iddynt yn drag'wyddawl)
Yr oedd y goruwch Raddau,
Pwy 'n y Byd i gyd mwy gau?

Gwrando,

Gwrando, a Duw 'th lwyddo lange,
Cofia y gwr cu ifange,
Yn ddiammau gorau gwaith,
Gwybydd, yw troi gwag obaith
Heibio, pryſuro i'th Swydd,
A'i dewis yn ol d'awydd,
Yn ol Gair bywiol di baid
Duw anwyl yn dy enaid.

Os ti a gyrhaeddi Hedd,
Wr mwyn, cymmer Amynedd:
Dioddef odfa dydd adſyd
A chalon fodlon i'th Fyd.
Oh bydd, tra b'o 'r Dydd yn dal,
Yn gyſion, yn llawn gofal;
Y Nos, bob awr, ſy 'n neſu,
A fawdd y Dydd i fedd du.

Yn awr mi ddeuaf yn nes
I fanwl chwilio 'th fonwes:
Gwir hanes a gei ronyn
O anfad dueddiad dyn.
Y galon anffyddlon ffol
A'i dyrys flys afleſol,
Heb Dduw gwynn, heb dda gynnydd,
Oriog anſefydlog fydd:
O dwrf llawenydd dirfawr
I lid mae 'n newid mewn awr.
Yn bennaf yn hon beunydd
Rhyw gau ddeiſyfiadau fydd:
Ac weithiau gwag ofnau gant,

Heb lonydd, hwy a'i blinant.
Y Naf a wnaeth y Nefoedd
O'r Gymmyſgfa gynta 'ag oedd,
Fe 'n hawdd a'n lluniawdd o'r llwch,
Fe 'n hawdd eill anfon heddwch.
Gwylia lygredd dy galon,
Da fydd i ti holi hon.
Boed byth dy Gydwybod bur
Ac Ieſu it yn gyffur.
Cydwybod hynod ei hiaith,
Ar ol dirol fradwrwaith,
A wnaeth euog fradog fron
Iſcariot yn yſcyrrion.

Drwy goelio ei dri Gelyn
I bechod dyfod mae dyn,
Ac o bechod, garwnod gau,
I benyd a blin boenau.
Os addef ei droſeddiad
Yn flin doſt o flaen ei Dâd,
Llwyr goeliaf, er llu 'r Gelyn,
Duw 'n rhwydd a'i gwna 'n ddedwydd ddyn.
Bu Mair Madlen wen waneg,
Diawles ar lun Duwics deg,
Dan boen erchyll, dan hyll haid,
Caeth reolaeth Cythreuliaid;
Yn deg hael Oen Duw Celi
A'i glanha 'dd, a'i rhyddha 'dd hi;
A hon a'i carodd o hyd
Yn odfa ei ddwfn adfyd.

Geill dyn, wrth borthi gwall dwl,
Foddi pob dawn o'i feddwl;
Er hyn Cydwybod fyn fod,
Ddwys enwog Dduwies hynod.
Er i'r annuw dirinwedd
Chwerthin wrth feithrin ei fedd,
Och wyr-da! mae chwerw chwerwdawd
Wrth chwerthin mewn gwin a gwawd:
Can's Honno 'n ei ſardio ſydd,
Yn ei flino 'n aflonydd:
Diſtaw, didaw mae 'n d'wedyd
I'r drygddyn fal hyn o hyd,
I'w fonwes oddifewnol,
Mae 'r Dydd annedwydd yn ol.

A roddo fryd ar ruddaur,
Ar faſwedd gwagedd ac aur;
Cofied, mor ſiccred a ſaeth
Ei dâl a fydd hudoliaeth.
Heb Dduw Ion, heb hedd unawr,
Pa lês a mael yw Plas mawr?
Mae 'r enwog galluog llawn,
Gwrolwych, yn byw 'n greulawn,
Ar ei dir yr hydera,
Aur coeth a'i gwna'n wr doeth da:
Mae'r gwan-wr (oh mor gymmes!)
Dan law Ion, da iawn ei les,
A'r gwâr-ddyn ofno'r gwir-Dduw
Dan odiaeth gadwraeth Duw.

Yr annuwiol bydol bâs

A' dyrrant yn llu diras;
Deuwch, lladdwn y duwiol,
Na 'adawn un o'u hâd yn ol.
Anferth amcanion ynfyd!
Rhyfygus gwarthus i gyd!
Daw dinyſtr i'w bryd an'ardd,
Ner o'r Uchelder a chwardd:
Dengys leoedd diangol,
Ni âd ei weiſion yn ol.

Sophyddion yr Oes hon ſydd
Yn mynych ſlino 'eu 'mennydd;
Rhyfygu diraddu 'r Ion,
Dawnus Waredwr dynion:
Yr Yſpryd goleubryd glân,
Ei Dduwdod heddyw wadan'.
Ai gwŷn am wâg Ogoniant
Sy 'n rheibio, ſy 'n dwyn co' cant?
Ai 'r Fagddu ſy 'n dallu dyn,
A'i geudeb, yn goeg adyn?
Gwae fo ſyſyrio am fawl
Ehedwyllt y Byd hudawl.
Cofient hyn o bwngc hefyd,
Mae hyn i'w herbyn o hyd,
Rhefymment a ſynnent fyth,
Delwent rhag y Gair dilyth,
Drwy 'r Yſgrythur eglur yw,
Y Duwdod Yſpryd ydyw;
Yr Un yw Duw 'r Gwirionedd
Ac Yſpryd hyfryd yr Hedd:
Un Awdwr dinewidiad,

Yr

Yr Un Duw yw 'r Oen a'i Dad.

Da 'i fâd fod Ceidwad cadarn,
A da iawn fod Ion a farn.
Er hyn y mae rhai annuw
Y fy'n d'weyd nad oes un Duw.
Denwyr i anghrediniaeth!
Pa lygredd, pa wagedd waeth?
Och! a gollaſoch chwi'n llwyr,
Ymſwynwch! eich pum ſynwyr?
Pwy wnaeth y Byd hyfryd hwn?
A'r nerthawl Wawl a welwn?
Y Lloer a'r Sêr gloywbêr glân,
Lu eres, a'r Haul eirian?
I ddyn, Pwy a rodd Enaid!
Ond hyn gan Dduw gwynn a gaid?

Defod rhai Awdwyr difoes
Hefyd yw d'wedyd nád oes
(Oh ddyrys ryfedd araith!)
Na chorph nag enaid ychwaith,
Na môr maith, na daear laith lâs,
Na hoyw loer, na haul eirias.
Ba'nd eres y mawrles maith
A geir yn eu rhagorwaith!
Dedwydd wyr mawr clodadwy!
A gwynn eu byd hefyd hwy,
Wych awdwyr, fy'n eich adwaen!
Os caf, mi blygaf o'ch blaen.
Haeddawl ddyſgawdwyr hyddyſg!
Wedi'ch dydd y derfydd dyſg!

Oh! meddwch chwi, gwegi 'gyd
I wanfardd didyſg ynfyd
Roi barn ar y cyfryw beth,
Ei fawrboen fydd oferbeth.
Mae Eſgobion mawrion mád,
(Mawr oedd eu camgymmeriad)
Sophyddion ffriwlon a ffraeth,
(Dynion heb ddim crediniaeth)
A'u llyfrau 'n eglurhau hyn,
(Dwndwr na chreda undyn)
Feddyli maluri 'lawr
Yr adeilad i'r dulawr?
Gwaith heb raid i gaeth brydydd
Uniaith, oferwaith a fydd.—
—— Rhyfedd ſon! y dynion da!
Oh Fair! ewch i fwyara.
A ſu 'rioed fwy o w'radwydd?
Gwyddir hyn gan blentyn blwydd.
Na weled ef lân wawl dydd
A goelio 'r anferth gelwydd.
Teflwch y gwaith brwnt aflan
Yn un twrr i ennyn tân,
Yr hén gyrph, dowth ar un gair,
Neidiwch, codwch o'ch eadair,
Rho'wch dro; pwy etto a wyr,
Wedi ſwn, na's daw ſynwyr?
Wele dwrr o lu diras!
Yſgwyd pen a gwneud gwên gâs.
Yng nghrog b'o 'r fath benglogau;
Goddaith ſo 'u gwageddwaith gau.

Try 'r

Try 'r ddinerth nattur ddynol
I bob trwch ddiffeithwch ffol;
Treiſia 'r Byd i gael tryſawr
A gwin a medd ac enw mawr.
Llawn yw 'r fron a'r galon gau,
Ni wedir, o ddrwg nwydau.
Rhoes Ion Reol dduwiol dda
I ddyn, er hyn meddianna
Gwageddau, pleſerau ſâl,
Eneidiau yr anwadal.
Os gwneir gwrthod Cymmod cu
A Gràs yr hawddgar Ieſu,
Rhyw flys dyrys daearawl,
Blys golud mwynglud a mawl,
Blys cnawdol, a'r Diafol dig,
Uffernawl hen Sarph ffyrnig,
O'i rinwedd, bob yn ronyn,
Sy 'n denu 'n bradychu dyn:
I'w ddinyſtr ſawdd i Annw 'n
Mewn maſwedd, ſerthedd a ſwn.

Gwêl, Ynfyd! berygl anferth,
Tro 'oddiwrtho mewn cyffro certh;
A gwêl ryw debygoliaeth,
Faſweddwr! o'th cyflwr caeth:
Môr-ddynion amryw Ddinas
F'o 'n hwylio 'r gogleddfor glâs,
Dig ofid a dygyfor
Rhwng Creigiau, rhwng muriau 'r mor,
Pan glywant, arſwydant Swn
Y Llynn ſal ſafn hyll Annw 'n.

Os

Os atto hwylio wnan' hwy,
Berw y ffrwd braff ruadwy
A'u tynn, ar edyn yr ant
I'r hyll fôr a'r lliſeiriant:
Yn yr anferth ryferthwy
Rhuthrant ac ehedant hwy
I lidiawg fawr waelodion
Iſelder dyfnder y donn.
I'r dw'rfloedd chwyrn ei draſlwngc
Mawr Drolynn Llychlyn a'u llwngc.
Unfodd â pob rhai ynfyd
I Sugnedd gwagedd i gyd:
Mynych, oh rhy fynych fydd!
Hynny a wna' eu dihenydd!

Gwae fi 'n awr ddigio fy Naf;
Etto mae 'th gariad attaf.
O ganol mawr ddrygioni
Gwaredaiſt, cyfodaiſt fi.
O ran dy fawr dirionwch
I'm rhyddhau o'm troiau trwch,
Meddyliwn yma 'n ddilyth,
Erod, na wnawn bechod byth:
Ond anwadal yw'r galon,
Gwyniau hyll ſy'n gwanu hon.
Ac wedi pob gwegi gwael,
Mawr ofid ac ymrafael,
Ar ôl pob afreolaeth,
Pob ffôledd, pob camwedd caeth,
Ochenaid — dim ychwaneg
Ni fedd dyn i'r Nefoedd dêg.

O Ni

Ni wyr un o'r rhai annuw
Mo ddoethion ffyrdd dyfnion Duw:
I'r iſel rhydd yr Ieſu
Ei ddirgelion cyfion cu.
Oh râd, oh gariad Duw gwynn!
Anwyl gariad a ennyn
Trwy waelod daear helaeth,
Trwy hon a'r eigion yr aeth:
Ni werthir hwn am fwnai,
Ni phrynir á thir a thai:
Caredigrwydd, mawrlwydd mâd,
A delir â gwir Gariad.
Dy Gariad, râd Waredydd
Nefôl, annherfynol fydd.

Boed i arall baderu
Ar Angylion, loywlon lu;
Goreu i mi, mewn gwirair,
Wneud fy nghwyn wrth Fab mwyn Mair.
Am nawdd perffaith mwyneiddiaf
Rhoi 'm hyder ar Ner a wnaf.
Heddyw mae'n rhoi gwahoddiad
At Orſedd ei ryfedd râd.
Gwledd o gariad a heddwch,
Gwledd cymmod o'n trallod trwch,
A Gwledd o Drugaredd gu,
Ddewiſol, yw Gwledd Ieſu.
Yn ei Wledd anwyl addas
Hael Ddofydd a rydd ei râs;
Duw anwyl gryfha'r dinerth,
Gwna 'r Ieſu gynnyddu nerth.

Oh

Oh 'r ddigred galed galon!
All geiriau feddalhâu hon?
—Ei ddwylaw,—pan feddyliwyf,—
—A'i dràed,—mewn ſynded yr wyf,
Ior anwyl, Rhoddwr einioes,
Naf glán, yn griddfan ar groes!—
Rhyfedd!—dros bob rhyfeddod!—
Wrth fanwl feddwl ei fod.
Tros bwy o'r rhai traws bu Ef
Mor ddiddig yn mawr ddioddef?
Oh Nêr addfwyn wareiddfab!
Oh droſofi dyrys fab!
Ac erof e fu 'n gorwedd,
Mae 'n ſyndod, is bargod bedd!
Ba rodd, burlwys, bereiddiaf,
Am hyn i Dduw gwynn a gaf?
Pa Fendith! oh pa ſwynder
A dalaf i'm Naf, i'm Ner?
Wylaf am Naf y Neforedd,
Weled garedicoed oedd;
Diau mi a wnaf dywallt
Am Geli yr Heli hallt.
Ei chwerwaf garwaf gerydd,
Bi gûr trwm a'i gariad rhydd,
A'i ing,—os ant yn angoſ,
Trawſa' gwaith! nid â tros goſ
Angerddawl gan y gwir-Dduw;
Na wna 'n Elyn, oh ddyn Dduw!

Tra b'om ar y Ddaear ddu,
Ner hynod y mae 'n rhannu

Hyfrydlon

Hyfrydlon fendithion da
Diammur i'r Byd yma.

Golwg hardd ydyw gweled
Afon i'r eigion a rêd,
Blodau o bob lliwiau llon,
Gerddi a dolau gwyrddion.
Pan fo'r ſêr lawer o lu
Ar unwaith yn ſerennu,
Oh hardded yw gweled gwawr
Y lawen Nef oleuwawr!
Y firain lwys forwyn lân,
Gwên bêr ac wyneb eirian,
A lenwa, hyfryda 'r fron
A meddyliau meddalion.
Ond er mor felyſber lon
Gerddi a dolau gwyrddion,
Mwy tirion a gwiwlon gwedd
Yr enaid lle b'o rinwedd.
Er gwên bêr dyner a da
Gwen luniaidd gain lawena',
Meddyliau mwy meddalion
Sy'n tarddu o râs cu'r Ion.
Er hardded yw gweled gwawr
Y lawen Nef oleuwawr,
Câr didwyll y Credadyn,
Ior gwâr hardd, ragora hyn.

Tirion i'r dealltwriaeth,
Helaethder o fwynber faeth,
Yw cymmaru mor gu gain,

Mor

Mor gaerog ac mor gywrain',
Cyttuna'r Byd, breuddwyd brau,
A'r nefol bythol bethau.
Adda 'n Eden, ddyn odiaeth,
Dan drymgwſg, mewn rhwym cwſg caeth
Yn ddilys ei Yſtlys ef,
Wr glan, gan Ior goleunef
Egorwyd, a gwraig eirian,
Dyneroed, a roed i'w ran.
Yr Hwn a fu'n rhoi 'einioes,
Addaf o Nef, ar gref groes;
Yn wridog yno 'r ydoedd,
Yn rhwymau 'r Angau yr oedd:
Gwanwyd, y Nêr mwynber mau,
Ei ſantaidd Yſtlys yntau.
Dyna 'r ffynnon fwynlon faeth
O dirion Iachawdwriaeth:
Yr Eglwys, Wraig rywioglon,
A geiff râd lanhâd yn hon.

Yn ddiau 'r hên Iuddewon,
A'u dyrys hâd yr oes hon,
Yn wir mae rhai 'n yn arwydd
O'r gofid, o'r llid, neu 'r llwydd
A ddaw i lân ddilynwyr
Ieſu gwynn, ddewiſaf gwyr.
I'w cu nerthawg Gynnorthwy
Anwyl iawn gynt oeddynt hwy.
Diau anwyl yw'r dynion
Yn awr a gredant yn Ion.
O'u tir teg y torrwyd hwy

Drwy'r

Drwy'r gwledydd yn dreigladwy;
Llanwyd hwynt â dallineb
Yſywaeth yn waeth na neb;
Ac eilwaith cant gu olwg,
I'r wir ffydd Dofydd a'u dwg.
Creſyddwyr, proffeſwyr ffydd
O'r galon, i'w mawr g'wilydd
Droſeddant, a ddigiant Dduw
Unwedd a'r digred annuw.
Ond etto lle gwreiddio grâs,
Cu foddion f'ont cyfaddas
Yn anwyl wnan' ei ennyn,
Ryw dro, i geiſio Duw gwynn:
Hwy 'n dêg, yn garedigol,
Dderbynnir yn, wir yn ol.

Aml ſylwiwyd fod Teml Selef
Ddedwydd yn arwydd o Nef:
Hi luniwyd mewn haelioni
Heb un Adail o'i hail hi.
Y meini mawr dymunawl,
Y rhai 'n oedd mor gain a'r gwawl,
A naddwyd draw cyn iddynt
Fod yn yn berffaith i'w gwaith gynt,
A luniwyd yno 'n lanwaith
Barod i'w goſod i'w Gwaith.
Puredig feini 'yſprydawl
Glàn Eglwys geinlwys y Gwawl,
Hwy yn y Byd hadlyd hwn,
Mewn amryw ffyrdd, fyrdd fyrddiwn,
I'w lawen Deml oleuaf

Gymhwyſir yn wir gan Naf.
Gloyw Adail, ym mhob Gwleddydd
Dyfnderau ei ſeiliau fydd,
A'i Phen yn yr hoff wiwnef
Glaerwych, yn entrych y Nef.
Ei phoenau pan orphennir,
Yr Eglwys wenlwys yn wir
I lonfawr nefol wynfyd
Yn wir a godir i gyd:
Cywrain fydd y cywirwaith!
Duw Nef hyfryda 'n ei waith!

Y DDEGFED RAN.

EGOR dy Addyſg wiwgoeth
Yn fwyn gu, oh f'awen goeth.

Doniau ſydd gyffredinol
I'r celfydd a'r di ffydd ffol,
I'r ffyddlawn iawn ei ciniocs,
I bob gwlad, galwad ac oes,
Hynod mai Duw ei hunan
A'u plannodd, a'u rhodd i'w rhan;
Yn rhwydd lon y rhydd o'i law
I wyn addyſg i'w defnyddiaw.
Try Nattur o'i hammur hynt
I'w hylwydd nefol helynt.
Ior hael, Fe ſy'n rheoli

Cynneddfau

Cynneddfau 'n heneidiau ni.
Un yw hon; pawb i'w lon wlad
A geir yn dwyn mawr gariad;
Affricaniaid, weiniaid wyr,
Gwaelion, dan doft fygylwyr,
Gwynant am eu gwlad ganwaith
Dros ddyfroedd a moroedd maith.
Diau pan ymadawant,
Llawenhau yn angau wnant:
Ca'nt fyn'd weithion, waelion wyr,
O rwymau eu gorthrymwyr;
Myned, oh mor ddymunol!
I glud nawdd eu gwlad yn ol!

Y Groegiaid, fal goreugwyr,
Gwrol iawn ragorawl wyr,
Hy weifion, hwy ddanghofynt
I'w gwlad eu mawr gariad gynt.
Rhieiddlu 'mhell o'u rhydd-wlad,
Y'nghanol gelynol wlad,
Hwy gaen' hygar gynhigiawn,
Amryw waith, o wobr mawr iawn.
Ond hwy a attebent hyn;
Eich golud boed i'ch galyn,
Oferedd yw llefaru
Am gyfoeth ac aur coeth cu.
O'ch crog oludog wledydd
Awn i'n mád oreuwlâd rydd.
Synnai 'r Gelyn dros ennyd,
Synnent gwallgofent i gyd,
Rhyfeddod fawr fu iddynt

Eu hatteb dihareb hwynt.
Perſia, holl Aſia 'n un llu,
Am y gweilch wnaent ymgylchu.
Yn addig archen' iddynt,
Heb naccau, eu harfau hwynt.
D'wedai 'r Groegiaid clodadwy,
Pa eiriau?—eu harfau hwy!
Yn awr troent eu Bannerau
Yn erbyn eu Gelyn gau:
Llu arfog rheſtrog o'r rhai'n
Dorrent Nerthoedd y Dwyrain:
Y rhai'n, drwy lydain wledydd,
Ryfelent, deithient bob dydd,
Nes dyfod i loywglod lân
Hynod wlád Roeg ei hunan.
Gwelent hi cyn diſgwyliaw
O drum y mynyddau draw:
Oh'r burlan eirian Oror!
Oh'r mawr maith! y môr! y môr!

Hwythau'r hen Dadau dedwydd,
Drwy gyſion berffeithlon ffydd,
Addas wen Wâd oedd iddynt
Uwch y Sêr, eu hoffder hwynt:
Adeilad heb ofn Diluw,
Sef Teyrnas a Dinas Duw.

Criſt'nogion mwynion un modd,
Hefyd mae Gwlâd ddeheufodd
I rhai'n, y Nef gywrain' gu,
Ddewiſol, brynodd Ieſu.

Didaw

Didaw am eu Gwlâd ydynt;
Gweiniaid a dieithriaid ynt.
Tra b'ont ar y ddaear ddu,
Yn fynych gwnan' riddfanu,
Ochneidio ac wylo 'n gaeth,
Oh eu dedwydd Wlâd odiaeth!
Yn ol myn'd trwy'r Anialwch,
Helbulion, pob troion trwch,
Ar ôl i waredol Râs
Eu dwyn at Byrth eu Dinas,
Weithion hwy lon lawenir,
Wele y Nef olau 'n wir!

Da y gwn fod y Byd gau
Yn dwrr o bob blinderau:
I mi blinder yw 'mywyd,
Marw o beth i mi yw'r Byd.
Pe b'ai 'n fy hawl, nefawl Ner,
Adenydd c'lommen dyner,
Ehedwn o'r Byd hudol,
Yn fuan o'i ffwdan ffol,
I anial le awn o'i lid,
O'i ddyfais a'i ddu ofid:
Yno ni'm blinai'r anwâr,
Cawn orphwys o bwys eu bâr.

Oh! am Yſgol, nefol nawdd,
Yn ail i'r un a welawdd
Iſrael ar ei drafael draw,
Wr dethol, wrth hir deithiaw!
Ef, is entrych y Nefoedd,

Y gwâs gwâr, yn ei gwſg oedd;
Gwir ydyw, i'r gwr odiaeth,
Cyffro wrth ddeffro a ddaeth.
Fy Nuw mâd mor ofnadwy!
Fy Nêr Ion, ba fann yr wy'?
Dyma Borth, dyma, eb ef,
Ffordd lawen y wen wiwnef;
Coeliaf dyma Lys Celi,
Fy Naf, ac nis gwyddwn i.

Santeiddiwr, didolwr dyn
O ddwylaw ei ddu Elyn,
I'r Enaid, bybyr anian,
Fe rydd adenydd o dân.
Yn iach bob afiach ofal,
Yn iach i bob ſothach ſâl;
O hudol Fyd ehedaf,
Oddiar y ddaear ydd af,
Oddiar fron dirion a da
Enwog Fynydd Aonia,
Goruwch wybrennawl Geurydd,
Goruwch gwawl odiaethawl dydd,
I lân nefawl Oleuni,
Y Trag'wyddol, ar d'ol Di.
Dy borth, dy gymmorth Duw gwyn,
Ior Nef, yr wy'n ei ofyn;
Dy gu eiriau, dy gariad,
A'm tywys i'th Lys a'th Wlad.
—Pa le'r wyf? pa lawer iawn
O filoedd o Nefoliawn
A welaf? clywaf eu clod

A'u

A'u dedwydd fawl i'r Duwdod!
Oh Gaerau hardd ac eirian!
Oh nerthawl ragorawl Gân?
Seilfawr ehang Breſwylfod!
Dyma fann da i mi fod!
Gan Wawl digreudigawl da
Y rhyfedd fawr Iehofa,
Gariadus gu Waredydd,
Fe'n ſiriol breſennol ſydd!
Y rhai'n, ein brodyr hynaf,
Ro'nt fawl certh, â'u nerth, i'w Naf.
Ei foliannu ni ſlinant,
Rhoi mawl beunyddiawl a wnant.
Clywaf lwyſgu felyſgerdd
Mawr lu 'n cyd ganu 'r un gerdd.
Oh 'r lydan eirian Orawr!
Oh Gôr llawen Nef wen fawr!
Pêr yw geiriau, pur gywrain
Yw mawl annhraethawl y rhai'n!
Clywaf a gwelaf hwy'n gwau,
Oh laned ſain telynau!
A mawl unol mi lenwaf
Amgylchoedd Nefoedd fy Naf:
Ninnau dan gaerau y gwawl,
Hil Adda'n orfoleddawl,
Iaith felys, ſydd i'th foli,
Ein Noddwr a'n Twr wyt Ti!
Ti'n unig wyt iawn Ynad!
Oh 'r Duw byw, Ti yw ein Tâd!
Dy weiſion ym, Duw Ieſu,
Bydd inni 'n Borth, cymmorth cu!
Diwrnod ſu galed arnom,

Dirfawr fraw, a'r ſwydr draw 'n drom,
Gwelaiſt, tyneraiſt, oh Naf!
Ti noddaiſt blant hên Addaf!
Oh Gariad tros bob geiriau!
Yn erbyn y Gelyn gau
Diſgynnaiſt, cymm'raiſt ein cur,
Ein dyled ni a'n dolur!
Ti fwyn delaiſt ofyniad
Cyfiawnder digter dy Dád!
Y Nef gu mewn dû amdodd,
Daear grom draw a grynodd,
Do agwrdd Gaer Cre'digaeth!
A'r Ffyrnig Ffau 'n ddarnau 'ydd aeth!
Darfu it Arglwydd dirfawr
Orchfygu y Fagddu fawr.
Oh Gariad tros bob geiriau!
Pwy'n iawn all ffyddlawn goffau?
Beunydd cei'n rhwydd, Arglwydd Ion,
Haeddiannawl fawl gan ddynion.
Duw Yſpryd yr hyfryd hedd,
Arweinwr i'r Gwirionedd,
Dwg dithau 'n heneidiau ni
I'th lân berffaith Olçuni!
Oh dwg d'etholedigion
I weled Hedd y Wlâd hon!
Oh 'r Drindod oleuglod lân!
Dawnus fendigaid Anian!
Un Duw yn dri Pherſon da
Ti fydd beunydd yn benna!
Pob anian, mae pawb ynod
O bob rhyw 'n byw ac yn bod!

Jehofa

Jehofa perffeithia 'n ffydd!
Yn ddidawl gwna ni 'n ddedwydd!

I gynnwys, Ior gogoned,
Uchder, helaethder o lêd
Y dirfawr Lys diderfyn,
Rhy ddall ydyw deall dyn;
Rhy eglur, rhy loywbur lân
Yw 'r olau Wlad oreulan:
Diſgynnaf, fy Naf nefol,
O'r Nef i'r Ddaear yn ol.

Rhyfedd yw 'r Drugaredd gu,
F'enaid, ſy'th ddal i fynu,
Na thorrwyd, na farnwyd fi,
Gwael annyn, o'r goleuni.
F'enaid ſydd yn griddfanu
Rhag dy ofn, Uffern ddofn ddu.
Duw anwyl rhag myn'd yno
Yn blaid i f'enaid a f'o.

Mae Angau â'i ſaethau ſynn
Annelawg yn fy nilyn.
Meddwl yn fanwl f'enaid,
Cyfrif i'w roddi fydd raid.
Tra 'dd wyd fyw, heddyw, 'r awr hon,
O ddifrif hola 'th ddwyfron;
Ac addef i'r Trag'wyddol
Bob myrdd o'th ynfyd ffyrdd ffol.

Fe ddaw 'r Farn; oh 'r Cadarn cu!
Y pur Ion fu i'm prynu!

Fy

Fy Mrenin, fy mawr Ynad,
Bydd im, Net, yn dyner Dâd.
Areithiwr, Pregethwr gynt,
Hynod bob un o honynt,
Ddarluniai'r gadarn Farn fydd,
A'i fawrnerth cuog Farnydd
Arfwydai, newidiai wedd,
Grynai rhag y Gwirioned.

Tra odiaeth bortreiadu,
Pe medrwn, y dwthwn du,
Diwedd-byd a thwrf Dydd-barn,
Hefelydd a fydd y Farn,
Yn ddiau tydithau'r dyn
Ofnit, grynit bob gronyn.
Ai nid golwg ofnadwy?
Pa fyndod ryfeddod fwy?
Yr oywdeg Frawdle lydan
Oddiar,—a Daear ar dân!
Byddin o waelod beddau;
Torf Uffern, y gethern gau;
Eirian lu glân goleuni
Yn amlwg yn d'olwg di!
A'r Ynad, Ceidwad cadarn,
Ar eglur Orfedd bur Barn!
Hyn, yn Nuw gwyn, a ganaf;
Yn awr dy gymmorth, oh Naf!
Yn awr, a'r Farn fawr a fydd,
Dy radau Duw Waredydd!

Rhyw hynod Ddiwrnod a ddaw,

O'n

O'n gwydd wedi ddwfn guddiaw;
Rhyw awr fawr o arw fraw fydd,
Egorir nefawl geurydd.
Pa Ddydd daw Barnydd y Byd,
Yr Ion a wyr yr ennyd:
Y mae'r hanes mawr hynny
Tan gloiau'r Cofreſtrau fry.
Dilys, pan ddêl Dydd dolef,
Mal mellten egyr nen Néf:
Daw nifer y Wad nefawl,
Fyrddiynau, o gaerau'r gwawl.
Gorſeddau, bydd rheſtrau rhai'n
Megis gwenglaer gaer gywrain'
Seirian ac anfeſurawl
I feibion gwynnion y gwawl.

Duo wna'r haul yn dywyll,
Ei wawl rhagorawl a gyll:
Diſgleiriach gwynnach nag ef
Ganwaith yw nerthoedd gwiwnef.
Y Lloer glir fydd yn llwyr gla',
Yn waed hi ymnewidia.
Y glaerwen dorf eglurwawr
Dywynna, belydra'i lawr.
Yn awr gwelir Bannerau
Cochion a gwynnion yn gwau,
Yn hedeg rhwng gloywdeg lu
Gwâr weiſion y gwir Ieſu.
Draw e wêl daearoliawn
Y Nefoedd a'u lluoedd llawn:
Delwi a wna 'r Duwiolion,

A galw

A galw ar fawr enw yr Ion.
Annuwiolion a welant ;
Gwallgofi 'n anciri' wnant.

O'i Orfedd oleuwedd lân
Cerub a gwyd cu eirian ;
Fe gyfyd draw ei law lân
I'r olau Nef oreulân ;
I deilwng fawr enw dilyth
Yr Hwn fydd ac a fydd fyth,
Y Nefolwawr penfelyn
A dynga, gyhoedda hyn ;
F'aeth Amfer hoywber heibiaw !
Anfarwoldeb, Trag'wyddoldeb a ddaw !
O barch fe oftwng ei ben
I Lywydd y Nef lawen.
O draw taraw wna terwyn
Dyrfau er cadarnhau hyn.

Un ethawl o'r Pennaethiaid
Gyferbyn, mewn gwyn, a gaid ;
Ac yn ei law geinliw ef
Enwog udcorn y wiwnef.
O'i Orfedd ryfedd yr â,
Y Gwridog a gu rodia ;
Try ei wyneb tirionwawr,
Siriol, o'i led-ôl i lawr.
Gwynnion luoedd gogoniant,
Ei 'olygu 'n anwylgu wnant.
E faif, gan ddewis hefyd
Man o'r wybren uwch ben byd ;

Yna

Yna fe daena fal dydd
Ei dyner hardd adenydd:
Ac o'i ddeutu 'r Gloywbur glân
A feſura 'r Nef feirian,
Lon uchelion y chwil-lys,
Y dirfawr oleuawr Lys:
Yn iſel e wêl eilwaith
Deyrnaſoedd a moroedd maith.
Fe gyfyd draw, â'i law lân,
Yn araf, y Corn eirian;
I'w erbyn, y Claerwyn clâu,
Fe eſyd ei wefuſau;
A glân felyſlon ganu
Yn ſeinfawr wna 'r Cantawr cu:
Mor glîr, mor gywir y gân,
O'r clai y meirw a'i clywan';
Mor gywir, mor glir, e glyw
Hên Addaf, pob un heddyw,
Pob gwaelodion, pob gwledydd,
Clywant, bendithiant y dydd.
Oh flaſus gân felyſol!
Rhydd Nef lon-adlef yn ôl!
Ei ddolef gwyd feddylion
A mawr fraw 'mhob ammur fron.

Wele 'n awr (oh anwyl Naf!
Wrth weled dy wyrth olaf,
Angylion oleulon lu,
Fyddant yn mawr ryfeddu)
Carcharau y croch weryd
Rwygir, egorir i gyd:

O dir a môr daw 'r meirwon,
Daw pob cnawd Ddydd brawd ger bron:
Codant i gwrdd Duw cadarn
O fôr a llawr i'r fawr Farn!
O'ù cwſg hir gelwir i'r gwawl
Niferoedd annifeiriawl.
Rhoddir pob oeſau 'n rhyddion
Ynddi hi 'r Jubili lon.
Ion wna addien newyddu,
Ar drawiad llygad, y llu.
Yn union, yr un ennyd,
Codir, hwy gippir i gyd
I fynu i'r Nef wenwawr,
I nen y Ffurfafen fawr,
O gyrredd terfyſg eirias,
Pan lyſg hon, Daear gron grâs.

Wrth ganfod gollyngdod llawn
Yr eres garcharoriawn,
Eirian feibion glân gloywnef
Yn un llu unan eu llef:
Gawr y gorfoleddfawr lu
Hynod a wna wahanu
Cylchoedd y nefoedd,—yn awr
Hi gyrredd hyd gau orawr
Annwn,—i'r dieifl ar unwaith
Rhydd ddyfyn diwy'r marwlymn maith.
Ac ar hyn, mewn dychryn du,
Bellach ni's gallant ballu,
Holl ddrygiau'r dyfnderau dig.

Codant

Codant o'u ffau drangcedig.
Dychryn terwyn wna'n taraw
Pan welom y dorf drom draw.
I lys Duw lwys y deuwn;
Uchelder, ehangder hwn
Fydd mwy maith ganwaith nag yw
Ein tudwedd, er maint ydyw.
Siriol fydd y Llys eirian
Mewn gwyrddlas goleulas glân.
Hoywliw cain, mal gwawr haul cu
Dwyreiniawl ar dêr wenu,
Goreudeg fydd yn gwridiaw
Ei dirion odreuon draw.
Gwelir o'r cwrr bwy gilydd
Enfyfau 'n fwâu,—e fydd
Arwydd Ior, fu 'n mawr oddef
Angau ar fannerau Nef.
Oh'r Frawdle fawr hyfrydlawn!
Rhyfeddu wna'r tri llu llawn!
Rhwng mwyngu ddifgleirlu glân
Anfarwol y Nef eirian
A llu'r ffwrn bygddu mae'n bod
Helaeth wahaniaeth hynod.
Ped iawn i'r fath ddau lawn lu
Mawrion gael eu cymmaru
A fal bethau o fylwedd,
Gwelwon a gwaelion eu gwedd,
Fel odiaeth Loer Nef liwdeg,
Newydd, o flaen tywydd teg,
Ar lun ei rhôd hynod hi
Daw glân lu gwlad goleuni:

Mal Lloer cyn duoer dywydd
Llu 'r Gelyn gyferbyn fydd;
Bydd myrddiwn o'r gwaedgwn gau,
Câd Annwn, mewn cadwynau:
Marwor eu gwedd mewn mawrwarth,
Gan lid a gofid a gwarth.
Torf ddiawl yr uffernawl ffau
Udant gan ddychryniadau.
Y'nghanol y ferthol fan
Y cefir y Byd cyfan,
Myrddiynoedd pob mawr Ddinas,
Y ffyddlon a'r beilchion bâs;
Teyrnaſoedd ac oeſoedd gant
Ryfeddol gyfarfyddant.
Gwelant y'ngwedd eu gilydd
Yn awr gwahaniaeth fawr fydd.
I fynu gwna'r Cyfiawnion,
Olygu yn lwyſgu lon:
Gwiw fodd! daw ar gof iddynt
Yn berffaith eu gobaith gynt;
Cofiant eu diffuant ffydd,
A'u cariad dan bob cerydd.
Ei ddedwydd addewidion,
Yn ei ddydd, gyflawnodd Ion!
Gorfoledd gref a welant,
A gwynfyd i gyd a gant;
I'm monwes mi ddymunwn
Flaen brofiad o'r teimlad hwn.

Gwae 'r enwir mewn gwirionedd
I Farn gyfodi o fedd!

Gofidus

Gofidus Adgyfodiad!
Crynant, yftyriant eu ftâd!
Gan fraw ni's golygan' fry;
Yn ebrwydd gwelan' obry
Y lidiog Ddaear lydan.
Yn ffaglu, yn taflu tân,
Mawrchwyrn ffrydiau mwy erchyll
Nag Etna, na Hecla hyll!
Gelltydd, moelydd, dolydd da
Yn anferth un ennynfa!
Yr eigion cynddeiriogwyllt
A'i donnau 'n gwau yn dân gwyllt.
Dirfawr derfyn daearfyd!
Lloſgir, e burir y Byd!
Gan folltau, tyrfau, terfyſg,
Yr awyr yn llwyr y llyſg.
Rhuo, ymwrio wna'r mor
Digofus a dygyfor:
Berwi wna'r mawrion beiriau
Yn nyfnlyn ei gerwyn gau;
Swniant gan wir wres ennyd
Y'nghanol berwfol y Byd:
Hwy rwygant Ddaear ogylch,
Hwy chwalant ei chant o'i chylch:
Dan fflammio, dan ruo 'r â,
Yr Andes i Fór India.
Try 'n awr y tir yn eirias,
Try 'n borphor y gloywfor glâs.

Oh f' Arglwydd dedwydd a da!
Dirfawr!—uwch ben y dyrfa

Daw'r Barnydd, y Llywydd llon!
Wych olwg! o'r uchelion!
Ar Orſedd ragorwedd gún
Addaſwych, e ddaw Ieſu;
Gorſedd loyw-wedd oleuwawr
Yn glaerwen Ffurfafen fawr!
Mellt cochion gwylltion yn gwau!
O'r Trwn rhua'r taranau!
O'i flaen, mawr Naf y loywnef,
Ffy'r Ddaear, ennynna'r Nef!
O'u rhodau 'r Ser ehedant,
A dirfawr iaiwn dwrf yr ant!
Rhyfedd!—ni ellir hefyd
Ddyfalu'r lle y bu'r Byd!
Seraphiaid, Cerubiaid rês,
Y firiol liaws eres,
Addolan', oleulan lu,
Yn iſel o flaen Ieſu:
Eu coronau cywreinion
A rwydd-ddioſgant i'r Ion.

E gryn tyrfa'r gwyr annuw
Wel'd Mab Mair yn ddiſglair Dduw:
Y Diawl a'i erchyll deulu
A gryn gan y dychryn du:
Gorphwyllant pan welant wawl
Ei degwch digreudigawl.
Tramawr daranau trymmion
Ro'nt heibio 'u rhuo 'r awr hon:
Diſtawrwydd ebrwydd obry
A ddaw o fraw 'r Barnydd fry:

Ior mawr! yn awr yn ei wydd
Teirawr parha 'r diſtawrwydd!
O'i eurſail ddiſglair Orſedd
E dry Naf ei dirion wedd
I lawr ar aneirif lu,
Cain bur—Ner, cyn eu barnu:
Ion a wêl ar un olwg
O draw y rhai da a'r drwg.
Fe edrych ar anfeidrawl
Fyrddiynau hardd gaerau 'r gwawl;
Ar dorf y ffwrn dra ffyrnig,
Croch ddreigiau 'r dyfnderau dig.
Fal cyn creu na dyn na dydd,
Na'r brynniau, na'r wybrennydd;
Fal cyn creu llynn digllonedd,
Na'r gwynfyd, gwlad hyfryd hedd,
Bydd goſteg drwy 'r gloywdeg Lys;
Yſtyriol uſt a erys.
Fe welir y Nefoliawn,
A'r dorf dywyll erchyll iawn,
Mâd ac an fâd yn fudion,
Gan ddiſgleirdeb wyneb Ion.
Fy Mhrynwr, fy Marnwr mad!
Hynodawl gyfnewidiad!
Hwnnw gwnawd ei ddihenydd,
Unig Ddyrchafedig fydd!
Erlidwyr, a gwawdwyr gant
Ei ddeiliaid,—beth feddyliant?
Ei Dduwdod heddyw wedir?
Ai Dyn yw?—ie,—a Duw 'n wir!

Y Cyfion hwy a'i cofiant,
Llawenu yn Iefu wnant,
Llon i gyfion y gofwy,
Mab Duw gwyn a'u hedwyn hwy.
Daw heddyw, wyr da, iddynt
Ryddhâd am gu gariad gynt.

Gwae'r enwir! hwy a grynant,
Tragywydd gerydd a gant!

Ac wele! (oh ba galon
Yn rhydd o ofnau 'r awr hon!)
Ior gwâr, ganddaw'r egorir
Y Llyfrau a'r geiriau gwir:
E wna gywrain egoryd
Llyfrau Cydwybodau 'r Byd.

Oh f'awen gorphen a gwau
Y didawl fyfyrdodau!
Rhag Rhyfyg na chynnyg chwaith
Gyrredd y mawr ragorwaith;
Gormodedd i'm grym 'ydyw,
Rhy uchel i Angel yw.
Duw'm Twr! fy Marnwr mawrnerth!
Rhyfedd fydd yn nydd ei nerth!

A welaiſt, a deimlaiſt di
Ryw ehediad mawrhydi
Yn awr yn hyn o eiriau
Y wefus anfedrus fau?
Hynodawl Farn ofnadwy!
Bydd ganwaith, bydd fyrdd-waith fwy!

Os ſoddais pan genais gynt
I Silo mewn ís helynt,
Pa fodd gwnaf ſôn am Ion mau,
Têr Ynad, rhwng Taranau?
Pan wnel yr Ion cyſion cu
Ddidoliad o'r ddau deulu,
Fe gyfyd mewn hyfryd hedd,
Wir Ieſu, o'i hardd Orſedd:
At un rhawd f'eſtyn yn rhwydd
Ei ddeheulaw Dduw hylwydd:
Wrth blaid y defaid doſion,
Fe ddywaid, fendigaid Ion;
Da fuddiol ddewiſol wyr!
Nefol hyfrydol frodyr!
Manwi hoiais bob monwes,
A ffyddlawn, cyſiawn eu ce's.
Teilwng fu'ch cariad dilyth
O hedd a gorfoledd fyth:
Deuwch, weiſion mwynion mau,
Deuwch i wledd y duwiau.
Meddiennwch, mewn modd anwyl,
Dduwiol wyr, drag'wyddawl wyl.

Gwna'r Ynad, Ceidwad cadarn,
Eiſtedd ar bur Orſedd Barn.

Oh 'r llawenydd fydd i'r Saint!
Mor hyfryd yw eu mawrfraint!
I Gana'n y Gogoniant,
I Sion yr Ion yr ant.
Ac eres fydd y gorhoen
Ei wraig pan brioda'r Oen.

Croywber

Croywber leiſiau'r Cerubiaid
Yn plethu can gu a gaid:
Gwynion luoedd Gogoniant,
Celfydd gerdd newydd a wnant.
A hon yw'r Gàn gyſſon gu;
Da Dwyſog ydwyd Ieſu!
Brenin, a mawr bur Ynad,
Graſlon fal dy dirion Dâd!
Dy farnau yn glau Ion glân,
Eglurwyd mewn gwawl eirian!
Cyſiawn, trugarog hefyd
Yw 'th Farn, yn gadarn i gyd!

Mal myrdd y môr, Côr cywraint
Diſgleiriol ſiriol y Saint,
O rif aneirif, a wnant
Gain felys gân o foliant
I'w brawd aeth drwy bob gwawd gynt,
Wir-Dduw, o'i gariad erddynt.
Prudd yn eu cyſtudd y caid
Ei lawn-dynerol enaid.
Ei Arfaeth a ddaeth â'i Ddydd,
Oh lawned ei Lawenydd!
Gorfoleddu wna 'r llu llawn
Yn Ieſu.---Fe 'n ei weiſiawn.
Ei gain ddiſglair Ogoniant,
Ymleda, amgylcha 'n gant,
A leinw Gaerſalem lonwawr
Mal golau gymmylau mawr.
O fry e wrendy yr Ion
Felyſawl fawl ei weiſion.

Eilian

Eilian' lwyſgan felyſgerdd;
A hon ydyw'r gyſſon gerdd;
Teilwng Ddyrchafiad dilyth
I'r Hwn ſydd, ac a fydd fyth!
I Brynwr a Rhoddwr Hedd
Gwir fawl f'o mewn gorfoledd!
A'th anwyl aberth unwaith,
O bob gwlad, galwad, ac iaith,
Yn ddeiliaid ſanctteiddiolaf,
Tydi a'n prynaiſt ni Naf!
Gweddus it' Dduw trag'wyddawl
Anrhydedd, Mawredd a Mawl!

Nerthoedd y Nefoedd yn awr
Gyd ganant â'r Gad geinwawr;
Sanctteiddlon weiſion Ieſu,
Molant Ior yn un Côr cu,
Halleluia! hael Lywydd!
Trag'wyddawl ei fawl a fydd!
Yr Arglwydd Ion cyſion cu,
Teyrn oeſawl, ſy 'n teyrnaſu!

Tyrfau ro'nt ruad dirfawr,
Mellt a wnant ymwylltio 'n awr;
Seithwaith y gwna 'r mellt ſaethu
Tros Satan a'i lydan lu,
Y taranau, taranant,
A mawr nerth murmur a wnant.

Goſteg,---dyfn oſteg yn awr
A gyrredd drwy bob gorawr.

Try

Try 'r cofus têr Ior cyfion
Attynt hwy ar affwy 'r Ion.
F'â 'r geifr a'r mud ofer gwn
I fonwes hagr dorf Annwn.
Digofaint Duw a gyfyd
I'w wedd gain fanctaidd i gyd:
O'i flaen cynn tân affonydd,
Angerddol ryfeddol fydd.
Dirfawr wae 'r ddiffaith Dyrfa!
O'i deutu ennynnu wna!
Rhag yr Oen, rhag yr Ynad,
Rhag ofn gwedd y Mawredd mâd,
Damniaid, diawliaid du olwg,
Oll o draw cryn y llu drwg:
Oh na lethid dan lwythfawr
Greigiau a mynyddau 'n awr!
Gwae Satan! oh am dân dig
Y brwd Garchar berwedig!

Codi wna 'r Ynad cadarn
Yn awr i draethu 'r fawr Farn:
Ewch i'r Ffwrn chwerw uffernawl,
Ymaith y dorf ddiffaith ddiâwl!
Ar y gair, mewn mawr gorwynt,
Tanllyd gylch o'u hamgylch hwynt,
Cippir, hwy deflir i dân
Ffwrn lidiog Uffern lydan:
O gu wyneb Gogoniant
Mal bolltau taranau 'r ant,
Uffern, pe gallai Aphwys,
Ffoi 'n awr rhag fath boenfawr bwys.

Teffir

Teflir Brenin gerwin gau
Annedwydd ddychryniadau,
Dewraf ac olaf Gelyn,
I lawr i'r uffernawl Lynn:
Hwnnw, wedi ddihenydd,
Marwol ac anfarwol fydd.
Rhwymawg fydd y rhai ammur
Mewn didawl dragwyddawl gur.
Du benyd! hwy a boenant!
Gofidio dan udo wnant!

Angylion gwynnion i gyd,
Rhifoedd eu brodyr hefyd,
Cyfion Waredigion Duw
Lonnant yn nial ~~annuw.~~
I'r Nef gu yr â Naf gwyn!
Ei dda dyrfa ddiderfyn
A gyd ymgyfyd ag Ef
I Lawenydd y loywnef.
Yna rhydd Dofydd i'w Dâd
Y wenfawr Deyrnas iawnfad,
Ac yna bydd Ion gwiwnef
Oll yn oll yn llywio Nef.
Yn Dduw a Dyn, yn Nawdd da,
Ein Iefu mawr deyrnafa,
Yn glaerwyn, yn eglurwawr
Frenin ar fyddin Nef fawr:
Llawn fydd ei Llys, hardd-lys hi,
O fydoedd heb rifedi.
Canant fawl melyfawl Ion
Mal dyfroedd moroedd mawrion,

Am roddion hael mor addas,
Am nefol waredol râs.
Oh 'r hyfryd oleubryd lu!
I'w plith y b'wyf yn plethu!
Caniad newydd, dedwydd dôn
Aneirif Delynorion,
A leinw y Wlâd lawenaf
A mawl gogoneddawl Naf!
Odiaeth ac annrhaethadwy,
Diddiwedd fydd eu Hedd hwy!

DIWEDD CYWYDD Y DRINDOD.

WEL, fy anwyl Gydwladwyr, y cyfryw ag ydyw 'r Gwaith, dyma ef ar ben. Boed iddo, trwy fendith Duw, fod yn fudd ac yn ddiddanwch i eneidíau llaweroedd. Fal y byddo fy ngwaith yn gyfangwbl gyd â'i gilydd, yr wyf yn chwanegu y tri Chywydd canlynol, ac yn cymmeryd fy nghennad.

TRA bu 'r Pennaethiaid, mewn Gwlad ac Eglwys, yn ymryſon am Gyfoeth a gwâg Ogoniant, ſe ganodd y Prydydd Fawl i'w Greawdwr.

Tra bu 'r cyfrwys Eglwyſwyr,
Y mawrion enwogion wyr,
Filoedd yn ymrafaeliaw
Am dir, am fir, ac am faw;
Tra 'r oedd Brenhinoedd hynod
A min Cledd yn mynnu clod,
A'u gwydlawn luoedd gwaedlyd
Yn lloſgi 'n dibôbli 'r Byd;
I Arglwydd yr arglwyddi,
Cu iawn Swydd, y cenais i;
Cenais, er mwyn cu Wynedd,
O fron hael, i Frenin Hedd.
Os cain neu gywrain, y gwaith,
Os eirian ddewis araith,
Hynny 'n wir, drwy gywir gais,
Wâs ufudd, a ddeiſyfais.
Os gwael a beius y gwaith,
Os gwan aneirian araith,
Ei well ſe ni all f' awen
Addien bur ei ddwyn i ben.

Rhai welaf ſy 'n rheoli
Golud a nerth ein Gwlâd ni,
Troiſant i'w Gwlad yn fradwyr,
I'w Gwlâd di gariad yw 'r gwyr:
Oh ddynion di ddaioni!

Llwyr groes yw eu moes i mi:
Minnau, ó burder monwes,
Yn rhâd gwnawn i'm Gwlad gu les.
Mi, o wiw râd y mawr Ion,
Y gwaelaf o'r trigolion,
O'm brwd gariad i'm bro-dir,
Ac o fâd gariad i'r Gwir,
Er adfyd, treuliais brydferth
Flodau, fy nyddiau a'm nerth.

Awen war gymmen, wr gwyl,
Ofynnais gan Naf anwyl:
Ei Râs, coeliaf, roes Celi,
Fy Ner, inewn mwynder i mi.
Y Dalent ge's i'm dwylaw,
Duw lwys, o haelder dy law,
Roifym, er mwyn yr Iefu,
I'm Gwlád, er gwellhâd ei llu:
F'awenydd, plefer f'einioes,
Drwy gariad, yn rhád mi 'rhoes.

Yn ddidwyll mi wnaf dd'wedyd
Un gair, a dyna i gyd:
Meddyliwch am y ddulocs,
Yn drift, roed i Grift ar Groes:
Ior Nef, i wirion ufudd,
Orau Brawd yn yr awr brudd:
Ein Brenin in a brynawdd
Lân Dangnhef y Nef a'i Nawdd.
Er ei fwyn, yr Oen mwyn mád,
Ein cadarn Ior a'n Ceidwad,
Naf Lywydd ro'r Nef lawen
I chwi, ac i mi,——Amen!

CYWYDD Y DARAN.

Y fellten hoywaf wyllt-daith,
Nis gwyr dyn derfyn dy daith;
Ac ar d'ol gwir yw y daw
Crochlef (a llif y crychwlaw)
Y Daran o'i du oror
Mal berwawg derfysgawg Fôr.
Wybrendwrf, braw i'r bryn-dir,
A dychryn i'r dyffryn dir:
Dyfnfawr ddig ruad anferth,
A thrwm goruwch pob cwm certh.
Rhyfedd! mwy y rhuthr hefyd
Na thrystau cerbydau'r byd.
Yn drathrwm, dan frwd ruthraw
O'r entrych, y gwlych y gwlaw
Frynniau a dolau'r dulawr,
O foliau'r cymmylau mawr.
Rhed nentydd pob mynydd maith,
Mawr yrfa, i'r môr hirfaith,
A phob afon aflonydd
Gwreichioni a berwi bydd.
Rhuadwyllt yw eu rhediad,
Dyrys lif aeth dros y wlâd.
Trwy elltydd o goedydd gwynt,
Trwy'r moroedd tery 'r mawrwynt.
Terwyn follt pob taran fawr
Ennynna drwy 'r ddu nennawr;

Llidiog yw'r awyr llydan
O niwl du'n olau o dán.
Ni cherddir y doldir dwys,
Nag ael uchelfryn gwiwlwys,
Gan genllyſg, derfyſg dirfawr,
Gan wlaw a mellt, gan lif mawr;
Gan ofn dw'r, gan Nef yn dân,
Nid ellir myned allan.
Geirwon dyrfau 'mhob goror
Y ſydd o fynydd i for,
Yn debyg (gallwn dybied)
Ped ae'n ddarnau creigiau Cred.
Gwrdd yttynt! ac o'r ddeutu
Daeargryn a dychryn du.

Dywaid f' awen am duwies,
Or' Nef gu'n t'w'nnu fel tes,
Pa redwyllt, pa ruadwy
Dwrf wybren? a'r Perchen Pwy?

Duw Geidwad bendigedig,
Rheolwr y dyfndwr dig;
Duw a bair,—ar ei air ant;—
—Uſt ewybr!—a diſtawant.

Nadau dw'r a thân ydynt,
Rhyfel mawr drwy 'r orawr ynt,
Eirias o dân a'i wres dig
Fal ffwrn o ufel ffyrnig,
Y dw'r o'i amgylch a dodd,
A'i tyddin boeth a foddodd.

Da, dirfawr, a diderfyn,
A pherffaith yw gwaith Duw gwyn;
Nerthawg a gwyrthiawg ar g'oedd,
A thradoeth ei weithredoedd.
Yn ddilys, iawn addoli
Y mwyn Ior a ddylem ni.
O'i lân ſanteiddiawl loywnef
Fendigaid, y dywaid Ef;
Niwl wybren, anniben wyt,
Noſiedydd y Nef ydwyt,
Gwaſgara i'th gwſg oror,
Dy loches yw mynwes môr.
Niwl wybren â'n ól obry
Yn union dros y fron fry;
Gloywi nen ffurfafen faith,
Fe welir y Nef eilwaith;
Drwy'r wybrennydd dydd a dân
Ei lwyr-wych wely arian:
Yr haul o'i belydr y rhydd
Loywder i bob rhyw wledydd;
Diſgleirdeb ei wyneb ef
A lawena 'r oleunef;
Ei dês wna'n gariaduſol
Bob bryn, bob dyffryn a dôl;
Gwên nattur a gawn etto
Yn ôl i'n hyfrydol fro;
A mwynaidd lais emynnu
Wna'r ádar yn gerddgar gu.

Marwnad

***

Minnau, pe b'ai 'm awenydd
Odidawg oreurawg rydd,
Gwrdd olau gerdd a eiliwn
O fawl i'r haeddawl wr hwn;
Fe wyddai fu o addyſg,
Holl barthau dyfnderau dyſg.
Ac ar ôl ei farwolaeth
E fydd awenydd yn waeth:
Rhwng ynfydion gweigion gau
Hi dawodd yn y Deau;
Hi doddawdd megis diddim;
Hi fu, hi ddarfu yn ddim.

Nyni'n wir a wnawn eiriau
Ceimion, pur weigion i wau;
Fe'n unig, fwyn awenydd,
Eiliai'r gan ddiddan i'w ddydd,
Ragorol rywiog araith,
Synhwyrol, ſylweddol waith.
Ei gerddi enwog eurddoeth,
Tra b'o llên ac awen goeth,
A fyddant yn rhyfeddawd,
Diwedd eu bri fydd Dydd Brawd.
Yna yr ennynna 'r Nef
Wen gannaid,—Gwaith Ion gwiwnef
A'i lwyſgyrdd a gyd loſgant,
Ar unwaith yn oddaith ant!

I ddoſion blant amddifad
Bu 'n noddwr, bu'n dwr, bu'n dâd.
Goneſt galon ac wyneb,

Ni

Ni wrthodawdd nawdd i neb.

Da fuoſt yn dy fywyd,
Da beunydd a fydd dy fyd.
Y Gwr gan Ddûw a garwyd,
Yn Sion yr Iôn yr wyd;
Y duwiau wrendy d' awen
Yn entrych y Nef wych wen:
At y pêr nifer nefol,
Drwy nerth Naf, deuaf ar d'ol.

TERFYN.